

‘Gwell Cymro, Cymro oddi cartref ’? –
cymhlethdod meddwl a gwaith John Ceiriog Hughes

gan

Bethan Angharad Huws

Traethawd a gyflwynir ar gyfer gradd MPhil

2015



Cynnwys

Datganiadau	ii
Cydnabyddiaeth	iii
Crynodeb	iv
Rhagymadrodd	1
Pennod 1: Ceiriog - Y Bardd Ymwybodol?	14
Pennod 2: Cymru v. Manceinion, Y Wlad v. Y Ddinas	46
Pennod 3: Yr <i>alter ego</i> - Syr Meurig Grynswth	98
Pennod 4: Casgliad	145
Llyfryddiaeth	150
Atodiad	156

Datganiadau

DATGANIAD

Ni chafodd y gwaith hwn ei gyflwyno'n sylweddol ar gyfer unrhyw radd neu ddyfarniad arall yn y brifysgol hon neu unrhyw brifysgol neu fan dysgu arall, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisiaeth ar gyfer unrhyw radd neu ddyfarniad arall.

Llofnod (ymgeisydd) Dyddiad

GOSODIAD 1

Mae'r traethawd ymchwil hwn yn cael ei gyflwyno i gyflawni'n rhannol ofynion gradd(nodwch MCh, MD, MPhil, PhD ac ati, fel y bo'n briodol)

Llofnod (ymgeisydd) Dyddiad

GOSODIAD 2

Mae'r traethawd hwn yn ganlyniad fy ngwaith/ymchwiliad annibynnol fy hun, oni ddywedir fel arall.

Caiff ffynonellau eraill eu cydnabod gan gyfeiriadau eglur. Fy syniadau i yw'r syniadau a fynegir.

Llofnod (ymgeisydd) Dyddiad

GOSODIAD 3

Rhoddaf fy nghaniatâd drwy hyn i'm traethawd, os caiff ei dderbyn, fod ar gael ar-lein yn ystorfa Mynediad Agored y Brifysgol ac ar gyfer benthyca rhwng llyfrgelloedd, ac i'r teitl a chrynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnod (ymgeisydd) Dyddiad

GOSODIAD 4: GWAHARDDIAD AR FYNEDIAD A GYMERADWYWYD YN FLAENOROL

Rhoddaf fy nghaniatâd drwy hyn i'm traethawd, os caiff ei dderbyn, fod ar gael ar-lein yn ystorfa Mynediad Agored y Brifysgol ac ar gyfer benthyca rhwng llyfrgelloedd **wedi i waharddiad ar fynediad a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd ddod i ben.**

Llofnod (ymgeisydd) Dyddiad

Cydnabyddiaeth

Carwn ddiolch yn gyntaf i fy nghyfarwyddwr Dr E. Wyn James am ei gymorth, arweiniad a'i amynedd ar hyd y daith. Hoffwn ddiolch hefyd i Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen am y gefnogaeth ariannol hael a dderbyniais. Yn olaf, mae fy nyled yn fawr i fy nheulu a fy ffrindiau agos am eu holl anogaeth a chymorth diflino dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ar yr adegau hynny pan fu cwmni Ceiriog yn drech na fi.

Hoffwn gyflwyno'r traethawd hwn er cof am fy nhaid – H. Meirion Hughes.

Crynodeb

Nod y traethawd ymchwil hwn yw cynnig dadansoddiad ar y cymhlethdod a'r tyndra a oedd ynghlwm wrth gymeriad a gwaith y bardd John Ceiriog Hughes ('Ceiriog'), a hynny yng nghyd-destun y dywediad 'Gwell Cymro, Cymro oddi cartref'? Trwy graffu ar ei fywyd yng Nghymru yn ogystal â'i gyfnod yn byw dros y ffin ym Manceinion manylir ar y lleisiau a'r agweddau amrywiol a berthyn i Ceiriog. Amcenir i ddadansoddi Ceiriog yn rhinwedd ei safle fel bardd poblogaidd, gohebydd a dychanwr, a thrwy hynny, gwestiynu pwy oedd y gŵr y tu ôl i'r ffrynt cyhoeddus.

Man cychwyn y traethawd hwn yw craffu ar Ceiriog fel bardd poblogaidd, ac yn benodol ar ymwybyddiaeth y bardd o'i grefft. Dadleuir yn erbyn barn y beirniad llenyddol R. M. Jones bod Ceiriog yn fardd 'disynnwyr', gan bwysleisio gwerth esthetaidd ei gerddi a'i ganeuon.

Canolbwyntia'r ail bennod ar gyfnod Ceiriog ym Manceinion, gan ystyried ei resymau dros symud i'r ddinas ddiwydiannol. Edrychir ar safle Ceiriog fel 'Gohebydd Manceinion' yn *Baner ac Amserau Cymru* gan asesu'r hyn a ellir ei ddysgu am arferion ac agweddau'r gymdeithas Gymraeg yn y ddinas. Yn olaf, ystyrir bywyd Ceiriog wedi iddo ddychwelyd i Gymru a'r effaith a gafodd hyn ar ei feddylfryd.

Mae'r drydedd bennod yn astudiaeth ar ochr ddychanol Ceiriog, ac yn benodol ar arwyddocâd ysgrifau a cherddi ei *alter ego* Syr Meurig Grynswth. Cais y bennod amlygu'r ddeuoliaeth yng nghymeriad Ceiriog. Edrychir hefyd ar gyfraniad Ceiriog a'i *alter ego* tuag at ddiogelu'r hen hwiangerddi.

Yn olaf, ceir diweddglô sy'n pwysu a mesur casgliadau'r gwaith ymchwil.

At sylw'r darllenydd - Mae'r holl ddyfyniadau a welir yng nghynnwys y traethawd hwn yn glynu wrth y gwreiddiol. Ni ymdrechwyd i gywiro nac i foderneiddio unrhyw eirfa.

Rhagymadrodd

‘Y mae dau Geiriog: y Ceiriog comig a’r Ceiriog difrifol’ (Jones 1968, t. 200).

Dyma’r hyn a ddywedodd D. Gwenallt Jones wrth drafod cymeriad Ceiriog a’i waith. Bardd cerddi a chaneuon sionc ac adloniadol, yn ogystal â chrëwr rhai o’r llinellau cofiadwy hynny sy’n parhau’n agos at galonnau llawer o’r Cymry, yw John Ceiriog Hughes ‘Ceiriog’ (1832-87) i’r mwyafrif sy’n gyfarwydd â’i enw. Ond, a oedd Ceiriog yn fwy na bardd poblogaidd yn unig? Fel y mynegodd D. Gwenallt Jones, mae lle i ddadlau bod Ceiriog yn gymeriad llawer mwy amlochrog na’r ddelwedd gyffredinol sydd gan y Cymry ohono. Byth er marwolaeth Ceiriog ym 1887 cafwyd sawl ymdrech gan feirniaid a sylwebyddion llenyddol i gynnig dadansoddiad o waith a chymeriad y gŵr difyr hwn. Ni ellir mynd ati i gynnig astudiaeth a dehongliad newydd ar waith a chymeriad Ceiriog heb ystyried yr hyn a gyhoeddwyd ynghynt, ynghyd â’r bylchau y mae angen eu llenwi a’r cwestiynau sydd eto heb eu hateb.

Un peth sy’n taro’r darlennydd wrth astudio’r prif weithiau beirniadol sy’n ymwneud â Ceiriog yw’r newid ymateb a fu rhwng beirniaid ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau’r ugeinfed ganrif, a’r ymateb a gafwyd gan feirniaid yn ystod chwarter olaf y ganrif ddiwethaf. Yn debyg i sirioldeb y rhan helaeth o’i gynnyrch barddol a’r delweddau rhamantaidd a geir gan Ceiriog yn ei waith, gellid dadlau mai portread o’r un anian a gafwyd gan lawer i feirniad llenyddol cynnar wrth ddisgrifio cymeriad y bardd a natur ei waith. Cyfeirir yn aml gan feirniaid a chyfoeswyr Ceiriog yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau’r ugeinfed ganrif at natur hawddgar y bardd, a’i gariad diamheuol tuag at wlad ei febyd. Ar sail cofiant Isaac Foulkes (1887), erthygl y Parchedig J. Owen Jones (1891), a thraethawd beirniadol y Parchedig H. Elfed Lewis ar y testun ‘Athrylith John Ceiriog

Hughes' (1899), gellid dadlau mai delwedd wedi'i seboni o fywyd a gwaith Ceiriog yw'r hyn a gyflwynwyd. Dywed Isaac Foulkes wrth drafod cymeriad ei gyfaill (1887, t. 84):

Pe dywedem yr oll a wyddom am dano fel dyn teg, a chyfiawn, a chymwynasgar, yn ei fasnach, ofnem y tybiai rhai dyeithr iddo ef a ninau ein bod yn gwenieithio, ac yn gwyngalchu ei goffadwriaeth. Ond y gwir yw ni welsom erioed ddyn tecach ac uniawnach yn mhob trafodaeth; ac yr oedd yr un mor ddihoced yn ei gyfeillgarwch.

Dyma'r math o ddyn a bortreadir yn y cofiant drwyddo draw. Pan fentra'r awdur gyffwrdd ambell ffaeledd yng nghymeriad Ceiriog yn enwedig ar ôl iddo ddychwelyd o Fanceinion i Gymru, cânt eu priodoli i'r gymdeithas Seisnigaidd a dilengar yng nghanolbarth Cymru, neu i bwysau gwaith (Foulkes 1887, tt. 106, 86). Ni chynigir disgrifiad manwl o gymeriad Ceiriog yn ysgrifau J. Owen Jones ac Elfed, a gellid amau bod yr awduron hyn wedi dewis osgoi ymdrin â gwir natur a chymeriad y bardd, er mwyn cadw'r ddelwedd ohono mor ddilychwin â phosibl.

Wrth adael y bedwaredd ganrif ar bymtheg a throedio i hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif gwelwyd gwawrio cyfnod newydd yn yr ymateb i Ceiriog a'i waith. Dyma gyfnod lle gwelwyd dau ryfel byd, ac yn sgil hynny, gellid dadlau bod pobl yn fwy agored eu barn ac yn fwy parod i ddatgan yr annisgwyl na'r hyn a fodolai ynghynt. Gyda hynny mewn cof dylid ystyried ysgrif ar fywyd a gwaith Ceiriog gan un o feirniaid llenyddol mwyaf dylanwadol yr ugeinfed ganrif – Saunders Lewis, *Ceiriog – Yr Artist yn Philistia* (1929). Yn wahanol i'r hyn a'i rhagflaenodd, mentrodd Saunders Lewis yn ei ysgrif drafod Ceiriog yng nghyd-destun amgylchiadau'i oes, a hwnnw fel cyfnod anodd i fardd. Yn ei ragair i'r gwaith dywed Saunders Lewis (1929, t. I):

Nid oedd y ganrif ddiwethaf yng Nghymru yn brin o athrylithoedd. Eithr, odid y bu erioed yn hanes gwledydd modern Ewrop gyfnod ac amgylchedd creulonach i ddoniau celfyddyd. Y canlyniad fu marw artist ar ôl artist heb ond

o fraidd ymwybod â natur ei ddawn ei hun [...] Rhwng popeth, canrif enbyd o ddyrys ac anodd ei deall yw'r bedwaredd ar bymtheg [...] Canrif dra chymysg yw hi. Dysgwyd inni ei bod hi'n unplyg a syml, yn werinol, yn Biwritanaidd, yn Radicalaidd. Dengys hanes Ceiriog mor amryfus yw'r syniad hwnnw.

Cymdeithas Philistaidd ei natur oedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ôl Saunders Lewis. Hynny yw, yn y Beibl, cenedl llai gwareiddiedig oedd y Philistiaid a oedd yn ddibris o gelfyddyd. Yn y cyd-destun hwn y gwêl Saunders Lewis Ceiriog, a hynny fel artist yn byw yng nghanol Philistia ei oes. Roedd agweddau a beirniadaeth lenyddol Oes Victoria yn Philistaidd ei natur, ac felly ataliwyd datblygiad Ceiriog fel bardd a llenor yn ôl damcaniaeth Saunders Lewis. Yn unol â'r hyn a fynegwyd, dywed John Rowlands yn ei gyfrol *Llên y Llenor: Saunders y Beirniad* (1990, t. 52):

Ni ellir peidio â gweld Ceiriog yr astudiaeth hon fel antithesis llwyr i Saunders Lewis ei hun. Fe dorrodd ef ei hun yn rhydd o'r Philistia [...] Gwrthododd y safonau simsan disafon a mynd ati i greu delfryd newydd. Nid dihangfa oedd ei yrfa ef, ond wynebu diffeithwch a'i balmantu. Yr hyn a wnaeth Ceiriog a'i gymdeithion, ar y llaw arall, oedd cyfaddawdu â'r sefyllfa, gan dybio y gellid byw mewn dau fyd ar yr un pryd

Yn ôl John Rowlands, ceisia Saunders Lewis yn anuniongyrchol wrthgyferbynnu hanes Ceiriog â'i hanes ei hun yn ei gyfrol. Hynny yw, yn hytrach na derbyn sefyllfa a chydymffurfio, dengys hanes Saunders Lewis yr awydd i dorri dros tresi cymdeithasol. Yn ogystal â gosod Ceiriog yng nghyd-destun ei gyfnod a chelfyddyd, gwelir Saunders Lewis yn dewis manylu ar agweddau penodol ym mywyd personol y bardd. Er enghraifft, ni chafwyd dadansoddiad manwl ar effeithiau'r ddinas Seisnig ar gymeriad Ceiriog, na dadansoddiad o berthynas y bardd â'i deulu cyn *Ceiriog – Yr Artist yn Philistia*. Yn ei ragymadrodd i nofel enwog Saunders Lewis, *Monica*, trafoda Simon Brooks agweddau Freudaidd y nofel wrth fynd ati i ddadansoddi meddylfryd y prif gymeriad, Monica Maciwan. Dywed Simon Brooks, 'Dysg Freud mai natur ein perthynas â'r rhieni yn bennaf, yn ystod blynyddoedd cyntaf ein hoes sy'n ffurfio cymeriad, a'i chwiwiau amryfal' (2013, t. 13). O ystyried yr hyn a ddywed Simon

Brooks am athrawiaeth Freud yng nghyd-destun *Monica*, gellid dadlau bod yr agweddau Freudaidd hyn i'w gweld yn astudiaeth Saunders Lewis ar fywyd Ceiriog hefyd. Hynny yw, damcaniaetha'r awdur ynghylch effaith hirdymor y berthynas glostroffobig famol, yn ogystal â sylwebu ar y pellter seicolegol rhwng Ceiriog a'i dad ac effaith hynny ar gymeriad a bywyd y bardd. Wrth asesu beirniadaeth Saunders Lewis ar fywyd a gwaith Ceiriog dywed John Rowlands (1990, t. 52-3):

Yr oedd treiddgarwch beirniadol yr astudiaeth o Geiriog, y modd y diosgwyd mwgwd y bardd a gamenwid yn 'fardd werin', yn sicr yn estyn cortynnau beirniadaeth Gymraeg. Daethpwyd â'r dimensiynau cymdeithasol, gwleidyddol a moesol i'r drafodaeth. Nid peth ar wahân oedd barddoniaeth, nid diddanwch munud awr i'w ystyried er ei felyster yn unig, ond ffrwyth dull o fyw. Er nad oedd yng Ngheiriog fawr ddim dyfnder athronyddol, gellid trwyddo ddehongli sylfeini athronyddol simsan y gymdeithas lle y tyfodd. Yn bennaf dim, daeth beirniadaeth yn gangen o lenyddiaeth ei hun, wrth i Saunders Lewis droi gyrfa Ceiriog yn ddrama fyw.

Mae Saunders Lewis bron yn ddieithriad yn rhoi inni olwg newydd ar lenor neu gyfnod neu ffurf lenyddol.

Dyma'r modd y gwêl John Rowlands gyfraniad Saunders Lewis i'r drafodaeth ar fywyd a gwaith Ceiriog. Yn wir ni ellir anghytuno â'r hyn a fynegwyd ganddo oherwydd llwyddodd Saunders Lewis i gynnig persbectif gwahanol ar y bardd, a hynny drwy osod Ceiriog yng nghyd-destun ei oes a llwyddo i ystyried goblygiadau ac effaith cymdeithasol ei waith. Wrth gwrs, yng nghyd-destun beirniadaeth Saunders Lewis, credaf mai un peth sy'n bwysig gwneud sylw arno, yw bod tinc rhamantaidd yr awdur wrth ysgrifennu yn gorflodeuo ei ddamcaniaethau yn ystod y darn gan greu portread afrealistig o Ceiriog ar adegau.

Un arall a fu'n sylwebu ar fywyd a gwaith Ceiriog yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif oedd R. Williams Parry. Yn ei erthygl 'Ceiriog, Bardd Heb Ei Debyg' (1933) ceir trafodaeth ynglŷn ag arwyddocad ac effaith barddoniaeth Ceiriog. Wrth drafod yr ymateb i waith y bardd a'r feirniadaeth gyffredinol arno dywed R. Williams Parry '...bu newid dwy ganrif yn newid dau fyd ar feirdd ac ar goffadwriaeth beirdd

yng Nghymru: yn newid creulon chwyldro llwyr yn syniadau pobl am fethdod a mater llenyddiaeth.' (1933, t. 93) Hynny yw, cyferbynna R. Williams Parry y newid a welwyd rhwng clodfori gweithiau barddol ar sail mwynhad a phoblogrwydd y gwaith yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, o gymharu â'r angen yn yr ugeinfed ganrif i roddi mwy o bwyslais ar neges cerdd a'r agweddau technegol a ddefnyddir. Yr hyn a geir gan R. Williams Parry yw dadansoddiad sy'n pwyso a mesur gwerth cynnyrch barddol Ceiriog yng nghyd-destun amgylchiadau beirniadol yr ugeinfed ganrif. Nid beirniadaeth wên-deg a geir gan R. Williams Parry, yn hytrach ceir dadl sy'n fodlon datgan cryfderau a gwendidau gwaith y bardd ochr wrth ochr â'i gilydd. Yn wir o gymharu â'r feirniadaeth a gafwyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, mentra R. Williams Parry gyflwyno dehongliad mwy realistig o gynnyrch barddol Ceiriog ym 1933. Wrth grynhoi ei farn am waith Ceiriog, dywed R. Williams Parry (1933, t. 96):

Beth fydd y farn derfynol arno? Edrycher ar wyneb dyn yn y lluniau sydd ohono. Y mae mor grwn ag afal; yr oedd mor writgoch hefyd, mae'n ddiu. Ac onid afal yw ei waith – afal melys, aeddfed, wedi pydru yma ac acw? Na, 'thal y gymhariaeth yna ddim. Dyweder yn hytrach mai ystordy afalau ydyw, yn llawn aroglau pêr: rhai ohonynt yn bwdr drwodd, rhai'n ddrwg mewn manau, rhai'n dda i bawb eu bwyta, a rhai'n ddigon da i'r duwiau.

Cymhariaeth realistig a geir gan R. Williams Parry, wrth iddo dderbyn y ffaith bod gwahanol raddfeydd o safon i'w cael yng nghasgliad barddoniaeth Ceiriog. Yn hytrach na derbyn y cyfansoddiadau yn ddigwestiwn, gwelir bod R. Williams Parry yn cydnabod nad oedd holl gynnyrch barddol Ceiriog yn taro deuddeg bob tro. Dengys y dyfyniad allu beirniaid hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif megis R. Williams Parry i ddadansoddi bardd a'i gyfansoddiadau yn feirniadol yn hytrach na chynnig portread sentimental o'r gwaith a'r cymeriad yn unig. Yn wir, gwaith beirniad llenyddol arall sy'n deillio o'r blynyddoedd rhwng y rhyfeloedd mawr ac sy'n mentro cyflwyno Ceiriog mewn goleuni newydd yn ogystal â phwyso a mesur cyfraniad y bardd yw W. J. Gruffydd. Dywed W. J. Gruffydd (1939, t. 3):

Pe bai rhywun yn gofyn inni roddi prawf o bwysigrwydd Ceiriog ym mywyd Cymru, un o'r pethau cyntaf a ddeuai i'n meddwl fyddai'r cyfnewid mawr sydd wedi bod fwy nag unwaith yn syniadau'r Cymry amdano. Ni wn am yr un bardd Cymreig a fu'n achos cymaint o ddadlau am ei werth.

Gwelir o'r dyfyniad bod yr awdur yn cydnabod bod y feirniadaeth lenyddol a barn y Cymry tuag at Ceiriog a'i waith yn un amrywiol. Hynny yw, awgryma W. J. Gruffydd fod y farn wedi newid rhwng yr hyn a ddatgenir gan y beirniaid llenyddol a fu'n cyd-oesi â Ceiriog, a'r rhai hynny a fu'n sylwebu degawdau ar ôl marwolaeth y bardd.

Dengys fod Ceiriog yn destun gwrthdaro barn ymhlith y Cymry, ac nid yn un a gafodd ei dderbyn yn glodfawr gan bawb ar hyd y blynyddoedd. Fe â W. J. Gruffydd ymlaen yn ei gyfrol i ymhelaethu ar y gwahanol gyfnodau ym mhoblogrwydd cenedlaethol y bardd. Dywed (1939, t. 3) '...o adeg ei farw [Ceiriog] ymlaen hyd y Rhyfel Mawr yr oedd bri Ceiriog ar ei eithaf.' Ac yntau'n llefaru ddiwedd y 1930au dywed '...y mae'r olwyn wedi rhoddi tro crwn eto [...] mae beirdd ieuainc heddiw yn paratoi at frwydr bywyd drwy hogi eu cleddyfau ar garreg fedd Ceiriog' (Gruffydd 1939, t. 4). Dengys yr hyn a fynegir gan W. J. Gruffydd fod poblogrwydd Ceiriog wedi newid ar hyd y degawdau yn sgil erchyllterau y Rhyfel Byd Cyntaf, a'r ffaith nad oedd cerddi a chaneuon rhamantaidd yn gweddu i amgylchiadau creulon y cyfnod. Er gwaetha'r ffaith bod W. J. Gruffydd ei hun yn traethu yn ystod y cyfnod hwnnw o 'hogi cleddyfau' gwelir yr awdur yn y ddarlith yn cyflwyno delwedd gytbwys o'r bardd drwy gydnabod gwendidau Ceiriog, yn ogystal â chyflwyno'i ragoriaethau. Ni ellir gwadu bod apêl gyffredinol Ceiriog wedi gostwng ymhlith y Cymry wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf. Fel yr awgrymwyd ynghynt, o ystyried bod cymdeithas hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif yn un a fu'n ymdopi â rhyfel a thrais yn y byd, hawdd yw deall nad oedd cerddi rhamantaidd Ceiriog yn gweddu i naws ac anghenion yr oes. Yn wir, wedi darlith W. J. Gruffydd prin yw'r ymateb tuag at fywyd a gwaith Ceiriog. Yr unig gyfrol sy'n mentro cyffwrdd â gwaith y bardd wedi

1939 yw golygiad o weithiau dychanol Ceiriog dan enw Syr Meurig Grynswth gan Hugh Bevan (1948). Ond, cyfrol fechan yw honno gyda rhagymadrodd Hugh Bevan yn cynnig trosolwg yn hytrach nag astudiaeth treiddgar o'r gwaith. Onid yw'n arwyddocaol mai cyfrol o waith dychanol Ceiriog a gyhoeddwyd yn 1948 yn fuan ar ôl yr Ail Ryfel Byd, yn hytrach na'i weithiau rhamantaidd? Yn dilyn erchyllterau'r rhyfel, gellid deall pam y buasai cyhoeddi gwaith dychanol yn apelio'n fwy na chyflwyno delweddau o berffeithrwydd a phrydferthwch i'r gynulleidfa.

Ar y cyfan yr hyn a gafwyd gan feirniaid llenyddol hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif oedd ymdrech i gyflwyno delwedd fwy crwn o gymeriad a gwaith Ceiriog yn hytrach na'r ddelwedd rhamantaidd a sentimental ohono a gafwyd gan gyfoeswyr y bardd ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gwelwyd bod y beirniaid yn fodlon cydnabod gwendidau'r bardd law yn llaw â'i ragoriaethau. Wrth droedio i ail hanner yr ugeinfed ganrif ceir ymateb newydd eto gan feirniaid llenyddol yr oes. Rhwng 1950 a 1980 ni cheir sylw amlwg i waith Ceiriog o gwbl, yn wir gellid dadlau bod canu telynegol yn gyffredinol wedi colli llawer o'i apêl ymysg y Cymry erbyn hynny yn sgil dau ryfel byd a'u holl erchyllterau. Yn ei ysgrif *Poen y Ddynoliaeth: Golwg ar 'Yr Atgyfodiad' gan Kate Roberts*, mae Jerry Hunter yn rhoi sylw i sgil effeithiau'r Ail Ryfel Byd ac yn benodol yr Holocaust ar greadigrwydd Kate Roberts. Dywed yr awdur (2005, tt. 11-2):

O'r holl athronyddu ynghylch natur anhraethadwy hil-laddiad a gafwyd ar ôl 1945, mae'n debyg mai'r dyfyniad enwocaf yw gosodiad Theodor Adorno mai 'gweithred farbaraidd' yw cyfansoddi barddoniaeth ar ôl Auschwitz [...] ni ellir cysoni creadigaethau'r meddwl â realiti bellach gan fod digwyddiadau erchyll diweddar wedi chwalu neu barlysu'r union adnoddau meddyliol a fyddai'n ein galluogi i ddehongli'r byd o'n cwmpas.

Awgryma'r dyfyniad bod meddylfryd creadigol y ddynoliaeth wedi newid yn llwyr yn dilyn arswydau'r Ail Ryfel Byd. Roedd anghenion a ffasiynau barddoniaeth a

rhyddiaith y byd wedi newid i fod yn fwy gwleidyddol eu natur, â'r angen am neges ddirdynol mewn cerdd yn hollbwysig yn hytrach na'r prydferthwch a fu. Nid yw'n syndod bod gweithiau Ceiriog wedi colli eu hapêl. Un beirniad llenyddol sy'n mentro sylwebu ar waith Ceiriog yn ystod y cyfnod hwn rhwng 1950 a 1980 yw R. M (Bobi) Jones. Yn ei erthygl 'Ceiriog – Y Bardd Di-Synnwyr' (1958) lleddir ar Ceiriog am fod yn fardd ffwrdd-â-hi nad oedd yn ystyried adeiladwaith ei gerddi a'i ganeuon. Yn wir, o gymharu â'r hyn a fu ceir agwedd gwbl negyddol gan Bobi Jones tuag at Ceiriog sy'n dwrdio'r bardd yn hytrach na'i glodfori. Yn dilyn erthygl Bobi Jones yn 1958, rhaid disgwyl tan chwarter olaf yr ugeinfed ganrif i weld y fflam yn ailgynnu o safbwynt diddordeb y Cymry ym mywyd a gwaith Ceiriog. Ail-gyneuwyd y diddordeb yn ystod y 1980au, wrth i feirniaid llenyddol ailddarganfod Ceiriog o'r newydd. Un o'r rhai hynny oedd Meredydd Evans. Cyfraniad Ceiriog tuag at adfer yr hen hwiangerddi yw'r hyn y bu Meredydd Evans yn ei drafod yn ei ysgrif 'Cefndir a chynnwys "Hen Hwiangerddi" Ceiriog' yn 1981. Pwysleisir arwyddocâd y ffaith mai 'Ceiriog oedd y cyntaf i gyhoeddi casgliad o rigymau plant yn y Gymraeg' (Evans 1981, t. 11), a cheir dadansoddiad o'r hwiangerddi a gynhwyswyd yn ôl eu themâu amrywiol. Lle bu cyfraniad Ceiriog i lenyddiaeth plant yn bwnc i'w osgoi yn yr ysgrifau cynnar (efallai oherwydd y stigma a berthyn i ddadansoddi llenyddiaeth o'r fath) gwelwyd Meredydd Evans yn clodfori ymdrechion y bardd yn y cyd-destun hwnnw. Yna cafwyd ysgrif ddiweddarach gan yr un awdur yn canolbwyntio ar yr elfennau cerddorol yng ngwaith Ceiriog yn yr ysgrif 'Ceiriog: Bardd y Gân' (1987). Yn yr ysgrif honno, ceir dadansoddiad o gefndir cerddorol yr oes a'r galw a fu am gerddi canadwy wrth i Meredydd Evans ddadansoddi dwy o'r cyfrolau a oedd wedi'u seilio ar farddoniaeth gerddorol y bardd, *Cant o Ganeuon* (1863) a *Y Bardd a'r Cerddor* (1865). Trafoda'r awdur grefft y bardd ac ymwybod Ceiriog o'r grefft

neilltuol o ysgrifennu ar gyfer cerddoriaeth – ‘Gwyddai’n dda bod sgrifennu geiriau i alaw ragosodedig yn gofyn am dechneg beth yn wahanol i lunio cerdd ar gyfer ei darllen yn breifat neu i’w hadrodd yn gyhoeddus’ (Evans 1987, 12). Fe â Meredydd Evans ymlaen i ddadansoddi’r grefft a oedd ynghlwm wrth ysgrifennu geiriau ar geinciau amrywiol, a’r rheolau yr oedd Ceiriog yn ceisio glynu wrthynt. Yn ôl yr awdur dawn Ceiriog oedd ei allu i gyfansoddi geiriau ar geinciau a fyddai’n gweddu i chwaeth amrediad eang o bobl (Evans 1987, t. 13). Gwelir o’r ddwy ysgrif gan Meredydd Evans mai ei ddiddordeb pennaf yng nghyd-destun Ceiriog oedd natur gerddorol cyfansoddiadau’r bardd, ei grefft, a’i gyfraniad at faes caneuon canadwy yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Awdur arall a fu’n trafod o’r newydd fywyd Ceiriog a’i waith yw Branwen Jarvis. Perthynas Ceiriog â gwlad ei febyd yw canolbwynt yr ysgrif ‘Ceiriog a Chymru’ (1987). Egyr Branwen Jarvis ei hysgrif trwy gyfeirio at Ceiriog fel un a oedd yn meddwl amdano ei hun fel ‘bardd Cymru, bardd y Gymraeg’ a’r ffaith bod ‘ceisio disgrifio a diffinio gwladgarwch cerddi Ceiriog yn dysgu llawer inni am feddylfryd Cymreig ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg’ (Jarvis 1987, t. 85). Yn wir dyma yw’r hyn a geir yn ysgrif Branwen Jarvis, sef gosod chwyddwydr ar yr agweddau o wladgarwch yng ngherddi Ceiriog yng nghyd-destun ei oes. Ceir manylu ar gerddi a meddylfryd Ceiriog o safbwynt ei agweddau tuag at yr iaith, diwylliant, a Phrydeindod y cyfnod. Er bod beirniaid llenyddol yn y gorffennol wedi rhoi sylw i berthynas Ceiriog â Chymru, ac yn amlach na pheidio i wladgarwch diamheuol y bardd tuag at wlad ei febyd, a’i hiraeth am Gymru tra oedd yn byw ym Manceinion, yr hyn a geir gan Branwen Jarvis yw cwestiynu’r agweddau ar ei Gymreictod. Gosodir Ceiriog gan Branwen Jarvis yng nghyd-destun ei oes ym Mhrydain, ac yng

nghyd-destun cenedlaetholdeb a gwladgarwch y Cyfandir yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Yn ogystal â chynnig erthyglau ar agweddau penodol yn ymwneud â gwaith Ceiriog, gwelwyd yn chwarter olaf yr ugeinfed ganrif ymdrech i gyflwyno cyd-destun cymdeithasol i'w waith. Un o'r rhai i wneud hyn oedd E. G. Millward yn ei gyfrolau *Ceinion y Gân - Detholiad o Ganeuon Poblogaidd Oes Victoria* (1983) a *Cenedl o Bobl Ddewrion: Agweddau ar Lenyddiaeth Oes Victoria* (1991). Yn ei ragymadrodd i'r gyfrol gyntaf, ceir mewnwelediad difyr a defnyddiol er mwyn deall swyddogaeth barddoniaeth y cyfnod a disgwyliadau cynulleidfa Oes Victoria. Fel y mae teitl yr ail gyfrol yn ei awgrymu, dyma gyfres o ysgrifau sy'n darparu cipolwg ar wahanol agweddau ar lenyddiaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg, boed yn trafod beirdd, natur barddoniaeth y cyfnod neu ddramâu. Yn yr un modd â E. G. Millward mae Huw Meirion Edwards yn cynnig darlun o gyd-destun llenyddol Ceiriog yn ei bennod 'The Lyric Poets' yng nghyfrol Hywel Teifi Edwards *A Guide to Welsh Literature c. 1800-1900* (2000). Cyflwynna Huw Meirion Edwards yn y bennod hanes y canu telynegol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan sylwebu ar grefft y beirdd a fu'n cydoesi â Ceiriog yn ogystal â bwrw golwg ar waith Ceiriog ei hun. Yn wir, arbenigedd cyfrolau E. G. Millward a phennod Huw Meirion Edwards yw'r gallu i ddarparu trosolwg eang ar yr hyn a oedd yn bodoli o amgylch Ceiriog, megis ffasiynau llenyddol yr oes, ac arddulliau beirdd a fu'n cydoesi â Ceiriog ei hun.

Yn nghyd-destun beirniadaeth lenyddol a gyhoeddwyd yn ystod chwarter olaf yr ugeinfed ganrif sy'n gysylltiedig â bywyd a gwaith Ceiriog ni ellir osgoi'r gwrthdaro barn a welwyd rhwng Hywel Teifi Edwards a Bobi Jones. Gwelwyd yn ei erthygl 'Ceiriog y Bardd Di-synnwr' (1958) nad oedd Bobi Jones yn gefnogwr brwd o

weithiau barddol Ceiriog, ac yn wir, cadarnhawyd yr argraff honno yn ei ddetholiad, *Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (1988), wrth iddo dystio na ddylid crybwyll Ceiriog yn ei restr o feirdd mwyaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg (1988, t. 11). Yn sgil y golygiad hwn o gerddi'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, sbardunwyd dadl rhwng Bobi Jones ac Hywel Teifi Edwards ar dudalenau'r cylchgrawn *Barn*. Sail y ddadl (fel y cawn drafod mewn manylder yn y bennod nesaf) oedd y gwrthdaro rhwng safbwyntiau Bobi Jones ynglŷn â gwerth esthetaidd cerddi, a barn Hywel Teifi Edwards ynglŷn â phwysigrwydd hanesyddol a chymdeithasol cerdd.

Wrth ymbaratoi i ymchwilio o'r newydd i Ceiriog, ei waith a'i feddylfryd, mae un gyfrol sy'n hanfodol i'w hystyried. Cyfrol Hywel Teifi Edwards yw honno, *Llên y Llenor: Ceiriog* (1987). Yr hyn sy'n arbennig am y gyfrol yw bod Hywel Teifi Edwards yn fodlon datgan gwendidau Ceiriog, ond yn fwy na hyn yn fodlon trafod cymhlethdodau bywyd y bardd yn dreiddgar am y tro cyntaf bron. Yn wir, egyr yr awdur ei gyfrol trwy drafod y tywyllwch a'r cymhlethdodau personol ym mywyd y bardd tuag at ddiwedd ei oes cyn mentro trin a thrafod ei farddoniaeth. Yn ogystal â thrafod bywyd y bardd a'i agweddau amrywiol tuag at genedlaetholdeb ac achos yr iaith, trafoda'r awdur brif weithiau'r bardd o safbwynt eu hanes, eu themâu, a'u heffaith ar gynulleidfa'r oes. Ceir elfennau tebyg i weithiau E. G. Millward yn y gyfrol, wrth i'r awdur lwyddo i ddarparu peth o gefndir y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel cefnlen i Ceiriog a'i waith. Er mai cyfrol eithaf byr yw un Hywel Teifi Edwards, annheg fyddai'i labelu'n drosolwg. Yr hyn a geir mewn gwirionedd yw cyfrol sy'n cyffwrdd amryw agweddau ar fywyd a gwaith Ceiriog, gan osod y bardd mewn goleuni newydd. Dywed Hywel Teifi Edwards ei fod wedi bwriadu ysgrifennu cyfrol helaethach ar Ceiriog, ond yn anffodus ni wireddwyd y dymuniad hwnnw.

Cyfrol Hywel Teifi Edwards yw'r astudiaeth dreiddgar fwyaf cyfoes sy'n bodoli. Serch hynny mae wyth ar hugain o flynyddoedd wedi mynd heibio bellach er ei chyhoeddi ac mae galw am astudiaeth newydd. Mae cyfraniad yr holl feirniaid llenyddol a'r sylwebwyr a fu yn werthfawr yn eu ffyrdd gwahanol, ac yn gymorth i ddeall cymeriad a gwaith Ceiriog yn well. Wrth gwrs ni all neb wybod y gwirionedd am gymeriad y bardd a ninnau'n byw degawdau lawer ar ei ôl. Serch hynny mae modd damcaniaethu'n synhwyrol drwy bwysu a mesur ffeithiau hanesyddol, tystiolaeth gynradd, ei gerddi a'i ryddiaith, yn ogystal â gwybodaeth uniongyrchol gan gyfoeswyr Ceiriog.

Un elfen y mae angen ei hastudio a'i harchwilio'n ddyfnach, a'r hyn y mynnaf ychwanegu at y maes yw'r cymhlethdod a'r tyndra a oedd ynghlwm â chymeriad a gwaith y bardd. Mae lle i ymestyn y drafodaeth o safbwynt Ceiriog fel unigolyn, yn ogystal â lle i graffu'n fanylach ar natur y gymdeithas yr oedd yn byw ynddi a chymhlethodau'r oes. Mae cyfraniadau rhai megis W. J. Gruffydd, E. G. Millward a Hywel Teifi Edwards wedi darparu man cychwyn heb ei ail er mwyn cyflwyno'r cymhlethodau ym mywyd a gwaith Ceiriog. Serch hyn mae lle i dreiddio ymhellach. Wrth astudio a dehongli gweithiau Ceiriog yng nghyd-destun ei oes mae modd taflu goleuni ar natur Cymry Oes Victoria a'u meddylfryd, yn ogystal â'r ddeuoliaeth a'r tensiynau a oedd ynghlwm wrth fywyd a chymeriad Ceiriog ei hun. Sut fath o effaith a gafodd y gymdeithas ar feddylfryd Ceiriog fel bardd ac fel unigolyn? Yn y cyd-destun hwn mae angen asesu'n fanylach yr agweddau a welir yng ngohebiaeth Ceiriog fel llais y gymdeithas Gymraeg ym Manceinion yn *Baner ac Amserau Cymru*, yn ogystal â'r hyn a gyhoeddwyd gan y bardd dan enw'r persona ffug Syr Meurig Grynsyth a'i lais dychanol. Dyma esiamplau o weithiau llenyddol a esgeuluswyd gan feirniaid llenyddol y gorffennol wrth iddynt ddewis canolbwyntio, yn unllygeidiog i

raddau helaeth, ar gynnwys cerddi Ceiriog yn hytrach na'i weithiau rhyddiaith. Yn unol â'r hyn yr hoffwn ymchwilio iddo, credaf fod lle i gynnig gogwydd a barn newydd ar fywyd a gwaith Ceiriog, a hynny yn benodol o safbwynt y dywediad enwog 'Gwell Cymro, Cymro oddi cartref'? Cymeriad wedi'i gloi yng ngorffennol ein llên yw Ceiriog. Y mae angen ei ailgyflwyno i'r Cymry a hynny y tu draw i'r ddelwedd unllygeidiog ohono fel bardd gwladgarol yn unig. Fel dywed D. Gwenallt Jones 'Y mae dau Geiriog', ac yn wir mae'r angen yn fawr i ymchwilio iddo ef a'i waith a chynnig dadansoddiad newydd ar y ddeuoliaeth a'r cymeriad amlochrog a berthyn i Ceiriog. Byth er cyhoeddi cyfrol Hywel Teifi Edwards, mae Ceiriog unwaith yn rhagor yn llechu yn y cysgodion fel un o feirdd anghofiedig ein llên. Mae angen ei ailgyflwyno a hynny mewn goleuni newydd i gynulleidfa'r unfed ganrif ar hugain.

Ceiriog - Y Bardd Ymwybodol?

‘...y mae cyfnod newydd wedi dechrau ar ganiadau y genedl’ – John Ceiriog Hughes (1865, t. 5)

Bardd y bobl

Yn ei thraethawd ymchwil *B. T. Hopkins a Thraddodiad Llenyddol y Mynydd Bychan, Ceredigion* (2007) ceir trafodaeth ddifyr gan Eirian Jones ar y term ‘bardd gwlad’, a’r hyn sy’n diffinio bardd o’r fath. Trafoda’r awdur hanes y grefft, yn ogystal â barn beirniaid llenyddol am yr hyn sy’n diffinio bardd gwlad. Dywed Eirian wrth grynhoi barn y beirniaid llenyddol (2007, t. 285):

Cytuna’r rhan fwyaf o’r beirniaid mai yng nghanol cymdeithas ddaearyddol wledig y gwelir y ‘bardd gwlad’ gan mwyaf. Credai Saunders Lewis mai crefftwr neu ffermwr yn dilyn galwedigaeth yn y fro y ganed ef oedd y ‘bardd gwlad’. Tynnai ei ysbrydoliaeth o’r ‘ffynnon fywyd’ o’i amgylch yn ôl J. M. Edwards, ac os ceisiai sôn am bethau y tu allan i’r gymdeithas hon, ni fyddai’n parhau’n ‘fardd gwlad’ yn ôl Bobi Jones.

Serch hyn, nid yw’r beirniaid yn unfarn mai bardd gwledig yn unig ydoedd, ac wrth i dreigl amser lifo, derbyniai rhagor o feirniaid y medrai ‘bardd gwlad’ fyw mewn cymdeithas drefol neu ddiwydiannol a bod yn llais iddi.

Bardd ei filltir sgwâr a’r gallu ganddo i gyfansoddi’n syml, ffraeth, a thwymgalon, a’r ardal yn ysbrydoliaeth ganolog i’w grefft yw’r syniad cyffredin a ddaw i’r meddwl wrth ystyried nodweddion y bardd gwlad. Heb gysylltiad â’i gynulleidfa a’i adnabyddiaeth gref ohoni, ni fuasai bardd o’r fath yn llwyddo yn ei waith fel lladmerydd barddol ei gymdeithas. Yn ôl syniadau traddodiadol felly, bardd poblogaidd ei gymdeithas leol yw’r bardd gwlad, a honno’n gymdeithas wledig glòs. Serch hyn, yn debyg i’r hyn y tystia Eirian Jones iddo, gellid dadlau bod modd gosod y bardd gwlad o fewn cyd-destun ehangach na chefn gwlad yn unig. A oes modd ystyried fod Ceiriog yn ymgorfforiad o’r hyn y gellir ei alw’n fardd gwlad trefol neu genedlaethol? Yn ei ysgrif ‘Golwg ar Rai o Gerddi a Baledi Cymraeg Troed-y-rhiw’,

cyfeiria E. Wyn James at y math o ganu a gysylltir â'r bardd gwlad gwledig yn draddodiadol ond a oedd i'w gael hefyd mewn cymdeithasau diwydiannol (2001, tt. 94-129). Yn yr ysgrif ceir trafodaeth ar nifer o gerddi poblogaidd ym mhentref Troed-y-rhiw, Merthyr Tudful yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif, pentref diwydiannol a dyfodd yn sgil twf diwydiant glofaol. Er i'r awdur ganolbwyntio ar dwf ac apêl y baledi poblogaidd yn yr ardal, ceir yn ogystal gyfeiriad at David Griffiths fel enghraifft o fardd gwlad yn yr ardal ddiwydiannol hon. Dywed E. Wyn James, 'Nid campweithiau barddol [a gafwyd gan David Griffiths, a fu farw yn 1936 yn 63 mlwydd oed] ond yn hytrach rhywbeth sydd ar un wedd yr un mor bwysig, sef cynnyrch nodweddiadol bardd gwlad neu yn well efallai, o ran natur y gymuned dan sylw, "bardd pentref" neu "fardd capel"' (2001, t. 121). Dengys yr ysgrif fel yr oedd yr arferion barddol a gysylltir yn draddodiadol â'r bardd gwlad wedi esblygu yn unol ag esblygiad cymdeithas. Wrth i gymdeithas ddiwydiannu a symud y tu hwnt i'r filltir sgwâr amaethyddol a gwledig, gwelir ei fod yn bosibl i hanfodion y bardd gwlad barhau o fewn y cymdeithasau newydd hyn. Lle bu'r bardd gwlad yn draddodiadol yn canu yn y gymdeithas werinol wledig, gellir dadlau (o ddilyn arweiniad E. Wyn James wrth gyfeirio at David Griffiths) mai 'bardd trefol' yn canu o fewn y gymdeithas o Gymry dosbarth canol Manceinion oedd Ceiriog. Efallai bod y syniad o gymharu Ceiriog â'r bardd gwlad traddodiadol yn annisgwyl ar un wedd. Serch hyn, gellir canfod elfennau o'r math hwnnw o ganu poblogaidd gwerinol yng ngwaith y bardd, megis y symlder, ffraethineb a'r cyfeiriadau at unigolion ac at leoliadau penodol yn ei waith. Gellid dadlau felly mai bardd gwlad wedi esblygu yw Ceiriog wrth iddo wynebu anghenion y Cymry trefol. Roedd hefyd yn Fardd gwlad i'w genedl ar lawer ystyr. Yn llythrennol roedd Cymru'n fyw yng ngherddi Ceiriog, ond roedd hefyd yn fardd gwlad ei genedl ar sail

y ffaith ei fod yn gwasanaethu’i gyd-Gymry boed yng Nghymru neu’r tu hwnt i’r ffin yn ei gerddi a’i ganeuon. Gellid dadlau mai dyma un agwedd ar y ddeuliaeth a geir yng ngwaith Ceiriog, hynny yw ei allu i wasanaethu anghenion Cymry dosbarth canol alltud Manceinion ar y naill law, ond ei fod hefyd yn ddigon eang ei apêl er mwyn cysylltu â chalonnau’r Cymry yn gyffredinol. Dyma sy’n gwneud bardd poblogaidd llwyddiannus. Dyma a wnaeth Ceiriog yn fardd poblogaidd yn ei ganrif.

Yn ein hoes ni, mae canu poblogaidd sy’n difyrru cynulleidfa ar raddfa eang yn gysyniad cwbl gyfarwydd, ac erbyn hyn, yn rhan annatod o ddiwylliant poblogaidd y byd. Gellid dadlau mai yn ystod Oes Victoria y cychwynnodd y gaseg eira a elwir yn ddiwylliant poblogaidd fel yr adwaenwn ni ef heddiw, a hynny wrth i feirdd a chantorion ddod yn fwyfwy cyfarwydd i’w cynulleidfaoedd. ‘Barddoni, mae’n amlwg, oedd “canu pop” y cyfnod, a’i gynnyrch yn rhy aml o lawer, fel llawer o “ganu pop” y dyddiau hyn, yn od o boenus i’r glust ’ (Williams 1973, t. 26).

Beirniadu’r math o ganu adloniadol poblogaidd a welwyd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a wna A. H. Williams yma, drwy ddatgan mai ‘poenus’ oedd safon yr hyn a gynhyrchwyd. Ni ellir osgoi’r ffaith bod stigma ffroenuchel yn perthyn i ganu o’r fath, a’r honiad na ellir ei ystyried yn gynnyrch llenyddol ‘safonol’. Serch barn A. H. Williams roedd cymdeithas yn newid, a’r syniad o adloniant yn datblygu’n rhywbeth chwaethus, ffasiynol a phroffesiynol. Mae canu poblogaidd yn rhywbeth sy’n esblygu’n barhaus wrth i fardd ymateb i anghenion a natur yr oes y mae’n barddoni yn ei chanol. Cyfyd trafodaeth ddifyr yn gysylltiedig ag esblygiad cymdeithasol barddoniaeth gan Medwin Hughes (1987, t. 63). Dywed yr awdur:

Bu’n arferiad gan feirniaid llenyddol yng Nghymru geisio darganfod bwlch yn y traddodiad llenyddol lle gellid gosod dechrau’r delyneg. Profodd yr Athro Bedwyr Lewis Jones nad felly y bu hi; nid dilyn damcaniaeth newydd chwyldroadol ynghylch natur barddoniaeth a barodd i Ieuan Glan Geirionydd

ac Alun ganu telynegion, ond yn hytrach addasu'r canu traddodiadol ar gyfer chwaeth to newydd o ddarllenwyr. Yr hyn a wnaethpwyd oedd codi statws y canu gwerin poblogaidd – blas y pridd oedd ar y penillion telyn ond awyrgylch y cyngerdd a'r 'drawing room' oedd ar y telynegion.

Er bod barddoniaeth Ceiriog yn ymdebygu i'r math o ganu a welwyd gan feirdd gwlad, ni ddylid ei ystyried yn fardd ffwrdd-â-hi. Codi statws y math o ganu gwerinol llawr-gwlad fu bwriad ymwybodol Ceiriog a hynny drwy addasu canu poblogaidd ac adloniadol ar gyfer cynulleidfaoedd a oedd yn ymbarchuso. Wrth i'r gymdeithas ymbarchuso gan '...esgyn ris yn uwch' (Hughes 1865, t. 5) sylweddolodd Ceiriog gyda chymorth ei gyfaill a'i fentor, Creuddynfab, ei swyddogaeth fel bardd poblogaidd a datblygu ac esblygu hanfodion yr hen ganu adloniadol ar gyfer math newydd o gymdeithas a'i hanghenion. Mae'n cael ei gydnabod yn gyffredinol nad bardd o'r radd flaenaf yw'r 'bardd gwlad', ond rhigymwr yn cyflawni swyddogaeth gymdeithasol trwy fod yn llais i'r gymuned a'i dyheadau. Er bod Ceiriog yn cyflawni'r un math o swyddogaeth ar lefel genedlaethol yn ogystal ag fel llais y gymuned Gymraeg ym Manceinion, mae modd dadlau bod celfyddyd uwch yn perthyn i'w waith a hynny yn rhinwedd ei dechneg, ddelweddaeth a'i ieithwedd.

Beirniadaeth 'ddisynnwyr' Bobi Jones?

'Estheteg – yr wyddor neu'r astudiaeth sy'n ymdrin ag egwyddorion prydfferthwch a chanonau beirniadaeth yn y celfyddydau cain' (Thomas 1950-67, t. 1251). Dyma air fu'n holl bwysig yng nghyd-destun y beirniad llenyddol Bobi Jones. Wrth ffon fesur estheteg y bu'r beirniad llên hwn yn mesur gwerth barddoniaeth, a dyma fu sail ei feirniadaeth yn erbyn canu poblogaidd o'r fath a welwyd gan Ceiriog. Wrth gwrs, yn sgil hyn oll, y mae'n werth cadw mewn cof natur ddadleuol Bobi Jones fel beirniad llenyddol ac fel bardd. Onid yw'n deg nodi bod Bobi Jones yn un sy'n hoff o ennyn ac ysgogi trafodaeth yn ei waith? O ystyried hyn, y mae'n ddealladwy i raddau

helaeth ei fod wedi ymdrin â gwaith Ceiriog ar drywydd gwahanol i'w gyd feirniaid llenyddol a sylwebwyr hanesyddol a hynny er mwyn ysgogi dadl. Yn ei erthygl 'Ceiriog – Y Bardd Di-synnwyr' (1958), ceir gwir flas ar ei feirniadaeth. Prif gŵyn Bobi Jones yw'r diffyg dyfnder meddwl a geir yng ngherddi'r bardd. Yn ôl yr awdur, 'Y mae sŵn mesur ac y mae'r geiriau'n patrymu'n awgrymog. A dim ... Dim synnwyr. Geiriau, geiriau, ffwrdd â hi' (Jones 1958, t. 82). Wrth gwrs nid Bobi Jones oedd y cyntaf i ddatgan sylwebaeth o'r fath. Yn 1933, er bod R. Williams Parry yn canmol Ceiriog at ei gilydd, ceir ambell sylw negyddol ganddo. Dywed, er enghraifft, 'O holl feirdd mawr Cymru [...] Ceiriog yw'r lleiaf cyfrwys ac ystrywgar ei feddwl; y mwyaf di-ystum a diymwybod ei ddull' (Parry 1933, t. 109). Yn ogystal â hyn, gofynna R. Williams Parry 'Ai rhigymwr ai rhyfeddod oedd Ceiriog?' gan mai '...cynnyrch difwyd, dinodwedd' (1933, t. 109) a gafwyd ganddo. Awgryma R. Williams Parry yma bod cynnyrch barddol Ceiriog yn debycach i'r hyn a gynhyrchir gan rigymwr yn hytrach na bardd cenedlaethol. Ar yr un seiliau beirniadol dywed W. J. Gruffydd '...gallodd Ceiriog greu corff o delynegion o'r radd flaenaf ar waethaf bod ynddynt lai o gynnwys mewnol na gwaith yr un bardd arall yng Nghymru' (1939, t. 13). Yn wir, prif ddadl Bobi Jones a'r beirniaid eraill a ddyfynwyd yw'r ffaith mai canu arwynebol, ffwrdd-â-hi yw'r hyn a geir yng nghanu Ceiriog.

Yn 1988 cyhoeddwyd y gyfrol *Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* dan olygyddiaeth Bobi Jones. Dyma flodeugerdd a ysgogodd ddadl, a gwrthgyferbyniad barn chwyrn ymysg rhai beirniaid llenyddol, a hynny yn bennaf oll yn sgil chwaeth olygyddol Bobi Jones. Yn ei ragymadrodd i'r flodeugerdd dywed Bobi Jones, 'Pe na bawn ond yn galw'r bobloedd ynghyd i ailddarllen tri bardd mwyaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sef Ann Griffiths, Islwyn a Golyddan [...] byddai gennyf ddigon i'w frolio, yn ddiau' (1988, t. 11). Sylwer nad yw Bobi Jones

yn gosod Ceiriog yng ngharfan beirdd mwyaf y ganrif. Wrth gwrs, o ystyried y sylwadau a welwyd gan Bobi Jones yn ei erthygl ‘Ceiriog – Y Bardd Di-synnwr’ (1958), nid yw hyn yn syndod. Yn ôl ei chwaeth olygyddol, gwêl Bobi Jones yr angen i greu blodeugerdd yn ôl gwerth esthetiaidd cynnyrch barddol y cyfnod yn hytrach na dewis yr hyn a fyddai’n adlewyrchu chwaeth boblogaidd y gymdeithas. Ffaffrio emynyddiaeth y cyfnod a wna Bobi Jones, yn ogystal â cherddi hir, ar sail y ffaith y ‘Gellir cyfuno a chyferbynnu amrywiaeth eang o themâu [mewn cerddi hir]. Gellir arddangos datblygiad dros gyfnod o amser. Gellir dyfnhau’n raddol y myfyrdod am rai pynciau a chylchu amrediad llawnach o’r byd’ (1988, t. 13). Gwêl Bobi Jones ragoriaeth yn y testunau hynny a chanddynt y potensial i gnoi cil drostynt, yn hytrach na’r rhai sy’n cynnig delweddau arwynebol ar blât i’r gynulleidfa. Er mwyn gwahaniaethu rhwng canu poblogaidd o werth esthetiaidd a’r canu poblogaidd a ystyria yn ddi-chwaeth a disylwedd, cyfeiria Bobi Jones at Ceiriog fel enghraifft o fardd yr ail garfan (1988, t. 23):

Bardd ‘poblogaidd’ oedd Ceiriog ar ‘egwyddor’. Hynny yw, yr oedd ganddo yr un athrawiaeth a chymhelliad yn ei ysgogi ef ag sy’n sylfaen – neu o leiaf, yn un o’r sylfeini lleiaf annymunol i’r – *News of the World* a’r *Sun* yn ein dyddiau hysbysebwl ni. Plesio’r cyhoedd anhyfforddedig, sef y darlennydd dibrofiad. Cydymffurfio â’r chwaeth mwyaf elfennaidd, y nwydau mwyaf syml, a’r diffyg gwybodaeth a’r diffyg ymholiad mwyaf distadl. Nid trwch egni llenyddol na bywyd esthetig yr iaith sy’n mynd â bryd cyhoedd felly.

Plesio’r dyrfa eang a’r meddyliau mwyaf distadl oedd sylfaen canu poblogaidd o’r fath yn ôl Bobi Jones, nid yr angen i ymgynraedd at greu gweithiau ceinion. Yn wir, dyma’r math o farn a rydd rhai heddiw ynglŷn â chanu poblogaidd yr oes bresennol. Ymhelaetha Bobi Jones ar ei farn ynglŷn â chwaeth honedig cynulleidfa Ceiriog yn y dyfyniad a ganlyn:

Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gyda’r chwyldro diwydiannol yn chwalu traddodiad a chwaeth datblygedig, ac addysg gyffredinol rad yn esgor ar dyrfa enfawr y dosbarth-gweithiol a’r dosbarth-canol isaf gweddol lythrennog ac yn

medru talu am ddiddanwch i'r nwydau symlaf, y perygl oedd apelio at yr arwynebol, dyrchafu anghymhlethrydd fel delfryd, colli deallusrwydd ac anghyffredinedd, a meithrin y sioe a'r ymgais i beri rhyfeddod ar lefel y corff drwy driciau a fformiwlâu diddychymyg. (1988, t. 26)

Yr hyn sy'n taro'r darlennydd yw'r ffaith fod yr awdur fel petai'n diraddio'r canu poblogaidd (y math o ganu a gysylltir â Ceiriog), drwy ei gysylltu â haenen isel a dichwaeth cymdeithas. Dyma enghraifft amlwg o'r elitydd yn dod i'r fei ym meirniadaeth Bobi Jones. Serch hyn, o ystyried y ffaith bod Bobi Jones wedi beirniadu'r canu poblogaidd seciwlar, ac wedi labelu Ceiriog yn fardd di-synnwr yn ei erthygl yn 1958, yn ogystal ag amddifadu'r bardd o'i le fel un o feirdd mwyaf y ganrif, onid yw'n syndod ac efallai'n rhagrithiol bod y golygydd wedi cynnwys peth o waith y bardd yn ei flodeugerdd? Er nad yw Ceiriog yn cyrraedd daliadau esthetaidd Bobi Jones yn llwyr, gellid dadlau bod cynnwys peth o waith y bardd yn y flodeugerdd yn gyfaddefiad drws y cefn gan Bobi Jones bod elfennau o werth esthetaidd yn perthyn i farddoniaeth Ceiriog. Ymhlith y cerddi o waith Ceiriog a gynhwyswyd yn y flodeugerdd ceir 'Y Garreg Wen', a rhannau o'r fugeilgan delynegol 'Alun Mabon' megis 'Yr Arad Goch' ac 'Y Gwcu Lwydilas' (Jones 1988). Dichon bod y darnau hyn wedi ennill eu plwyf ar sail daliadau crefyddol Bobi Jones, am fod y cerddi yn clodfori creadigaethau Duw. Atgyfnerthir y farn hon wrth ystyried bod Bobi Jones wedi cynnwys 'Rhosyn yr Haf', 'Codiad yr Hedydd' ac 'O Ddydd i Ddydd' yn y flodeugerdd, ar draul rhai o gerddi enwocaf a mwyaf poblogaidd y bardd, megis y penillion sy'n cyd-fynd â'r alaw 'Bugail Aberdyfi' yn y fugeilgan delynegol 'Alun Mabon' (Hughes 1862, tt. 45-6), 'Bonheddwr Mawr o'r Bala' (Hughes 1860, t. 104), ac 'Ar Hyd y Nos' (Hughes 1863, tt. 87-8). Er mai gwedd ar ganu poblogaidd yw'r emynau, mae Bobi Jones yn cyfiawnhau cynnwys nifer helaeth ohonynt yn y flodeugerdd a hynny oherwydd ei ragfarn ideolegol am safon uwch canu

o'r fath. Dywed Bobi Jones am yr emynau, 'Yn y rhain y mae'r nifer fwyaf o feirdd yn y ganrif yn llwyddo i sgrifennu gweithiau o'r gwerth uchaf' (1988, t. 22).

Tanlinella hyn farn Bobi Jones mai'r ystyriaeth bwysicaf wrth drafod unrhyw gerdd neu gân yw ei gwerth esthetaidd ac nid ei phoblogrwydd. Ar wahân i'r crefyddol, mae'r syniad o brydferthwch y foment a'r gallu i ddal y syniad o'r prydfferthwch hwnnw am byth yn perthyn i'r cyfansoddiadau o waith Ceiriog a ddewiswyd gan Bobi Jones i'w cynnwys yn ei ddetholiad. Yn wir onid yw 'Y Garreg Wen' ar ei hyd yn ddelwedd estynedig esthetaidd arhosol o brydferthwch natur? Er nad yw'r darllynydd yn gallu uniaethu'n llwyr â'r lleoliad yn y gerdd, mae gan y bardd y gallu i ddwyn teimladau'r gynulleidfa, a'u tywys drwy eu dychymyg i brofi prydfferthwch yr ardal drostynt hwy eu hunain.

Yn ei hadolygiad ar y flodeugerdd mae Branwen Jarvis yn bur ganmoliaethus ar y cyfan o benderfyniadau golygyddol Bobi Jones. Canmol y dewis o emynau ac arwrgerddi a gynhwysir yn y flodeugerdd a wna gan fod Bobi Jones yn rhoi'r cyfle i'r gynulleidfa '...ymbwyllo ac ailystyried' y testunau hynny, yn hytrach na chanmol telynegion syml yr oes yn unig (Jarvis 1988, t. 10). Er i Branwen Jarvis gydnabod mai rhyfedd oedd dewis y golygydd i beidio â chynnwys darnau o waith '...digrif a dychanol' Ceiriog, '...gan fod y rheiny'n dweud llawer wrthym am feddylfryd oes Fictoria', parcha ddewis Bobi Jones i'w hepgor (1988, t. 11). Yn wir, dichon nad yw hiwmor yn dechneg barddol sy'n pasio prawf esthetaidd y golygydd meddai. Arddangos safon yn hytrach na darparu adlewyrchiad hanesyddol o'r oes oedd bwriad Bobi Jones yn ei flodeugerdd, ac felly dylid parchu penderfyniad ymwybodol y golygydd yn ei ddetholiad (1988, t. 11). Ar y llaw arall ni cheir ymateb yr un mor ffafriol gan Hywel Teifi Edwards. Yn hytrach na derbyn gwaith Bobi Jones ar sail diben ac amcanion y golygydd, gwelir Hywel Teifi Edwards yn beirniadu'r golygydd

ar sail ei feddylfryd ei hun. Yn ei adolygiad yn dwyn y teitl ‘Blodeugerdd y Cyfle a Gollwyd’ (1989a) ceir man cychwyn dadl chwyn ar dudalennau *Barn* rhwng Hywel Teifi Edwards a Bobi Jones a fu’n rhedeg rhwng Chwefror a Gorffennaf 1989 ynglŷn â chynnwys y flodeugerdd a dewisiadau golygyddol Bobi Jones, yn ogystal â dadleuon ynghylch barddoniaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gyffredinol. Dyma ddadl Yr Esthetaidd v. Yr Hanesyddol. Cred Hywel Teifi yn gryf mai pwrpas blodeugerdd yw adlewyrchu natur gymdeithasol a hanesyddol cyfnod neilltuol. Lleddir ar Bobi Jones am iddo adael i’w ideoleg a’i ddaliadau crefyddol personol lywio naws y flodeugerdd yn hytrach na chynnig detholiad diduedd o gynnyrch barddol y ganrif. Yn ôl Eleri Hedd James ‘...mae Hywel Teifi Edwards yn gwrthod y Flodeugerdd fel un ddibynadwy a chynrychioladol deg o’r cyfnod. Awgryma nad oes iddi werth ond fel enghraifft o sut y gall rhagdybiau lygru gwaith pan lywir awdur neu olygydd yn ormodol ganddynt’ (2009, tt. 193-4). Er iddo farnu seiliau rhagdybiaethau’r golygydd, mae gan Hywel Teifi ei ragdybiaethau ei hun fel y cawn weld maes o law. Gwelwyd fod Bobi Jones yn ffafrio gwaith barddol yn gysylltiedig â chynulleidfa grefyddol, barchus ac addysgedig, yn hytrach na’r canu poblogaidd syml a oedd yn ei farn ef yn ddisylwedd ac yn adlewyrchu chwaeth cymdeithas amgen. Yn sgil hyn, sail beirmiadaeth Hywel Teifi Edwards yw nad oedd y flodeugerdd yn cynnig darlun teg o’r gymdeithas yng Nghymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cred Hywel Teifi Edwards fod y flodeugerdd yn adlewyrchiad o agweddau rhagfarnllyd Bobi Jones tuag at gerddi poblogaidd-seciwlar (1989a, t. 39). Yn unol â hyn, prif fai Bobi Jones yng ngolwg Hywel Teifi Edwards yw ei duedd i osod cymdeithas mewn carfanau pendant, yn hytrach nag ystyried gallu dosbarthiadau cymdeithasol i fwynhau ac ymddiddori mewn gwahanol fathau o ganu poblogaidd, boed yn grefyddol neu’n seciwlar. Dywed fod y canu crefyddol-boblogaidd yn fwy

disglair a deallus yng ngolwg Bobi Jones ‘...ac wrth reswm, dim ond cynulleidfa o uwchfodau a all eu gwerthfawrogi. Rhyngddynt hwy a’r miloedd truenus a ymhoffai yng nghanu Ceiriog a’i debyg mae’n amlwg nad oedd cyfathrach’ (Edwards 1989a, t. 39). Nid yw’n syndod fod Hywel Teifi yn ffafrio ymdriniaeth olygyddol E. G. Millward yn *Ceinion y Gân – Detholiad o Ganeuon Poblogaidd Oes Victoria* (1983) ar sail y ffaith bod gan y golygydd fwy o ‘...gydymdeimlad â llên y ganrif ddiwethaf’ (1989a, t. 40), a hynny wrth iddo drafod swyddogaeth y cerddi, boed yn emynau, baledi neu ganeuon poblogaidd, yng nghyd-destun yr oes y bwriadwyd hwy ar eu cyfer. Ystyria ef werth hanesyddol y testunau fel adlewyrchiad o arferion poblogaidd y gymdeithas gyfan, yn hytrach nag asesu gwerth esthetaidd y cynnyrch yn unig.

Er gwaethaf hyn, amddiffynna Bobi Jones ei benderfyniad golygyddol i ddethol cerddi o werth esthetaidd yn hytrach na gwerth hanesyddol yn erbyn cyhuddiadau Hywel Teifi Edwards drwy ddatgan bod ‘...cofleidio rhywbeth-rywbeth am ei fod yn hanesyddol ddiddorol’ wedi mynd yn norm yn hytrach na mynd ar ‘...ôl yr hyn a oedd yn werthfawr ac yn safonol ym marddoniaeth y ganrif’ (1989b, t. 35). Â ymlaen i ddatgan ‘Nid oes gennyf ddim o gwbl yn erbyn y poblogaidd os yw hefyd yn dda’ (Jones 1989b, t. 37). Dyma brofi mai gwerth esthetaidd a safon y canu sy’n bwysig ym marn Bobi Jones yn hytrach na phwrpas cymdeithasol cerdd neu gân yn unig. O ystyried hyn, oni ddylai Hywel Teifi Edwards fod wedi beirniadu’r flodeugerdd yn ôl amcanion golygyddol esthetaidd Bobi Jones, yn hytrach na lladd ar y gwaith am beidio â darparu adlewyrchiad hanesyddol teg o’r cyfnod?

Dywed W. J. Gruffydd mai ‘...gwaith ofer fyddai i neb sydd yn gymwys ac yn onest yn ei feirniadaeth lenyddol geisio amddiffyn Ceiriog yn erbyn llawer o’r cyhuddiadau a ddygir yn ei erbyn’ (1939, t. 4). Gwelwyd mai prif feirniadaeth Bobi

Jones yn erbyn rhan helaeth o waith Ceiriog ac yn wir yn erbyn y canu poblogaidd torfol yn gyffredinol yw mai deunydd disylwedd, di-synnwyr ac arwynebol ydoedd, a hynny ar gyfer cynulleidfa isel ei chwaeth a hawdd i'w phlesio. Er gwaethaf barn Bobi Jones nad yw Ceiriog yn un o feirdd mwyaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, mae lle i un sy'n 'onest yn ei feirniadaeth lenyddol' amddiffyn Ceiriog, drwy ddangos bod gwerth esthetaidd, synnwyr a chrefft yn perthyn i waith y bardd. Dadleua Bobi Jones mai 'Bardd godidog o ddiystyr oedd Ceiriog' (1958, t. 82). Serch hyn, gellid dadlau bod Ceiriog mewn gwirionedd yn gwbl ymwybodol o grefft a chynnwys ei gerddi, yn ogystal ag anghenion cymdeithasol ei gynulleidfa mewn oes llawn cymhlethdodau a newidiadau cymdeithasol.

Creuddynfab a'i ddyllanwad

Ni ellir trafod barddoniaeth Ceiriog heb drafod sefyllfa barddoniaeth yng Nghymru ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Lle bu'r gynghanedd ers canrifoedd yn hawlio'r prif sylw a pharch, gwelodd y bedwaredd ganrif ar bymtheg feirdd a chefnogwyr y mesurau rhyddion yn codi llais wrth geisio hawlio statws cydwerth. Un o'r ffigyrau amlycaf o blaid y canu rhydd oedd William Williams ('Creuddynfab'; 1814-69). Dyma un o feirniaid llenyddol mwyaf dylanwadol y ganrif. Yn 1855 a 1857 cyhoeddodd Creuddynfab ddwy gyfrol fechan dan yr enw y *Barddoniadur Cymmreig* sy'n adlewyrchiad pwysig o'i syniadau ynglŷn â barddoniaeth, y beirdd, a beirniadaeth lenyddol. Dywed Hywel Teifi Edwards (1968, t. 187) mai'r *Barddoniadur* '...yw manifesto rhamantwyr ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg', ac yn sicr byddai'n anodd anghytuno â hynny. Yr hyn a geir yn y *Barddoniadur* yw barn Creuddynfab ynglŷn â hanfodion barddoniaeth ramantaidd, a'r pwys a roddai ar effaith a phrydferthwch cerdd yn hytrach na phwysigrwydd y mesur.

Wrth drafod gwendidau'r gynghanedd dywed Creuddynfab (1855, t. 56), 'Y mae y gynghanedd, fel cariad, yn cuddio lluwys o bechodau, yn cryfhau llawer gwendid, yn harddu llawer anferthwch.' Gwêl Creuddynfab fod y gynghanedd yn ymddwyn fel mantell er mwyn cuddio gwendidau cynnwys cerdd, a bod gwerth cerdd yn cael ei ddynodi ar sail y mesur a ddefnyddiwyd yn hytrach nag effaith yr hyn a fynegir. Wrth ystyried barn Creuddynfab ni ellir osgoi crybwyll ei wrthwynebiad i syniadau ceidwadol ei gyd-feirniaid llenyddol William Williams ('Caledfryn'; 1801-69).

Dywed Huw Llewelyn Williams (1935, t. 57) mai 'prif duedd ysgrifeniadau Caledfryn yw rhoddi arbenigrwydd ar synnwyr mewn cerdd. Yn dilyn, pwysleisiwyd pwysigrwydd syniadau a meddwl mewn barddoniaeth [...] rheswm sydd oruchaf yn ei lywodraeth ef.' Gwrthwynebu'r syniadau ceidwadol hyn a wnaeth Creuddynfab. Wrth drafod y gwahaniaethau rhwng beirniadaeth Creuddynfab a Caledfryn dywed Huw Llewelyn Williams (1935, t. 132):

Dau feirniad gwahanol iawn i'w gilydd yw Caledfryn a Chreuddynfab. Edrych yn graff ar y cyfansoddiad barddol a wna'r naill a rhoddi sylw i gynnyrch sy'n rhesymol ac yn bersain ac yn chwaethus. Chwilio i mewn i gyfansoddiad meddwl y bardd a wna'r llall a chanmol cynnyrch crebwyll a fo'n dwyn nodau addurniant a gwreiddioldeb.

Dyma i chi ddyfyniad sy'n crisialu'r gwahaniaethau sylfaenol rhwng y cewri hyn ym myd beirniadaeth farddol ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dyma gyfnod Caledfryn v. Creuddynfab, y clasurol v. y rhamantaidd. Y pwyslais ar gadw ceinder y mesurau traddodiadol yw'r hyn sy'n nodweddu beirniadaeth Caledfryn, tra bod Creuddynfab yn fwy rhyddfrydol ei feirniadaeth ac yn rhoi pwys ar ryddid dychymyg y bardd wrth gyfansoddi.

O fewn y gwrthdaro hwn y mae gosod Ceiriog. Gellid dadlau, fel y nodir yn fanylach yn y bennod nesaf, mai cyfnod Ceiriog ym Manceinion fu'r blynyddoedd ffurfiannol yn ei fywyd. Yma y tyfodd yn ddyn yng nghanol bwrlwm economaidd y

ddinas fawr. Yn bwysicaf oll, dyma lle y deffrowyd ei grefft a'i awen farddol. Ym Manceinion eginodd awydd Ceiriog i gyfansoddi at ddant ei gyd-wladwyr, y Cymry hynny fel ef ei hun a oedd wedi mentro yn y ddinas Seisnig. Yn bwysicaf oll dyma lle y cyfarfu gyntaf â Creuddynfab. Creuddynfab, yn ôl Saunders Lewis ac eraill, fu'n gyfrifol am lywio amcanion a swyddogaeth Ceiriog fel bardd. Dywed Saunders Lewis fod Creuddynfab wedi chwyldroi gyrfa'r gŵr ifanc o Lanarmon, ac mai ei greadigaeth ef fu'r bardd a elwir yn Ceiriog (1929, t. 21). Mae modd cytuno â'r hyn a ddywed Saunders Lewis i raddau helaeth. Glaslanc yn ei ugeiniau cynnar oedd Ceiriog pan ddaeth Creuddynfab ar ei draws am y tro cyntaf, yn un a oedd yn prysur wneud ei hun yn hysbys yng nghymdeithasau a chylchoedd diwylliannol a chrefyddol Cymraeg Manceinion. Gwelodd Creuddynfab fwllch ym marddoniaeth y cyfnod a'r galw am fardd a allai gyflawni ei amcanion i godi statws y canu rhydd rhamantaidd. Ceiriog oedd yr ymgeisydd delfrydol a allai lenwi'r bwllch hwnnw, a hynny oherwydd ei ddawn, a'r gobraith o allu mowldio'r llanc ifanc i gyd-fynd â'i ddelfrydau barddol. Wrth drafod gweledigaeth Creuddynfab a'i ddylanwad ar Ceiriog dywed Saunders Lewis (1929, t. 29):

...yr oedd ei awydd yn fawr am gael bardd i Gymru a ganai iddi yn iaith ac acen ei oes ei hun [...] Dywedodd ei weledigaeth wrth Geiriog. Dangosodd iddo fod delfrydau siopwyr ac adeiladwyr Lerpwl a Manceinion yn llunio ysbryd a chwaeth Cymru. I'r dosbarth canol newydd hwn y perthynai'r dyfodol, ac yr oedd y dosbarth hwn eto heb ei fardd.

Roedd Creuddynfab am greu bardd a weddai i'r oes newydd a oedd yn gwawrio, ac yn wir, am greu bardd ar gyfer y Cymry Cymraeg dosbarth canol a'u harferion *bourgeoisie* newydd-anedig. Dyma lle y perthynai dyfodol barddoniaeth Gymreig yn ôl delfrydau Creuddynfab. 'Yr hyn oedd eisiau ar farddoniaeth Cymru, yn ôl Creuddynfab, oedd y "lyric", sef canu syml, naturiol, teimladwy a phoblogaidd' (Jones 1950-1, t. 16). Roedd gan Loegr, Yr Alban ac Iwerddon delynegwyr enwog â'r

gallu i ennyn emosiwn ymysg eu cyd-wladwyr. Teimlwyd gan Creuddynfab fod lle i Ceiriog lenwi'r bwlch yng Nghymru trwy dyfu'n delynegwr enwog o'r un radd â'r beirdd hynny a'i rhagflaenodd megis Robert Burns yn yr Alban (1759-96) a John Clare yn Lloegr (1793-1864). Yn ogystal â'r angen am 'lyric', roedd angen bardd a allai lefaru ar ran y Cymry oddi cartref, gan ymgorffori'u gobeithion, eu hofnau, a'u hiraeth am y famwlad a adawsant ar ôl. Ceiriog oedd y lladmerydd perffaith yng ngolwg Creuddynfab oherwydd iddo rannu'r un profiadau â'i gynulleidfa. Dywed Meredydd Evans mai Ceiriog oedd 'y dyn iawn ar yr amser iawn' o safbwynt ei safle fel bardd y cyngherddau poblogaidd (1987, t. 11), a gellid dadlau bod yr un sylw yn berthnasol o ystyried ei gyfraniad a'i boblogrwydd fel bardd eisteddfodol. Canfu Ceiriog ei niche farddol ar yr union adeg pan oedd yr eisteddfod yn tyfu ac yn diwygio, ac ni ellir anwybyddu'r ffaith mai Creuddynfab (a oedd eisoes yn ddylanwad ar Ceiriog) oedd un o'r rhai a yrrai'r diwygiadau hynny yn eu blaen. Ymateb i ffasiynau barddol ei oes a wnaeth Ceiriog, gan gipio'r cyfle i ennill ei blwyf fel un o feirdd nodedig canu rhydd y byd eisteddfodol a chyngherddol, ac nid cyfansoddi'n ddigyfeiriad fel yr awgrymwyd yn nadleuon Bobi Jones. Beth felly a oedd yn nodweddiadol am gerddi a chaneuon Ceiriog, a'r hyn fu'n gyfrifol am eu llwyddiant? Rhaid bwrw golwg ar gynnwys a chreffft cynnyrch Ceiriog er mwyn canfod hyn.

Ymateb i'w oes a'i gynulleidfa

Yn ogystal â'r cyd-destun barddol, ni ellir trafod arwyddocâd cerddi a chaneuon Ceiriog heb fwrw golwg ar y cyd-destun cymdeithasol ehangach a fu'n ddylanwad ar y bardd. Gwelodd y bedwaredd ganrif ar bymtheg chwyldroad diwydiannol a chymdeithasol nas gwelwyd ei fath yng Nghymru na gweddill y Deyrnas Gyfunol o'r blaen. Dyma oes twf y diwydiannau trymion, ac yn sgil hyn, datblygiad a thwf

sylweddol y dinasoedd a fu'n gartref i'r ffatrioedd a'r porthladdoedd newydd-anedig. Lle bu economi'r Deyrnas Gyfunol yn ddibynol ar amaethyddiaeth a diwydiant cefn gwlad, gwelwyd mwy fwy o bwyslais yn yr bedwaredd ganrif ar bymtheg ar fuddsoddi ac allforio, megis yr hyn a welwyd yng nghyd-destun y diwydiant haearn a chotwm. Dywed yr hanesydd Walter. E. Houghton am Oes Victoria, 'For although all ages are ages of transition, never before had men thought of their own time as an era of change from the past to the future' (1957, t. 1). Y newid ymwybodol hwn sy'n diffinio Oes Victoria i raddau helaeth, hynny yw, yr ymdeimlad o'r angen i symud ymlaen ar garlam, er mwyn osgoi aros yn rhigol yr oesoedd a fu. Yn unol â'r datblygiadau hyn gwelwyd mwy fwy o Gymry yn mentro dros y ffin i Loegr ac yn wir i bellafoedd y byd er mwyn profi chwyldro diwydiannol yr oes a'r cyfleoedd cysylltiedig. Yn debyg i lawer o Gymry ei oes penderfynodd Ceiriog symud y tu hwnt i'r ffin er mwyn ceisio canfod cyfoeth a llwyddiant yng nghanol bwrlwm dinas fawr ddiwydiannol. Y ddinas y denwyd Ceiriog iddi oedd Manceinion. Yn ogystal â chanfod gwaith yn niwydiant y rheilffyrdd ym Manceinion, dyma'r ddinas a fu'n fagwrfa i awen farddol Ceiriog. Yn y cyd-destun hwn mae'n werth dyfynnu sylwadau W. J. Gruffydd (1939, t. 10):

... cynhyrfydd yr awen yng Ngheiriog, pan oedd ar ei orau, oedd yr hyn y buasai Wordsworth yn ei alw yn atgof mewn tawelwch am gynyrfiadau syml ac anghymleth yr amser a fu gynt. Mewn geiriau eraill, awen alltud oedd awen Ceiriog; awen y Cymro oddi cartref gyda holl wendidau yn ogystal â rhinweddau'r math hwnnw o ddyn.

Gobaith, ansicrwydd, newid, a'r awydd i fentro, dyma ychydig ymhlith nifer o eiriau allweddol sy'n gysylltiedig â'r hyn a ddiffinnir fel 'Oes Aur Victoria'. Dyma fardd a fu'n cyfansoddi yng nghanol ei gymdeithas, ac yn ddrych o'r teimladau hynny a deimlwyd gan ei gynulleidfa o Gymry Cymraeg a oedd yn byw y tu hwnt i Gymru. Bardd yn traethu llais a theimladau'r diaspora Cymreig oedd Ceiriog, ac y mae

hynny'n hollbwysig wrth drafod cynnwys a gwerth hanesyddol y gwaith. Gellir ymchwilio'r awen alltud neilltuol hon er mwyn profi bod Ceiriog yn ei gerddi a'i ganeuon poblogaidd yn gwbl ymwybodol o anghenion emosiynol a seicolegol ei gynulleidfa a'i gymdeithas.

Dywed E. G. Millward, 'Nid creu cywreinwaith llenyddol oedd amcan cyntaf prydyddion y parlwr a'r cyfarfod adloniadol. Ysgrifenydd poblogaidd oeddynt a anelai'n bennaf at gyffwrdd â thannau'r galon er dwyn dylanwad llesol ar eu gwrandawyr' (1983, tt.xxvii-xxviii). Dyma ddyfod at wraidd y ddadl rhwng Bobi Jones a Hywel Teifi Edwards ar dudalennau *Barn*, wrth i'r naill osod gwerth esthetaid barddoniaeth uwchlaw pwysigrwydd cymdeithasol a hanesyddol y gwaith. Nid geiriau wedi'u pentyrru'n ddifeddwl er mwyn cyd-fynd ag anian alaw a geir yng ngherddi Ceiriog; mae synnwyr ac ymwybod bwriadol yn llechu y tu ôl i'w saerniaeth.

O dowch ac anghofiwch helbulon y llawr,
Ac awn ar ysgwyddau y Wyddfa wen fawr,
I redeg fel ceirw – i chwareu fel ŵyn,
Gan yfed ffynonydd yn nghysgod y brwyn, –
O! dowch i'r mynyddoedd i hyfryd fwynhau
Awelon yr entrych am ddiwrnod neu ddau.

Yr ymdeimlad o ryddid a chael dianc yw'r hyn sy'n drawiadol am gynnwys 'O! Dowch i'r Mynyddoedd' ar ei hyd (Hughes 1860, tt. 68-9). Wrth drafod Ceiriog a'i waith cred Bobi Jones, 'Ar ei orau nid oes ganddo ddim i'w ddweud: a phan geisio ddweud rhywbeth fe gwmp yn enbydus' (1958, t. 82). Yn rhinwedd yr ymadroddion blodeuog, a'r delweddau rhamantus am fywyd gwyllt a byd natur a geir yn y gerdd, anodd peidio â chredu nad oes gan Ceiriog rywbeth o bwys i'w drosglwyddo i'w gynulleidfa yn y llinellau hyn. Fel Cymro wedi'i ddenu gan diwydiant a masnach newydd y dinasoedd a'r gobaith cysylltiedig, gadawodd Ceiriog a channoedd o Gymry tebyg iddo eu cynefinoedd gwledig gan fentro dros Glawdd Offa. Gorweddai

pwysau anferthol ar ysgwyddau'r unigolyn yn ystod Oes Victoria a hynny o safbwynt yr angen i lwyddo yn sgil datblygiadau'r oes. Yng nghyd-destun cymhlethdod seicolegol o'r fath y mae gofyn i ni ystyried cerdd megis 'O! Dowch i'r Mynyddoedd'. Yr hyn a geir yn y geiriau mewn gwirionedd yw sicrwydd, dihangfa ac yn bennaf oll – cysur. Gwahoddiad yw'r gerdd i anghofio 'helbulon y llawr' ys dywed y bardd, gan roi'r cyfle i'r gynulleidfa ddianc y tu draw i newidiadau'r oes, a hynny at lonyddwch cefn gwlad a natur Cymru. Yn yr un modd dywed y bardd yn y trydydd pennill (Hughes 1860, t. 69):

Os hoffech gael ffrwd o ieuenctyd i'ch gwaed,
Ar gopa'r mynyddoedd gosodwch eich traed.

Er mor syml yw'r dweud, mae'r bardd yn rhoi'r cyfle i'r gynulleidfa ddianc o ferw diwydiannol yr oes, yn ôl am ysbaid at sicrwydd gwledig eu hieuenctid. Dyma sy'n nodweddu canu Ceiriog ar ei orau yn ôl W. J. Gruffydd, ac sy'n gynrychiadol o awen alltud y bardd, sef ei allu i gludo ei gynulleidfa yn ôl at 'gynyrfiadau syml ac anghymleth yr amser a fu gynt' (1939, t. 10). Atgyfnerthir yr ymdeimlad o lonyddwch a welwyd uchod, yn y darlun a bortreadir gan y bardd yn y fugeilgerdd 'Owain Wyn' (Hughes 1860, tt. 33-40):

Bywyd Bugail – bywyd yw
Nas gwyr y byd am dano,
Heibio'r bryniau wele'r byw
Fel nant yn rhedeg heibio;
Golud, enw, bydol fri,
Yw eilun-dduwiau dynion;
Mwy na'r oll i'm golwg i
Yw praidd y bryniau gwylltion.

Bardd yn traethu'n ymwybodol a welir uchod, wrth iddo ddyrchafu bywyd y bugail cyffredin a'i foesau uwchlaw datblygiadau modern y byd o'i amgylch. Bywyd tangnefeddus a berthyn i Owain Wyn, y bugail cyntefig o Gymro, o'i gymharu â bywydau cyfnewidiol y gynulleidfa o Gymry dinesig. Y tu draw i'r disgrifiadau o

fywyd syml y bugail, amlyga'r bardd i'r gynulleidfa'r tyndra rhwng cyntefigiaeth yr amaethwr dirodres, a'u bywydau personol yn y 'terfysglyd drefydd draw' (Hughes 1860, t. 33). Yr hyn sy'n taro'r darlennydd am benillion agoriadol y fugeilgerdd hon yw anogaeth Ceiriog drwy bersona Owain Wyn i'r gynulleidfa gamu'n ôl y tu draw i gythrwfl bywyd bob dydd, gan synfyfyrio ar eu hamcanion bydol. Llwydda'r bardd i gysylltu ag isymwybod y gynulleidfa gan daro tant cyfarwydd yn eu calonnau drwy'u hannog i ailasesu'r hyn a oedd yn eu tyb hwy yn bwysig mewn bywyd.

Gwrthgyferbynna'r bardd y nodweddion materol megis 'Golud, enw' a 'bydol fri' a osodwyd yn uchel ym meddylfryd yr oes, â thawelwch meddwl a symlrywydd bodlon y bugail yng nghanol y greadigaeth. Cymer er enghraifft y pennill isod o'r fugeilgerdd (Hughes 1860, t. 34):

Fel yr hen fynyddoedd clyd
Y'm ninau yn mysg dynion;
Ysed tân ddinasoedd byd,
A chwymped seddau'r mawrion,
Llwybro gyda'n defaid wnawn,
A thrin ein huchel diroedd;
Hûn o bur dawelwch gawn
Yn mynwes y mynyddoedd.

Ni ellir cyfeirio at yr uchod fel cyfres o eiriau wedi eu cysylltu'n ddigymhelliant â'i gilydd. Yn y darlun rhamantaidd a gyflwynir ceir neges waelodol fwriadol gan Ceiriog, wrth iddo wneud sylw craff ar fywyd y bugail yng nghyd-destun prysurdeb a newidiadau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cyffelyba Ceiriog y bugail ac amaethwyr eraill i'r mynyddoedd: 'Fel yr hen fynyddoedd clyd/ Y'm ninau yn mysg dynion'. Gwêl Ceiriog y bugeiliaid yr un yn eu hanfod â'r mynyddoedd, a hynny yn rhinwedd eu cadernid a'u tawelwch yng nghanol cyffro'r byd newydd. Yng nghanol dwndwr a phrysurdeb yr oes, a'r awch parhaol am lwyddiant, mae'r pennill a'r gerdd yn gyffredinol yn rhoddi cic i gydwybod y gynulleidfa drwy'u hannog yn isymwybodol i beidio â cholli golwg ar y pethau syml ac arhosol mewn bywyd. Wrth

drafod hanfodion bardd dywed John. M. Howell mai ‘Gwedd arall ar athrylith y gwir fardd yw fod ei deimladrwydd yn dehongli dyhead ei bobl’ (1894, t. 162). Yn debyg i’r hyn a gyflwynwyd yn ‘O! Dowch i’r Mynyddoedd’ (Hughes 1860, tt. 68-9), ymdeimlad o gysur a dihangfa a geir yn y fugeilgerdd hon. Yn y pennill a ddyfynnwyd, gwelir bod Ceiriog yn cymharu bywyd y bugail i’r mynyddoedd, a’r ffaith tra bod ‘tân ddinasoedd byd’ yn arwain dynion i’w cwmp, bod bywyd y bugail yn arhosol a dibynadwy. Gellir canfod cysur mewn rhywbeth arhosol a digyfnawid, megis bywyd y bugail cyntefig a noddfa’r mynyddoedd – y pethau hynny mewn bywyd ac yn hanes y byd nad ydynt wedi newid ar hyd y canrifoedd. Tra bydd pobl, bydd tir ac amaethyddiaeth. Atgyfnertha’r manylyn hwn y tyndra hollbresennol ym mywyd yr unigolyn yng nghanol Oes Victoria, yn enwedig y tyndra ym mywyd y Cymro cyffredin rhwng symud ymlaen gyda’r oes a’i ddiwydiant neu lynu at sicrwydd amaethyddiaeth gyfarwydd. Ni ellir gorbwysleisio’r cysylltiad â byd natur a geir yng ngherddi a chaneuon Ceiriog; yn wir dyma yw sail y rhan helaethaf o’i gyfansoddiadau. Wrth ystyried dylanwad Creuddynfab ar grefft Ceiriog, dywed Hywel Teifi Edwards mai Creuddynfab ‘oedd y cyntaf yng Nghymru i fynegi’n ddibetrus ffydd y rhamantwyr mewn barddoniaeth â’i hapêl yn fwy i’r synhwyrâu nag i’r rheswm, barddoniaeth a darddai o’r gred mai “swydd iaith yw trosglwyddo meddylddrychau” ’ (1968, tt. 190-1). Yn wir mae’r syniad o greu meddylddrychau rhamantus drwy apelio at synhwyrâu dyn yn elfen sydd wedi’i hamlygu’i hun yng nghynnwys ac adeiladwaith y cerddi a drafodwyd eisoes, a hynny drwy ddihangfa’r bardd at lendid cefn gwlad. Yn y cyd-destun hwn dylid ystyried pennill agoriadol y gerdd gyfarwydd ‘Nant y Mynydd’ (Hughes 1860, t. 30):

Nant y Mynydd, groew, loew,
Yn ymdroelli tua’r pant;
Rhwng y brwyn yn sisial ganu,
O na bawn i fel y nant!

Cyfeiria R. Williams Parry at ‘Nant y Mynydd’ fel ‘...telyneg berffeithiaf Ceiriog. Dyma hefyd delyneg berffeithaf barddoniaeth Gymraeg’ (1933, t. 96). O ystyried y dweud mawr a gafwyd gan R. Williams Parry am y delyneg hon, nid yw’n syndod efallai bod Bobi Jones wedi ei chynnwys yn ei flodeugerdd. Gellid ystyried ei bod wedi’i chynnwys yno am iddi ei fodloni’n esthetaidd ac felly’n haeddu’i lle yn ôl ei ffon fesur olygyddol. Yn ogystal â’r gyfeiriadaeth a geir yn y gerdd o gyswllt dyn â chreadigaeth Duw a fyddai’n debygol o blesio Bobi Jones, gellir dadlau mai’r profiad esthetaidd a welir yn y gerdd yw’r weithred o freuddwydio’n synhwyrus, a’r dyhead am gael dianc i ganol rhyddid byd natur – ‘O na bawn i fel y nant!’. Yn ei ragymadrodd i *Ceinion y Gân – Detholiad o Ganeuon Poblogaidd Oes Victoria*, pwysleisia E. G. Millward bwysigrwydd cyd-destun y cerddi (1983, t. xx):

...ni ddylid ar unrhyw gyfrif anwybyddu’r cyd-destun cymdeithasol i’r canu hwn. Dichon fod delweddau poblogaidd Oes Victoria yn destun digrifwch i oes fwy sinigaidd a chysurus. Gall y diffyg synnwyr hanesyddol hwn dynnu’r canu o’i gyd-destun angenrheidiol a pheri bod y rhan fwyaf o’i arwyddocâd a’i apêl ar goll gennym.

Yng nghyd-destun yr uchod, gellir canfod gwendid barn Bobi Jones a’i feirniadaeth ynglŷn â sylwedd a synnwyr cyfansoddiadau Ceiriog. Mewn oes a oedd yn symud ar garlam drwy newidiadau cyson, does ryfedd fod cerddi syml Ceiriog am sefydlogrwydd natur a bywyd y gwerinwr cyffredin yn rhoi’r cyfle i’r gynulleidfa arafu a dianc ymhell o bwysau’r byd modern datblygedig am ennyd drwy’r geiriau. Heb ystyried y cefndir cymdeithasol, ni ellir llwyr werthfawrogi cerddi Ceiriog a’r cymhlethdod cymdeithasol sy’n llechu y tu ôl i’r geiriau. Serch hyn, camp Ceiriog yw ei allu i wrthsefyll prawf amser. Yn ogystal â phrofi’n destunau poblogaidd yn ystod ei oes ei hun a’i gefndir cymdeithasol, mae llawer o gerddi Ceiriog megis ‘Nant y Mynydd’ yn gyfarwydd hyd heddiw i gynulleidfaeod modern a hynny oherwydd gwerth esthetaidd a synhwyrusrwydd y gwaith. Mae apêl oesol yn perthyn i rai o

gyfansoddiadau Ceiriog, diolch i'r delweddau a gyflwynir, symllder bwriadol y geiriau, a'r adeiladwaith sy'n peri iddynt aros yng nghof y darllenydd neu'r gwrandawr. Yn wir ni ellir dweud yr un fath am gynnyrch barddol llawer o feirdd Cymraeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg megis Islwyn.

Hawliodd Ceiriog ei le fel bardd y cyngherddau a'r cyfarfodydd adloniadol ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fel y trafodwyd eisoes, 'Yr hyn oedd eisiau ar farddoniaeth Cymru, yn ôl Creuddynfab, oedd y "lyric", sef canu syml, naturiol, teimladwy a phoblogaidd' (Jones 1950-1, t. 16). Cododd Ceiriog i'r adwy yn llwyddiannus yn rhinwedd y cysur a'r ddihangfa a ddarparwyd yn ei gerddi a'i ganeuon poblogaidd i'w gynulleidfa o Gymry alltud. Roedd Ceiriog yn ddigon craff i adnabod natur y gynulleidfa yr oedd yn canu ar ei chyfer yn ogystal ag awyrgylch y cyngherddau adloniadol. Roedd y gynulleidfa o Gymry dosbarth canol Cymreig y dinasoedd yn ymgynnull yn y cyngherddau hyn er mwyn mwynhad ac adloniant ysgafn, ac ni fyddai cerddi a chaneuon dwys a dyrys wedi gweddu i'r awyrgylch a disgwyliadau'r gynulleidfa. Yn ogystal ag ymateb i'w gynulleidfa drwy gyfansoddi cerddi a chaneuon teimladwy a chysurus yn ymwneud yn bennaf â delweddau o natur Cymru, llwyddodd Ceiriog i apelio at synnwyr digrifwch y dorf. Ystyrier y penillion isod o gerdd 'Lisi Fluelin' (Hughes 1862, tt. 13-14):

I

Mae Lisi Fluelin yn cael ei phen blwyddyn
A phlant Mrs. Parry, a phlant Mrs. Grey,
Am gynnal y diwrnod yn ôl braint a defod,
Trwy fwyta cacennau, a chyd-yfed te.
(Cydgan y plant.) –
Mae Lisi bach yn deirblwydd oed,
Yn deirblwydd oed, yn deirblwydd oed:
Sirioli mae'r tân
Wrth glywed y gân:
A dawnsio mae'r gadair a'r stôl dri throed,
Oblegid fod Lisi'n deirblwydd oed.

II

Mae un am gael chwaneg o dost bara canrheg,
Gan gyrraedd am dano heb rodres na rhith:
Ond mae y mwyafrif, yn edrych o ddifrif,
Ar gwpan y siwgrwr, a'r plât bara brith.
Mae Lisi bach, &c.

Cân sy'n adrodd stori ddiniwed parti pen-blwydd plentyn a geir yma, un sy'n hepgor unrhyw ddelweddau a llinellau cymhleth i'r llygaid ac i'r glust. Yn wir, nid oes dim yn y gerdd hon sy'n ei gwneud hi'n un chwyldroadol. Dyma Ceiriog ar ei symlaf, yn rhinwedd ei eiriau, patrymau a rhythmau, sy'n hawdd i'w dilyn a'u deall, yn ymwrthod â gwthio unrhyw ffiniau barddol gan lynu at sefyllfaedd cyfarwydd. Yng nghyd-destun cynnwys y gerdd uchod gellir cyfiawnhau sylwadau Bobi Jones ynglŷn â diffyg dyfnder a chwaeth canu Ceiriog. Pentyrru delweddau sionc er mwyn llunio stori ysgafn am barti plant yw hanfod y gerdd a dim mwy. Bid siŵr, ni ellir gosod 'Lisi Fluelin' yng ngharfan cerddi gorau Ceiriog, ac felly, efallai mai annheg yw barnu Ceiriog wrth gerdd fel hon yn hytrach nag wrth un o'r goreuon. Serch hyn, dengys y gerdd fod Ceiriog yn ymwybodol o'r math o gynnwys ysgafn a chwareus a fyddai'n gweddu ac yn diddanu ei gynulleidfa.

Yn wahanol i farn Bobi Jones, roedd Ceiriog yn ymwybodol o'i gynulleidfa a'i hanghenion ehangach. Gwyddai Ceiriog sut i greu gweithiau adloniadol, yn ogystal â chreu gweithiau â'r potensial i dywys y gynulleidfa yn feddyliol a theimladol y tu hwnt i amgylchiadau cyfnewidiol yr oes. Dywed Bobi Jones (1958, t. 84) mai 'Ychydig o fwyd i'r meddwl oedd ym marddoniaeth Gymraeg y 19ganrif [...] Meddyliwyd mai rhyw fath o seditif oedd cerdd i'r deall ac i'r meddwl'. Ond gellid dadlau mai 'seditif' oedd yr hyn oedd ei angen ar Gymry'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn enwedig y Cymry hynny oddi cartref, seditif a fyddai'n foddion dihangfa o ddwndwr diwydiannol yr oes. Er i gynnwys y cerddi a'r caneuon ymddangos yn

syml a di-nod ar yr olwg gyntaf, rhaid ystyried amgylchiadau hanesyddol y bardd a'r gynulleidfa wreiddiol er mwyn deall arwyddocâd y gwaith yn ei gyfanrwydd. Serch hyn, fel yr awgrymwyd eisoes, yn wahanol i lawer o weithiau barddol y bedwaredd ganrif ar bymtheg sydd wedi colli eu perthnasedd i gynulleidfaoedd modern, camp Ceiriog fel bardd yw'r ffaith bod gwerth llenyddol y tu hwnt i gyfnod a chyd-destun eu cyfansoddi yn perthyn i gyfran sylweddol o'i gyfansoddiadu. Er bod ei farddoniaeth wedi profi'n seditif ac yn ddihangfa i'r gynulleidfa wreiddiol, gellid canfod yr un mwynhad esthetaidd yng ngwaith Ceiriog hyd heddiw. Diolch i'r delweddau syml a dealladwyedd yr eirfa a ddefnyddir, mae gwerth arhosol i waith Ceiriog.

Crefft a phwysigrwydd yr alaw

Yn ogystal ag ymwybod Ceiriog o'i oes ac anghenion ei gynulleidfa, un elfen anhepgor yn llwyddiant Ceiriog fel bardd poblogaidd yw effaith cerddoriaeth ar y rhan helaeth o'i gerddi. Mae'r elfen gerddorol a'r briodas lwyddiannus rhwng geiriau'r cerddi a'r gerddoriaeth yn allweddol o safbwynt llwyddiant Ceiriog fel bardd poblogaidd cyngherddau'r oes. Yn wir, fel y cawn weld, yr alaw sy'n gorfodi mesur penodol, yn ogystal â llywio natur y geiriau yng nghaneuon y bardd. Fel y crybwyllwyd eisoes, un o'r arferion ymysg y gymdeithas dosbarth canol a ddaeth yn fwyfwy poblogaidd o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen, oedd y cyngherddau adloniadol. Nid yn unig o fewn ffiniau cyngherddau'r parlyrau moethus yr oedd galw am gerddi i'w canu, oherwydd gwelodd yr eisteddfod yr angen i symud ymlaen â ffasiwn yr oes gan ehangu ar y cystadlaethau cerddorol a'r cyngherddau adloniadol yn ei rhaglen flynyddol. Dywed Meredydd Evans (1987, t. 11), 'Erbyn canol y ganrif [...] roedd yr eisteddfod, y llu cyfarfodydd adloniannol, a'r

cyngherddau, yn gweiddi am ganeuon ar gyfer unawdwyr, partïon a chorau; a'r ffordd gyflymaf, hwylusaf, i gyfarfod â'r galw hwn [...] oedd trwy gyfansoddi geiriau i alawon oedd eisoes ar gael.' Oni bai am y twf yn y galw am gerddi canadwy, dichon na fyddai Ceiriog wedi tyfu yn fardd poblogaidd mor llwyddiannus ac enwog. Nid oes rhaid edrych llawer pellach na'r gyfrol *Y Bardd a'r Cerddor* (1865) er mwyn sylweddoli bod Ceiriog yn gwbl ymwybodol o'i swyddogaeth ac o angen cymdeithas ar gyfer cerddi canadwy drwy gyfrwng y Gymraeg, a'r rheini yn gerddi a fyddai'n addas y tu hwnt i diriogaeth y capeli a'r eglwysi:

Y mae mwy o alwad nag erioed y dyddiau hyn am eiriau i'w canu, ac achlysuron i wneud defnydd o'r cyfryw ganeuon, mewn cyngherddau a chyrddau adlonawl, wedi dyblu a threblu rhagor yr hyn oeddynt flynyddoedd yn ôl. Y mae cymdeithas hefyd wedi esgyn ris yn uwch, nes mae lluaws o'r hen gerddi wedi myned yn anaddas i chwaeth bresennol y bobl. Yn wir y mae cyfnod newydd wedi dechreu ar ganiadau y genedl.

Dyma a ddywed Ceiriog yn ei ragymadrodd i *Y Bardd a'r Cerddor* (1865, t. 5).

Dengys yma y rhesymeg a oedd y tu ôl i'r angen i gyfansoddi geiriau ar alawon, a hynny yn bennaf oll er mwyn ymateb i her yr oes newydd a'r gynulleidfa a oedd yn prysur barchuso ac yn wir yn 'esgyn ris yn uwch' o ran statws cymdeithasol.

Llwyddiant crefft Ceiriog oedd ei allu i ysgrifennu geiriau teimladwy at ddant ei gyd-wladwyr ar yr alawon hynny a oedd eisoes ar gael yng Nghymru, megis 'Morfa Rhuddlan' a 'Toriad y Dydd' i enwi ond dwy yn unig. O ran dylanwad ar grefft Ceiriog, bu sawl un arall yn ogystal â Creuddynfab yn gyfrifol am ddatblygiad y bardd, megis y telynor Idris Fychan (John Jones, 1825-87) a'r cerddor Brinley Richards (1817-85), a hynny o safbwynt yr elfen gerddorol yn ei waith. Symudodd Idris Fychan i Fanceinion yn 1857, gan droi yn yr un cylchoedd cymdeithasol â Ceiriog, Creuddynfab ac R. J. Derfel. Yn ogystal â bod yn delynor a chrefftwr dawnus, roedd gan y gŵr o Ddolgellau awydd nodedig i gasglu a diogelu'r hen

alawon a cheinciau traddodiadol Cymreig. Dylanwadodd Idris Fychan ar grefft

Ceiriog drwy ennyn diddordeb y bardd yn y ceinciau Cymreig a'r angen i'w diogelu.

Er nad oedd Ceiriog yn deall techneg miwsig, yr oedd ganddo, yn ôl 'Idris Fychan', y ddawn i ddal 'anianawd' yr alaw, a'r ddawn i roi 'ysbryd' y gainc mewn corff o eiriau. Y mae'r geiriau yn ei gerddi yn fwy na geiriau; y maent yn eiriau wedi eu priodi â nodau. (Jenkins a Lloyd 1953, t. 362)

Yng nghyd-destun yr uchod ystyrier y penillion a ganlyn o'r gân enwog 'Ar Hyd y

Nos' (1863, tt. 87-8):

Holl amrantau'r sêr ddywedant,
Ar hyd y nos,
Dyma'r ffordd i fro gogoniant,
Ar hyd y nos.
Goleu arall yw tywyllwch,
I arddangos gwir brydferthwch
Teulu'r nefoedd mewn tawelwch,
Ar hyd y nos.

O mor siriol gwena seren
Ar hyd y nos;
I oleuo 'i chwaer-ddaearen
Ar hyd y nos.

Nos yw henaint pan ddaw cystudd,
Ond i harddu dyn a'i hwyrddydd,
Rhown ein goleu gwan i'n gilydd
Ar hyd y nos.

Gwelir yn y gân uchod fod dysgeidiaeth Creuddynfab ynglŷn â phwysigrwydd teimlad ac emosiwn mewn cerdd, yn ogystal â chwaeth gerddorol Idris Fychan wedi uno yn gyfanwaith llwyddiannus yng ngwaith Ceiriog. Ceir yma gyflythrennu cytseiniaid meddal, odli syml ar ddiwedd pob uned, yn ogystal ag ailadrodd, er mwyn creu cyfanwaith canadwy ac yn bwysicaf oll cofiadwy. Onid yw'r llinell 'O mor siriol gwena seren' yn enghraifft hynod bwrpasol er mwyn arddangos teimladwyedd Ceiriog, ac yn wir ei allu yn ôl Idris Fychan '...i ddal "anianawd" yr alaw' a'i '...ddawn i roi "ysbryd" y gainc mewn corff o eiriau' (Jenkins, *et al* 1953, t. 362)?

Ceir yma bersonoli hudolus wrth i'r bardd ddychmygu'r sêr yn gwenu arno yng nghanol ffurfafen y nos, gan fynd ymlaen i adeiladu ar elfen soniarus y ddelwedd yn y llinell 'Teulu'r nefoedd mewn tawelwch'. Er gwaethaf barn Bobi Jones nad oes gwerth esthetaidd i ganu poblogaidd seciwlar o'r fath, gwelir yn y llinellau hyn geinder ac ôl meddwl yn y delweddau a gyflwynir a'r synau a gynhyrchir wedi'u huno â pherseinedd a thynnerwch yr alaw. Dywed D. Gwenallt. Jones mai '...anodd yw sgrifennu beirniadaeth lenyddol ar gerddi Ceiriog am fod y cerddi ar geinciau [...] nid oes gan neb hawl i ddarllen cerddi Ceiriog. Rhaid yw eu canu ar y ceinciau i gael yr holl ystyr a'r teimlad sydd ynddynt' (1968, t. 211). Gellid dadlau mai dyma wendid beirniadaeth Bobi Jones, hynny yw, ei fod wedi darllen cerddi Ceiriog, heb ystyried effaith y geiriau a'r delweddau a gyflwynwyd wedi'u huno â natur alaw. Dim ond wrth wrando ar yr elfennau hyn ynghyd y gellir llwyr werthfawrogi crefft Ceiriog.

'Iddo ef crefft barddoniaeth oedd gwybod sut i wasanaethu ar alawon' (Lewis 1929, t. 41) ac anodd gwadu hyn wrth ystyried *Y Bardd a'r Cerddor* (1865). Llawlyfr o fath yw'r gyfrol, sy'n cynnig argymhellion gan y bardd ynglŷn â'r ffyrdd gorau o gyfansoddi geiriau ar alawon, eu perfformio, ynghyd â rhestr hirfaith o enwau'r hen alawon Cymraeg. Dywed Saunders Lewis mai cynnig argymhellion ynglŷn â '...problemau ymarferol artist' yw'r hyn a geir; '...fe ddengys hefyd ysbryd y bardd a'i ddull o synio am fywyd. Allwedd ydyw i holl feddwl Ceiriog' (1929, t. 33). Gormodiaith yw datgan bod y gyfrol yn allwedd i ddeall holl feddwl Ceiriog. Serch hyn, gellid dadlau bod Saunders Lewis yn gywir i'r graddau fod *Y Bardd a'r Cerddor* yn allwedd anhepgor er mwyn deall meddylfryd y bardd wrth iddo fynd ati i gyfansoddi ei ganeuon. Ystyrier y dyfyniad hwn o'r argymhellion a gynhwysir yn y gyfrol (1865, t. 36):

Mewn barddoniaeth a ddarllenir neu a adroddir goreu po fwyaf o ddrychfeddyliau a goreu po fwyaf o deimlad a roir yn mhob brawddeg, llinell a gair, oblegid yr unig swyn yw barddoniaeth noeth y pryd hynny: ond mewn cân a genir mae'r gerddoriaeth y rhan amlaf yn cael y flaenoriaeth, a mwy o sylw yn cael ei roddi i felusedd swm nag i ddrychfeddyliau mawreddus. Rhaid gadael lle i'r gerddoriaeth chware.

Dyma eiriau bardd sy'n ymwybodol o'i grefft, a'r ffaith mai cyfansoddiadau i'w mwynhau ar glyw yn rhinwedd eu symlder oedd y rhan helaeth o'i waith yn hytrach na gweithiau i'w darllen a'u hystyried yn ddwys. Yn y cyd-destun hwn ni ellir derbyn yr hyn a ddywed Thomas Parry am waith y bardd (1979, t. 273):

Yn ei ddyddiau ef yr oedd bri ar gyngherddau, a digon o gyfle i fardd a allai wau cerddi canadwy. Gan nad llwyfan cyngerdd yw'r fangre i gynhyrchu gwir farddoniaeth, ni ddylid disgwyl am werth llenyddol ond mewn cyfartaledd bychan o gyfanswm gwaith Ceiriog.

Annheg yw datgan nad yw cerddi wedi'u cyfansoddi ar gyfer eu canu yn 'wir farddoniaeth'. Mae pob math o farddoniaeth yn 'wir farddoniaeth' boed yn gynnyrch gan faledwr cefn gwlad, prifardd cadeiriol neu yn wir, delynegwr. Gall pob math o farddoniaeth ddatguddio rhywbeth i gynulleidfa, boed yn hanesyn syml, yn feddylfryd neu'n ffaith. Gellid dadlau mai'r hyn a ystyrid yn 'wir farddoniaeth' gan Thomas Parry, yn debyg Bobi Jones, yw'r gweithiau hynny o werth esthetaidd honedig. Er mai cyfansoddiadau syml i'r golwg ac i'r glust yw cerddi Ceiriog i raddau helaeth ni ddylid dibrisio gwerth llenyddol y gweithiau na honni nad oes iddynt werth esthetaidd. Yn wir, gellid dangos bod i'r cyfansoddiadau cyngherddol hyn werth llenyddol drwy graffu, er enghraifft, ar y gân 'Dafydd y Garreg Wen' a gynhwysir yn *Oriau'r Hwyr* (Hughes 1860, tt. 52-3). Pethau o bwys oedd yr alawon cynhenid i Ceiriog, o safbwynt yr elfen gerddorol yn ogystal â'r hanes y tu ôl i'w cyfansoddiad. Ceir prawf o ymateb synhwyrus Ceiriog i'r hen alawon Cymreig wrth ystyried cyflwyniad y bardd i'r gân. Ynddo gwelir bod y bardd wedi ystyried hanes yr alaw wrth gyfansoddi geiriau i gyd-fynd â hi, megis y ffaith bod Dafydd (sef testun y

gerdd) ‘...yn delynor medrus, ac yn gerddor tra theilwng’ o dyddyn Carreg-wen ger Porthmadog, a fu farw yn llanc ifanc naw ar hugain mlwydd oed (Hughes 1860 t. 52).

Ystyriwn bennill clo’r gerdd (Hughes 1860 t. 53):

’R oedd Dafydd yn marw, pan safem yn fud
I wyllo datodiad rhwng bywyd a byd:
Yn sŵn yr hen Delyn gogwyddodd ei ben,
Ac angau rodd fywyd i’r “Hen Gareg Wen”.

Yn wyneb yr hyn a nodwyd eisoes ynglŷn â gwerth esthetaidd cyfansoddiadau cyngherddol Ceiriog, gwelir o’r hyn a ddyfynnwyd bod Ceiriog wedi llwyddo i ymateb yn bur sensitif i’r testun wrth fynd ati i gyfansoddi. Yn ôl ei gyflwyniad, cymerodd Ceiriog ystyriaeth amlwg o’r ffaith fod yr alaw yn un ‘...nodedig o alarus a dwys’ (1860, t. 52), ac felly cawn eiriau sy’n ffurfio delweddau o’r un anian, yn ogystal â chyd-fynd yn briodol â hanes yr alaw. Oherwydd synwyrusrwydd ymwybodol Ceiriog wrth briodi geiriau addas i weddu i naws ac ymdeimlad y nodau, nid oes gwadu gwerth esthetaidd y gân. Er gwaethaf symlrwydd arwynebol y pennill uchod yn debyg i lawer o’i gerddi a’i ganeuon, gellid dadlau bod Ceiriog yn gwbl ymwybodol o’r ymdeimlad yr oedd am ei drosglwyddo i galonnau’i gynulleidfa, a hynny drwy saernïo hanesyn syml yn gelfydd i gyd-fynd â naws alaw. Ni ellir derbyn honiad Thomas Parry nad oes gwerth llenyddol i ganeuon cyngherddol Ceiriog.

Dywed Branwen Jarvis (1987, tt. 85-6) am gerddi Ceiriog mai:

Niwlog ac anniffiniedig yw’r hyn a fynegir ynddynt. Yn aml iawn gellir gosod y bai am hynny ar natur sylfaenol y cerddi. Geiriau a luniwyd i gyd-fynd ag alawon yw llawer iawn ohonynt, a gofynion mydryddol yr alaw sy’n gosod siâp ar y gerdd, nid gofynion unrhyw syniad neu weledigaeth brydyddol.

Yn debyg iawn i feirniadaeth Bobi Jones, gwelir bod Branwen Jarvis yn cydnabod mai’r alaw oedd yn arwain anian y cerddi, yn hytrach na chreadigrwydd syniadol Ceiriog ei hun. Yn ôl Bobi Jones, ‘Pan oedd Ceiriog ar gefn ei geffyl nid ystyriai am foment beth oedd yn ei wneud nac yn ei ddweud’ (Jones 1958, t. 83). Serch y

feirniadaeth yn erbyn Ceiriog, gellid dadlau yn gryf yn erbyn sylwadau Branwen Jarvis a Bobi Jones a hynny drwy ystyried argymhellion manwl Ceiriog yn yr adran ‘Awgrymiadau ynghylch ysgrifenu caneuon a geiriau i gerddoriaeth’ sy’n gyflwyniad i’r gyfrol *Y Bardd a’r Cerddor*. Rhennir yr adran yn is-adrannau sy’n canolbwyntio’n bwrpasol ar agweddau penodol yn ymwneud ag ysgrifennu caneuon a geiriau i gerddoriaeth. Ceir is-adrannau dan y teitl ‘Geiriau cyntaf y gan’, ‘Perseinedd y llinellau’, ‘Diwedd a dechrau geiriau’ a llawer mwy. Ceir yn yr is-adrannau hyn gynghorion Ceiriog, a’r syniadau yr oedd ef ei hun yn glynu atynt wrth gyfansoddi. Er enghraifft yn yr is-adran ‘Perseinedd y llinellau’ trafoda Ceiriog bwysigrwydd ystyried sŵn geiriau mewn partneriaeth â’r alaw, megis ystyried ‘...gorphwysfanau y miwsig [...] er mwyn i’r bardd yn y manau hynny ddefnyddio llythrenau meddalion a soniarus’ (Hughes 1865, t. 13). Nid geiriau bardd yn cyfansoddi’n ddigymhelliant a welir yn y *Y Bardd a’r Cerddor* ond un a oedd yn gwbl ymwybodol o bwrpas, adeiladwaith ac effaith cerdd neu gân. Dengys yr adran hon o argymhellion yn eglur bod strwythur i ganeuon Ceiriog a’u dweud yn fwriadus, gan awgrymu’n gryf bod Ceiriog yn grefftwr ymwybodol yn hytrach nag yn fardd ffwrdd-â-hi.

Yn ôl Bobi Jones roedd emynau’r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn bwysicach o safbwynt parhad yr iaith Gymraeg na’r canu poblogaidd seciwlar, a hynny oherwydd eu bod yn weithiau llenyddol o safon uwch ar sail y ffaith bod mwy o sylwedd a chrefft yn perthyn iddynt (1989c, t. 35). Serch hyn, nid oes dwywaith fod llinellau syml Ceiriog wedi’u hasio â’r hen alawon wedi bod yn foddion llwyddiannus i’r caneuon gael eu trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth ar dafod leferydd. Gellid dadlau bod y canu poblogaidd seciwlar wedi bod llawn mor ddylanwadol â’r canu poblogaidd crefyddol fel modd i drosglwyddo’r iaith, yn rhinwedd apêl oesol yr alawon, yn ogystal â’r iaith a’r delweddau syml a dealladwy a ddefnyddir. Yn

wahanol i Bobi Jones, ni chredaf y gellir dibrisio dyled yr iaith Gymraeg a'i pharhad i'r canu poblogaidd. Roedd y math o ganu poblogaidd a gafwyd gan Ceiriog, yn allweddol er mwyn cadw'r iaith yn fyw ymysg y bobl gyffredin yn rhinwedd ei apêl dorfol. Yn *Y Bardd a'r Cerddor* (1865), gwelir agwedd ymwybodol Ceiriog ynglŷn â phwysigrwydd gosod geiriau ar alawon er lles yr iaith (Hughes 1865, t. 29). Ceir yr awgrym yn yr hyn a lefarai Ceiriog mai trwy ganeuon cofiadwy roedd gobaith i'r iaith ddiddanu a difyrru, yn hytrach nag ar ffurf cerddi hirfaith wedi'u hanelu i'w darllen yn unig. Yn ogystal â chyhoeddi ei argymhellion ynglŷn â chyfansoddi a pherfformio cerddi ar alawon yn *Y Bardd a'r Cerddor* (1865), rhaid nodi a chydabod y gyfrol gynharach, *Cant o Ganeuon* (1863), ac yn benodol yr adran ynddi ar yr 'Alawon Cymreig' – ceir parhad ar yr adran hon yn *Oriau Eraill* (1868) ac yn *Oriau'r Haf* (1870). Nid bardd poblogaidd y gellir ei labelu'n ddisynnwyr a geir yn y cyfrolau hyn, ond yn hytrach bardd yn ymwybodol o'i grefft a'i swyddogaeth er mwyn sicrhau parhad a diogelu'r hen alawon Cymreig. Mae cyfrolau megis *Cant o Ganeuon* (1863) ac yn benodol *Y Bardd a'r Cerddor* (1865) yn dystiolaeth anhepgor i unrhyw un a fynnai asesu arwyddocâd caneuon Ceiriog a'u swyddogaeth gymdeithasol yng nghydestun arferion poblogaidd yr oes. Ys dywed Meredydd Evans '...fel lluniwr cerddi i'w canu, digwyddai Ceiriog fod, mewn ystyr arbennig, y dyn iawn yn y lle iawn ar yr amser iawn' (1987, t. 11). Yn ystod oes anterth y cyngherddau, roedd caneuon Ceiriog yn foddion heb eu hail er mwyn ateb gofynion cynulleidfaoedd a'u harferion adloniadol. Yn unol â hyn llwyddwyd i atgyfodi'r alawon Cymraeg cynhenid a'u poblogeiddio gan roi diben newydd iddynt drwy'u cyflwyno i gynulleidfaoedd newydd. Yn wir, wrth briodi ei farddoniaeth gydag alawon, llwyddodd Ceiriog i greu corff o ganeuon â'r gallu i apelio at gynulleidfa eang. Bwriad Ceiriog fel bardd poblogaidd ei oes oedd apelio at rychwant eang o'r gymdeithas, ac nid at un garfan yn

benodol, er gwaethaf barn Bobi Jones mai at gynulleidfa ‘...â’r chwaeth mwyaf elfennaidd, y nwydau mwyaf syml, a’r diffyg gwybodaeth a’r diffyg ymholiad mwyaf distadl’ yn unig yr oedd Ceiriog yn apelio atynt (Jones 1988, t. 23). Bardd â’r gallu i apelio at ddant amrediad eang o bobl yw Ceiriog a hynny oherwydd gwerth esthetaidd arhosol ei waith – dyma sail ei lwyddiant. Yn wir, hyd heddiw mae gwaith Ceiriog i’w glywed ar lwyfannau Eisteddfod ac o fewn cyngherddau adloniadol y Cymry.

I grynhoi

Wrth i’r bobl gyffredin ehangu eu gorwelion yn sgil chwyldro diwydiannol y bedwaredd ganrif ar bymtheg gwêl Bobi Jones mai dyma fu’r sbardun a achosodd grino yn safon esthetaidd barddoniaeth y cyfnod (Jones 1988, t. 26). Dyma’r canu poblogaidd torfol roedd Ceiriog yn ei gynrychioli yn ôl y beirniad, sef barddoniaeth wedi’i chreu er diddanwch syml. Y bardd disynnwyr yn bodoli er mwyn boddio chwaeth elfennol y gynulleidfa o newydd-ddyfodiaid i addysg, ynghyd â’u diffyg deallusrwydd – dyna yw Ceiriog iddo. Wrth astudio crefft Ceiriog a’i ddefnydd o dechnegau’r Ysgol Ramantaidd o briodi geiriau a cherddoriaeth, yn ogystal â’i ymwybod o anghenion ei gynulleidfa a’i oes, dangoswyd nad bardd disynnwyr oedd Ceiriog mewn gwirionedd. Gwelwyd bod modd dadlau bod Ceiriog yn fardd a oedd yn ymwybodol o’i swyddogaeth gymdeithasol, yn ogystal ag arwyddocâd ei gerddi. Ys dywed Ceiriog ei hun am natur farddol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ‘y mae cyfnod newydd wedi dechrau ar ganiadau y genedl’ (Hughes 1865, t. 5). Yn wir, prif swyddogaeth Ceiriog fel ymgorfforiad o fardd poblogaidd ei oes oedd ymateb yn ymwybodol i’r cyfnod newydd hwn. Prif gamgymeriad Bobi Jones yn ei feirniadaeth yw iddo ystyried cynnyrch barddol Ceiriog yn gyfanwaith o eiriau’n unig, gan ganolbwyntio ar werth esthetaidd y testun yn hytrach nag edrych yn fanylach ar

swyddogaeth gymdeithasol y geiriau yn eu cyd-destun hanesyddol. Ni ellir labelu Ceiriog yn daclus. Roedd yn fardd â'r gallu i apelio at gynulleidfaoedd dosbarth canol Cymry Manceinion a'r werin gyffredin yng Nghymru, yn ddynion, merched, a phlant. Roedd yn bopeth i bawb. Nid oedd modd i un nad oedd yn ymwybodol o'i grefft lwyddo mewn gorchwyl o'r fath. Yn ôl Richard Altrick, 'Victorian Literature is, among other things, the record of a society seeking ways to adjust itself to conditions as revolutionary as any we face today' (1974, t. 74). Gellid dadlau mai adlewyrchiad o gymdeithas fregus yn ceisio ymdopi â newidiadau lluosog yw cerddi Ceiriog ar eu hyd, yn enwedig o safbwynt meddylfryd Cymry alltud Oes Victoria. Llais bardd poblogaidd yn gwasanaethu ei bobl yw'r hyn a glywir yng ngherddi a chaneuon Ceiriog. Nid bardd 'ffwrdd-â-hi' oedd Ceiriog, ond un a feddai ar syniadau a delfrydau clir ynglŷn â diben a ffurf barddoniaeth. Swyddogaeth bardd yw ymateb i anghenion ei oes, ac er gwaethaf y beirniadu a fu arno, fe lwyddodd Ceiriog i gyflawni ei orchwyl barddol diolch i'w grefft ymwybodol. Er i Bobi Jones glodfori emynau a barddoniaeth o werth esthetaidd i'r entrychion, cam yw diystyru'r canu poblogaidd seciwlar. Er gwaethaf y stigma ffroenuchel a geir yn erbyn canu poblogaidd hyd heddiw, ni ddylid ei ddiystyru. Fel y dywedodd Hywel Teifi Edwards mae'r gweithiau hyn yn ffynonellau hanesyddol o werth, a hynny o safbwynt deall arferion, meddylfryd a diddordebau cymdeithas. Ond, a oes rhagor yn llechu y tu ôl i symlrwydd ymddangosiadol y cerddi poblogaidd, ac a oes felly mwy o gymhlethdod yn llechu y tu ôl i Ceiriog fel bardd poblogaidd nag a sylweddolir yn aml? Sut oedd Ceiriog wir yn teimlo tuag at y gymdeithas ddinesig roedd yn canu ar ei chyfer, a'r gymdeithas wledig roedd yn canu amdani?

Cymru v. Manceinion, Y Wlad v. Y Ddinas

Trafodwyd yn y bennod flaenorol ymwybod Ceiriog o'i safle fel un o feirdd poblogaidd ei oes, o safbwynt ei grefft yn ogystal â'i ymwybod o anghenion ei gynulleidfa. Gwelwyd nad bardd 'disynnwyr' oedd Ceiriog, ond yn hytrach bardd â phwrpas cymdeithasol ehangach yn perthyn i'w gerddi a'i ganeuon, wrth iddo ddarparu cysur seicolegol ynghyd â llwyddo i ddi-ddanu a boddio chwaeth ei gynulleidfa o Gymry alltud. Nid bardd 'ffwrdd-â-hi' fu'n cyfansoddi'n ddigymell o fewn gwagle diwylliannol oedd Ceiriog, ond yn hytrach bardd a ddilynodd ffasiynau llenyddol ei oes yn grefftus, gan ymateb yn ymwybodol i'r newidiadau a'r gofynion amrywiol o fewn ei gymdeithas. Yn wahanol i farn Bobi Jones, mae'r math o ganu poblogaidd a labelwyd yn 'ffwrdd-â-hi' yn taflu goleuni'r un mor bwysig â'r canu crefyddol ar anghenion ac arferion cymdeithasol Cymry'r cyfnod. Serch pwysigrwydd yr elfen gymdeithasol a berthyn i gerddi a chaneuon Ceiriog, a yw'n bosibl darganfod haenen seicolegol bersonol ac isymwybodol yn sail i'w ganu poblogaidd? O gofio bod rhan helaeth o gerddi enwocaf Ceiriog wedi eu hysgrifennu yn ystod ei gyfnod yn byw ym Manceinion, mae gofyn manylu ar fywyd ac amgylchiadau'r bardd yn y ddinas Seisnig honno. Pa effaith a gafodd byw yn y ddinas ar feddylfryd Ceiriog o safbwynt ei wladgarwch a'i hunaniaeth? Yn ôl Saunders Lewis (1929, t. 39), 'er mwyn deall Ceiriog rhaid ceisio'i ddal mewn unigrwydd. Ar y llwyfan ac ymhlith dynion nid oes ganddo gymeriad, y mae'n bopeth i bawb. Beth yw ef pan fyddo ar ben ei hun?' Dyma'r hyn y mae angen ei asesu yn y bennod hon, sef cymeriad ac agweddau Ceiriog y tu draw i'w ffrynt fel bardd poblogaidd ei genedl a hynny yng

nghyd-destun Y Wlad v. Y Ddinas. Sut fath o ddyn oedd Ceiriog yn y ddinas ddiwydiannol Seisnig?

‘Mae John yn myn’ d i Loeger’

Bu cryn lawer o ddamcaniaethu gan y beirniaid llenyddol ynghylch bywyd a chymeriad Ceiriog, a hynny oherwydd prinder tystiolaeth. Un o’r meysydd y bu damcaniaethu yn ei gylch yw rhesymau’r bardd dros adael Llanarmon yn llanc ifanc. Nid nepell o dref Wrecsam, yn llochesu ym mrynau Dyffryn Ceiriog mae Llanarmon. Ar gyrion y pentref hwn, yn ffermdy Pen-y-bryn ar 25 Medi 1832 y ganed John Hughes (ychwanegiad diweddarach gan y bardd ei hun oedd yr enw ‘Ceiriog’), yr ieuengaf o wyth o blant i Phoebe a Richard Hughes. Er i’w dad a’i gyndadau o’i flaen drin a gweithio’r tir yn yr ardal wledig hon, denwyd Ceiriog gan y dref a’i chyfleoedd pellach yn sgil chwyldro diwydiannol yr oes. Yn 1847 mentrodd John Hughes yn llanc ifanc un ar bymtheg oed allan o’i gynefin amaethyddol, ychydig dros y ffin i Groesoswallt, a hynny i weithio fel prentis i argraffydd. Byrhoedlog fu ei amser yno, ac wedi ychydig fisoedd symudodd i’r lle fu’n drigfan iddo am oddeutu deunaw mlynedd, Manceinion. Mae’r ffeithiau sylfaenol ynglŷn â’r prif ddigwyddiadau ym mywyd y bardd wedi’u nodi’n bur gadarn gan sawl beirniad a sylwebydd llenyddol, megis yr hyn a ddywedwyd gan gyfoeswyr y bardd: Isaac Foulkes (1887), J. Owen Jones (1891) ac H. Elfed Lewis (1899). Ond bu cryn ddamcaniaethu yn gysylltiedig â chyfnod cynnar bywyd y bardd, yn enwedig ei resymau dros adael y wlad ac ymgartrefu ym Manceinion.

Cysylltwyd ymadawriad Ceiriog o Lanarmon gan ambell feirniad llenyddol â’i agweddau negyddol tuag at waith llafur amaethyddol. Dywed W. J. Gruffydd (1939, t. 14):

Yn ôl pob tystiolaeth yr oedd bywyd y fferm yn ddiflas gan Geiriog, ac nid oedd ganddo ddawn na medr at y gwaith. Yn un o'i awdlau cynnar y mae'n mynegi'n ddiamwys ei brofiad ei hun yn ei ddisgrifiad o'r morwr. Dyma un englyn o'r awdl honno, sydd yn rhoi rhesymau paham y gadawodd yr arwr ei gartref i fyned i'r môr:

Druan gŵr ni fedrwn gau ar ochor
Y gwrychoedd a'r cloddiau;
Aethus sôn, mi fethais hau
A ffaeliais drin ceffylau.

Er i W. J. Gruffydd gyfeirio at y ffaith fod 'pob tystiolaeth' yn ein harwain ni i gredu fod y bywyd amaethyddol yn achos diflastod i Ceiriog, nid yw'r beirniad yn cyfeirio at unrhyw dystiolaeth uniongyrchol, heblaw am yr awgrymiadau a geir yn yr englyn uchod. Yn ôl W. J. Gruffydd, mynegiad 'diamwys' a geir yn yr englyn, yn ddrych o deimladau'r bardd ei hun. Dywed fod defnydd Ceiriog o gymeriad y morwr yn yr awdl yn adlewyrchiad o sefyllfa bersonol y bardd yn fachgen ifanc, a'i ysfa am anturiaethau 'ymhell o'i gartref gwledig' (Gruffydd 1939, t. 15). Cymer W. J. Gruffydd y cwpled olaf yn fynegiant llythrennol o brofiad y bardd ei hun, a'i fethiant wrth ymdrin â gorchwylion amaethyddol. Mewn modd tebyg, anniddigrwydd Ceiriog tuag at weithio'r tir yw'r hyn a nodwyd gan W. C. Elvet Thomas (cyn-fyfyriwr i W. J. Gruffydd yng Nghaerdydd) wrth iddo dystio: 'The farmer's boy in Llanarmon found little delight in nature. Nature can be a hard task-mistress, and the farmer's boy was certainly not loth to escape her rigours when he betook himself to the towns' (1929, t. 270). Y llafurio caled a oedd ynghlwm â thrin y tir, a chaethiwed honedig y bywyd amaethyddol, oedd y sbardun a achosodd i Ceiriog adael Llanarmon yn ôl damcaniaeth y beirniaid llenyddol hyn. Ar y llaw arall fe â Saunders Lewis gam ymhellach. Yn ogystal â thrafod ymadawiad Ceiriog yng nghyd-destun atyniad y ddinas i lanc ifanc, gwêl Saunders Lewis arwyddocâd ym mherthynas honedig anodd Ceiriog â'i dad. Awgrymwyd gan Saunders Lewis nad oedd perthynas glòs yn bodoli

rhwng Ceiriog â'i dad Richard Hughes, a hynny oherwydd mai cyw melyn olaf a channwyll llygad ei fam oedd Ceiriog. 'Hen arfer yw mawrhau dylanwad daionus mamau yn ffurfiad plant talentog. Drwg yn ddiau ar y cyfan fu dylanwad ei fam ym mywyd Ceiriog. Sbwylodd hi ef gartref oni thyfodd oerni rhyngddo a'i dad' (Lewis 1929, t. 18). Gellid dadlau bod Saunders Lewis wedi dod i'r casgliad hwn ar sail y ffaith bod Ceiriog mewn sawl cerdd yn sylwebu ar gariad mamol, neu'n cyfeirio'n uniongyrchol at deimladau a digwyddiadau yn ymwneud â'i fam ei hun, megis yr hyn a geir yn 'Ti wyddost beth ddywed fy nghalon' (Hughes 1860, tt. 53-4) ac yn 'Y Gwely o Gymru' (Hughes 1860, tt. 71-2). Wrth bwysleisio'r drwgdeimlad honedig rhwng Ceiriog a'i dad tystia'r beirniad llenyddol, 'Hoffai'r llanc ddychmygu bod ei dad yn farw' (Lewis 1929, t. 18). Yng nghyd-destun y disgrifiadau a gafwyd gan Saunders Lewis am berthynas Ceiriog â'i dad, y mae'n werth nodi sylwadau John Rowlands yn y gyfrol *Saunders y Beirniad* (1990, tt. 5-6):

Mae Tecwyn Lloyd wedi sôn am ei feirniadaeth [Saunders Lewis] fel gwaith creadigol a dychmygus, ac rwy'n cytuno fod y dramodydd a'r nofelydd lawn cymaint ar waith yn ei lyfrau a'i ysgrifau beirniadol ag yw'r beirniad gwrthrychol pur [...] Mae'r portread o'r llanc dwy ar bymtheg oed yn Philistia ddisbarth canol Manceinion ar ddechrau ei gyfrol ar Geiriog yn darllen yn union fel nofel. Meiddia ddyfalu seicoleg y bachgen yn gwbl ddi-sail, gan fynd ati i ddweud mai hogyn ei fam ydoedd, wedi'i ddifetha gartref, gan awgrymu fod ganddo gymhlethdod Oedipaidd.

Gwelir felly na ellir dibynnu'n llwyr ar feirniadaeth Saunders Lewis, a hynny oherwydd natur ramantaidd a blodeuog ei ysgrifau a'i feirniadaeth lenyddol. Serch yr hyn a fynegwyd gan Saunders Lewis, y mae'n werth nodi'r hyn a geir gan Isaac Foulkes ynglŷn â'r berthynas rhwng Ceiriog a'i dad. Wrth drafod ymateb Ceiriog i'w dad dywed Isaac Foulkes (1911, t. 5):

Cyfeiria'r bardd yn fabaidd a serchog ato [ei dad] yn ei waith. Mewn nodiad o flaen "Y Fenyw Fach a'r Beibl mawr," argraffedig yn *Oriau'r Hwyr*, dywed: – "Mae y gân hon yn un a gerir genyf tra byddaf byw; am fy mod wedi digwydd ei chyfansoddi rhwng 9 a 10 o'r gloch, boreu Ebrill y 3ydd, 1859. Bore

dranoeth, derbynais lythyr ymyllyddu o Gymru, yn dwyn imi y newydd fod fy anwyl dad wedi cau ei lygaid ar y byd hwn ar y dydd a'r awr grybwyllledig.”

Yn wahanol iawn i'r argraff a roddwyd gan Saunders Lewis nid llais dyn a oedd yn dymuno ac yn dychmygu marwolaeth ei dad a glywir uchod, ond llais mab wedi'i ysgwyd wedi marwolaeth ei dad. Cafwyd sawl ymdrech gan feirniaid llenyddol i geisio mynd o dan groen Ceiriog, a hynny drwy ddamcaniaethu ac ychwanegu at y sgerbwd o ffeithiau bywgraffyddol sydd ar gael. Oherwydd prinder tystiolaeth gynradd does ryfedd fod beirniaid llenyddol megis Saunders Lewis wedi troi at weithiau llenyddol y bardd a'u dychymyg eu hunain er mwyn mynd i'r afael â dehongli ei gymeriad a'i fywyd. Dyma sy'n gwneud Ceiriog yn gymeriad mor ddifyr a chymhleth – y tyndra sy'n bodoli rhwng Ceiriog y dyn a Ceiriog y bardd. I ba raddau y mae'r hyn a leisiwyd yng ngherddi'r bardd yn adlewyrchiad teg a dibynadwy o fywyd a theimladau personol Ceiriog?

Mae'r gerdd 'Mae John yn Myn'd i Loeger' (Hughes 1868, tt. 118-19) yn enghraifft o'r cymhlethdodau sydd wedi wynebu beirniaid ar hyd y blynyddoedd, o safbwynt y ffin denau rhwng pennu'r hyn sy'n ffaith neu'n ffuglen yng ngweithiau Ceiriog. Yn ei gyflwyniad i'r gerdd noda Ceiriog 'Dymunwn ddyweyd am y gân ganlynol, mai ychydig iawn o ddychymyg sydd ynnddi ond fy mod yn dyweyd fy mhrofiad oreu gallwn' (1868, t. 118). Clywn yn y gerdd am baratoadau John y llanc wrth iddo hel ei eiddo cyn gadael ei gartref am y tro cyntaf, ynghyd ag ymateb ei fam wrth iddi ffarwelio â'i mab (Hughes 1868, t. 119).

“ 'Rwy'n weddw, fel y gwyddost,
I'th dad sydd yn y ne'
Ond gelli benderfynu
Ddaw yma neb i'w le.
'Rwyf finnau'n gorfod teimlo
Yn wannach nag y bûm:
Tyr'd adref, pan y gallot,
I edrych sut yr ym.”

Wrth ystyried bod Ceiriog wedi nodi yng nghyflwyniad y gerdd ‘ychydig o ddychymygydd ynddi’ (Hughes 1868, t. 118), o ddarllen y pennill uchod, nid yw’n syndod fod Saunders Lewis wedi dod i’r casgliad ynglŷn â pherthynas Ceiriog â’i dad, a’i ddehongli fel y gwna. Cyfyd y cwestiwn sylfaenol, pam y gwnaeth Ceiriog y dewis ymwybodol o nodi bod ei fam yn wraig weddw, serch y ffeithiau bywgraffyddol bod ei dad yn fyw pan adawodd y fferm? Gellid dadlau bod cyflwyno’i fam yn y modd hwn yn ddim byd mwy na thechneg farddol er mwyn ychwanegu at deimlad ac effaith y gerdd ar y gynulleidfa. Credaf nad afresymol yw damcaniaethu ynghylch bywyd Ceiriog ar sail ei gerddi, gan fod llawer o’r cerddi yn estyn eu hunain yn naturiol i wneud hynny. Ystyriwn y pennill hwn (Hughes 1968, t. 119):

Yn fore, bore drannoeth,
Pan gysgai’r holl rai bach;
Wrth erchwyn y gwelyau
Mae John yn canu’n iach.
Carasai aros gartref,
Ond nid oedd dim i’w wneyd –
Fe gawsai aros hefyd,
Pe b’asai ’n meiddio d’weyd.

Sylwer bod Ceiriog yn cyfeirio at y ‘holl rai bach’, er gwaetha’r gwirionedd mai ef ei hun oedd aelod ieuengaf y teulu. Unwaith yn rhagor, gellid dadlau mai adlonni, teimladwyedd, ac effaith y gerdd ar y gynulleidfa, fu sbardun y bardd i gyflwyno’r sefyllfa fel y gwnaeth. Gellid dadlau mai bwriad Ceiriog yn y gerdd yw adrodd ei hanes ei hun, ond ei ystumio er mwyn gwneud yr ymadawiad yn un mwy dramatig ac argyfyngus. Hynny yw, oni fyddai’n waeth i’r fam weddw gael ei gadael ‘yn amddifad’ gan ei mab hynaf, a hithau’n gorfod gofalu am y rhai bach? Ar y llaw arall dadleua rhai megis Saunders Lewis (1929) ac W. J. Gruffydd (1939) mai cywilydd isymwybodol fu’n gyfrifol am hyn, wrth i’r bardd geisio cyfiawnhau ei ymadawiad

o'i gartref yn bymtheg oed drwy ramantu ynghylch y sefyllfa, a gwneud iawn am beidio â dilyn ôl troed ei dad ar y fferm. Yn y cyd-destun hwn yn ail hanner y pennill y ceir y llinellau mwyaf arwyddocaol i gnoi cil drostynt o safbwynt ceisio gwahaniaethu rhwng gwir deimladau Ceiriog ei hun a theimladau'r persona a gyflwynir yn y gerdd. Ceir sylwadau difyr ynglŷn â hyn mewn ysgrif gan E. Wyn James (2012, t. 119):

As he gathers his belongings together, John looks forward to leaving, but when the moment of departure arrives, he tells himself that he would really have liked to stay, but that he had to go – however, in what is perhaps the most significant couplet in the poem, Ceiriog adds that John could have stayed at home, if he only dared admit it.

Y cwpled arwyddocaol yw 'Fe gawsai aros hefyd, / Pe b'asai'n meiddio d'weyd'. Credaf fod yr hyn a ddywed y bardd yn enghraifft o'r teimladau a'r tensiynau isymwybodol sy'n ymddangos yng ngherddi Ceiriog. Serch yr 'ychydig ddychymyg' (Hughes 1868, t. 118) sy'n cael ei grybwyll ar ddechrau'r gerdd gan y bardd, nid dychymyg sydd i gyfrif am yr hyn y tystia'r cwpled dan sylw iddo. Dyma'r bardd yn datgan drwy bersona John iddo ddwyn perswâd arno ei hun tra oedd yn llanc ifanc i adael ei gartref er nad oedd rheidrwydd arno i wneud hynny. Er i Hywel Teifi Edwards mewn sgwrs yn y cylchgrawn electronig *Utgorn Cymru* (Rhagfyr 2008) grybwyll nad yw'r gynulleidfa yn dod ar draws tensiynau personol Ceiriog yng nghynnwys cerddi'r bardd, gellid dadlau yn erbyn hyn o ystyried yr hyn a ddatgelir yn y gerdd hon, ac yn enwedig yng nghyd-destun y cwpled arwyddocaol hwn. Pa ffactorau fu'n gefn i benderfyniad John dros fynd i Loegr felly, a gadael ei gartref?

Yn ei hastudiaeth ar allfudo o Geredigion yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg noda Kathryn. J. Cooper, 'A major problem in researching nineteenth-century migration is the scarcity of first-hand personal histories so that our interpretation of such factors as motivation has to be deduced from context and background' (2011, t.

7). Does ryfedd felly fod beirniaid llenyddol wedi dibynnu ar gerddi a chaneuon Ceiriog er mwyn mynd i'r afael â dadansoddi bywyd a meddylfryd y bardd yn sgil diffyg tystiolaeth uniongyrchol. Yn yr un modd a'i gerddi y mae'n bwysig gosod Ceiriog ei hun o fewn ei gyd-destun hanesyddol, a hynny er mwyn ceisio mynd i'r afael â dadansoddi ei feddylfryd a'i gymeriad. Nodwyd gan Kathryn Cooper (2011, t. 7), yn amlach na pheidio er i unigolion wneud penderfyniadau yn annibynnol ar ei gilydd i adael eu cartrefi, mewn gwirionedd yr un ffactorau cyffredin fu'n gymhelliant i nifer helaeth o'r boblogaeth fentro y tu hwnt i'w cynefinoedd gwledig. Drwy fwrw golwg dros y ffactorau cyffredin hanesyddol a fu'n ysgogiad i nifer o bobl symud oddi cartref a mentro i'r dinasoedd diwydiannol, gosodwn gyd-destun i benderfyniad Ceiriog dros adael ei gartref yn llanc ifanc ac ymgartrefu ym Manceinion.

Ni ellir bwrw golwg ar sefyllfa Cymru yn gyffredinol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg heb grybwyll yr Adroddiad Addysg a gafwyd yn 1847, a ddaeth yn enwog ymhlith y Cymry fel 'Brad y Llyfrau Gleision'. Yr hyn sy'n gwneud yr adroddiad yn ddogfen hanesyddol arwyddocaol yw'r ffaith iddo gynnig sylwebaeth lawer ehangach a chignoeth am fywyd y Cymry yn gyffredinol yn hytrach na sylwebu ar yr addysg yn unig. Mewn un rhan o'r adroddiad gwelir un o'r comisiynwyr yn sylwebu ar foesoldeb y Cymry (yn enwedig moesoldeb y merched) a hynny mewn termau nid ymhell o fod yn anifeilaidd eu natur (1848, t. 294):

The Welsh are peculiarly exempt from the guilt of great crimes. There are few districts in Europe where murders, burglaries, personal violence, rapes, forgeries, or any felonies on a large scale are so rare [...] There is another very painful feature in the laxity of morals, voluntarily attested by those who have given evidence. I refer to the alleged want of chastity in the women. If this be so, it is sufficient to account for all other immoralities, for each generation will derive its moral tone in a great degree from the influences imparted by the mothers who reared them.

Yn ogystal â'r adroddiad cignoeth am foesoldeb y Cymry, gwelir sylwebaeth yn rhedeg drwy'r adroddiad am ddiffyg cyfraith a threfn, yn ogystal â sylwadau eithafol am y Gymraeg megis (1848, t. 309):

The Welsh language is a vast drawback to Wales, and a manifold barrier to the moral progress and commercial prosperity of the people. It is not easy to over-estimate its evil effects [...] It dissevers the people from intercourse which would greatly advance their civilisation, and bars the access of improving knowledge to their minds.

O ystyried y ffactorau uchod nid yw'n syndod bod y Cymry wedi mabwysiadu teitl drama enwog R. J. Derfel, *Brad y Llyfrau Gleision*, i ddisgrifio'r adroddiad maleisus hwn ar y genedl. Serch geiriau gwenwynig yr adroddiad, mae gwerth hanesyddol i'r gwaith. Er mai prif bwrpas yr adroddiad oedd bwrw golwg ar y system addysg yng Nghymru, rhaid cofio bod y canllawiau a roddwyd i'r arolygwyr yn nodi, 'In reporting on the number and description of schools in any district, you will not fail to keep in mind the amount, character and condition of the population' (1848, t. iii). Wrth edrych ar yr adroddiad, anodd yw osgoi'r sylwadau a wnaed ar safonau byw y Cymry. Disgrifir bythynnod y gwerinwyr yn aml yn fach ac yn fudr, lle gwelwyd teulu niferus yn cyd-fyw'n agos â'u da byw (1848, tt. 292-3). Nid oedd yn gysyniad anarferol i deulu cyffredin fyw, gweithio a chysgu o fewn tyddyn un stafell â'i gilydd. Yn ôl yr hanesydd Geoffrey Best, 'rural labouring class housing remained generally dismal until at least the [eighteen] seventies' (1971, t. 86). Hawdd yw dychmygu nad oedd safonau byw teulu cyffredin o gefn gwlad Cymru yn ffafriol. Er bod yr Adroddiad Addysg wedi creu drwgdeimlad ymysg y Cymry ar y pryd ac am flynyddoedd wedyn, ni ddylid diystyru'r ffeithiau hanesyddol a nodwyd ynddo, gan iddo gynnig mewnwelediad ar fywydau Cymry'r cyfnod. Er nad yw'r adroddiad yn cyfeirio at Lanarmon yn benodol, gellid dadlau bod yr hyn a nodwyd am safonau byw tloidaidd a chyfyng y werin yn adlewyrchu un o'r rhesymau posibl y tu ôl i

benderfyniad Ceiriog a llawer un tebyg iddo dros ymgartrefu y tu hwnt i'w cynefinoedd gwledig. Gellid dadlau bod y portread milain a gyflwynwyd o natur y Cymry yn yr adroddiad wedi ysgogi llawer un i geisio gwella'i sefyllfa.

Yn gysylltiedig â safonau byw, mae apêl economaidd y dinasoedd o'u cymharu â chefn gwlad Cymru wedi profi'n atynfa i'r Cymro cyffredin fudo. Dywed Tristram Hunt (2004, t. 15) wrth archwilio twf poblogaeth y dinasoedd yn ystod Oes Victoria fod mewnfudo o gefn gwlad wedi bod yn ffactor hollbwysig: 'Forced out of the countryside by the enclosures and the decline of labour-intensive agriculture, and lured by the higher wages offered by millwork and manufacturing, tens of thousands of rural migrants flooded to the industrialising cities.' Wrth ystyried yr hyn a ddywed Tristram Hunt am gyfleoedd ac atynfa'r dinasoedd yn sgil dyfodiad diwydiant trwm, nid yw'n syndod bod Ceiriog wedi nodi'r awydd i fudo o'r fferm a mentro yn y ddinas yn 'Mae John yn Myn'd i Loeger' (Hughes 1868, tt. 118-19). Daeth Ceiriog i oed mewn cyfnod lle gwelwyd newid cymdeithasol anferth rhwng y 1840au a'r 1870au (Jones 1992, t. 104). Dyma gyfnod o ymchwydd a llwyddiant ariannol na welwyd ei fath o'r blaen wrth i'r Deyrnas Gyfunol brofi'i hun yn ddigyffelyb fel y genedl gyfoethocaf yn y byd (Altrick 1974, t. 12). Does ryfedd felly fod y gŵr ifanc am ehangu'i orwelion a phrofi'r newid drosto'i hun yng nghanol bwrlwm a llewyrch diwydiannol oes aur Victoria draw ym Manceinion. O gymharu â'r datblygiadau a welwyd yn y trefi a'r dinasoedd, bach ac araf oedd y newidiadau a welwyd yng nghefn gwlad yn ystod yr un cyfnod (Best 1971, t. 84). Dywed Kathryn. J. Cooper (2011, 83), 'Through newspapers, magazines and word of mouth, then, the rural populace were increasingly made aware of life beyond the narrow confines of their neighbourhood, and new horizons with their economic, commercial and social attractions constantly beckoned.' Yn wahanol i bentrefi tlawd cefn gwlad Cymru a'r

cylchoedd cymdeithasol cyfyng, roedd y trefi a'r dinasoedd yn cynnig gyrfaoedd deniadol a'r siawns i ennill rhagor o arian, yn ogystal â chylch cymdeithasol ehangach i'r Cymry cyffredin a llawer o'r rheiny yn Gymry ifanc. Dywed E. G. Millward (1991, t. 42):

Profiad llawer o'r Cymry oedd gweld eu gwlad yn newid o flaen eu llygaid yn y cyfnod hwn, Oes Aur ysgytwol y Chwyldro Diwydiannol. Cefnodd lliaws ohonynt ar y fferm a'r tyddyn a'r bwthyn bach to gwellt i fynd i feysydd glo'r de-ddwyrain lle'r oedd y cyflogau dipyn yn well, os nad oedd yr amodau byw a gwaith, ac eraill yn ymfudo'n bellach byth i ddinasoedd mawr, myglyd, Lloegr neu hyd yn oed yn eu halltuduo eu hunain yn America.

Roedd newydd-deb y dinasoedd yn sgil y datblygiadau economaidd yn destun chwilfrydedd i lawer o Gymry ifainc oedd am brofi'r wefr drostynt hwy eu hunain. Yn gysylltiedig ag atynfa'r trefi a'r dinasoedd fe â Kathryn. J. Cooper ymlaen i nodi, 'For younger people there was the urge for a change or simply the need to escape the isolation and boredom of rural life' (2011, t. 218). Roedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gyfnod o ehangu gorwelion a'r awydd ymysg rhai i brofi rhywbeth newydd. Gellid dadlau'n gryf mai'r un fath o deimladau a ddenodd Ceiriog i fentro allan o Lanarmon ac unigedd a thlodi bywyd amaethyddol, gan ymsefydlu ym merw cymdeithasol Manceinion. Roedd yr awydd i fentro, a rhyddid yr unigolyn, yn rhan annatod o natur a ffasiwn gymdeithasol Oes Victoria yn gyffredinol. Yn wir, dyma'r llinyn sy'n cydio wrth ei gilydd yr holl resymau a nodwyd ynglŷn â chymhelliant y Cymry dros symud y tu hwnt i'w cynefinoedd gwledig.

Wrth edrych ar y ffeithiau hanesyddol cymdeithasol, gwelwyd bod nifer o ffactorau megis safonau byw, sefyllfa economaidd, a rhesymau personol wedi bod yn ysgogiad dros benderfyniad nifer o'r Cymry dros fentro a gadael eu mamwlad. Drwy osod Ceiriog ei hun yng nghyd-destun y ffeithiau hanesyddol a nodwyd, gellid rhoi ystyriaeth ddwysach i wir resymau John dros fynd i Loegr, ac ystyr pellach i'r

llinellau ‘Fe gawsai aros hefyd, / Pe b’asai’n meiddio d’weyd’ (Hughes, 1968, t. 119). Er gwaethaf y ffaith bod cyfle i John aros gartref a dilyn troed amaethyddol ei dad, gellid dadlau mai’r hyn nad oedd John yn meiddio’i ddweud oedd ei fod yn bersonol am symud oddi yno er mwyn magu blas ar y cyfleoedd newydd oedd ar gael yn y dinasoedd ynghyd â’r cyfleoedd economaidd ehangach. Er bod cerddi hiraethus Ceiriog am Gymru yn cyflwyno’r argraff bod y bardd yn alltud o’i wlad, rhaid cofio mai alltud o ddewis o bosib oedd Ceiriog mewn gwirionedd. Wrth edrych ar y ffeithiau hanesyddol yng nghyd-destun rhesymau cyffredin y Cymry dros fudo y tu hwnt i’r ffin yn ystod yr oes, mae modd damcaniaethu gyda mwy o hyder am resymau Ceiriog ei hun dros adael ei gynefin yn hytrach na dibynnu ar dystiolaeth y cerddi yn unig. Credaf nad ydym ymhell o’r gwirionedd wrth ystyried yr hyn a ddywed Medwin Hughes ynglŷn â’r bardd, mai ‘Plentyn ei oes oedd Ceiriog’ a hynny wrth iddo ddilyn ffasiwn mudo y cyfnod yn sgil y Chwyldro Diwydiannol (1987, t. 65).

Y Cymry ym Manceinion

Yn ôl Asa Briggs roedd Manceinion yn symbol gweledol o ddyfodiad yr oes newydd a wawriodd yn Oes Victoria, yn sgil twf aruthrol y ddinas a thra-arglwyddiaeth y diwydiant cotwm yno (1990, t. 88). Dyma ddinas a oedd yn prysur amlygu’i hun, gan dyfu’n llawn mor ddylanwadol yn ystod Oes Victoria â dinasoedd megis Lerpwl. O ystyried bod Manceinion fel Lerpwl nid nepell o ffin ogleddol Cymru, nid yw’n syndod bod cynifer o Gymry wedi mentro yno i brofi gwefr y ddinas a’i phrysurdeb drostynt hwy eu hunain. Roedd pobl wedi’u hudo ledled y Deyrnas Gyfunol gan y dinasoedd a’u cyfleoedd. Noda’r hanesydd Richard Dennis, ‘While the total population of England and Wales increased just over four-fold from 1801 to 1911, urban population increased nine and a half times’ (1984, t. 43). O safbwynt y Cymry a

fentrodd i'r dinasoedd poblog dywed Kathryn Cooper, 'In 1851 the only English cities with communities of more than 10,000 Welsh-born individuals were Liverpool and London [...] The next in rank was Manchester (with Salford) with 6,850 Welsh natives or 1.7 per cent of its population' (2011, t. 155). Un ymhlith y 6,850 hynny oedd Ceiriog.

Mentrodd Ceiriog allan o'i gynefin amaethyddol yn 1847, ac wedi cyfnod byr (tri mis) yn gweithio fel prentis i argraffydd yng Nghroesoswallt, darganfu ei hun yng nghanol prysurdeb Manceinion. Cychwynnodd y glaslanc ei yrfa yn y ddinas yn gweithio yn siop groser y Cymro Thomas Williams yn 55 Oxford Street rhwng 1849 a 1854. Ceir awgrym gan Saunders Lewis (1929, t. 18) bod Ceiriog am gyfnod wedi mentro sefydlu siop groser ei hun yn y ddinas, cyn symud ymlaen i weithio am weddill ei amser yno fel ysgrifennydd yng ngorsaf nwyddau rheilffordd London Road. Bu cysylltiad Ceiriog â'r rheilffyrdd yn elfen ganolog yn ei fywyd, gan fod y cysylltiad hwn wedi llywio rhan helaeth o'i fywyd. Crybwyllwyd ynghynt bod yr awydd i fentro wedi bod yn gymhelliant i lawer o bobl dros symud i'r trefi a'r dinasoedd. Os dyma un o resymau'r bardd dros adael ei fagwraeth amaethyddol, yna fe wireddwyd ei ddymuniad wrth weithio ynghlwm â diwydiant y rheilffyrdd oherwydd dywed Richard Altrick (1974, t. 75), 'To the Victorian mind, the coming of the railway was the great demarcation line between past and present.'

Y tu hwnt i fyd y rheilffyrdd, ni ellir trafod agweddau ar fywyd y bardd ym Manceinion heb ystyried yr elfen gymdeithasol a llenyddol. Yn ogystal ag ennill ei le fel un o feirdd poblogaidd amlycaf ei oes yn ystod ei gyfnod ym Manceinion, fe gyfrannodd Ceiriog at lenyddiaeth Gymraeg mewn modd a anwybyddwyd i raddau helaeth gan feirniaid llenyddol hyd yn hyn, a hynny fel gohebydd i un o bapurau newydd Cymraeg mwyaf llwyddiannus a dylanwadol y cyfnod sef *Baner ac Amserau*

Cymru. Rhwng 1861 a dechrau 1864 bu Ceiriog yn cyfrannu i'r papur fel gohebydd Manceinion gan adrodd am ddigwyddiadau yn ymwneud â'r gymdeithas Gymraeg yn y ddinas, yn ogystal ag ymateb i newyddion rhyngwladol y dydd. Yn amlach na pheidio erthyglau oddeutu dwy golofn o hyd yw'r hyn a gyflwynwyd gan Ceiriog, a'r erthyglau hynny yn ymddangos bob yn ail wythnos yn ystod y flwyddyn gyntaf, ac yna'n fwy achlysurol wrth i'r blynyddoedd fynd rhagddynt. Gohebiaeth go eclecticig yw'r hyn a gyflwynwyd gan Ceiriog. Arferion y gymdeithas Gymraeg ym Manceinion yw'r hyn sy'n dwyn sylw ar ddechrau'r gyfres o erthyglau, megis hanes cyrddau a chyngherddau'r gymdeithas. Wrth i amser fynd rhagddo gwelir bod y pynciau yn fwy amrywiol ac yn cynnwys ymateb i ddigwyddiadau rhyngwladol, hanes a newyddion Manceinion yn gyffredinol, ymateb i lenyddiaeth Gymraeg, ac fel y gellid disgwyl, ac yntau'n ysgrifennydd rheilffordd, ceir trafod diwydiant y rheilffyrdd. Prin yw'r drafodaeth a gafwyd gan y beirniaid llenyddol ar ei waith newyddiadurol. Yn ei draethawd beirniadol, nododd H. Elfed Lewis, fod ei golofnau yn y papur, o gymharu â cherddi Ceiriog '...o angenrheidrwydd, yn fwy cyffredinol: ac o gymaint a hynny yn llai nodweddiadol [...] Yn wir, colled i Ceiriog fu ei lenyddiaeth newyddiadurol' (1899, t. 27). Hynny yw, crêd H. Elfed Lewis nad oedd deunydd newyddiadurol Ceiriog o'r un ansawdd a bri o gymharu â'i farddoniaeth. Ar y llaw arall dywed Isaac Foulkes am waith y bardd fel gohebydd, 'Os oedd rhyw fai ar ei lythyrau, rhy dda oeddynt i lenyddiaeth ddarfodedig fel papur newydd' (1887, t. 82). Mae'n wir mai cerddi a chaneuon Ceiriog fu'n gyfrifol am ennill edmygedd ei genedl tuag ato, a dyna sydd wedi derbyn y sylw gan y beirniaid llenyddol ar hyd y blynyddoedd. Serch hyn, ni ddylid anwybyddu cyfraniad Ceiriog fel gohebydd. Er mwyn deall arferion a natur y Cymry oddi cartref, ac yn wir er mwyn magu blas ar

fywyd y bardd ei hun yn y ddinas, bwriwn olwg manylach yma ar gynnwys rhai o'r erthyglau hyn.

Pan ddechreuwyd cyhoeddi y *Faner*, dechreuodd gohebydd Llundain ei lythyrau wythnosol, ac erbyn heddyw, nid oes un newyddiadur Cymreig o'r bron, nad yw yn meddu cwilsyn llwyd yn y brifddinas a threfydd eraill yn cofnodi digwyddiadau yr wythnos, ac yn gwneuthur sylwadau ar bob symudiad o bwys mewn gwleidyddiaeth, llenyddiaeth a chrefydd. Os gallaf wneud cyfiawnder â Chymry Manceinion yn y dull hwn, bod yn deilwng o'r cyhoeddiad wyf yn ysgrifennu iddo, a'r frawdoliaeth swyddogol sydd yn cydweithio â mi ar y maes, nid wyf yn amheu na chaf bleser eto, os estynnir fy oes i flynyddoedd henaint, wrth fwrw golwg dros golofnau y *Faner*.

Dyma a nodwyd gan Ceiriog yn ei erthygl gyntaf fel 'Gohebydd Manchester' yn rhifyn 6 Mawrth 1861 *Baner ac Amserau Cymru*. Er nad yw'n enwi ei hun yn uniongyrchol yn y darn, nac yn y rhai a ddilynir, ceir awgrymiadau drwy'r erthyglau a'r ysgrifau mai Ceiriog yw awdur y darnau, megis y sôn am ddiwydiant y rheilffyrdd ac am Ddyffryn Ceiriog. Sylwer yn y darn uchod bod Ceiriog yn cyfeirio at John Griffith (1821-77), 'Gohebydd Llundain', fel arweiniad ac ysbrydoliaeth wrth fynd ati i ysgrifennu ar gyfer y papur. Wrth drafod John Griffith dywed Dylan Iorwerth (2007, t. 8):

Nid unrhyw ohebydd oedd hwn ond 'Y Gohebydd', y riportar proffesiynol cyntaf yn y Gymraeg a'r dyn oedd yn dod â gwleidyddiaeth yn fyw trwy gyfrwng ei Lythyr o Lundain.

Dyma Ceiriog yn gosod her uchel iddo'i hun wrth geisio dilyn ôl troed gohebydd proffesiynol cyntaf y Gymraeg. Yr hyn y mae'n rhaid ei gadw mewn cof am adroddiadau Ceiriog yw mai cynnig sylwebaeth am fath arbennig o Gymry ydoedd – y Cymry dosbarth canol dinesig. Yn ôl yr hanesydd Richard Altrick (1974, t. 75), prif ffenomen hanes cymdeithasol y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd dylanwad ac ymchwydd sylweddol y gymdeithas dosbarth canol, a hynny yn sgil twf economaidd y chwyldro diwydiannol. Dyma sy'n gwneud erthyglau Ceiriog yn dystiolaeth amhrisiadwy, a hynny am iddynt gynnig blas ar arferion y gymdeithas dosbarth canol

o Gymry Cymraeg ym Manceinion yn ystod Oes Victoria. Un o'r arferion hynny y mae Ceiriog yn sylwebu arno yn ei ohebiaeth yn rhifyn 20 Mawrth 1861 yw'r cyrddau te ffasiynol. Trafodir y weithred o gynnal partion a chyrddau te yn ystod Oes Victoria gan E. G. Millward yn ei gyfrol '*Gym'rwch chi baned?*' – *Traddodiad y Te Cymreig* (2000). Yn y gyfrol fechan hon ceir enghreifftiau o gysylltiad Prydain ac yn arbennig y Cymry â the o ail hanner yr ail ganrif ar bymtheg hyd at yr ugeinfed ganrif, wrth i'r awdur ddarparu cyfeiriadau amrywiol a welwyd am de a'r gymdeithas mewn barddoniaeth a rhyddiaith Gymraeg. Yn yr adran a neilltuwyd ar gyfer trafod y 'Gwyliau te yn Oes Victoria' dywed yr awdur, 'Yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg yr oedd cynnal gwyliau te yn ffordd boblogaidd gan enwadau crefyddol o godi arian i glirio'r ddyled ar y capeli' (Millward 2000, t. 40). Yn wir, yn ôl Ceiriog yn ei erthygl, 'Diben pennaf cyrddau te yw gwneud ychydig arian at ryw achos neu sefydliad daionus.' Wrth ddarllen yr erthygl ar ei hyd ceir yr argraff bod y cyrddau te hyn yn fwy nag achlysuron i godi arian at achos da. Yn ogystal â gwneud i'r gymdeithas dosbarth canol deimlo'n ddaionus amdanynt hwy eu hunain, roedd y cyrddau te yn esgusodion da i gymdeithasu, gwrandao ar gerddoriaeth a bwyta! Dywed Ceiriog, 'rywfodd y mae bwyta yn fwynhad i bawb, ac yfed te yn gelfyddyd hyddysg gan bob gŵr a gwraig yn Ynys Prydain'. Clywir llais y gŵr sydd wedi'i drwytho ym meddylfryd y gymdeithas dosbarth canol yn glir yn yr erthygl hon, yn enwedig wrth iddo gyfeirio at yfed te fel 'celfyddydd hyddysg' ymysg holl drigolion Prydain! Yn yr un modd, ceir sawl erthygl arall sy'n cyfeirio at ffasiynau cymdeithasol yr oes a'r modd y bu'r Cymry ym Manceinion yn dilyn yr un tueddiadau poblogaidd, er enghraifft, yr arferiad ffasiynol o fynd ar wyliau neu deithiau arbennig. Yn ei ohebiaeth yn y *Faner* gwelir Ceiriog yn trafod yr arferiad dosbarth canol o fynd ar deithiau gyda phicnic allan i ganol y wlad (24 Gorffennaf 1861), yr arferiad o

‘bleserdeithio ar fôr a thir’ (25 Medi 1861), yn ogystal â chrybwyll ‘hafdeithiau’ y Cymry dinesig yn ôl i gefn gwlad Cymru (24 Medi 1862). Mae’r arferion hyn a grybwyllir gan Ceiriog yn ei ohebiaeth yn rhoddi’r argraff fod y Cymry dosbarth canol y cyfeiriwyd atynt yn gwneud ymdrech ymwybodol i ddilyn yr un arferion ffasiynol â’u cyd-ddinasyddion, a hynny er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu derbyn yn rhan o’r gymdeithas ddosbarth canol ehangach.

Enghraifft arall o arferiad adloniadol a fabwysiadwyd gan y Cymry ym Manceinion y mae Ceiriog yn dewis sylwebu arno yw chwarae criced. Yn ddifyr iawn ceir cerdd gan Derec Llwyd Morgan yn ei erthygl ar chwaraeon yn y cylchgrawn *Barn*, sy’n cymharu’r cricedwr cyfoes Moeen Ali â Ceiriog (Morgan 2014, t. 50):

Pan yw ar faes
yn ei farf Geiriogaidd laes,
a yw Moeen Ali
yn dyfalu
fel awdur ‘Alun Mabon’
yn awenwych ffrwythlon?

Ni wn. Ond gwn –
ni bu dim cyn sicred –
na chwaraeodd y bardd
erioed gêm o griced.

Er gwaethaf y tebygrwydd allanol rhwng Ceiriog ac Ali Moeen a’u llwyddiant yn eu meysydd, dywed Derec Llwyd Morgan gyda sicrwydd na fu Ceiriog yn gricedwr erioed. Serch y ffaith nad oes prawf fod Ceiriog yn chwarae criced fe’i gwelwn yn rhoi sylw i’r gamp yn ei ohebiaeth. Mewn erthygl ar 25 Mehefin 1862, gwelir Ceiriog yn trafod yr arferiad ymhlith y Saeson o ‘chwareu criced ar brynhawniau teg yr haf’ ar un o’r cannoedd o feysydd criced a oedd wedi’u lleoli ar hyd ac ar led Manceinion, ac fe â Ceiriog yn ei flaen i nodi:

Mae yn llawen gan fy nghalon hysbysu fod gwyr ieuainc perthynol i’r Methodistiaid Cymreig yn nghapel Salford a chapel Grosvenor square wedi ffurfio dau glwb criced, ac adwaenir hwy dan yr enwau y Salford Cambrian a’r Manchester Cambrian Cricket Clubs.

Gwelir yma enghraifft o ymdrech y Cymry i ddod yn rhan o'u cymdeithas newydd drwy fabwysiadu'r un arferion â'u cyd-ddinasyddion Seisnig. Dyma fath newydd o hunaniaeth Gymreig yn amlygu'i hun wrth i'r gymdeithas gapelyddol Gymreig ledu'i hadenydd a cheisio trwytho'i hun yn niwylliant traddodiadol y Sais. Gellid dadlau bod y Cymry, yn yr un modd â'r arferiad o fynd ar deithiau a gwyliau haf, yn gwneud dewis ymwybodol fel lleiafrif ethnig o fewn y ddinas i gymhathu traddodiadau newydd â'r hen arferion a hynny er mwyn cael eu derbyn a'u cydnabod yn rhan o'r gymdeithas ehangach.

Law yn llaw â chynnig blas ar arferion cymdeithasol y gymdeithas Gymreig dosbarth canol ym Manceinion, mae gohebiaeth Ceiriog yn cynnig awgrymiadau difyr ynghylch hunaniaeth a chenedlaetholdeb y Cymry a oedd yn byw dros y ffin.

Hunaniaeth ddeublyg go gymhleth a berthynai i'r Cymry dinesig a drafodir yn yr ohebiaeth, ac yn wir i'r Cymry yn gyffredinol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn ein dyddiau ni yr hyn a ddaw i'r meddwl wrth ystyried natur cenedlaetholdeb a chenedlgarwch Gymreig yw'r ymgais ymwybodol i ddiogelu hen draddodiadau, pwysigrwydd parhad yr iaith Gymraeg, a'r awydd ymysg cenedlaetholwyr pybyr am annibyniaeth. Serch hyn, camgymeriad yw ystyried bod yr un math o genedlaetholdeb Gymreig yn nodweddu Cymry gwlatgar y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Un sydd wedi trafod hunaniaeth ddeublyg a chymhleth Cymry Oes Victoria yw Branwen Jarvis yn ei hysgrif 'Ceiriog a Chymru' yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1987). Yn ei thrafodaeth cyfeiria Branwen Jarvis at y syniad a oedd yn amlygu'i hun yn yr Almaen yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg sef y 'Volkgeist', a'i gymharu â sefyllfa hunaniaeth Cymru yn ystod yr un cyfnod. Dywed Branwen Jarvis (1987, tt. 86-7) '...mai hanfod bodolaeth cenedl oedd y "Volksgeist", ysbryd y bobl wedi'i fynegi yn ei diwylliant a'i

harferion a'i thraddodiadau hi [...] Lladmerydd 'Volksgeist' y Cymry ydoedd ef [Ceiriog]. Er bod Ceiriog yn lladmerydd diwylliant, arferion a thraddodiadau y Cymry diolch i'w gerddi a'i ysgrifau, yr hyn a bwysleisia Branwen Jarvis yn ei hysgrif yw nad mater du a gwyn oedd y syniad o genedl a hunaniaeth Gymreig yn Oes Victoria. Trafoda Branwen Jarvis yr agweddau gwahanol a oedd yn gwneud cenedlaetholdeb Cymry Oes Victoria yn un amlochrog, megis ymlyniad y Cymry wrth Brydain a'r Ymerodraeth, yn ogystal â'r angen i'w profi eu hunain gerbron Lloegr a'r Saeson tra'n parhau i geisio cynnal diwylliant Gymreig a'r iaith Gymraeg.

Un o'r agweddau sy'n amlygu cymhlethdod hunaniaeth a chenedlaetholdeb Cymry Oes Victoria yw'r frenhiniaeth. Yn rhan o'i drafodaethau yn y gyfrol *Glyndŵr a Gobaith y Genedl: Agweddau ar y Portread o Owain Glyndŵr yn Llenyddiaeth y Cyfnod Modern* (2007), trafoda E. Wyn James yr agweddau ar genedlaetholdeb a geir yn nramâu Beriah Gwynfe Evans (1848-1927). Yn ogystal â bod yn ddramodydd ac yn newyddiadurwr enwog, yr oedd Beriah yn un o hoelion wyth mudiad cenedlaethol cyntaf Cymru, 'Cymru Fydd', a sefydlwyd ym 1886.

...amcan Mudiad Cymru Fydd ydoedd dwyn unoliaeth a grym i fywyd Cymru, ac ennill hawl Seneddol iddi i fynegi'r bywyd hwnnw yn ei ffordd ei hun, ynglŷn â'i materion ei hun.

Dyma'r ffordd y cyflwynir amcanion Mudiad Cymru Fydd gan William George (1945, t. 10). Llais a chynrychiolaeth Gymreig a hynny mewn senedd i Gymru oedd ei angen ar y Cymry yn ôl y mudiad, er mwyn sicrhau hawliau i'r Cymro cyffredin. Er bod amcanion y mudiad am gynrychiolaeth deg i Gymru yn rhywbeth y mae pob cenedlaetholwr yn parhau i ymgyrchu amdano, rhaid cofio nad oedd cenedlaetholdeb y bedwaredd ganrif ar bymtheg a chenedlaetholdeb modern yn cyfateb i'w gilydd. Yn wir, dengys cymeriad Beriah Gwynfe Evans yn debyg i sawl Cymro o'i oes gymhlethdodau i'w genedlaetholdeb. Roedd teyrngarwch i goron Prydain a'r syniad

fod Cymru yn rhan o annatod o'r Ymerodraeth Brydeinig yn allweddol i wladgarwch a hunaniaeth Cymry Oes Victoria. Byth er teyrnasiad Harri Tudur â'i gysylltiadau Cymreig, roedd gan y Cymry ymlyniad sentimental at y frenhiniaeth, gan weld yn Harri Tudur gyflawni'r freuddwyd ramantaidd y byddai Cymro yn adennill coron Prydain ryw ddydd (James 2007, t. 67). Dyna, er enghraifft, y gerdd 'Tywysog Cymru' (1862, tt. 96-8) o waith Ceiriog sy'n clodfori'r tywysog Albert Edward (mab hynaf y frenhines Victoria). Egyr y gerdd trwy gyfeirio at farwolaeth Llywelyn Ein Llyw Olaf, a digalondid y Cymry wrth edrych am Gymro arall i'w harwain – 'Am deyrn edrychai Cymru gu / Yn anobeithiol iawn' (Hughes 1862, t. 96). Serch hyn newidir tôn y gerdd yn fuan wedi'r digalondid, wrth i Ceiriog lawenhau yn y ffaith bod ysbryd a llais Llywelyn yn parhau drwy'r tywysog newydd (Hughes 1862, t. 97):

Mewn tywysogion gwiw,
Caiff hen Lewelyn Cymru fyw,
Trwy holl derfysgoedd byd.
Byw byw! Y bo't, ein t'wysgog cu.

Dywed Hywel Teifi Edwards fod '...gwahaniaeth rhwng cenedlaetholdeb Cymreig yr ugeinfed ganrif a gwladgarwch Cymreig hiraethlon Oes Victoria' (1987, tt. 44-5). Yn wir, dyma'r math o ymdeimlad a welir yn y gerdd, sef gwladgarwch hiraethlon y cyfnod. Er mai o bell yr oedd Albert Edward yn perthyn i'r hen dywysogion Cymreig, cred Ceiriog yn debyg i lawer o Gymry ei oes fod ysbryd yr hen dywysogion cynhenid Cymreig megis Llywelyn ein Llyw Olaf yn byw drwy'r tywysogion newydd. Yn yr un modd, wrth drafod arwyddocâd y portread o Owain Glyndŵr a'r cenedlaetholdeb rhamantaidd a geir yn nramâu Beriah Gwynfe Evans megis 'Glyndŵr: Tywysog Cymru' (1911) a 'Caradog' (1904), dywed E. Wyn James (2007, t. 59) fod y dramâu yn:

...adlewyrchu'r teyrngarwch deublyg a welwn yn Beriah Gwynfe Evans, fel yn y rhan fwyaf o Gymry gwlatgar ei ddydd; oherwydd yr oedd Beriah y Cymro brwd hefyd yn frwd dros yr Ymerodraeth Brydeinig.

Yn wir, dyma sy'n nodweddu cenedlaetholdeb Cymreig Oes Victoria, sef y gallu i fyw a bod fel Cymro sy'n meddu ar yr iaith, ac sy'n parchu ei llenyddiaeth a'i thraddodiadau, law yn llaw ag amlygu brwdfrydedd a balchder dros yr Ymerodraeth Brydeinig, cysyniad fel yr awgrymwyd gan E. Wyn James '...sy'n ddirgelwch i genedlaetholwyr Cymreig ein dyddiau ni' (2007, t. 63). Gwelir agweddau o'r gwladgarwch deublyg a drafodwyd yng nghyd-destun Beriah Gwynfe Evans yn erthyglau Ceiriog i *Baner ac Amserau Cymru* yn ogystal ag yn ei gerddi. Yn ôl Gareth Elwyn Jones (1994, t. 209):

The nineteenth century saw an increasing consciousness of Welshness which co-existed, with few strains until the end of the century, with loyalty to monarch, British state and Empire. Welsh literary activity and this sense of Welshness were closely linked.

Ceir enghraifft o ymlyniad a diddordeb y Cymry yn y teulu brenhinol yn erthygl 25 Rhagfyr 1861, a hynny wrth i Ceiriog ymateb i farwolaeth y tywysog Albert, gŵr y frenhines Victoria. Egyr yr ohebiaeth â'r gerdd 'Duw Gadwo'r Frenhines' sy'n ymbil ar Dduw i ofalu am y frenhines yn ystod ei galar. Yn dilyn y gerdd ceir erthygl sy'n amlygu galar ac ymateb y genedl Brydeinig i'r golled frenhinol.

Mewn rhyfeloedd dros anrhydedd ein baner, mewn brwydrau dros ein tiriogaethau tramor, ac mewn gwendidau llawen yn ngwyneb ei mawrhydi, yr amlyga teyrngarwch ei hun yn gyffredin. Cadernid a gwroldeb sydd yn eistedd fynychaf ar wedd Britannia. Ond tarawyd y graig! Pan oedd Prydain yn dyrchafu'r cleddyf, ac yn anelu ei magnelau dros y môr, sythodd ei braich – a dallwyd ei golygon gan ddagrau [...] Yn wyneb y golled drom a gafodd y frenhines a'r genedl yn marwolaeth sydyn y Tywysog, yn amddifadiad ei phlant o dad tyner a doeth, yn y galar dwfn a diragrith y mae pob gwladgarwr wedi ei daflu iddo, y mae llawer o ddiddanwch y gwyliau presennol wedi ei fygu yn y fynwes Brydeinig.

Awgrymir gan Ceiriog fod pob Prydeiniwr yn mynegi eu teyrngarwch a gwladgarwch nid drwy ymladd ac amddiffyn y deyrnas ar faes y gad, ond yn emosiynol drwy gyd-alaru â Victoria. Rhoddir yr argraff bod pob Prydeiniwr yn teimlo'r golled yn yr un modd â petai aelod o'u teulu eu hunain wedi marw. Onid yw'n ddifyr, o gofio bod

Baner ac Amserau Cymru yn bapur newydd ar gyfer y Cymry, sylwi ar y defnydd o'r rhagenw personol 'ein' yn y darn, yn ogystal â'r ymadrodd 'pob gwladgarwr'. Dengys y ffaith i Ceiriog gynnwys ymadroddion o'r fath fod y golled frenhinol yn fater o bwysigrwydd ac yn berthnasol i Gymry benbaladr. Galar cenedlaethol yw'r hyn a fynegir gan Ceiriog sy'n amlygu'r teyrngarwch a oedd yn rhan o seice Cymry'r cyfnod. Nid yn unig yng ngohebiaeth Ceiriog yn y *Faner* y gwelwn y math o Gymreictod a drafodwyd gan Gareth Elwyn Jones sy'n cynnwys teyrngarwch i goron Prydain a ffyddlondeb i'r ymerodraeth. Ceir sawl cerdd gan y bardd sy'n amlygu Cymreictod o'r fath, megis yn y gân 'Arglwydd Cadw Hi' (Hughes 1868, t. 127) a'r gerdd 'Brenhines ein Gwlad' (Hughes 1888, t. 99). Yn wir, ceir enghraifft bellach o'r Cymreictod deublyg ac ymerodraethol yn erthygl 5 Mawrth 1862 o *Baner ac Amserau Cymru*, sy'n trafod cyngerdd Gŵyl Dewi y gymdeithas Gymreig ym Manceinion. Ceir sylwadau gan Ceiriog ynglŷn â chantorion a cherddorion Cymreig amlycaf y dydd megis Kate Wynne, Brinley Richards a'r telynor adnabyddus John Thomas, a fu'n perfformio ffefrynnau cerddorol y Cymry i'r gynulleidfa. Yr hyn sy'n werth ei nodi o ran y ddeuliaeth wladgar, yw'r ffaith mai *Rule Britannia* oedd un o'r caneuon a berfformiwyd yn y gyngerdd Gŵyl Dewi honno. Dyma dystiolaeth uniongyrchol o'r ddeuliaeth arwyddocaol a berthyn i wladgarwch Cymreig y cyfnod. Mewn dathliad Cymreig o'r fath dengys y ffaith i'r gyngerdd gynnwys anthem ymerodraethol enwog, fod y Cymry yn ystyried y cysylltiad Prydeinig yn rhan allweddol o'u Cymreictod fel yr awgrymwyd gan Branwen Jarvis, E. Wyn James a Gareth Elwyn Jones.

Yn sgil symud i Fanceinion canfu Ceiriog ei hun yn rhan o fwrlwm cymdeithasol Cymry'r ddinas, a roddodd y cyfle iddo gyfarfod dynion o'r un anian ag ef. Yn ôl Saunders Lewis (1929, t. 22), 'Y cymdeithasau hyn oedd pethau gorau bywyd Cymreig Manceinion [...] Cyfarfyddai'r cymdeithasau mewn coffe neu

demprans. Dadleuent ynghylch llenyddiaeth, gwrandawent ar ddarlithiau ac ar ganu gyda'r delyn.' Yn wir ceir cofnod gan Ceiriog yn erthygl 26 Mehefin 1861 sy'n trafod cymdeithas lenyddol o'r fath yn y ddinas:

Lled fechan ydyw ein cylch llenyddol Cymreig yn Manchester. Ychydig iawn o ysgrifenyddwyr Cymreig sydd yn mysg ein poblogaeth Gymreig. Ond y mae yma nifer lled dda yn hoffi darllen llenyddiaeth Cymru; ac nid wyf yn ammheu nad yw Cymry Manceinion, a'u cymmeryd efo'u gilydd, yn fwy hyddysg yn hanesyddiaeth eu cenedl, a gweithiau ein hen awduron, nad ydyw eu brodyr sydd wedi aros yng Nghymru.

Gwelir yma y parch a deimlwyd gan Ceiriog tuag at y gymdeithas lenyddol, a hynny am iddo gredu bod y Cymry hyn oddi cartref yn fwy ymwybodol a balch o'u traddodiadau a'u diwylliannau Cymreig na'r Cymry yn y wlad ei hun. Fel aelod o gylch llenyddol Manceinion, daeth Ceiriog i gysylltiad ac i gyfeillgarwch agos â dynion megis Creuddynfab, R. J. Derfel, Ionawrwyn Williams, ac Idris Fychan i enwi ychydig yn unig. Yn ei ragymadrodd i'r gyfrol *Detholiad o Ryddiaith Gymraeg R. J. Derfel* (1945) dywed D. Gwenallt Jones (1945, t. 28) fod R. J. Derfel wedi cyfeirio at y cylch lenyddol clòs ym Manceinion yn ei hunangofiant. Wrth drafod dylanwad y cylch agos hwn o feirdd a beirniaid llenyddol ar ei gilydd dywed Gwenallt (1945, t. 29):

'R oedd dylanwad Creuddynfab yn drwm ar Geiriog ac R. J. Derfel. Ef a'u tywysodd hwy oddi wrth y canu pryddestol at y canu telynegol. Yr oedd llawer o'r pynciau, yr ymdriniodd Derfel â hwy yn "Traethodau ac Areithiau", wedi eu trin a'u trafod eisoes yn y gymdeithas hon, yn enwedig safonau beirniadaeth lenyddol a diwygio'r Eisteddfod. Ffrwyth y cylch bychan hwn oedd y diwygio a fu ar yr Eisteddfod, a'r ddau gylchgrawn, *Yr Eisteddfod* ac *Y Punch Cymraeg*. Hon oedd y gymdeithas bwysicaf a mwyaf dylanwadol yn y cyfnod trawsnewid rhwng hanner cyntaf y ganrif ddiwethaf [y bedwaredd ganrif ar bymtheg] a'r ail hanner. Hyhi a osododd sail y mudiadau llenyddol a Chymreig o ganol y ganrif ymlaen hyd at ei diwedd.

Yn ogystal â dylanwad Creuddynfab ar y cylch, roedd gan R. J. Derfel yntau ddylanwad cryf. Yn wir, mor fawr fu dylanwad R. J. Derfel ar Ceiriog yn sgil ei ymgyrch i adfer cyfenwau Cymraeg y Cymry yn lle rhai Saesneg, nes peri i John

Hughes gynt ychwanegu Ceiriog fel enw canol (Jenkins, *et al.* 1953, t. 362). Fe gafodd y Cymry dan sylw a'u pynciau trafod ddylanwad pellgyrhaeddol ar ddiwylliant Cymru, megis dyfodol yr Eisteddfod (fel y trafodwyd yn y bennod flaenorol). Wrth edrych ar y themâu sy'n codi yn ysgrifau ac areithiau'r radicalydd a'r cenedlaetholwr brwd R. J. Derfel, gwelir bod pynciau megis yr angen i'r Cymry ddysgu am hanes a llenyddiaeth Cymru, yr angen am bapur newydd dyddiol drwy gyfrwng y Gymraeg, a gwladgarwch y Cymry yn codi eu pen. Mae'n bur debyg bod yr ysgrifau yn deillio o bynciau trafod y cylch, ac o ystyried hyn dichon fod rhai o erthyglau Ceiriog fel gohebydd Manceinion yn ogystal â themâu rhai o'i gerddi a'i ganeuon wedi codi o'r cylch trafod hwn hefyd. Un o'r pynciau trafod hynny a fu'n ddylanwad ar Ceiriog, ac sy'n adlewyrchiad amlwg o'r cymhlethdodau yn gysylltiedig â chenedlaetholdeb Cymry Oes Victoria yw'r ddadl ynghylch sefyllfa'r iaith Gymraeg. Ystyrier er enghraifft yr ysgrif 'Enllibwyr Ein Gwlad' gan R. J. Derfel (1945, tt. 85-99). Yn yr ysgrif hon lleddir ar y Cymry uchaf eu statws o fewn cymdeithas am sarhau eu cyd-wladwyr, ac am beidio ag ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg. Dywed R. J. Derfel (1945, t. 94):

Yr wyf yn aml yn meddwl bod yr angenrheidrwydd sydd ar lawer i ddysgu Saesneg yn brif ffynhonnell i'w llwyddiant. Yr orfodaeth yma, mewn ystyr, sydd wedi agor eu deall, a rhoi golau yn eu llygaid i weled eu llwybr yn y blaen. Mae rhai yng Nghymru y dyddiau hyn yn esgeuluso dysgu Gymraeg i'w plant gan feddwl y gwnânt yn well hebdi; ond hwy gânt eu siomi. Mae Rhagluniaeth Duw ym mhob gwlad yn bendithio gwladgarwyr. Pwy bynnag a gaiff gyfle i weled, cânt weled bechgyn Gymraeg yn myned rhagddynt mewn gwybodaeth, mewn dysg, ac mewn sefyllfa, gan adael y Cymry Seisnig unieithog yn ddigon pell ar ôl. Mae ychwaneg o gyfleusterau dyrchafiad i'r hwn sydd yn gallu Saesneg gyda'i Gymraeg, rhaid cydnabod; ond mae ychwaneg hefyd i'r hwn sydd yn gallu Cymraeg gyda'i Saesneg.

Gwelir o'r hyn a fynegwyd gan R. J. Derfel nad yw yn erbyn i'r Cymro cyffredin ddysgu Saesneg; yn wir, cred Derfel fod dysgu Saesneg yn llesol ar gyfer datblygiad a llwyddiant yn y byd. Ond dwyieithrwydd yw'r allwedd i lwyddiant yn ôl syniadau

Derfel, nid canolbwyntio ar y Saesneg ar draul y Gymraeg. Lleddir ar y Cymry a oedd yn esgeuluso dysgu Cymraeg i'w plant am iddynt gredu bod y Gymraeg yn eu rhwystro rhag datblygu yn y byd modern. Gwelir tebygrwydd rhwng y syniadau a fynegwyd gan R. J. Derfel yn 'Enllibwyr Ein Gwlad' a'r neges a geir gan Ceiriog yn y gân 'Siaradwch y Ddwy' (Hughes 1862, tt. 8-9). Gwelir yn erthyglau Ceiriog a'i gerddi fel ei gilydd y tyndra rhwng siarad Cymraeg a pharhad yr iaith, a'r angen i siarad a dysgu Saesneg er mwyn llwyddo yn y byd modern.

I.

Llewelyn bach tyr'd yma,
Ac ar fy neulin dysga,
Iaith dy fam yn gyntaf un,
Ac wed'yn iaith Victoria.
Ac na boed mam yn Nghymru mwy
O afon Gaer i afon Gŵy,
Heb siarad y ddwy – siaradwch y ddwy.

II.

Ac os bydd neb yn gofyn,
P'r un well gen' ti fy mhlentyn,
Pa un ai'r Saesneg ai'r Gymraeg –
Dw'ed tithau'r ddwy Llewelyn.

III.

Ac os bydd neb yn holi,
Pa un a fwyaf geri;
Ai Cymro'r wlad, a'i Sais y dref,
D'wed wrtho ef am dewi.

IV.

Os gofyn neb fy machgen,
Pa le mae gwlad yr awen?
Ateba dithau yn ei glyw,
Ei bod yn fyw trwy Prydain.

V.

Ac ar y Delyn dysga
"Ar hyd y Nos" yn gynta',
Ac yna dysg dy lais a'th law
I daraw "Rule Britannia."

VI.
Wel dos i'r byd a llwydda,
I anrhydeddu Gwalia;
Dysg iaith dy fam yn gyntaf un,
Ac wed'yn iaith Victoria.

Gwelir yn 'Siaradwch y Ddwy' y safonau deublyg a berthyn i agweddau Ceiriog tuag at yr iaith Gymraeg a hynny yn adlewyrchiad o feddylfryd llawer un yn ystod ei oes. Yr hyn sy'n bwysig i'w bwysleisio yw'r ffaith nad yw Ceiriog am weld Cymry Cymraeg y ddinas na'r Cymry yn gyffredinol yn ffafrio'r Saesneg a'r cymdeithasau Seisnig ar draul y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. Gwelir yn y gân fod y fam yn annog ei mab, Llewelyn (enw sy'n arwyddocaol ynddo'i hun), i ddysgu ac i siarad Cymraeg yn gyntaf yn ogystal â dysgu 'iaith Victoria'. Dengys y gerdd fod y fam am sicrhau bod ei mab yn cydnabod y Gymraeg a'r Saesneg, y Cymro a'r Sais, ar yr un llwyfan yn hytrach na gosod y naill uwchlaw'r llall. Yn ogystal â hyn sylwer bod y fam yn y gerdd am i'w mab gydnabod diwylliant Prydain yn ei gyfanrwydd yn hytrach na diwylliant Cymru yn unig. Drwy osod y gân yng nghyd-destun yr oes a'r datblygiadau a welwyd o safbwynt twf yr ymerodraeth a diwylliant, nid yw'n syndod bod y fam yn cynghori ei mab i ddysgu iaith cynnydd a masnach yr oes – Saesneg. Onid yw'r pennill olaf yn crisialu dyheadau'r fam, hynny yw, os yw Llewelyn am lwyddo yn y byd, nid yw meddu ar y Gymraeg yn unig yn ddigonol, ond serch hynny ni ddylid ei hanghofio? Ceir trafodaeth ddifyr gan Branwen Jarvis am farn Ceiriog ac R. J. Derfel ynglŷn â sefyllfa a dyfodol yr iaith Gymraeg. Er bod y ddau yn cydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg ac yn dymuno ei gweld yn parhau fel iaith Cymry'r dyfodol, pwysleisia Branwen Jarvis fod Ceiriog ac R. J. Derfel yn debyg i lawer o Gymry'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn rhag-weld mai trengi fyddai'i hanes yn y pen draw. Yn ôl Branwen Jarvis, er bod gweithiau Ceiriog ac R. J. Derfel yn canu clodydd yr iaith Gymraeg fel iaith fyw ac am weld ei pharhad, dengys gweithiau ac

ysgrifau'r ddau hefyd eu bod yn rhagweld '...mai marw fyddai hanes y Gymraeg yn y pen draw, er gwaethaf ei ffyniant ymddangosiadol hi' (Jarvis 1987, tt. 88-9). Yn wir, dywed Branwen Jarvis (1987, t. 87) 'Ym marn Ceiriog, gallai'r pethau hyn, a oedd yn fynegiant o ysbryd y genedl fodoli ar wahân i'r iaith Gymraeg. Byddai gennym wlad i'w charu wedi i'r iaith ddistewi a mynd yn fud.' Adlewyrcha'r hyn a ddywed Branwen Jarvis am feddylfryd Ceiriog ac R. J. Derfel wedd ar farn gyffredinol Cymry Oes Victoria tuag at yr iaith Gymraeg, hynny yw, mewn oes a oedd yn hawlio Saesneg fel iaith datblygiad modern, cydnabydda'r Cymry realiti'r sefyllfa y byddai'r Gymraeg yn debygol o golli tir a phwysigrwydd. Os nad oedd y Gymraeg yn debygol o barhau, yr hyn a oedd yn bwysig oedd diogelu diwylliant a thraddodiadau'r Cymry er mwyn sicrhau eu hunaniaeth genedlaethol o fewn yr Ymerodraeth Brydeinig. Wrth gwrs, yn wyneb hyn oll y mae'n rhaid ystyried amgylchiadau personol Ceiriog. Yn wir, nid oedd Ceiriog yn glynu wrth yr hyn a oedd yn ei bregethu yn ei gerddi a'i erthyglau yn ystod ei gyfnod ym Manceinion. Y mae un ffaith yn allweddol i'w nodi – ni lwyddodd i fagu ei blant ei hun yn Gymry Cymraeg (Edwards, 1987, t. 36). Dyma i chi dystiolaeth o'r cymhlethdod a berthyn i Ceiriog, a'r safonau dwbl a welir o safbwynt yr hyn a draetha yn ei gerddi a'i erthyglau o gymharu â realiti ei fywyd.

O ystyried bod Ceiriog yn fardd tra llwyddiannus yn ei ddydd, cyfyd y cwestiwn, pam mynd yn ohebydd? Un rheswm y gellid ei ystyried uwchlaw'r buddion ariannol yw bod Ceiriog yn teimlo mwy o ryddid wrth ysgrifennu erthyglau. Er bod swyddogaeth gymdeithasol yn perthyn i'w safle fel gohebydd fel a oedd yn wir hefyd yn ei safle fel bardd, gellid dadlau bod ffurf erthygl yn rhoi mwy o ryddid mynegiant i Ceiriog yn ogystal â'r gallu i amrywio themâu ei ysgrifau, o gymharu â gofynion a rheolau crefft benodol barddoniaeth ramantaidd. Wrth gwrs gellid dadlau bod terfynau i'r rhyddid a geir mewn gohebiaeth hefyd, a hynny ar sail y ffaith bod

Ceiriog yn ymatal rhag mynegi ei farn bersonol yn llawn oherwydd ei safle fel llais a chynrychiolydd ei gymdeithas ddinesig. Mae'n bosibl hefyd fod Ceiriog wedi bachu ar y cyfle i gynrychioli ei gymdeithas ddinesig ym Manceinion a llefaru ar ei rhan er mwyn codi ei broffil personol. Yn wir, gellid dadlau bod Ceiriog am ychwanegu at ei boblogrwydd a lledaenu ei enw ymhellach fel gohebydd swyddogol.

Yn rhifyn 9 Mawrth 1864 o *Baner ac Amserau Cymru* ceir sylwadau difyr gan y golygydd yn rhan o'r adran 'Gohebyddiaeth Manchester':

Trwy fod yr ohebyddiaeth wedi cyfnewid dwylaw ers tua hanner blwyddyn, fe allai fod ambell sylw wedi ei wneud oedd yn weddus i'r gohebydd blaenorol eu gwneud, ac er fod y cyfaill hwnw yn ysgrifenu yn fynych i golofnau y *Faner*, nid yn y golofn hon yr ymddengys ei ysgrifau.

Yr awgrym a geir yn y nodyn uchod yw fod Ceiriog wedi rhoi'r gorau i'w ddyletswyddau fel gohebydd ar ran Manceinion chwe mis ynghynt, sef oddeutu mis Medi 1863. Yn wir, daw gohebiaeth Ceiriog i ben yn ddisymwth ac yn ddisylw dros ben. Oni bai am sylwadau'r golygydd, ni cheir awgrym blaenorol bod Ceiriog wedi rhoi'r gorau i'w safle fel gohebydd swyddogol. Pam y daeth cyfnod Ceiriog i ben fel gohebydd Manceinion felly? Ai oherwydd bod Ceiriog yn teimlo'r pwysau arno i gyflwyno erthyglau yn gyson? Ai am iddo ddiflasu ar ysgrifennu erthyglau ar ran Cymry Manceinion? Yntau ai dewis golygyddol a fu wrth wraidd y newid? Ni ellir datgan pam y rhoddodd Ceiriog y gorau i ohebu'n swyddogol, ond mae modd damcaniaethu.

Yn ei safle fel llefarydd ar ran y gymdeithas Gymraeg ym Manceinion, gellir cymhwyso i Ceiriog y dywediad 'Gwell Cymro, Cymro oddi cartref'. Drwy lefaru ar ran ei gyd-Gymry, llwyddodd Ceiriog i ddarparu golwg i'r genedl ar natur a bywyd Cymro yn y ddinas. Wrth gwrs mae'r erthyglau hyn yn fwy nag adroddiadau cymdeithasol yn unig, a hynny am eu bod yn rhoi cip i ni ar fywyd Ceiriog ei hun. Gwelir yn yr erthyglau bod Ceiriog yn ei eiriau ei hun yn trafod y digwyddiadau yr

oedd ef ar lawer achlysur yn rhan ohonynt, a'r cylchoedd cymdeithasol a'r cyfeillion yr oedd yn gysylltiedig â hwy. Er i feirniaid llenyddol yn y gorffennol anwybyddu cyfraniad Ceiriog fel gohebydd, credaf fod yr erthyglau yn allweddol er mwyn ei ddeall yn well ac er mwyn dwyn cymhariaeth â'r hyn a geir yn ei farddoniaeth.

Delwedd ddidwyll o Gymru?

Cyfleir hanesion ac arferion y Cymry dinesig yn glir yng ngohebiaeth Ceiriog yn y *Faner*, ond difyr yw nodi mai prin yw'r dystiolaeth am fywyd dinesig a geir yng ngherddi'r bardd. Un o'r cerddi prin hynny o gasgliad Ceiriog sy'n trafod agweddau ar fywyd ac arferion Cymry'r ddinas yw 'Gwahoddiad i Fanceinion' (1860, t. 66):

Mae wythnos y Sulgwyn wrth riniog y tŷ,
A chyda hi lu o rai anwyl;
A mil o galonnau serchiadol a chu
Gynesant wrth feddwl a disgwyl.

Pob cyfaill i gyfaill addawa fwynhad –
Mae'r wlad yn ymarllwys i'r trefydd;
A'r dref yn myn'd allan i ganol y wlad,
I'r dyffryn, i'r graig, ac i'r mynydd.

Cychwynwch gyfeillion, mae yma le iawn,
Ni raid i chwi wisgo fel beilchion, –
Cewch chwareu, cewch garu, cewch ddangos eich dawn,
A chwerthin eich hunain yn deilchion.

Portread a geir yn y gerdd o drigolion Manceinion yn gwahodd teulu a chyfeillion o Gymru draw i'r ddinas er mwyn mwynhau dathliadau'r Sulgwyn, yn ogystal â chyfeiriadaeth at yr arferiad ymysg y Cymry dinesig o fynd ar wyliau yn ôl i gefn gwlad Cymru – 'Ar dref yn myn'd allan i ganol y wlad'. Adlais o'r math o arferion ffasiynol hyn a welir yn y gerdd, yn hytrach nag adlewyrchiad o fywyd yn y ddinas ei hun er gwaetha'r hyn a fynegir yn ddigon eironig yn y teitl – 'Gwahoddiad i Fanceinion'. Serch hyn, gwelir yn y pennill olaf bod Ceiriog yn nodi bod 'lle iawn'

i'w gael yn y ddinas sy'n cynnig y cyfle i'r sawl sy'n ymweld fwynhau eu hunain. Yn wir, delwedd apelgar o'r ddinas a gyfleir yn y gerdd uchod. Serch hyn, a oes modd dadlau mai gwedd ar ramantu a geir yma mewn gwirionedd? O gofio bod Cymry benbaladr yn derbyn yr erthyglau a'r cerddi hyn, gellid dadlau bod Ceiriog am gyflwyno delwedd ffafriol o fywyd yn y ddinas i'w gynulleidfa, gan osgoi unrhyw ffaeiddau. Dywed Asa Briggs fod y gymdeithas Fictorianaidd yn yr un modd â'n cymdeithas fodern ni yn gwrthod datguddio'r gwirioneddau anffafriol am fywyd yn y dinasoedd: 'we are often just as hard pressed as the Victorians were to make cities attractive and inspiring' (1990, tt. 17-18). Yn y cyd-destun hwn, delwedd ddeniadol ac ysbrydoledig o'r ddinas a'r gymdeithas Gymraeg ym Manceinion yw'r hyn sy'n taro darllenydd am gynnwys gohebiaeth Ceiriog a'r gerdd fel ei gilydd. Ni cheir golwg ar galedi'r ddinas ganddo, yn hytrach delwedd ddethol yw'r hyn a gyflwynir i'r gynulleidfa. Gellid dadlau bod Cymry'r ddinas yn twyllo'u hunain a'u cyd-Gymry i gredu fod bywyd yn y ddinas yn rhagori ar fywyd yn y wlad a'r pentrefi yng Nghymru, a hynny er mwyn cyfiawnhau eu dewis cychwynnol i symud oddi yno.

Y mae'n ddifyr nodi bod rhai o gerddi Ceiriog yn cyflwyno isdestun negyddol a thywyll yn ymwneud â bywyd yn y ddinas, er enghraifft, 'Ti Wyddost Beth Ddywed Fy Nghalon' (1860, tt. 53-4). Er bod y gân wedi ei chynnwys yn yr un gyfrol â 'Gwahoddiad i Fanceinion', agwedd bur wahanol a geir tuag at y ddinas yn y gân hon. Ar ddechrau'r gân ceir cyflwyniad a chefnidir sy'n nodi, 'Achlysurwyd y penillion hyn gan eiriau ymadawol mam yr awdur, pan oedd hi yn dychwelyd i Gymru, ar ôl talu ymweliad iddo' (Hughes 1860, t. 53). Gwelir felly mai cân wedi ei seilio ar ddigwyddiadau personol ym mywyd y bardd a geir yma, yn hytrach na'r rhamantiaeth freuddwydiol a welir mor aml yng ngwaith Ceiriog. Yr hyn sy'n taro'r gwrandawr neu'r darllenydd yn y gân hon yw'r teimlad o dristwch a digalondid a deimlir gan y

fam a'r mab fel ei gilydd wrth iddynt ffarwelio â'i gilydd, 'Canfyddodd fy llygad mewn dagrau'n pruddhau/Gwir ddelw o'i llygad ei hunan.' Ceir ymdeimlad sydd ymhell o'r llawenydd a'r ysgafnder a fynegwyd yn 'Gwahoddiad i Fanceinion' yn y gân hon. Yn wir, yr elfen o fygythiad ynghlwm â'r ddinas a natur gyfnewidiol yr oes sy'n arwyddocaol am 'Ti Wyddost Beth Ddywed Fy Nghalon'. Cymerwch yr hyn a fynegir yn y pennill a ganlyn er enghraifft:

Mae ysbryd yr oes megis chwyddiad y môr,
Yn chwarae â chreigiau peryglon;
O'm hamgylch mae dynion a wawdiant Dduw Ior,
Wyf finnau ddiferyn o'r eigion;
Fy nghamrau brysurant i ddinistr y ffôl,
Ond tra ar y dibyn echryslon
Atelir fi yno gan lais o fy ôl –
“Ti wyddost beth ddywed fy nghalon.”

Caiff y ddinas ei phortreadu fel man tywyll ac anobeithiol yn y pennill uchod, yn llawn dinistr sy'n symbol o'r newidiadau affwysol oedd ar droed yn ystod Oes Victoria. Cyfyd y cwestiwn sylfaenol felly, o ystyried bod Ceiriog i'w weld yn fodlon ei fyd ym Manceinion, pam troi at ddelweddau negyddol o'r ddinas yn y gân hon? Gellid ystyried bod Ceiriog am adlewyrchu ei deimladau personol yn y gân yng nghyd-destun bygythiad y ddinas, a hynny drwy bwysleisio'r ofn a'r ansicrwydd a oedd yn gysylltiedig â symud o sicrwydd cefn gwlad i ddinas ddiwydiannol. Yn ogystal â hyn, ceir gwedd ar ofnau mam Ceiriog yn y gân wrth ddiweddu pob pennill â'r geiriau 'Ti wyddost beth ddywed fy nghalon.' Hynny yw, er bod y fam am y gorau i'w mab, gellid dadlau yn ei chalon ei bod am ei weld yn dychwelyd yn ôl gartref i Gymru. Gellid dadlau bod Ceiriog wedi ysgrifennu am y ddinas mewn modd bygythiol a digalon a hynny am nad oedd yn gallu canu'n delynegol i'r ddinas yn yr un modd ag a welwyd yn ei gerddi a'i ganeuon am gefn gwlad a byd natur. Ai am y rheswm sylfaenol yma mai dim ond dwy gerdd sydd am Fanceinion yng nghasgliad helaeth y bardd? Er gwaethaf ei fywyd tra llwyddiannus yno, dichon nad oedd Ceiriog

yn gallu tynnu ysbrydoliaeth delynegol o'r ddinas er mwyn boddhau anghenion ei gynulleidfa. Yn wir, yr hyn a geir yng ngerddi'r bardd dro ar ôl tro yw delfrydu a chanu clodydd cefn gwlad Cymru, yn hytrach na chanu am ragoriaethau'r ddinas.

Mab y Mynydd ydwyf innau
Oddicartref yn gwneud cân,
Ond mae 'm calon yn y mynydd
Efo'r grug a'r adar mân.

Ceiriog y mab alltud ym Manceinion sy'n hiraethu'n enbyd am Gymru a'i natur yw'r llais a glywir yn y rhan helaethaf o gerddi'r bardd, fel a welir yn y pennill enwog uchod (Hughes 1860, t. 30). Gwelwyd yn y bennod gyntaf ymwybod Ceiriog o'i grefft a'i safle fel bardd poblogaidd wrth iddo wasanaethu anghenion ei gynulleidfa o Gymry Cymraeg Manceinion a'r tu hwnt â'i gerddi a chaneuon adloniadol. Gwelwyd bod y delweddau cysurus a gyflwynwyd yn y cerddi yn foddion dihangfa ac yn gysur seicolegol i'r Cymry oddi cartref a'r Cymry gartref fel ei gilydd. Tywyswyd hwy gan y bardd yn ôl at sicrwydd cefn gwlad Cymru a'r hen ffordd draddodiadol o fyw, ymhell o brysurdeb, bygythiad a newidiadau'r oes. Yn ôl E. G. Millward (1991, t. 45), 'cynnyrch anorfod twf y Mudiad Rhamantaidd yw ei waith prydyddol – y mudiad hwnnw a roddai bwys mawr ar deimlad, emosiwn, dychymyg, ac ar ymateb i brydferthwch ac arwyddocâd Natur'. Yn y bôn gellid dadlau mai gwas rhamantiaeth oedd Ceiriog. Does ryfedd felly nad yw delweddau o ddiwydiant trwm annaturiol y ddinas yn ymddangos yn ei weithiau barddol. Onid yw 'Gwahoddiad i Fanceinion' yn enghraifft berffaith o'r tyndra rhwng yr awydd i gyfleu bywyd yn y ddinas yn ogystal â cheisio boddio hanfodion rhamantiaeth drwy glodfori cefn gwlad? Yr hyn sy'n ddifyr am sefyllfa Ceiriog yw'r ffaith bod datblygiad a thwf dinasoedd yn cydoesi â thwf a phoblogrwydd y mudiad rhamantaidd yng Nghymru. Dyma i chi ddau begwn cwbl gyferbyniol i'w gilydd o ran syniadaeth a delfrydau – dyma'r tyndra yr oedd yn rhaid i Ceiriog ei wynebu fel bardd poblogaidd. Rydym eisoes wedi cyffwrdd ag

effaith a natur caneuon Ceiriog ar ei gynulleidfa yn y bennod ddiwethaf, yn ogystal â bwrw golwg ar yr elfen ramantaidd yn ei waith. Yr hyn y mae'n rhaid ei ystyried yn awr a'i gwestiynu yw didwylledd y llais a gyflwynir yng ngherddi'r bardd. A oedd yr hiraeth a'r gwladgarwch a fynegwyd yn y cerddi a'r caneuon poblogaidd gan Ceiriog y bardd yn cyd-fynd â meddylfryd Ceiriog y dyn?

Wrth drafod cysylltiad Ceiriog â Chymru yng nghyd-destun ei gyfnod ym Manceinion, dywed J. Owen Jones (1891, t. 130):

Buasid yn disgwyl iddo, yng nghanol dwndwr a thrafferth tref brysur boblog, dynnu i ni ddarluniau byw o'r gwahanol gymeriadau a welai; ond ychydig raid i ni ddarllen ar "Oriau'r Hwyr" ac "Oriau'r Bore", na welwn ei fod wedi dwyn gydag ef i Loegr "Gymru lân gwlad y gân"[...] Yng Nghymru yr oedd ei feddwl a'i galon. Natur sy'n fyw yn y llyfrau hyn. Pan ym Manceinion, cymerai amser i feddwl a myfyrio ar yr hyn a welsai ac a deimlasai yn ei wlad ei hun, a thra yn derbyn argraffiadau newydd beunydd yn nhref y mwg a'r cotwm, hiraethai am fywyd y wlad, ac ymhoffai yn ei ganmol a galw sylw pobl y dref at ei ragoriaethau.

Gwelir drwy'r hyn a ddywed J. Owen Jones fod y beirniad yn credu mai hiraeth a theimladau didwyll tuag at Gymru a geir gan Ceiriog yn ei gerddi gan mai 'Yng Nghymru yr oedd ei feddwl a'i galon' er gwaetha'r ffaith iddo ymgartrefu ym Manceinion. Wrth gwrs, mae hiraeth yn deimlad naturiol i unrhyw un sydd ymhell o'i gartref. Serch hyn, yn wahanol i'r awgrym a geir gan y beirniad uchod, ni ellir datgan mai cyfansoddi'n unig er mwyn 'galw sylw pobl y dref' at ragoriaethau Cymru a'i hiraeth amdani oedd bwriad Ceiriog wrth gyfansoddi. A oes modd dadlau bod yr hiraeth a fynegwyd gan Ceiriog yn wedd ar hiraeth mwy dramatig na'r hyn yr oedd yn ei deimlo mewn gwirionedd? Gellid dadlau bod J. Owen Jones wedi'i ddallu i'r ffaith bod dylanwad rhamantiaeth yn drwm ar feddylfryd Ceiriog yn ei safle fel bardd poblogaidd ei oes, ac mai rhan o grefft y bardd oedd ei ddelweddau rhamantaidd am Gymru yn hytrach na'i deimladau didwyll ei hun. Ni ellir trafod y cymhlethdod a'r tyndra a berthyn i Ceiriog o safbwynt ei deimladau tuag at y wlad a'r ddinas heb

ystyried yr hyn a ddywedodd y bardd yn ei ohebiaeth ar gyfer rhifyn 11 Medi 1861 o *Baner ac Amserau Cymru*. Wrth drafod y ffaith ei fod yn ysgrifennu'r ohebiaeth dan sylw wrth 'droed un o fynyddoedd y Berwyn' yn ystod ei gyfnod yn ôl yng Nghymru ac i ffwrdd o Fanceinion, dywed Ceiriog yn agored, 'Pan yn Manchester, byddaf yn fynych yn dymuno bod yma; ac heno wele fi yma yn dymuno bod yn Manchester' (1861, t. 581). Gwelir yma y tyndra a berthyn i Ceiriog o safbwynt ei deimladau tuag at y wlad a'r ddinas, a'i galon wedi'i rwygo dros ei deimladau tuag at y ddau le gwrthgyferbyniol yma. Wrth gwrs gellid dadlau mai llais persona'r gohebydd yn Ceiriog a glywir yma wrth iddo greu darlun sentimental er boddhad ei ddarllenwyr. Ar y llaw arall wrth edrych ar fywyd personol Ceiriog a'i ddadrith wedi iddo ddychwelyd i fyw i Gymru, credaf fod y tyndra a'r ddeuoliaeth a berthyn i'w deimladau tuag at y naill le a'r llall yn agos at y gwirionedd.

Ni waeth pa ran o'r eang fyd
A grwydraf tra b'wyf byw,
Wyf wrth y Gareg Wen o hyd;
A'r nant sydd yn fy nghlyw;
A phan hysbyswyf estron ddyn,
Mai ati 'hedaf yn fy hun,
Maddeua 'm ffoledd am mai un
O gofion mebyd yw.

Mae dyfynnu pennill o'r gerdd 'Y Gareg Wen' (Hughes 1860, tt. 9-10) yn arwyddocaol, gan mai dyma'r gerdd gyntaf i ymddangos o'r holl gerddi a chaneuon yng nghyfrolau Ceiriog. Gellid dadlau bod y gerdd yn gosod y tôn a'r themâu sydd i'w disgwyl yng nghynnwys y rhan helaeth o'i gyfansoddiadau, sef tôn hiraethus am Gymru ac am atgofion melys plentyndod. Yn ôl H. Elfed Lewis (1899, t. 21), 'Pe byddai eisiau rhywbeth i brofi mor agos at ei galon oedd adgofion boreu oes, y mae y prawf wedi ei gael yn y ffaith fod y lle cyntaf yn ei lyfr cyntaf wedi ei roddi i gartref ei ieuenctyd.' Cyfeiriad a geir yn y gerdd at fro mebyd y bardd yn Llanarmon, a'r ffaith, lle bynnag y byddo'r bardd yn y byd, bod ei feddwl a'i enaid yn dychwelyd at

ardal y garreg wen. Ni ellir gwadu'r tŷn hiraethus a geir yn 'Y Gareg Wen', a'r clod a roddir gan y bardd i'w wlad oherwydd ei 'helyg melyn', ei 'choed afalau' a'r 'gornant fach' (Hughes 1860, t. 9). Egyr y gerdd wrth i'r bardd dystio, er mai 'unig wyf o dŷ fy nhad', bod modd iddo ganfod cysur drwy ysgrifennu cerdd yn ei famiaith sydd, 'os nad yn fwyn / i'r byd – mae'n fwyn i mi' (Hughes 1860, t. 9). Ei fyd yn y cyd-destun hwn yw Cymru ac yn benodol Llanarmon. Wrth fyfyrion hiraethus, disgrifia'r bardd y gobaith o gael dychwelyd i Gymru i farw, a chael carreg fedd o farmor uwch ei ben, yn debyg i garreg wen ei blentyndod. Gellid dadlau bod y dymuniad hwn yn arddangos cysylltiad eneidol a chariad y bardd â bro ei blentyndod a'i atgofion hiraethus amdani. Cerdd arall sy'n adlewyrchiad o'r ymdeimlad nodweddiadol hwn yng ngwaith y bardd yw 'Ochenaid Am Fy Ngwlad' (1860, t. 67).

Am henaint ni ddymuna', – a chysur
Ni cheisiaf tra yma;
Na! gofid trwm gaf fi tra
O ddolydd fy ngwerdd Walia.

Ai dyma'r fan roed imi – i farw
O f' hiraeth am dani?
Hyn o fraint, fy Ion, fy Rhi – os caf
Yn angau hunaf lle ce's fy ngeni.

Tra'n oesi, y truenusaf – o bawb
Yn y byd a fyddaf;
A phan fy oes orphenaf,
Yn fy ngwlad lwys gorphwys gaf.

Yn debyg i lawer o gerddi Ceiriog, ceir yma unwaith eto fynegiant yn y person cyntaf. Yr hyn y mae'n rhaid cadw mewn cof yw'r ffaith nad yw llais y person cyntaf mewn cerdd yn gyfystyr â llais y bardd ei hun bob tro. Gellid dadlau mai persona'n llefaru a geir yn hytrach na gwir deimladau a llais personol y bardd. Dyma un ffaith y mae'r rhan fwyaf o'r beirniaid llenyddol wedi'i anwybyddu. Yn debyg iawn i'r hyn a gafwyd yn 'Y Gareg Wen' try hiraeth y llais yn y gerdd yn ddelfryd o gael dychwelyd

i Gymru i farw. Gellid dadlau ar lawer ystyr bod meddwl am farwolaeth yn rhoi pleser gwyrddoedig i'r bardd. Dengys y pennill agoriadol mai 'gofid trwm' a digysur yw'r ymdeimlad a geir tra i ffwrdd o Gymru, a'r pryder ynglŷn â marw ymhell ohoni. O gymharu â dwndwr a phrysurdeb y ddinas, gellid dadlau bod y ddelfryd o gael gorwedd mewn tawelwch bedd yng nghanol cefn gwlad Cymru a'i lonyddwch digyfnawid yn apelgar. Yn wir, atgyfnerthir y farn hon ym mhennill clo'r gerdd gyda chyfres o ebychiadau (1860, t. 67) :

Doed yr hun! doed yr ennyd!
Yn fy medd O! gwyn fy myd!

Yng Nghymru mae'r gobaith am dawelwch meddwl ac ysbryd yn bod. Gwelwyd yn 'Y Gareg Wen' ac 'Ochenaid Am Fy Ngwlad' bod y bardd fel petai'n datgan teimladau ei galon am ei hiraeth a'i awch am gael dychwelyd i Gymru. Mae'r defnydd cyson o ragenwau personol megis 'Fy', 'Fi', yn ogystal â ffurfiau person cyntaf y ferf, 'Crwydraf', 'Gaf', 'Ceisiaf', 'Dymunaf' a 'Truenusaf' yn pwysleisio'r llais personol a glywir yn y cerddi ac yn awgrymu fod cerdd o'r fath yn adlewyrchu hanes a theimladau personol y bardd. Serch hyn, fel y nodwyd ynghynt ni ellir derbyn fod llais y person cyntaf a draethir yn gyfystyr â gwir deimladau'r bardd bob tro. Mae modd ystyried mai arf barddol oedd traethu o safbwynt y person cyntaf yng ngherddi Ceiriog a hynny er mwyn ennyn cydymdeimlad a tharo tant cyfarwydd yng nghalonau ei gynulleidfa. A oes modd dadlau bod Ceiriog yn traethu er lles ei gynulleidfa yn unig, a hynny ar draul ei deimladau a'i chwaeth farddol ei hun? Gyda hyn mewn cof dylid bwrw golwg pellach ar un o weithiau enwocaf y bardd gan asesu'r ddelwedd o Gymru a gyflwynwyd gan y bardd tra oedd ym Manceinion.

Yn debyg i'r hyn a gafwyd yn y fugeilgerdd 'Owain Wyn' yn *Oriau'r Hwyr* (1860, tt. 33-40), gwelir ym mugeilgan delynegol enwocaf y bardd, 'Alun Mabon',

fod Ceiriog wedi dewis adrodd a chlodfori troeon bywyd a charwriaeth syml bugail cyntefig o Gymro.

'R oedd Alun Mabon yn ei ddydd
Yn fachgen cryf a hoew:
Yn berchen grudd a thalcen hardd,
A llygad gloew, gloew.
Er nad oedd goeth 'nol dull y byd,
Fe ellid dweud er hynny
Fod ganddo galon gynnes bur
Yn natur wedi tyfu.

Egyr y gerdd â chyfres o benillion, gan gynnwys yr uchod, sy'n cyflwyno Alun Mabon. Yr hyn a bwysleisir yn y penillion agoriadol yw'r ffaith bod Alun wedi'i fagu yn un â'r mynydd, 'Ac fel y blodyn bychan/ Oedd ar y grug wrth gefn ei dŷ/ Blagurodd yntau allan.' (Hughes 1862, t. 28) Yn wir, yr hyn a awgrymir yn y penillion agoriadol yw'r ffaith bod y mynydd a chefn gwlad yn rhan annatod o fywyd y bugail a'i 'galon gynnes bur/ Yn natur wedi tyfu'. Dilynir y penillion agoriadol ag Alun Mabon ei hun yn traethu'i hanes, gan dywys y gynulleidfa drwy ddigwyddiadau ei fywyd. Yr hyn sy'n taro'r darlennydd drwy'r fugeilgan yw'r ffaith bod y bardd drwy gymeriad Alun Mabon yn dyrchafu bywyd amaethyddol a'i rinweddau fel 'crefft gyntaf dynol ryw' (Hughes 1862, t. 28). Dyrchefir bywyd amaethyddol yn y gerdd, ac undod greddfol y bugail â byd natur a'r greadigaeth uwchlaw dim y gall y byd modern a'i ddatblygiadau diwydiannol ei gynnig. Yn debyg i'r hyn a fynegwyd yn y gerdd 'Gwahoddiad i Fanceinion', dywedir yn 'Alun Mabon' na ellir llwyr fwynhau bywyd heb brofi rhyfeddodau cefn gwlad (Hughes 1862, t. 29) :

Cyn boddio ar eich byd,
Pa grefftwr bynnag f'och,
Chwi ddylech dd'od am dro
Rhwnng cyrn yr arad goch:
A pheidiwch meddwl fod
Pob pleser a mwynhad
Yn aros byth heb dd'od
I fryniau ucha'r wlad.

Ac yntau'n cyfansoddi ynghanol y ddinas, delwedd o bleser a mwynhad cefn gwlad yw'r hyn a gawn yng ngherdd Ceiriog. Yn wir, portreadir cefn gwlad yn y gerdd ar ei hyd fel y man gwyn delfrydol i'r dinaswr ddianc iddo. Yn y cyd-destun hwn dylid ystyried y dyfyniad a ganlyn o'r gerdd (Hughes 1862, t. 30):

Ddinaswyr gwaelod gwlad,
A gwŷr y celfau cain,
Pe welech Fai yn d'od,
A blodau ar y drain –
Y rhosyn ar y gwrych,
A'r lili ar y llyn;
Fe hoffech chwithau fyw
Mewn bwthyn ar y bryn.

Fel un o'r 'ddinaswyr gwaelod gwlad' ei hun a oedd wedi gwneud y dewis ymwybodol i symud ymhell oddi wrth fywyd 'mewn bwthyn ar y bryn', ceir yma enghraifft o'r tyndra sy'n llechu yng ngeiriau'r bardd. Er i Ceiriog draethu am rinweddau delfrydol y ddinas a'i chymdeithas yn yr ohebiaeth papur newydd, delwedd ddyrchafedig o brydferthwch ac arucheldd bywyd cefn gwlad yw'r hyn a geir yn y gerdd. O gofio bod Ceiriog yn drwm dan ddylanwad ton ramantaidd yr oes does ryfedd fod y bardd wedi cyflwyno delwedd bron yn freuddwydiol o gefn gwlad drwy lygaid Alun Mabon. Yn ôl W. J. Gruffydd roedd rhesymau seicolegol yn llechu y tu ôl i benderfyniad Ceiriog i draethu fel y gwnaeth am ryfeddodau cefn gwlad. Dywed Gruffydd (1939 tt. 13-14):

Pan oedd yn canu ym Manceinion, yr oedd yn ceisio gwneud iawn am ei ddiffygion ei hun fel gwladwr pan oedd yn helpu ei dad ar y fferm yn Llanarmon. Fel pawb ohonom pan fydd yr ymdeimlad o ffaeldd wedi suddo i'n is-ymwybod, yr oedd mewn breuddwydion yn gwneuthur iawn am ei ddiffyg mewn gweithredoedd [...] breuddwyd lle y gwêl y perffeithrwydd a gollwyd neu'r cariad a wrthodwyd.

Yr hyn a awgrymir gan W. J. Gruffydd yw bod Ceiriog yn y gerdd yn defnyddio cymeriad Alun Mabon fel ryw fath o *alter ego*. Dywed fod Ceiriog drwy'r gerdd a chymeriad y bugail yn cyflawni'r hyn a fethodd wneud ei hun gan iddo adael

Llanarmon yn llanc ifanc. Awgrymir bod y bardd yn defnyddio Alun Mabon fel drych o'r hyn y gallasai fod petai ond wedi aros gartref a dilyn ôl troed ei dad a bugeilio o fewn ei filltir sgwâr. Serch hyn, o graffu'n fanylach ar y fugeilgerdd, a oes modd dadlau nad yw'r hyn a ddatgenir gan Ceiriog am fywyd y bugail ei hun yn fêl i gyd mewn gwirionedd? Ni ellir gwadu bod y ddelwedd o gefn gwlad yn ddilychwin gan Ceiriog yn unol â hanfodion yr ysgol ramantaidd; serch hyn, o graffu'n fanylach ar y testun ni ellir datgan bod y ddelwedd o fywyd y bugail gystal ag a awgrymir ar yr wyneb. Gellir canfod enghraifft o'r fath yng nghân yr 'Arad Goch'. Er i'r bardd glodfori byd natur yng nghân yr adar, gwawrio a machlud haul a'r blodau, bywyd llafurus sydd gan y bugail mewn gwirionedd (Hughes 1862, t. 29):

'Rwy 'n gorwedd efo'r hwyr,
Ac yn codi efo'r wawr,
I ddilyn yr og ar ochr y Glôg
A chanlyn yr arad goch
Ar ben y mynydd mawr.

Yr awgrym a geir uchod yw, er bod y tymhorau a byd natur yn newid yn gyson o'i amgylch, mai'r un yw trefn ddyddiol y bugail ynghanol y newidiadau hyn. Dichon mai beirniadaeth ar fywyd llafurus y bugail a geir yma gan Ceiriog yn hytrach na chanmoliaeth. Wrth edrych yn ôl ar resymau posibl y bardd dros adael ei gartref gwledig, onid dyma'r math o fywyd yr oedd John yn ceisio'i osgoi drwy fynd i Loegr yn y lle cyntaf? Yn ogystal â hyn ceir cip yn y gerdd ar drafferthion carwriaethol y bugail wrth iddo geisio ymofyn calon Menna Rhen. Gwelwn wedi i Alun ennill cariad Menna, nad delwedd ddedwydd o briodas hapus yw'r hyn y myn Ceiriog ei gyflwyno i'r gynulleidfa. Ystyriwn y pennill isod (Hughes 1862, t. 42):

Ar ysgwydd y gwan fe ddaeth pwys
Trafferthion a helbul y byd,
Fy nheulu gynyddodd, a daeth
Gofynion am 'chwaneg o yd:
Ychwaneg o fwyd i'r rhai bach,
Ychwaneg o lafur a thraul...

Caledi bywyd a phwysau cynnal teulu yw'r hyn sy'n wynebu'r bugail cyntefig o Gymro uchod, wrth iddo orfod llafurio'n daerach fel pen teulu i gadw dau ben llinyn ynghyd. Yn wir, dwysáu a wna'r pwysau ar ysgwyddau'r bugail nes iddo ffraeo â'i wraig – 'A chweryl dra chwerw oedd hon' (Hughes 1862, 42) – gan arwain at ymadawriad Menna wrth iddi adael ei gŵr a'i phlant gan fynd i aros gyda'i theulu. Nid delwedd ddedwydd o fywyd bugeiliol a geir yma, felly, ond yn hytrach tor-briodas dan bwysau gwaith a chynhaliaeth deuluol. Wedi i'w wraig adael cawn hanes Alun yn ceisio ymdopi heb Menna, gan fethu. Troi'n hesb a wna'r gwartheg heb Menna i'w godro, a'r gegin 'heb drefn na llun' heb wraig wrth y llyw (Hughes 1862, t. 45). Wrth i amser fynd heibio daw'r bugail a'i wraig ynghyd unwaith eto. Serch hyn, mynd ar i lawr fu hanes bywyd y bugail drachefn. Erbyn penillion olaf y fugeilgerdd, unigedd yw'r hyn a wyneba Alun wedi marwolaeth ei wraig ac wedi i'w blant symud i ffwrdd o gartref – 'Mae 'm plant yn wragedd ac yn wŷr, / A Menna wedi marw!' (Hughes 1862, t. 49). Yn ogystal â hyn, synfyfyriai'r bugail yn ôl ar rai o adegau caletaf ei fywyd megis colli plentyn ifanc. Gwelwn felly nad perffeithrwydd bywyd yw'r hyn a gyflwynir gan Ceiriog yng nghyd-destun bywyd y bugail. Yn wir drwy gymeriad Alun Mabon ceir y gwrthwyneb i raddau helaeth. Er i'r bardd ymddangos fel petai'n dyrchafu bywyd gwledig a symlrwydd bywyd y bugail o gymharu â phrysurdeb y byd modern, mae mwy yn llechu o dan wyneb y fugeilgan enwog, megis y feirniadaeth ar fywyd y bugail. Gellid dadlau bod barn bersonol Ceiriog yn llechu rhwng y llinellau poblogaidd a gyflwynir, wrth iddo fwrw barn yn anuniongyrchol ar fywyd amaethyddol a'r caledi cysylltiedig. Ystyriwn benillion olaf y fugeilgan er mwyn cael blas pellach ar hyn (Hughes 1962, t. 50) :

Aros mae'r mynyddau mawr
Rhüo trostynt mae y gwynt:
Clywir eto gyda'r wawr,
Gân bugeiliaid megis cynt.
Eto tyfa'r llygad dydd,
Ogylch traed y graig a'r bryn:
Ond bugeiliaid newydd sydd
Ar yr hen fynyddoedd hyn.

Ar arferion Cymru gynt,
Newid ddaeth o rod i rod:
Mae cenhedlaeth wedi myn'd,
A chenhedlaeth wedi d'od.
Wedi oes dymhestlog hir,
Alun Mabon mwy nid yw:
Ond mae'r heniaith yn y tir,
A'r alawon hen yn fyw.

Er gwaetha'r delweddau sionc a geir am ryfeddodau cefn gwlad a'i brydferthwch, gellid dadlau mai neges eithaf dirdynnol a gyflwynir am fywyd y bugail yn isymwybodol. Yr hyn a gyfleir uchod yw'r ffaith bod natur a'r mynyddoedd yn arhosol, tra bod bywyd dyn yn mynd ac yn dod bron yn ddisylw. Yn yr un modd ceir awgrym tebyg ar ddechrau'r fugeilgan, wrth i Ceiriog nodi (Hughes 1862, t. 28): 'Ac yna megis blodyn grug, / Fe wywodd ar y mynydd.' Hynny yw, y neges a geir gan Ceiriog yw bod bywyd y bugail yn gwneud tro crwn, wrth iddo gael ei eni 'Ar fin y mynydd' (Hughes 1862, t. 28), gweithio arno, ac yna marw ar yr un safle gan ddychwelyd i'r pridd. Wrth gwrs gellid ystyried hefyd bod y gerdd am gyfleu tra bod dyn yn gweithio'r tir bod iaith a chân a chreadigaethau pobl yn parhau hefyd, a tha pery'r rhain pery gobaith i gelfyddyd Cymraeg. Er gwaetha'r ffaith bod y fugeilgan wedi canolbwyntio ar ei hyd ar droeon bywyd Alun Mabon, gwelir mai natur a'r mynyddodd sy'n hawlio diwedd glo ac ergyd y gwaith, fel petai bywyd y bugail yn cael ei anghofio. 'Aros mae'r mynyddoedd mawr' yn hytrach nag atgof am y bugail cyffredin sydd yma yn y diwedd. Ceir drafodaeth ddifyr gan E. G. Millward ynglŷn â neges waelodol pennill clo 'Alun Mabon'. Dywed Millward:

Yn y bôn, ni allai Ceiriog ymuno yng nghorws yr oes fod cyfnewidiad yn rhan annatod ac anorfod o fywyd a bod y cyfnewidiad hwnnw'n gweithio er lles dyn [...] O'r herwydd, ni allai Ceiriog lai na chloi Alun Mabon gyda'r delyneg adnabyddus, gofiadwy honno: 'Aros mae'r mynyddoedd mawr'. Yn y gân hon dathlu parhad Natur a phethau'r ysbryd a'r meddwl a wneir [...] Nid oedd cyfnewidiad yn gyfystyr â chynnydd, meddai.

O gymharu â'r datblygiadau a oedd ar droed yn Oes Victoria, awgryma E. G.

Millward fod Ceiriog yn mawrhau agweddau arhosol byd natur yn y fugeilgan. Yn wir cred Millward fod y neges a gyfleir yn un oesol ac yn '...her i ninnau gan mlynedd a mwy ar ôl ei farw' (1991, t. 51). Tystia Ceiriog yn y cwpled olaf y bydd yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn ddiogel cyhyd ag y bydd Cymry cyffredin yn bugeilio'r tir o genhedlaeth i genhedlaeth, gan bery bod y tir yn warchodfa ddiwylliannol: 'Ond mae'r heniaith yn y tir, / A'r alawon hen yn fyw' (Hughes 1862, t. 50). O ystyried natur y Gymraeg yn y cyfnod, yn ogystal â barn Ceiriog am sefyllfa a dyfodol yr iaith a drafodwyd yn gynharach yn y bennod, onid yw'n ddifyr iddo gyfeirio at y ffaith bod yr 'heniaith yn y tir'? Delwedd ffafriol a gyfleir yma felly am ddyfodol y Gymraeg. Wrth ystyried y ffactorau a drafodwyd, ni ellir gwadu'r ddeuoliaeth barn a geir yn un o weithiau enwocaf Ceiriog. Er iddo ddyrchafu natur, wrth edrych yn fanylach ar yr hyn sy'n llechu dan yr wyneb yn y fugeilgan, gwelir nad yw'r portread o fywyd y bugail cyntefig yn un dyrchafedig.

'Hen Gymru fynyddig, paradwys y bardd' yw'r geiriau a genir yn ail bennill yr anthem genedlaethol a luniwyd yn 1856 gan Evan a James James. Yn wir, gellid dadlau mai paradwys o Gymru a gyflwynwyd gan Ceiriog yn ei gerddi enwocaf a rhai o rai hoffusaf y genedl. Wrth ysgrifennu ym Manceinion, gellid dadlau mai creu paradwys ddelfrydol o Gymru a wnaeth y bardd drwy gyflwyno delweddau rhamantaidd am y dirwedd a byd natur. Drwy gyflwyno'r delweddau hyn llwyddodd y bardd i foddio chwaeth ei gynulleidfa a'r genedl, a bu hynny i raddau helaeth yn foddion cysur ynghanol oes llawn prysurdeb a newidiadau affwysol. Gellid dadlau pe

bai Ceiriog wedi canu am ei hapusrwydd personol a rhagoriaethau bywyd y ddinas na fyddai wedi tyfu'n fardd mor boblogaidd. Apelio at deimladau ac emosiynau oedd rhagoriaeth Ceiriog, a hynny mewn modd a oedd yn berthnasol i bob Cymro neu Gymraes. Fel y trafodwyd ynghynt, gallai Ceiriog fod wedi creu darlun rhamantaidd a delfrydol o'r ddinas yn ei gerddi, gan bortreadu bywyd dinesig yn dderbyniol a deniadol. Ond ni fyddai'r delweddau dinesig hyn wedi cydymffurfio â symudiad rhamantaidd yr oes a'i bwyslais ar ddarlunio a dyrchafu rhyfeddodau natur. Dilyn y llif ac argymhellion rhai megis Creuddynfab yw'r hyn a wnaeth Ceiriog er mwyn ennyn parch y gynulleidfa, yn hytrach na mentro ar y cyfle i arbrofi. Ai dyma brif symbyliad y bardd felly – canu er mwyn gwneud enw iddo'i hun gan ddilyn arweiniad eraill yn hytrach na barddoni o safbwynt awydd a mwynhad personol? Yn wir, onid yw 'Alun Mabon' yn brawf o'r tyndra, wrth i'r bardd gyflwyno delweddau ffasiynol a derbyniol o gefn gwlad, tra ar yr un pryd yn cynnig awgrym o feirniadaeth rhwng y llinellau am fywyd gwledig y bugail? O ystyried bod Ceiriog yn ystod ei gyfnod ym Manceinion wedi cyfansoddi ei weithiau enwocaf, a'r rheini wedi'u llywio'n bennaf oll gan hanfodion rhamantiaeth wledig, onid oes modd dadlau bod y delweddau rhamantaidd hyn o gefn gwlad a gyflwynodd i'w gynulleidfa wedi cael effaith isymwybodol ar ei feddylfryd. Gellir asesu hyn wrth edrych ar ddychweliad y bardd i Gymru.

Breuddwyd a Realiti – dychwelyd i Gymru

Wrth geisio dadansoddi gwaith a chymeriad Ceiriog o safbwynt ei brofiadau yn y wlad a'r ddinas, gellir asesu'r tyndra rhwng bywyd personol y bardd a'r hyn a draethir yn ei gerddi. Gwelwyd bod Ceiriog fel llawer yn ei ddydd wedi dewis ymgartrefu a gwneud bywoliaeth y tu draw i'r bywyd gwledig amaethyddol, gan geisio elwa ar

ffortiwn chwyldro diwydiannol y dinasoedd. Serch bywyd cymdeithasol llewyrchus y bardd ym Manceinion, a'i waith ynghlwm â'r rheilffyrdd, try'r bardd yn dragywydd yn ei ganeuon a'i gerddi yn ôl at greu delwedd ddelfrydol o gefn gwlad a'i natur, yn hytrach na chanu am ei amgylchfyd dinesig. Pan nad oedd yn gwisgo cap y bardd, cafwyd mewnwelediad difyr gan Ceiriog yn ei ohebiaeth i arferion y gymdeithas Gymraeg ym Manceinion – y gymdeithas yr oedd ef ei hun yn rhan ohoni. Serch hynny, wrth wisgo cap y bardd poblogaidd, anwybyddwyd y ddinas a'i rhinweddau i raddau helaeth iawn. O ystyried llewyrch Ceiriog fel bardd poblogaidd ym Manceinion, ei swydd, ei gymdeithas, a'i gwmnïaeth lenyddol effro yn y ddinas, cyfyd y cwestiwn sylfaenol – pam symudodd Ceiriog yn ôl i Gymru?

Gellid dweud bod Ceiriog yn ddyn o ddau hanner – y bardd poblogaidd a'r dyn busnes. Rydym eisoes wedi trafod bri Ceiriog fel bardd cyngherddau adloniadol ei oes, ond, ni ddylid anghofio'r ddeuliaeth a oedd ynghlwm â bywyd personol y bardd, a'r ffaith bod Ceiriog yn ogystal â bod yn fardd poblogaidd, o ddydd i ddydd yn ddyn busnes â'i lygad fel llawer un arall ar ffortiwn a statws materol. Yn y cydestun hwn dylid ystyried un rheswm posibl dros ymadawiad y bardd â Manceinion, sef yr awydd i lwyddo a chodi'i statws ymhellach yn y byd materol oedd ohoni. Yn ogystal â bod yn ddylanwad ar grefft a meddylfryd barddol Ceiriog, roedd gan Creuddynfab ddylanwad pellgyrhaeddol ar yrfa alwedigaethol y bardd yn ogystal. Dro ar ôl tro mae'r drafodaeth ynglŷn â phwysigrwydd materoliaeth a llwyddiant ariannol yn ystod Oes Victoria wedi codi'i phen. Gellid dadlau nad yw penderfyniad Ceiriog i ddychwelyd i Gymru yn eithriad. Roedd gobaith am ddyrchafiad yn elfen hynod bwysig yng nghyfansoddiad cymdeithasol Oes Victoria, a hynny er mwyn ennill rhagor o statws a chyfoeth cymdeithasol. Dywed Hywel Teifi Edwards, 'Waeth beth am ei hiraeth honedig am Gymru, mae a wnelo'r ffaith iddo gredu Creuddynfab y

byddai'n bwysicach dyn yno nag ydoedd yn Lloegr lawer iawn â'i benderfyniad i dderbyn swydd meistr stesion Llanidloes yn 1865' (1980, t. 182). Yn wir fe â Hywel Teifi Edwards ymlaen i ddweud mai'r hyn a wnaeth Creuddynfab oedd distewi amheuon Ceiriog ynglŷn â dychwelyd i Gymru drwy ddweud: 'Bydd pobl gyffredin yn edrych i fyny atoch a phobl fawr yn ymgyfeillachu. Y mae Station Master yng Nghymru yn "rankio" yn uwch o lawer na Station Master yn Lloegr. Byddai yn sicr o fod yn godiad yn y "Social Scale"' (1987, t. 7). Y 'Social Scale', ys dywed Creuddynfab oedd yr hyn yr anelai Ceiriog a llawer tebyg iddo i'w ddringo. Dichon fod y cyfle i godi ei statws cymdeithasol a'i gyfoeth drwy dderbyn swydd fel gorsaf feistr Llanidloes, yn ogystal â pharhau i fod yn fardd poblogaidd uchel ei glod, yn gyfle nad oedd modd i Ceiriog droi ei drwyn arno. Wrth gwrs ar lawer ystyr ni ellir beio Ceiriog am wrando ar gyngor Creuddynfab, a hynny ar sail y ffaith y byddai unrhyw un yn mentro ar y cyfle i wella'i stad lle bynnag y byddai'r cyfle yn codi. Onid dyma un rheswm posibl pam y gwnaeth John adael ei gartref i fynd i Loegr yn y lle cyntaf – er mwyn gwella ei stad? O ystyried hyn cyfyd y cwestiwn ynglŷn â chymeriad Ceiriog, a'r tyndra rhwng Ceiriog y dyn yn ei breifatrwydd a Ceiriog y bardd cyhoeddus. Yn ei awdl fuddugol ar y testun 'Ceiriog' yn Eisteddfod Genedlaethol 1908 dywedodd y Parchedig J. J. Williams (1908, t. 36):

Ei enaid waedai 'nghanol – y ddinas
A'i myrddiynau llethol;
Heibio'i thwrw bytheiriol
I'r 'eithin' aur aethai'n ôl.

Yn debyg i lawer o Gymry ei gyfnod gwelodd J. J. Williams Ceiriog drwy lygaid edmygydd. Hiraeth a chariad tuag at ei wlad a glywodd ef o enau Ceiriog yn ei gyfansoddiadau, a hwnnw'n llais diffuant yn hiraethu'n daer am gael dychwelyd i Gymru. Yn wir, dyma'r awgrym a geir gan Ceiriog y bardd cyhoeddus dro ar ôl tro yn ei farddoniaeth. Fel y gwelwyd ynghynt, ffin denau a fodolai rhwng didwylledd y

cerddi, a'r gallu i ddadansoddi'r llais a draethir ynddynt. Yn y cyd-destun hwn, mae'n werth bwrw golwg ar 'Cywydd Llanidloes' (Hughes 1868, tt.56) a dychweliad y bardd i Gymru.

Diolch! 'rwyf wedi dŵad
I iawn le yn yr hen wlad:
Gweddus ar Geiriog waeddi,
O Walia fwyn wele fi!

Difyr yw'r ffaith bod y bardd yn y gerdd yn dewis datgan 'Gweddus ar Geiriog waeddi', gan ei enwi a chyfeirio ato'i hun. Yn wahanol i'r hyn a fynegwyd ynghynt ynglŷn â'r defnydd o'r person cyntaf anuniongyrchol yng ngerddi'r bardd, yr hyn a geir yn y cywydd yw'r bardd yn ei enwi'i hun yn uniongyrchol. Gellid dadlau felly yn wahanol i'r amwysedd ynghynt mai llais Ceiriog ei hun a glywir yn hytrach na thechneg farddol yn unig. Gellid dadlau bod Ceiriog yn y cywydd yn teimlo'r angen i ddatgelu'i deimladau personol yn hytrach na chyflwyno llwyth o deimladau i blesio cynulleidfa yn unig. Wrth gwrs ni ellir dianc rhag y wedd ramantaidd yn y cywydd, a hynny wrth i'r bardd barhau i ddyrchafu rhyfeddodau natur a'i effaith ar awen y bardd mewn llinellau megis (Hughes 1868, t. 57):

O! Goedydd bendigedig.
O'r sêr nos a'r asur nen,
Ac o'r rhaiad' ceir awen.

Yr awgrym a geir yn y llinellau uchod yw llawenydd y bardd wrth iddo ddychwelyd at ysbrydoliaeth ei awen sef y greadigaeth a byd natur. Ceir awgrym pellach o hyn wrth iddo nodi bod byd natur yn ei gynorthwyo wrth gyfansoddi (Hughes 1868, t. 58):

Yna mi af fy hunan,
I gwr y coed i greu cân:
A deryn a'r dderyn ddaw,
Awen i gynnorthwyaw.

Yn ogystal â thrafod dychwelyd i Gymru yng nghyd-destun lles natur i'w awen, nodi'r bardd yn y cywydd 'Dyma le i godi 'mhlant' (Hughes 1868, t. 57), wrth iddo

ddatgan ei hapusrwydd o gael magu'i blant yng nghefn gwlad a'r awyr iach. Ond, adran bwysicaf y cywydd er mwyn asesu rhesymau Ceiriog dros ddychwelyd i Gymru yw'r olaf, a hynny wrth i'r bardd grynhoi ei deimladau a'i feddylfryd yn ôl yn ei famwlad wedi'i gyfnod ym Manceinion (Hughes 1868, tt. 59-60):

Fy hen dir, O! fwynd wyt,
Rhyw Eden foreu ydwyt:
Gwlad mebyd hyfryd wyt ti,
Ynot y ce's fy ngeni.
Do mi dreiais fro'r Saeson,
Man a lle cwmïau llon:
Arosais fel mae'n resyn,
Yn rhy hir gyda'r rhai hyn.

Anwyl dud i'th ganol di
Ailanwyd fi eleni.
Eilchwyl i'r nef diolchwyf,
Am ym mraint mai yma'r wyf:
Yma'n hir b'of yn mwynhau
Hen Eden wèn fy nhadau.

Wrth drafod ei resymau dros symud yn ôl i Gymru dywed y bardd er gwaethaf ei gwmnïaeth 'lon' ei fod wedi aros 'Yn rhy hir gyda'r rhai hyn' ym Manceinion.

Dyma'r unig reswm a nodir gan y bardd dros adael Manceinion, sef yr angen i symud ymlaen a chychwyn ar bennod newydd yn ei fywyd. Yr hyn sy'n ddifyr, yw nad yw'r bardd yn nodi'r cyfle i godi'i statws yng Nghymru fel un o'i resymau dros ddychwelyd. Y cyfle i fyw unwaith eto yng nghanol awyr iach Cymru, a chael datblygu'i awen yn ôl yn ei famwlad yw'r hyn sy'n hawlio sylw'r bardd yn y cywydd a'i resymau dros ddychwelyd.

Yn debyg i'r rhan fwyaf o waith y bardd, ceir tinc breuddwydiol am Gymru yn 'Cywydd Llanidloes'. Gwelwyd ynghynt mai barn y beirniaid llenyddol cynharaf ynglŷn â rheswm y bardd dros ddychwelyd i Gymru oedd ei hiraeth am y wlad a adawodd ar ôl yn llanc ifanc. A oes modd ystyried bod yr holl sôn am Gymru a'r freuddwyd ddelfrydol o'r wlad a welwyd yng ngwaith y bardd poblogaidd wedi suddo

i'w isymwybod personol? Yn ogystal â'r cyfle am statws a ffortiwn yn ôl yng Nghymru, gellid dadlau bod y ddelwedd ramantaidd a gyflwynodd am ei famwlad dros y blynyddoedd wedi cael effaith seicolegol ar Ceiriog. Wrth drafod pwrpas llenyddiaeth dywed W. R. Jones (1923, tt. 5-6):

Literature has at least two great functions; it serves as a mirror of life and as an escape from life; by imaginative strength and vision the poet detaches himself from the actual and takes refuge in a dream world of his own.

Gellir cymhwyso'r hyn a ddywedir yma i feddylfryd a gwaith Ceiriog. Er gwaetha'r ffaith bod y bardd yn cyflwyno drych o brydferthwch natur Cymru yn ei gerddi, gellir dadlau drwy wneud hyn fod Ceiriog wedi gwyro i ffwrdd o realiti'r sefyllfa. O ystyried mai ceisio darlunio Cymru yn unol ag atgofion ei blentyndod oedd y bardd, mae modd awgrymu mai breuddwyd a gyflwynwyd yn hytrach na'r gwirionedd. Gellid dadlau felly fod y freuddwyd a ddarluniwyd yn ei gerddi wedi cael effaith seicolegol ar Ceiriog a hynny drwy'i arwain i gredu mai'r Cymru yr oedd ar fin dychwelyd iddi oedd yr union wlad a ddarluniwyd yn ei gerddi. Ceir trafodaeth ddfyfr ar hyn gan E. G. Millward (1991, t. 45) wrth iddo ddatgan, 'Yn ei waith gorau cawn Ceiriog yn ail-greu'r Gymru y tybiai ei fod yn ei chofio.' Yn wir fe â'r beirniad ymlaen i ddweud (1991, t. 47):

Fel llawer o Ramantwyr eraill, breuddwydio creadigol yw barddoni [...] Ail-greu – a delfrydu – ei febyd y mae [...] Gadawodd Manceinion wedi'i argyhoeddi y gallai gwlad ei febyd fod yn ffynhonnell iechyd ysbrydol ac ysbrydoliaeth farddol a chanodd yn fwrlwm o lawenydd yn y cywydd i Llanidloes.

Fel y trafodwyd gan E. G. Millward, dengys 'Cywydd Llanidloes' yr effaith a gafodd cynifer o weithiau breuddwydiol y bardd ar ei feddylfryd wrth i Ceiriog barhau i ramantu am y wlad yr oedd yn dychwelyd iddi. Credaf fod Ceiriog drwy dderbyn y swydd fel gorsaf feistr yn Llanidloes wedi'i berswadio'i hun ei fod ar fin derbyn y gorau o ddau fyd – codi'i statws, a chael gwneud hynny yn ôl yng ngwlad ei

freuddwydion. Ceir yma felly fewnwelediad ar gymhlethdod meddwl y bardd, a'r ffaith bod ei swyddogaeth fel bardd-gysurwr ei genedl wedi suddo i'w isymwybod ei hun. Yr eironi ynghlwm â hyn oll yw'r ffaith, er i'r bardd frolio Cymru a'i rhinweddau, mai mynd ar ei lawr fu sefyllfa Ceiriog wedi iddo symud o Fanceinion. Gŵr wedi'i siomi yw'r hyn a welir yng nghymeriad a meddylfryd Ceiriog yn ôl yng Nghymru. Yn wir wrth drafod sioncrwydd ac asbri Ceiriog o gael dychwelyd yn 'Cywydd Llanidloes' fe â E. G. Millward ymlaen i ddatgan (1991, t. 47):

...ni pharhaodd yr iwfforia yma'n hir. Nid yr un oedd Cymru 1865 a'r wlad a ymffurfiodd yn nychymyg rhamantaidd Ceiriog yn ystod y blynyddoedd maith a dreuliodd ym Manceinion. Ni allasai fod. Cyn pen blwyddyn yr oedd yn breuddwydio, yn ôl ei gyfaddefiad ei hun am Fanceinion a Salford a'r gwmnïaeth ddiddan a gâi yno.

Er gwaethaf gobeithion Ceiriog am lwyddiant pellach wedi iddo ddychwelyd i Gymru, fe dorrwyd ei freuddwyd yn deilchion gan realiti ei sefyllfa. Er gwaethaf honiad Creuddynfab bod 'Station Master yng Nghymru yn "rankio" yn uwch o lawer na Station Master yn Lloegr' ac yn 'godiad yn y "Social Scale"' (Edwards 1987, t. 7), nid dyna oedd realiti'r sefyllfa. Nid oedd bywyd 'Station Master yng Nghymru' yr hyn a ddychmygodd Ceiriog y byddai. Ni ddaeth llwyddiant a bri gyda'i swydd. Wrth drafod sefyllfa a symudiadau Ceiriog wedi iddo ddychwelyd dywed Hywel Teifi Edwards (1987, tt. 8-9):

...roedd ei fethiant o ran ei waith yn amlwg ddigon flynyddoedd cyn ei farw. Yn 1870 ymadawodd â Llanidloes tan gwmwl i gymryd gofal stesion Tywyn. Nid arhosodd yno fawr mwy na blwyddyn cyn symud i Gaersws yn rheolwr y lein a oedd newydd ei gosod o'r stesion honno i waith mwyn Y Fan ym mhlwyf Trefeglwys gan Gwmni Rheilffordd Y Fan. Ac o 1872 tan ei farw yn 1887 yno y bu, megis un o swyddogion treuliedig y Raj mewn stori Kipling, yn llusgo byw'n ffug-bwysig rhwng pyliau o ddifaterwch alcoholaidd.

Delwedd ddigalon o Ceiriog a fynegir uchod, a honno'n un o ddyn a fu'n rhygnu byw erbyn diwedd ei oes tan gwmwl methiant parhaus. Yn wir, diraddiad fu hanes Ceiriog wedi iddo ddychwelyd i weithio yng Nghymru, nid dyrchafiad. Fe â Hywel Teifi

Edwards ymlaen i ddatgan mai sail methiant Ceiriog a'r rheswm dros ei anallu i godi ei statws oedd y ffaith ei fod yn '...ddyn busnes anobeithiol', a hynny'n deillio o'i wendid wrth drin ffigyrau (1987, tt. 12-13). Yn ogystal â'r teimlad o fethiant yng nghyfansoddiad Ceiriog o safbwynt ei swydd, gwelir y siom ym mywyd Ceiriog o safbwynt ei gerddi hefyd. O gymharu â'r llwyth o gerddi enwog a ysgrifennodd y bardd tra oedd ym Manceinion, ni chafwyd yr un math o llwyddiant barddol wedi iddo ddychwelyd i Gymru. Mae tyndra ac eironi yn sefyllfa'r bardd yn y cyd-destun hwn. Er i Ceiriog drafod Cymru fel ysbrydoliaeth ac egin ei awen dro ar ôl tro yn ei gerddi a'i ganeuon, cilio a chrino yw'r hyn a brofwyd gan y bardd o safbwynt ei farddoniaeth wedi iddo ddychwelyd i'r wlad y dewisodd ei heilunaddoli. Yn wir, roedd Ceiriog yn well bardd yn ysgrifennu yn y ddinas Seisnig am hyfrydwch Cymru a chefn gwlad, nag oedd fel bardd yn ysgrifennu am y wlad a'i natur ac yntau yn ei chanol hi. Ar ôl dychwelyd i Gymru, gellid dadlau bod Ceiriog wedi ei ddeffro o ganol ei freuddwydion ffantasiol, ac felly o ganlyniad wedi methu ysgrifennu rhagor o gampweithiau. Yn sicr, mae'r tyndra rhwng y wlad a'r ddinas yng nghyd-destun gwaith a chymeriad Ceiriog i'w weld wrth asesu natur a llwyddiant cyfrolau Ceiriog. Sylwer fod cyfrolau mwyaf poblogaidd a llwyddiannus y bardd wedi'u hysgrifennu a'u cyhoeddi yn ystod ei gyfnod ym Manceinion gan gynnwys *Oriau'r Hwyr* (1860), *Oriau'r Bore* (1862), *Cant o Ganeuon* (1863) a *Y Bardd a'r Cerddor* (1865). Yn wir disgrifia Saunders Lewis *Y Bardd a'r Cerddor* fel 'y peth olaf pwysig a sgrifennodd ef ym Manceinion, y peth olaf pwysig a sgrifennodd ef o gwbl' (1929, t. 33). Gellid dadlau mai'r hyn a geir yn y cyfrolau a gyhoeddwyd ar ôl i'r bardd ddychwelyd i Gymru yw gwaith dyn wedi colli'i ffordd. Mae'r cerddi a'r caneuon yn *Oriau Eraill* (1868) a *Oriau'r Haf* (1870) yn cynnwys cerddi llai cofiadwy na'r hyn a gafwyd yn ei

gyfrolau cynharaf, ynghyd â chyfieithiadau o waith beirdd eraill, a deunydd Saesneg eu hiaith. Mae'n amlwg mai yng nghanol y ddinas roedd awen y bardd ar ei gorau.

Yn ogystal â siom Ceiriog o safbwynt ei waith ar y rheilffordd a'i farddoniaeth ar ôl dychwelyd i Gymru, ni ellir anwybyddu'r unigedd a brofwyd gan y bardd. Wrth drafod natur a meddylfryd cymdeithasol Oes Victoria, ystyria Walter E. Houghton yr elfen o unigedd ym mywydau pobl (1957, t. 77):

The feeling of isolation and loneliness, so characteristic of modern man, first appeared in the nineteenth century. With the breakup of long-established order and the resulting fragmentation of both society and thought, the old ties snapped, and men became acutely conscious of separation. They felt isolated by dividing barriers; lonely for a lost companionship, human and divine; nostalgic for an earlier world of country peace and unifying belief.

Gellid ystyried mai realiti sefyllfa Ceiriog wedi iddo ddychwelyd i Gymru oedd y ffaith ei fod wedi colli ei gwmniaeth glòs o gyfoedion yng nghylchoedd cymdeithasol Cymry Manceinion. Roedd y gwmniaeth honno wedi creu a mowldio cymeriad a meddylfryd Ceiriog i raddau helaeth ar hyd ei flynyddoedd yn y ddinas. Wedi iddo ddychwelyd i Gymru darganfu ei hun mewn gwagle unig yn brin o gymorth a chefnogaeth ei gwmniaeth ddethol, yn ogystal â phrysurdeb cymdeithasol ehangach y Cymry ym Manceinion. Yn ei unigedd trodd Ceiriog at y ddiod feddwol am gysur ac i anghofio am ei unigedd a phoenau methiant. Eryd yr hyn a ddywed Walter. E. Houghton yw'r ffaith mai'r ddinas fu'n gyfrifol am greu unigedd ymysg dynion. Onid yw'n eironig felly bod Ceiriog yn brawf o'r gwrthwyneb, hynny yw, yn achos Ceiriog, y wlad sy'n peri iddo deimlo'n unig ac yn ddigalon. Delwedd o w'r wedi ei drechu yw'r hyn a geir wrth ystyried bywyd Ceiriog wedi iddo ddychwelyd i Gymru. Yng ngolwg Ceiriog, methodd ddal gafael ar ei statws fel bardd poblogaidd, a methodd sicrhau ei statws ym myd diwydiant y rheilffyrdd. Gellid dadlau fod y breuddwyd a greodd Ceiriog o Gymru tra oedd ym Manceinion wedi suddo i'w

isymwybod i'r fath raddau fel mai siomi ei hun a wnaeth, gan fethu dygymod â realiti'r wlad a ddarluniodd yn lledrithiol yn ei gerddi. Ei unig encil a chysur bellach oedd alcohol. Nid gŵr hapus ei fyd, a bardd y cerddi sionc a rhamantus oedd Ceiriog wedi iddo ddychwelyd i Gymru, ond yn hytrach gŵr wedi digalonni â sefyllfa'i fywyd. Wrth ystyried profiadau'r bardd ar hyd ei fywyd yn y wlad a'r ddinas credaf fod modd deall Ceiriog yng nghyd-destun y dywediad 'Gwell Cymro, Cymro oddi cartref'. Wedi iddo symud o Gymru yn llanc ifanc, a hynny gellid tybied yn sgil nifer o resymau personol a chymdeithasol, gwelwyd bod Ceiriog yn ystod ei gyfnod ym Manceinion wedi llwyddo i sicrhau swydd barchus, wedi sicrhau ei le fel llais y gymdeithas Gymraeg yn ei ohebiaeth yn *Baner ac Amserau Cymru*, ac yn bwysicaf oll wedi llwyddo i wneud enw iddo'i hun fel bardd poblogaidd hynod lwyddiannus. Er gwaethaf y ffaith i'r bardd ddatgan dro ar ôl tro arucheledd pleserau syml bywyd, roedd golud materol yn elfen bwysig i Ceiriog ar lefel bersonol, ynghyd â'r enw a wnaeth iddo'i hun ym Manceinion. Oddi cartref, gwelwyd bod gan Ceiriog y gallu i greu delweddau breuddwydiol a delfrydol o Gymru a'r gallu i swyno'i gyd-Gymry ym Manceinion, yn ogystal ag apelio at y gynulleidfa Gymraeg yn ôl yng Nghymru. Wedi i'r bardd ddychwelyd i Gymru, delwedd anobeithiol o Gymro wedi colli'i awen a'i asbri tuag at fywyd yn gyffredinol a welir yng nghyd-destun bywyd Ceiriog. Dyma ddal Ceiriog ys dywed Saunders Lewis '...mewn unigrwydd' y tu draw i'w ffrynt fel cymeriad cyhoeddus y llwyfannau poblogaidd (1929, t. 39). Yn sicr wrth gymharu'r Ceiriog a welwyd ym Manceinion a'r gŵr a ddychwelodd i Gymru, gellid dadlau mai Cymro trist ac unig, wedi'i siomi â'i fywyd a welir. Er iddo freuddwydio a hiraethu am wlad ei febyd yn ei gerddi, roedd Ceiriog ar ei hapusaf, ac yn bwysicaf na hynny yn ôl safonau Oes Victoria, yn fwyaf llwyddiannus ym Manceinion – y ddinas.

Yr *alter ego* – Syr Meurig Grynswth

Gŵr a chanddo amryw o gapiau oedd Ceiriog, a'r gallu i newid ei gap yn ôl anghenion ei gymdeithas a'i amgylchiadau personol. Yn cyd-fynd â'r 'capiâu' hyn, gwelwyd cymeriadau a phersonau amrywiol yn ymddangos ym marddoniaeth a rhyddiaith Ceiriog. Yn ei safle fel bardd poblogaidd cenedlaethol clywir yn rhedeg drwy'i waith lais persona â'r awydd i blesio ac apelio at y tant hiraethus yng nghalonau'r Cymry, yn enwedig wrth i Ceiriog ddefnyddio'i grefft i chwarae ar galonau'r Cymry oddi cartref. Drwy ddilyn arweiniad yr Ysgol Ramantaidd yn ogystal â dylanwad rhai megis Creuddynfab, llwyddodd Ceiriog i saernïo cerddi a chaneuon a weddai i ffasiynau barddol rhyngwladol yr oes, yn ogystal â boddio chwaeth ac anghenion penodol cenedl y Cymry. Yn amlach na pheidio, ceir yn y cerddi a'r caneuon hyn bersona gwladgarol sy'n clodfori Cymru'r wlad, ei phobl a'i thraddodiadau i'r eithaf. Yn ystod cyfnod Ceiriog oddi cartref ym Manceinion y cynhyrchwyd gweithiau gwladgarol enwocaf y bardd, ac yn wir rhai o gerddi hoffusaf y genedl Gymreig am ddegawdau lawer ar ôl ei farw.

Wrth edrych ar gyfnod Ceiriog ym Manceinion gwelwyd iddo dyfu'n ffigwr poblogaidd yng nghylchoedd cymdeithasol y Cymry yn y ddinas Seisnig. Yn ogystal â sicrhau ei safle fel bardd cyngherddau ffasiynol yr oes, gwisgodd Ceiriog ei gap fel gohebydd ar ran y Cymry ym Manceinion ym mhapur newydd *Baner ac Amserau Cymru*. Yn wahanol i'w gerddi gwelwyd persona â llais newydd yn ymddangos yng ngohebiaethau Ceiriog – llais y newyddiadurwr. Clywir llais persona'n brolio rhagoriaethau'r ddinas a'r cylchoedd cymdeithasol dosbarth-canol yn yr ysgrifau hyn, o gymharu â'r llais yn y cerddi a'r caneuon sy'n canu clodydd cefn gwlad a'r ffermwyr gwerinol. Yn wir, ceir deuoliaeth rhwng y llais a glywir yng ngherddi

Ceiriog a'r un a glywir yn ei ohebiaethau wrth iddo bwysleisio rhagoriaethau'r wlad yn y naill, a chynnig darlun llewyrchus o fywyd y Cymry dinesig yn y llall. Wrth gwrs, dylid cadw mewn cof bod cynulleidfaoedd y cerddi, a chynulleidfa'r gohebiaethau yn aml yn cydblethu, hynny yw, yr un oedd y gynulleidfa'n aml ar gyfer y ddau gyfrwng. Drwy astudio gwaith Ceiriog gwelir anghenion a gofynion amlochrog y gynulleidfa, o'r angen am ganeuon a cherddi sentimental i'r awch a oedd ganddynt am lwyddiant materol yn y byd diwydiannol a threfol. Ymgorfforiad o unigolyn wedi'i ddal yn y tyndra a'r cymhlethdodau a wyneba'r Cymry dinesig yn Lloegr yw Ceiriog yn debyg i lawer o'i gynulleidfa. Llwyddodd i ddarparu cerddi hiraethus iddynt am eu mamwlad, law yn llaw â chydabod yn ei ohebiaeth realiti'r sefyllfa yn y ddinas. Wrth asesu'r llais a geir yng ngweithiau Ceiriog ceir blas ar allu'r gŵr hwn i newid ei agweddau a'i safbwyntiau yn ôl genres, ac anghenion amlochrog ei gynulleidfa. Dyma sy'n ychwanegu at gymhlethdod cymeriad Ceiriog, sef y lleisiau amrywiol a glywir yn ei weithiau.

Yn ystod yr astudiaeth ar Ceiriog a'r gwahanol agweddau ar gymhlethdod meddwl a gwaith y bardd, mae un elfen hollbwysig wedi'i hesgeuluso hyd yma – Syr Meurig Grynsyth. Yn ei hanfod Syr Meurig Grynsyth yw *alter ego* dychanol Ceiriog, ac o dan enw'r cymeriad ecsentrig hwn bu Ceiriog yn cyfrannu barddoniaeth ac ysgrifau i gyfnodolion a phapurau newydd yr oes, yn ogystal â chynnwys peth o'r defnydd yn ei gyfrolau. Hiwmor o natur dychanol yw sail yr hyn a gafwyd dan enw Syr Meurig Grynsyth, o gymharu â gweithiau 'difrifol' Ceiriog, fel y cawn weld mewn manylder maes o law. Er gwaethaf y ffaith bod gweithiau dychanol Ceiriog o dan fantell swreal Syr Meurig yn rhan allweddol o'i gyfraniad llenyddol, prin fu'r ymateb gan feirniaid llenyddol i'r elfen hon yn ei waith. Dywed yr awdur W. C. Elvet Thomas (1929, t. 27):

One particular section of Ceiriog's work has not received the attention it deserves. It is frequently forgotten that Ceiriog was a splendid humorist. He could, at times, visualise life from angles other than sentimental. His full-bodied humour, when given fair-play, would not admit of contact with sentimentalism. There is no trace either of sentimentalism or of the other manifold defects of Ceiriog in his humorous works. This seems to prove, therefore, that Ceiriog's weaknesses were due largely to his imitativeness and the neglect of his own natural inclinations. They were derivative rather than inherent [...] Mid-nineteenth century Wales tended to regard humour as savouring somewhat of the unclean, and we are not surprised, therefore, that Ceiriog's vein of humour was not particularly acceptable to an age of irreproachable respectability.

Gwelir uchod bod yr awdur yn clodfori gwaith doniol a dychanol Ceiriog uwchlaw ei weithiau difrifol. Er i W. C. Elvet Thomas feirniadu Ceiriog yn gynharach yn ei ysgrif am ddiffyg gafael y bardd ar realiti bywyd o safbwynt y cerddi, cryfder Ceiriog, yn ôl yr awdur, oedd naturioldeb greddfól ei ddefnydd o hiwmor. Cyn 1929 prin oedd yr ymateb a gafwyd gan feirniaid llenyddol i waith dychanol Ceiriog, fel y tystia W. C. Elvet Thomas, a'r un yw'r sefyllfa hyd heddiw. Yr unig gyhoeddiad a gafwyd sy'n canolbwyntio ar waith Ceiriog fel Syr Meurig Grynswth yw cyfrol fechan Hugh Bevan, *Gohebiaethau Syr Meurig Grynswth*, a gyhoeddwyd yn 1948. Serch hynny, cyfrol anghyflawn yw hon mewn gwirionedd, sy'n cynnig rhagair byr a digon arwynebol, ynghyd â detholiad pytiog o'r gweithiau. Yn dilyn cyfrol Hugh Bevan ceir ychydig o drafod ar ddefnydd Ceiriog o hiwmor ac ar weithiau Syr Meurig Grynswth gan Hywel Teifi Edwards yn *Llên y Llenor: Ceiriog* (1987). Prin felly fu'r ymateb. Gellir dadlau mai snobyddiaeth feirniadol sydd i gyfri am ddiffyg sylw'r beirniaid llenyddol i weithiau Syr Meurig Grynswth a hynny oherwydd natur ddychanol a ffwrdd-â-hi y gweithiau. Dyma'r stigma y mae angen ei wrthdroi, er mwyn dangos gwerth ysgrifau digri a dychanol Ceiriog, ynghyd â gwerth llenyddol a chymdeithasol y cynnyrch.

Mae dadansoddi gweithiau dychanol Ceiriog yn allweddol er mwyn asesu'r ddeuliaeth a'r amlochredd a berthyn i'w waith a'i gymeriad. A oes modd dadlau mai dihangfa greadigol oedd Syr Meurig Grynswth yng ngolwg Ceiriog, er mwyn rhoi'r rhyddid iddo ysgrifennu mewn modd cwbl wahanol i'w gerddi difrifol, a thorri dros y tresi confensiynol? Rhaid cofio bod gohebiaethau a barddoniaeth Syr Meurig Grynswth yn adlewyrchu agwedd arall ar gyfnod y bardd ym Manceinion, ac yn gap arall a wisgai yn ystod y cyfnod hwnnw yn ei fywyd. Dyma wedd arall ar ei gymhlethdod, y tyndra, a'r ddeuliaeth greadigol a phersonol a berthyn i gymeriad Ceiriog. Er bod y beirniaid llenyddol ar hyd y blynyddoedd wedi tueddu i esgeuluso gwaith Ceiriog fel Syr Meurig Grynswth yn eu trafodaethau, credaf ei fod yn hollbwysig cyflwyno a thrafod y gwaith os am gynnig asesiad llawn ar Ceiriog. Gellid dadlau mai creu y gŵr dychanol ac ecentrig hwn gan Ceiriog yw pinacl cymhlethodau'r bardd.

Hiwmor a dychan v. Oes Victoria

Y darlun poblogaidd a geir o agweddau'r gymdeithas yn ystod Oes Victoria, diolch i'r hyn a gyflwynwyd gan haneswyr, awduron ac mewn bywgraffiadau o'r cyfnod, yw un o gymdeithas barchus, a thra difrifol ei meddylfryd. Un o'r haneswyr sydd wedi astudio meddylfryd Oes Victoria yw Walter E. Houghton. Dywed yr awdur, 'By and large, the Victorian mind was rigid. It tended to follow one line of thought, to look at objects from a single point of view, to shunt out wide interests' (1957, t. 161). Golwg unplyg tuag at fywyd oedd gan y gymdeithas Fictoriaidd yn ôl yr hanesydd hwn, felly. Yn wir, wrth edrych ar waith Ceiriog yn gyffredinol gellid dadlau mai'r un themâu cyffredinol sy'n codi'n gyson yn ei waith, a rheini'n osgoi mentro y tu hwnt i ffiniau derbyniol y gymdeithas, er enghraifft, prydferthwch byd natur a Chymreictod.

Fe â Walter E. Houghton ymlaen i ddehongli'r gymdeithas fel un a oedd yn dueddol o rannu syniadau, pobl a gweithredoedd i garfanau syml megis gwir neu gau, da neu ddrwg, cywir neu anghywir, yn hytrach na derbyn profiadau cymysg y bod dynol (1957, t. 162). Cymdeithas tra chul, a sych-dduwiol ei meddylfryd, sy'n dod i'r meddwl wrth ystyried y gymdeithas Fictorianaid yn y cyd-destun hwn, serch hynny, annheg fyddai ystyried y gymdeithas gyfan yn y modd hwn.

Dywed W. J. Gruffydd, 'A dyma'r gwahaniaeth rhwng Ceiriog ac ymhonwyr llenyddol ei oes – er mai yng nghanol y diffeithwch hwn y deffrowyd ei awen gyntaf, yr oedd ynddo ddigon o wroldeb ac annibyniaeth chwaeth i ymwrthod â'r rhan fwyaf o safonau ei oes' (1939, t. 7). Yn yr un modd â Saunders Lewis yn ei gyfrol *Ceiriog – Yr Artist yn Philistia*, cydnabu W. J. Gruffydd fod Ceiriog yn artist sy'n codi uwchlaw ei oes yn unig. Roedd gan Ceiriog hunanhyder yn ei allu i arbrofi'n llenyddol, ac yn wir ni cheir gwell prawf o'i 'annibyniaeth chwaeth' na'r hyn a geir yn ei weithiau ysgafn a dychanol. Er bod rhan helaeth o waith y bardd fel petai'n bodloni anghenion cymdeithas waraidd a thra sidêt ei meddylfryd, gwelir ochr arall i'r geiniog wrth ystyried yr elfennau o hiwmor a geir gan Ceiriog.

Fel yr awgrymwyd ynghynt, yn gyffredinol nid yw hiwmor fel cyfrwng llenyddol wedi derbyn sylw mawr, nac wedi ei gydnabod yn rhywbeth gwerth ei astudio gan feirniaid llenyddol tan yn lled ddiweddar. Yng nghyd-destun Oes Victoria y farn gyffredinol ymysg haneswyr oedd mai cyfrwng i droi trwyn arno oedd hiwmor. Dywed W. J. Gruffydd, 'I'r oes honno "bod yn ddi-chwaeth" oedd sôn am bethau anfonheddig; bod yn ddi-chwaeth oedd i ddyn fyned i'r parlwr, megis, yn ei ddillad gwaith [...] ffordd arall yn yr oes honno o fod yn ddi-chwaeth oedd bod yn ddigrif' (1939, t. 18). Ar y llaw arall, ni ddylid rhannu agweddau'r gymdeithas tuag at hiwmor a digrifwch ysgafn i'r du a'r gwyn fel y tystia E. G. Millward; '...peidied neb â

meddwl bod Oes Victoria'n ddihiwmor' (1991, t. 44). Yn wir, dyna sydd angen ei gyflwyno i gynulleidfaeodd newydd heddiw – yr ochr arall i gymeriad y gymdeithas Fictorianaidd, yr ochr ddigrif anghofiedig.

Mae hiwmor mewn llenyddiaeth a barddoniaeth yn elfen sydd wedi bodoli ar hyd y canrifoedd, ac nid yn ffenomen newydd i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Serch hynny, yr hyn sy'n gwahaniaethu hiwmor y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r oesau a fu, yw'r ymdrech ymwybodol a fu yn ystod yr oes honno i boblogeiddio hiwmor o fewn prif ffrwd diwylliant. Gwelwyd hiwmor yng Nghymru ym maledi rhai megis Jac Glan-y-gors (1766-1821), er enghraifft, ac yn anterliwtiau Twm o'r Nant (1739-1810). Draw dros y ffin yn Lloegr ac ar lefel ryngwladol erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg cafwyd atgyfodiad celfyddydol yn achos hiwmor a'r defnydd ohoni. Gwelwyd twf yn y rhai a fu'n ymdrechu i boblogeiddio hiwmor a dychan o fewn prif ffrwd diwylliant Seisnig. Un o'r ffigyrau adnabyddus hyn yn Lloegr oedd Thomas Hood (1799-1845). Roedd Thomas Hood yn un o feirdd amlycaf a mwyaf poblogaidd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn Lloegr, a hynny yn seiliedig ar ei weithiau dychanol. Yn ei rhagarweiniad i'w hastudiaeth ar waith y bardd, dywed Sara Lodge (2007, t. 1) mai prif gamp Hood oedd fel awdur y cylchgrawn blynyddol *Comic Annual* (1830-9). Yn ôl Sara Lodge fe dorrodd Hood dir newydd ym myd cyhoeddi cyfnodolion y cyfnod, a hynny am iddo gyflwyno cerddi dychanol, yn ogystal â chyfres o ddarluniau doniol i gyd-fynd â'r gwaith lle na welwyd o'r fath o'r blaen. Yn nes ymlaen yn y ganrif, ac yn cydoesi â Ceiriog, gwelwyd cyfraniad Lewis Carroll (1832-1898), sef awdur enwog *The Adventures of Alice in Wonderland*, i fyd hiwmor a dychan poblogaidd. Roedd gan hiwmor Oes Victoria y gallu i sylwebu'n graff ar gymdeithas, gwleidyddiaeth leol a rhyngwladol, yn ogystal â diwylliant. Yn ei hastudiaeth ar gyfieithu *The Adventures of Alice in Wonderland* i'r Gymraeg, ceir

trafodaeth gan Sioned Davies ar glyfrwch y clasur o stori nonsens i blant. Dywed Sioned Davies (2012, t. 122), ‘Llyfr ydoedd i blant [...] Ond yr oedd hefyd yn waith a apeliai at oedolion: fe’i defnyddir yn gyfrwng ar gyfer sylwebaeth gymdeithasol a gwleidyddol, ac y mae’r clyfrwch geiriol yn heriol.’ Yn yr un modd ag yn achos Lewis Carroll gwelir yr un math o glyfrwch geiriol a delweddau anghonfensiynol sy’n herio’r gynulleidfa yng ngwaith Ceiriog o dan enw Syr Meurig. Gwelir felly nad oedd Ceiriog yn cyfansoddi mewn gwagle diwylliannol. Roedd dychan a hiwmor yn amlygu’i hun o fewn prif ffrwd cymdeithas y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Erbyn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd hiwmor ac ysgrifennu dychan wedi canfod ei hun yn gyfrwng amlycach o fewn y gymdeithas Gymreig. Gwelwyd rhai megis Gwilym Hiraethog (1802-83) yn mentro sylwebu ar y gymdeithas mewn modd dychanol. Amlygwyd hiwmor Gwilym Hiraethog yn ei erthyglau poblogaidd ‘Llythyrau’r Rhen Ffarmwr’ yn *Yr Amserau* o 1846 ymlaen, wrth iddo sylwebu ar faterion yn ymwneud â materion y dydd. Wrth sôn am bwysigrwydd a phoblogrwydd gohebiaeth Gwilym Hiraethog, dywed David Williams bod y llythyrau wedi profi’n llwyddiant ‘...for in them he discussed with wit and humour all the problems which faced his readers. It is probable that he had greater influence than anyone else in the formation of Welsh public opinion in the nineteenth century’ (1950, t. 252). Dengys hyn bwysigrwydd y wasg a chyfnodolion lluosog y cyfnod fel un o’r prif gyfryngau torfol i allu mynegi barn a dylanwadu ar feddyliau darllenwyr. Roedd papurau newydd a roddai le i ddychan ysgrifenedig yn ogystal â hiwmor gweledol ar ffurf cartwnau amrywiol wedi tyfu’n fwyfwy poblogaidd ar hyd ac ar led Prydain yn ystod Oes Victoria. Yn ei gyfrol *Words with Pictures* (1995) ceir astudiaeth gan Peter Lord ar hanes y defnydd o ddelweddau ac ysgrifau dychanol o Gymru, ei chymdeithas a’i thraddodiadau yn y wasg Brydeinig a’r wasg Gymreig yn ystod y cyfnod o 1640 hyd

1860. Ceir trafodaeth ganddo ar ddylanwad y papurau hyn, yn enwedig ymddangosiad ac arwyddocâd *Y Punch Cymraeg* yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Trafoda'r awdur driniaeth y papur ar rai o bynciau llosg cymdeithas Gymraeg y cyfnod, megis crefydd, gwleidyddiaeth a barddoniaeth. Un sylw a wnaed gan Peter Lord yn ei drafodaeth ar yr erthyglau a'r ysgrifau a welwyd ym mhapurau newydd dychanol Oes Victoria yw'r ffaith bod y rhan helaeth o gyfranwyr yn ysgrifennu dan ffugenw yn hytrach na datgelu gwir awduraeth y darnau (1995, t. 146). Yn achos rhai o'r papurau megis *Y Punch Cymraeg*, gellid awgrymu bod y cyfranwyr am ysgrifennu dan ffugenw er mwyn cyd-fynd â'r doniolwch a'r dychanu geiriol. Roedd y papurau newydd dychanol a welwyd yn ystod Oes Victoria, yn yr un modd ag a welir heddiw mewn cyhoeddiadau megis *Lol* neu *Private Eye*, yn cynnig llwyfan i'r sawl a fynnai leisio barn ddadleuol a thynnu coes yn agored am faterion cymdeithasol cyfoes wneud hynny.

Nid oes dwywaith bod hiwmor ac ysgrifau dychanol wedi ennill tir yn y gymdeithas Fictorianaid, yn enwedig o safbwynt ei ddefnydd fel arf pwrpasol a chrafog er mwyn beirniadu cymdeithas mewn modd anuniongyrchol. Un o'r gwahaniaethau mwyaf rhwng y math o hiwmor a welwyd ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a'r datblygiad a fu yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yw'r ffaith bod y cyfrwng wedi parchuso. Yn ei gyfrol *Y Bardd a'r Cerddor* (1865) ceir trafodaeth gan Ceiriog ei hun am hanes hiwmor mewn barddoniaeth a rhyddiaith boblogaidd. Ynddi, tystia Ceiriog mai cyfrwng ar gyfer haenau addysgedig y gymdeithas yw hiwmor, gan fod angen dealltwriaeth graff i ddeall ystyr gweithiau o'r fath.

Beth bynnag am naturioldeb chwerthin, anhawdd yw credu rywfodd fod y moddion i'w gynhyrchu heb weithio i fyny gydag addysg, chwaeth a moesoldeb. Fel prawf mai cam i fyny ydyw y caneuon digrif a gynhyrnod yr oesau diweddaraf, chwi sylwasoch yn ddiâu nad yw y werin fwyaf anwybodus

yn gallu cyrraedd atynt i'w mwynhau. Mae rhai pobl yn rhy ddwl i weled y pwynt lle mae cyfoeth y digrifwch yn cuddio ei hun (Hughes 1865, tt.20-1).

Yna fe â Ceiriog ymlaen i egluro bod hiwmor uchel-ael yn 'fendith fawr i gymdeithas' (Hughes 1865, t. 22) ar sail y ffaith ei fod yn atal cerddi anfoesol a masweddol rhag amlygu'u hunain ym mhrif ffrwd diwylliant poblogaidd. Yr hyn sy'n allweddol am hiwmor Oes Victoria yw'r ffaith ei fod yn soffistigedig ei natur.

Yn yr un modd â llên plant, dim ond yn lled ddiweddar mae hiwmor a dychan fel cyfrwng wedi derbyn sylw academaidd, a hynny yn bennaf oll am eu gwerth fel ffynonellau sy'n adlewyrchu safonau ac arferion cymdeithasol. Nid oes dwywaith fod hiwmor a dychan yn werthfawr tu hwnt, am eu bod yn fodd i gynnig mewnwelediad cignoeth ar agweddau a natur y gymdeithas y tarddant ohoni. Trwy'r canrifoedd, mae hiwmor wedi adlewyrchu'r hyn sy'n gyfoes o ran ymateb cymdeithas tuag at brif benawdau'r dydd yn ogystal â phynciau llosg y gymdeithas honno. Gellid dadlau bod hiwmor a dychan yn wedd ar feirniadaeth gymdeithasol soffistigedig ac uchelael, a hynny oherwydd gallu'r cyfrwng i gynnig ymatebion 'tafod yn y boch' ar natur ac arferion cymdeithas, gwleidyddiaeth a diwylliant. Gwelwn maes o law bod synnwyr, meddylfryd craff a phwysigrwydd cymdeithasol yn perthyn i hiwmor a dychan Ceiriog.

[‘Cliriwch y ffordd, lads, cedwch eich cwils, a gwrandewch’](#)

Ar dudalennau *Yr Arweinydd* y cawn ein cyflwyno i gymeriad lliwgar Syr Meurig Grynsyth am y tro cyntaf. Wythnosolyn oedd *Yr Arweinydd* a fu'n cylchredeg drwy Gymru rhwng 1856 a 1859. Sylfaenydd y papur oedd Hugh Hughes 'Tegai' o Landegai (1805-64) ac ef oedd golygydd *Yr Arweinydd* yn ystod ei gylchrediad byrhoedlog. Ceir cyfeiriad at Tegai a chrynodeb o'i fywyd yn *Y Bywgraffiadur*

Cymreig (LLGC Ar-lein). Cychwynnodd Tegai ei yrfa'n fachgen ifanc di-addysg yn chwarel Bethesda. Serch ei ddiffyg addysg swyddogol, llwyddodd Tegai i weithio'n galed i addysgu'i hun a throi ei olygon at y weinidogaeth Annibynnol. Bu'n weinidog yn Rhos-lan, Manceinion a Chwilog. Wedi ei gyfnod yn weinidog yn Chwilog, trodd Tegai ei olygon at fyd y wasg gan sefydlu gwasg argraffu ym Mhwllheli. Oddi yno bu'n cyhoeddi nifer o lyfrau a phapurau newydd gan gynnwys *Yr Arweinydd*. Erbyn 1859 aeth Tegai i fod yn weinidog i Aberdâr, sy'n esbonio'r ffaith i'w olygyddiaeth a chyfnod cyhoeddi *Yr Arweinydd* ddod i ben yn y flwyddyn honno. Yn ogystal â bod yn weinidog, yn ddyn busnes ac yn olygydd, roedd Tegai yn fardd cadeiriol ac yn feirniad eisteddfodol. Yn ôl *Y Bywgraffiadur*, 'Bu Tegai'n ddiesgeulus yn ei orchwylion fel pregethwr, llenor, a bardd, a gellir ei ystyried yn enghraifft bur nodedig o werinwr difanteision wedi ei ddiwyllio'i hun nes cyrraedd safle anrhydeddus ymhlith ei gyfoeswyr' (LLGC Ar-lein). Dyma yn gryno hanes a bywyd a gwaith Tegai, a'i safle fel un o wŷr dylanwadol ei oes. Bu Tegai yn byw ym Manceinion rhwng 1849 a 1851, cyn dechrau cyhoeddi *Yr Arweinydd*. Dyma egluro'r ddolen gydiol rhwng Tegai fel golygydd *Yr Arweinydd* ac awydd Ceiriog a Chreuddynfab i gyfrannu'n gyson i'r papur yn rhith eu cymeriadau dychanol. O ran cynnwys *Yr Arweinydd* yn gyffredinol, dyma'r disgrifiad a gynigir gan wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru: 'Yr enw a roddwyd arno i gychwyn oedd 'Yr Eifion', ond fe'i newidiwyd yn fuan wedyn i'r 'Arweinydd'. Cofnodai'r papur newyddion lleol, cyffredinol a chenedlaethol, ynghyd â detholiad o lenyddiaeth a cherddoriaeth' (LLGC Ar-lein). Gwelir felly mai cynnwys amrywiol oedd yr hyn a gynigwyd i ddarllenwyr *Yr Arweinydd*. Law yn llaw â'r erthyglau difrifol megis y newyddion a'r straeon hanesyddol, ceir hefyd erthyglau a thrafodaethau o natur ysgafn a dychanol. Enghraifft o'r math hwn o gynnwys yw cyfraniadau Ceiriog i'r papur dan enw Syr

Meurig Grynswth. Er nad oedd *Yr Arweinydd* fel cyfanwaith yn cyrraedd yr un graddau o ddychan â'r hyn a welwyd ar dudalennau *Y Punch Cymraeg*, ni ellir anwybyddu'r cynnwys dychanol ac ysgafn a geir yn wythnosolyn Tegai. Mae Tegai yn ymgorfforiad o'r ffaith nad oedd y gymdeithas Fictorianaid yn sych-dduwiol yn y modd a bortreadir yn gyffredinol gan oes ddiweddarach. Yn wir, er bod Tegai yn weinidog Annibynnol, dengys y ffaith iddo gynnwys ysgrifau dychanol a dadleuol Ceiriog yn ei bapur wythnosol y wedd ysgafn a chwareus i'w gymeriad.

Yn rhifyn 30 Hydref 1856 o'r *Arweinydd* dan y pennawd 'Difyrwch ar y Gauaf Nesaf' cyflwynwyd y genedl i Syr Meurig Grynswth. Egyr y darn â'r geiriau 'Cliriwch y ffordd, lads, cedwch eich cwils, a gwrandewch. Yr ydwyf fi wedi fy anfon atoch ar aelwyd yr Arweinydd i osod trefn arnoch ac i'ch cadw yn ddeffro yn ystod nosweithiau hirion y gauaf.' Dyma glywed llais awdurdodol Syr Meurig am y tro cyntaf wrth iddo gyflwyno'i hun a chyflwyno'i amcanion ar gyfer ei gyfres o erthyglau diddanol. Yn yr erthygl trewir y gynulleidfa o'r cychwyn cyntaf gan hunanhyder Syr Meurig a'i natur goegwych. Dyma elfennau o'i gymeriad sy'n parhau'n amlwg drwy gydol ei ohebiaethau, ac sy'n drawiadol o wahanol i'r llais sidêt a glywir yng ngherddi Ceiriog. Yn *Yr Arweinydd* o fis Hydref 1856 hyd at fis Mawrth 1858 y ceir y rhan fwyaf o'r ysgrifau gan Syr Meurig Grynswth. Wedi hynny ceir gyfraniadau gan Syr Meurig yn *Y Punch Cymraeg* yn ystod 1858, yn ogystal ag ambell erthygl, a cherddi ganddo ym mhapur *Y Gwladgarwr* rhwng 1859 a 1860. Yn gyffredinol erthyglau storïol o natur tra abswrdd yw'r hyn a gyflwynir i'r gynulleidfa gan Syr Meurig a'i gyfaill Bywbothfardd.

Yn amlach na pheidio ceir cyfres o straeon gan Syr Meurig sy'n dilyn ei gilydd yn naturiol dros sawl rhifyn o'r *Arweinydd* (er nad yn gyson bob wythnos). Un gyfres o erthyglau gan Syr Meurig sy'n rhedeg drwy sawl rhifyn o'r *Arweinydd*

rhwng Tachwedd 1856 a Chwefror 1857 yw ‘Ymweliad a Chwarel Bethesda’. Er gwaethaf teitl y gyfres, yr hyn a geir mewn gwirionedd yw straeon Syr Meurig ar ei daith cyn cyrraedd y chwarel; yn wir ni cheir hanes ei ymweliad â chwarel Bethesda tan ei erthygl olaf dan y pennawd hwnnw yn rhifyn 5 Chwefror 1857. Yr hyn a geir yn fras yn yr erthyglau yw cyfres o hanesion dros-ben-llestri gan Syr Meurig sy’n nodweddiadol o arddull ysgrifau’r cymeriad ecsentrig yma. Un agwedd o’r erthyglau sy’n werth ei nodi, yw’r ffaith bod y darlennydd yn cael portread pur gyflawn o gymeriad ac agweddau Syr Meurig. Yn ei erthygl gyntaf dan y teitl ‘Ymweliad a Chwarel Bethesda’ yn rhifyn 6 Tachwedd 1856 ceir hanes Syr Meurig yn cychwyn ar ei daith draw o Fanceinion i Fangor ar y trêen a hynny yng nghwmni Sais a meddwyn o Wyddel a fu’n lladd ar y Cymry. Ym mharagraffau cyntaf yr erthygl ceir adeiladu pellach ar yr argraffiadau cychwynol a gafwyd o gymeriad Syr Meurig yn yr erthygl yn *Yr Arweinydd* ar 30 Hydref 1856, a hynny fel gŵr llawn hunanhyder a charisma. Wrth gynnig disgrifiad o’i wisg ar y daith dywed Syr Meurig:

Yr oedd gennyf lyfr poced hardd mewn cloriau Moroco, a phensel arian i ysgrifennu yr eirchion [...] Ac er mwyn cario allan holl rith-foneddgedd a choegedd trafaelwyr masnachol yn gyffredinol, rhois fodrwy aur am bob bys bach, pin aur yn fy mrest, a chadwyn aur wrth fy orior, (oll yn werth swllt).

Mae gwisg yn elfen anhepgor er mwyn dadansoddi’r ffordd y mae dyn am ei gyflwyno’i hun i’r byd. O ystyried hyn, yr ymdeimlad a geir wrth ddarllen y disgrifiad uchod yw bod Syr Meurig am geisio cyflwyno’i hun fel bonheddwr ariannog a dyn busnes llwyddiannus wrth fynd o gwmpas yn esgus gwerthu’i ‘beiriannau llenyddol’ (ceir ymhelaethu ar y ‘peiriannau llenyddol’ maes o law). Yn wir, gellid dadlau bod Syr Meurig am gyflwyno’i hun fel Cymro a oedd wedi cymathu’n llwyr i ddsbarth masnachol bwrgais Seisnig. Er mor syml yw’r dweud, mae’r feirniadaeth gymdeithasol grafog a geir o dan yr wyneb yn arwyddocaol. Sylwer bod Syr Meurig

yn rhestru'r gemwaith a wisgai gan ychwanegu mewn cromfachau ar y diwedd fod y cwbl 'werth swllt'. Trwy eiriau Syr Meurig awgrym Ceiriog yw bod sawl un o'r Cymry a oedd yn ceisio llwyddo ym myd busnes yn ystod y cyfnod dan sylw yn ceisio ymddwyn a gwisgo'n drwsiadus er mwyn cyflwyno ffrynt cyhoeddus nad oedd gyfwerth â gwirionedd eu sefyllfa gymdeithasol. Gellid ymhelaethu ar hyn drwy ddyfynnu Syr Meurig ymhellach ar ei daith i Fangor: 'dechreuais ledu fy ffroenau, a sythu fy nghefn nes oedd yn gam. Collais fy Nghymraeg (ni ddywedaf sut), a ffeindiais fy hun yn Sais glân gloew yn nghanol boneddigion mewn cerbyn first class.' Gwelir yma'r modd y mae Syr Meurig yn gweld yr angen i newid yn gorfforol, ac yn fwy arwyddocaol na hynny yn ieithyddol, er mwyn ceisio gwyro tuag at ddelfrydau'r dosbarth uwch Seisnig. Ceir yr ymdeimlad bod Syr Meurig yn fodlon colli'i hunaniaeth pan fo'n fanteisiol er mwyn ennill ei ffordd yn y byd, yn hytrach na cheisio gwneud hynny fel Cymro Cymraeg. Wrth ddarllen y disgrifiad a geir am gymeriad a natur Syr Meurig, daw'r term 'Dic Siôn Dafydd' i'r meddwl. Y baledwr enwog Jac Glan-y-gors (1766-1821) oedd y cyntaf i fathu'r term yn 1799 yn y faled 'Cerdd Dic Siôn Dafydd' (Millward 2003, t. 26-31). Yn y faled hon ceir hanes Dic, y Cymro cyffredin di-addysg â'i gefndir amaethyddol, yn mynd draw i Lundain. Yr hyn a welir yw bod Dic yn ymbarchuso yn y ddinas Seisnig gan anghofio'i Gymraeg. Byth ers i Jac Glan-y-Gors gyhoeddi ei ddychangerdd enwog, mae 'Dic Siôn Dafydd' wedi troi'n derm ac yn ddelwedd gyffredin yn y byd Cymreig er mwyn dynodi Cymro sydd wedi troi ei gefn ar ei hunaniaeth Gymreig. Wrth gymharu'r ddychangerdd â'r disgrifiad o Syr Meurig a geir yn yr erthygl, gwelir nodweddion 'Dic Siôn Dafydd' yn amlygu eu hunain yng nghymeriad Syr Meurig, megis y ffaith iddo atal ei Gymraeg a darganfod ei hun 'yn Sais glân gloew', fel y gwelir yn rhifyn 6 Tachwedd 1856. Unwaith yn rhagor gellid dadlau fod Ceiriog yn defnyddio geiriau Syr Meurig fel llais

i ddatgelu ei farn ei hun ynglŷn â chymdeithas ac yn bennaf oll am y Cymry Cymraeg a'r Dic Siôn Dafyddion o fewn ei gylchoedd cymdeithasol ym Manceinion. Yn wir gellid dadlau bod Ceiriog yn gwneud sylw am ei gymeriad ei hun, wrth iddo yntau geisio dringo'r ysgol gymdeithasol a'r ysgol yrfaol ym myd masnach a diwydiant a hynny ar draul ei Gymreictod. Wrth gwrs, nid yn unig o dan enw Syr Meurig y gwelwn Ceiriog yn gwneud sylw ar natur y Cymry oddi cartref, ac yn wir, am natur ei gymeriad ei hun yn y cyd-destun hwn. Yn rhifyn 18 Chwefror 1864 o'r papur newydd *Y Byd Cymreig* cafwyd dychangerdd fachog gan Ceiriog dan ei enw ei hun yn dwyn y teitl 'Shôn Ceiriog Hughes y Cymro, a Shôn Ceiriog Hughes y Sais'. Yn y ddychangerdd gwelwn Ceiriog y Sais a Ceiriog y Cymro yn dod benben â'i gilydd. Cawn ddelwedd o Gymro wedi colli'i barch tuag at ei famwlad drwy gymeriad Shôn Ceiriog Hughes y Sais a oedd yn 'Seisnig iawn ei lais', tra bod Shôn Ceiriog Hughes y Cymro yn dal ei dir ac yn amddifyn Cymru a'i thraddodiadau. Wedi i Shôn y Cymro geisio dal ei dir yn erbyn Shôn y Sais wrth glodfori Cymry, dechreuau'r ddau gweryla a phaffio â'i gilydd. Serch yr anghydfod, gwelwn mai ergyd y gerdd yw bod y ddau Shôn mewn gwirionedd yr un dyn yn y bôn. Mae'r gerdd yn brawf pellach o allu diamheuol Ceiriog i hunan-ddychanu, yn ogystal â'i allu i gydnabod agweddau deublyg ei gymeriad. Onid yw'n ddifyr mai o dan enw ei hun y priodolwyd y gerdd gan Ceiriog yn hytrach na Syr Meurig? Yn rhinwedd y hiwmor ffraeth a'r dychan mae'r gerdd yn benthg ei hun yn naturiol i weithiau Syr Meurig. Mae'r ddychangerdd hon yn brawf pendant o'r ffin denau rhwng Ceiriog a'i *alter ego*. Yn wir, nid yw'n amhriodol ystyried y berthynas rhwng y ddau yn un sgitsoffrenaidd, gan mai tasg anodd yw pennu lle mae un dyn yn cychwyn a'r llall yn gorffen.

Wrth drafod natur a chymeriad Ceiriog dywed Thomas Parry (1979, t. 272):

Yr oedd ganddo un gras a oedd yn brin iawn ymysg beirdd amlwg ei gyfnod, sef y ddawn i weled pethau'n ddoniol, a defnyddiodd y ddawn hon yn helaeth i wawdio'r beirdd caeth eisteddfodol yn ei ysgrifau ar Syr Meurig Grynswth.

Yn wir, yn unol â'r hyn a ddywed Thomas Parry, canolbwynt ysgrifau Syr Meurig yn *Yr Arweinydd* yw gwawdio beirdd caeth eisteddfodol mewn modd dychanol. Dichon mai dyma ei brif gymhelliant dros gyfrannu i'r papur, a hynny fel llwyfan i leisio'i feirniadaeth ar fyd y beirdd, y byd yr oedd Ceiriog ei hun yn rhan ohono. Ni ellir astudio arwyddocâd yr ysgrifau beirniadol a dychanol hyn, heb gofio natur y gymdeithas farddol yr oedd Ceiriog yn ysgrifennu oddi mewn iddi, ac yn wir natur yr eisteddfodau eu hunain. Fel y nodwyd eisoes ym mhennod 1 yn yr adran 'Creuddynfab a'i Ddylanwad', roedd canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gyfnod o wrthdaro barn o fewn y sefydliad barddol Cymreig, wrth i'r safonau ceidwadol a'r safonau rhyddfrydol ddod benben â'i gilydd. Dyma gyfnod brwydr beirniadaeth geidwadol Caledfryn v. beirniadaeth ryddfrydol Creuddynfab. Un elfen o'r gwrthdaro hwn rhwng cefnogwyr y mesurau caeth a chefnogwyr y mesurau rhydd oedd y ddadl ynghylch y gadair eisteddfodol. Yn draddodiadol cyflwynwyd y gadair am yr awdl orau mewn eisteddfodau. Serch hynny, wrth i'r drafodaeth ynglŷn â diwygio'r eisteddfod a sefydlu'r Eisteddfod Genedlaethol godi'i phen yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg daeth yn amlwg fod beirdd a chefnogwyr y canu rhydd am gael am yr un hawl â'r beirdd caeth i gystadlu am y gadair eisteddfodol. Ceir cofnod difyr gan Hywel Teifi Edwards yn ei gyfrol *Gŵyl Gwalia* ynglŷn â'r ddadl gadeiriol hon (1980, t. 151):

Mae'n hysbys fod beirniadaeth lenyddol yng Nghymru ers dyddiau Goronwy Owen yn gynnyrch y ddwy blaid a fu'n ymladd yr hyn a elwir yn "Frwydr y Mesurau." I'r naill blaid, sef y cynganeddwyr, golygai ennill y frwydr ddiogelu'r egwyddor oesol mai eiddo'r awdlwr buddugol, a neb arall, oedd y Gadair. I'r llall, sef y prydestwyr, golygai orseddu'r egwyddor uwch mai bardd gorau'r Eisteddfod, boed yn gerdd gaeth neu rydd, a ddylai eistedd ynddi.

Gyda'r ail garfan, sef y pryddestwyr, y safai Ceiriog a Creuddynfab ar sail y ffaith mai cynnwys ac effaith cerdd sy'n rhagori dros unrhyw fesur barddol. O ystyried dwyster y gwrthdaro barn, nid yw'n syndod bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn ysgrifau Syr Meurig Grynswth a Bywbothfardd ar dudalennau *Yr Arweinydd*. Tystia Isaac Foulkes (1887, tt. 36-7):

Er fod Creuddynfab ddeunaw mlynedd yn hŷn na'i ddysgybl, yr oedd ysbryd un mor nwyfus ac ieuengaid, a chyneddffau y llall mor aeddfed, a'r ddau o'r fath gyffelyb chwaeth, fel nad oedd gwahaniaeth oedran yn gwneud dim gwahaniaeth yn eu serch at eu gilydd. Rhwng y blynyddau 1855 ac 1860, anfynych y cyhoeddai yr un o'r ddau ddim byd heb ei ddangos i'w gyfaill. O dipyn i beth, ysgrifent i'r cyhoeddiadau fel cyd-awduron (*confrères*). Yn yr *Arweinydd* [...] o tua 1856 i 1859, yr ymrithiodd gyntaf y bodau dychmygol hyny, Syr Meurig Grynswth a Bywbothfardd.

Er gwaethaf y doniolwch a'r ysgafnder arddull, mae'r gwrthdaro a'r feirniadaeth yn erbyn y beirdd caeth a'u cefnogwyr i'w clywed yn glir ac yn gadarn yn yr erthyglau dychanol gan Syr Meurig a Bywbothfardd. Cymerwch er enghraifft yr hyn a geir yn erthygl 'Ymweliad a Chwarel Bethesda' yn rhifyn 18 Rhagfyr 1856. Canolbwynt yr erthygl yw arhosiad Syr Meurig ar ei daith draw i Fethesda mewn gwesty ym Mangor. Wrth aros yno cafodd gwmni'r cymeriadau Twrch Daear ac Owain Glyndŵr, a chael mwynhau te a brechdanau ham. Oherwydd gwychedder y brechdanau ham, awgryma'r Twrch wrth y lleill y dylid mynd ati i gyfansoddi englyn i'r mochyn. Wedi awgrym y Twrch, dywed Syr Meurig:

Bu pum munud dystaw iawn yr amser hwnnw, aeth yn ddiffyg anadl arnom ill dau, yna i edrych ar ein gilydd, ar y carped, y lle tân, a'r ffenestr; ond 'doedd dim rhithyn o gynghanedd, nac awgrymiad un yn yr holl ystafell.

"Dyro rai o dy losengers," meddai Owain, "mae hi wedi myn'd yn galedi ochr yma."

Digwyddodd fod gennyf ddwy neu dair yn mhoced fy ngwasgod, a rhoddais hwy iddo. Yn y fan gwelwn ei bensel yn carlamu hyd y papur yn anhraethol gyflym.

Ymoleuai yr ystafell fel pe buasai yr haul newydd gael hollt yn y cwmwl i edrych trwyddo, a llanwyd y room gan awel araf a pharadwysaidd nes oedd y

spills ar y bwrs a'r fancy paper yn y lle tân yn shifflo. Deallais yn ddi-oed ein bod yn mhresenoldeb y gynghanedd.

Er mai hanesyn doniol ffwrdd-â-hi sydd yma, ceir elfennau o feirniadu cynnil o dan yr wyneb. Yn erbyn y gefnlen o wrthdaro celfyddydol a drafodwyd yn gynharach, gwelir bod y darn uchod yn fwy arwyddocaol nag y mae'n ymddangos ar yr olwg gyntaf. Yr hyn a geir mewn gwirionedd yw dychanu'r rhai a oedd o blaid y canu caeth. Dyma Ceiriog fel petai'n gwawdio'r beirdd caeth am fod yn orddramatig wrth gyfansoddi, a'r ffaith eu bod yn cyfri'r gallu i greu cynghanedd yn agos at wyrth dduwiol neu arallfydol o gymharu â chyfansoddi yn y ffurfiau rhydd. Yn wir, parhau â'r dychan sarhaus yw'r hyn a geir yng ngweddill yr hanesyn wrth i Syr Meurig fynegi ei farn bersonol yn ogystal â barn ei gyfoedion am y gynghanedd. Dywed Syr Meurig '...dadleuwyd yn wresog o blaid ac yn erbyn y gynghanedd, neu fel y gelwid hi gan y Tywysog [Owain Glyndŵr], "Lady Glec."'" Nid yn unig bod y term 'clec' yn cyfeirio at sŵn y gynghanedd yn gyffredinol, mae'r dywediad 'hel clecs' yn deillio o'r syniad o wag-siarad neu sŵn heb sylwedd, ac felly gellid dadlau bod Syr Meurig yn beirniadau beirdd y gynghanedd a'u crefft yn yr un modd, hynny yw yn gynnrych barddol gwag a di-fflach. Yn ogystal â hyn, onid yw'r trem 'Lady' hefyd yn un arwyddocaol a hynny er mwyn awgrymu bod y gynghanedd yn feistres? Wrth barhau i fynegi barn ei gyfoedion ac yntau am 'Lady Glec' dywed Syr Meurig:

Yr oedd y Twrch am ei thransportio i Tennessee, lle mae caethion eiddgar y gorllewin: ac yr oedd o'r farn pe anfonid hi yno y dyrchefid hi yn frenhines ar y dalaith honno o leiaf, os nad ar yr holl Daleithiau Caeth eraill ar gyfrif ei hysbryd caethiwus. [...] Ond i gynigiad eich ufuddaf Feurig y cydsyniwyd; a hynny oedd i Lady Glec gael ei 'spedu yn fyw ar bastwn, a bod i bwy bynnag fo hoffach ohoni nag o wir ryddid ei chario ar ei ysgwydd i ben mynydd Parnassus ac yn ôl [...] ac os byw ef i'w haddoli fel o'r blaen, fod iddo nofio ffynnon Castalia, gan ddwyn y pastwn a'r lady ar ei gefn; ac os bydd byw wedyn ar ôl yr orchest olaf hon, fod caniatâd iddo, yn enw rheswm, i gael byw am byth.

Sylwer ar y ffaith mai caethiwed y gynghanedd sy'n amlygu'i hun ym marn Twch a Syr Meurig yn y dyfyniad uchod. Yn unol â natur ddychanol y darn, crêd Twch y dylid gyrru 'Lady Glec' draw i America er mwyn rheoli dros y taleithiau cydffederal a hynny oherwydd natur bleidiol y taleithiau hynny tuag at gaethwasanaeth. Ar y llaw arall, cymhariaeth â mytholeg Groegiaidd a geir gan Syr Meurig wrth drafod 'Lady Glec'. Yn ôl y Groegiaid roedd mynydd Parnassus a ffynnon Castalia a oedd arno yn rhoi ysbrydoliaeth farddol i'r sawl a oedd yn trochi yn y dŵr. Crêd Syr Meurig felly bod angen gwyrth ar y sawl a oedd yn ymhel â 'Lady Glec' a'i chaethiwed barddol. Yn unol â'r hyn a fynegwyd yma, nid yw'n syndod bod Syr Meurig wedi gwneud sylw craff yn rhifyn 18 Rhagfyr 1856 o'r *Arweinydd* bod y weithred o dynnu esgidiau trymion a newid i sliperi cyfforddus yn ymdebygu i dynnu '...hualau'r gynghanedd a gwisgo sandalau'r bryddest'. Hynny yw, bod y gynghanedd yn caethiwo bardd, tra bod y bryddest yn galluogi dyn i lefaru'n rhydd. Heb os mae'r erthygl y cyfeiriwyd ati yn frith o ddychan a beirniadaeth soffistigedig yn ymwneud â natur y gymdeithas farddonol Gymreig, a'r gwrthdaro a fodolai oddi mewn iddi rhwng y canu rhydd a'r caeth.

Yn ogystal â'r gyfres o erthyglau 'Ymweliad a Chwarel Bethesda', cafwyd cyfres arall o erthyglau gan Syr Meurig Grynsyth sef 'Oddiwrth ohebydd y Lleuad'. Cyfres yw hon sy'n cynnwys gohebiaeth Syr Meurig wedi iddo deithio i'r lleuad yng nghwmni rhai o'i gyfeillion, megis Twrch, Arthur Morgan, Bywbothfardd, Wil Pwllceris ac Iago Caer (gwelir enwau'r holl rai a oedd am deithio i'r lleuad gyda Syr Meurig yn rhifyn 18 Rhagfyr 1856 o'r *Arweinydd*). Er ein bod yn ymwybodol mai Bywbothfardd oedd ffugenw Creuddynfab (Foulkes 1887, tt. 36-7), nid ydym cyn sicred o'r gwŷr eraill y tu ôl i'r ffugenwau a gynhwyswyd yn y rhestr. Fel a welwyd yn yr erthyglau 'Ymweliad a Chwarel Bethesda', y gwrthdaro barn rhwng beirdd y

canu caeth a rhai'r canu rhydd yw'r ddolen gydiol yn y gyfres hon hefyd. Er bod cymeriad Syr Meurig yn ddigon ecsentrig yn yr erthyglau blaenorol, gellid dadlau bod gohebiaethau Syr Meurig 'o'r lleuad' yn pwysleisio natur swreal ac ecsentrig y cymeriad i'r eithaf. Yn wir onid yw'n eironig yn y cyd-destun hwn i nodi'r cysylltiad rhwng y lloer ac ymddygiad lloerig? Mewn erthygl gan Bywbothfardd o dan yr enw 'Bywbythfardd a Meurig Grynswth' yn rhifyn 15 Ionawr 1857 ceir hanes ei ymweliad â Syr Meurig, wrth iddo geisio gwybodaeth gan ei gyfaill am drefniadau'r daith fawreddog i'r lleuad (er gwybodaeth, dyma'r unig dro mae'r sillafiad 'Bywbythfardd' yn ymddangos yn yr ysgrifau, ac felly gellid tybio mai gwall golygyddol sydd yma). Dyfynna 'Byw' y sgwrs a gafodd â Syr Meurig, wrth i'w gyfaill dros-ben-llestri fynd ymlaen i restru'r holl ffyrdd posibl o gyrraedd y lleuad. Er enghraifft eglura Syr Meurig wrth ei gyfaill mai un ffordd bosibl yw:

...myned i ben trwyn y fuwch yn nghae Pentreisaf caet weled y lleuad yn codi o'r môr yn agos i Lerpwl. Wel, cymeryd cwch a myned i'r fan honno a neidio ar ei chefn hi pan fyddo hi yn dyfod i fyny. Be sy haws na hynny? Dyna un ffordd weld di.

Cofier mai brodor o dref Llandudno oedd Creuddynfab yn wreiddiol, ac felly 'does ryfedd bod Syr Meurig yn gwneud y cysylltiad â Trwyn y Fuwch (Y Gogarth Fach fel yr adwaenwn hi heddiw) yn y disgrifiad uchod. Gwelir yma y dychymyg gwirioneddol abswrdd sy'n trigo y tu ôl i adeiladwaith cymeriadau Syr Meurig a Bywbothfardd. Wedi iddo restru'r holl ffyrdd ffantasi o gyrraedd y lleuad, ceir yr argraff bod Syr Meurig mewn gwirionedd wedi mynd o'i go' wrth i Bywbothfardd gyfaddef: 'Dan yr esgus o gychwyn gydag ef i'r Lleuad, cefais ef, yn bur ddirwbl i'r Gwallgofdy, lle mae yn cael pob caredigrwydd a all arian brynu a chalon dyner ei awgrymu.' Dengys yr hyn a ddywed Bywbothfardd am ei gyfaill, ongl bellach i gymeriad Syr Meurig, sef yr ongl wallgof. Drwy gyflwyno Syr Meurig fel gŵr wedi

mynd o'i go' â'r holl syniadau abswrdd o gyrraedd y lleuad, gellid dadlau bod Ceiriog a Chreuddynfab yn gwneud sylw am stad feddyliol beirdd cynganeddol yr oes, hynny yw, bod y rhan helaeth ohonynt yn byw mewn byd ffantasiol ac wedi colli gafael ar realiti.

Yn ei erthygl yn rhifyn 6 Awst 1857 cyfaddefa Syr Meurig mai ei reswm dros 'symud i'r lleuad' oedd er mwyn dianc rhag y feirniadaeth a dderbyniodd gan ei gyd-wladwyr ar y ddaear, hynny yw, y feirniadaeth a wynebodd wrth gasglu hwiangerddi plant ynghyd (fel y cawn weld maes o law). Wrth gyfeirio at y lleuad dywed Syr Meurig, 'Llawer edrychais i erioed, pan oedd helbulon y byd yna yn fy hanner ladd, i fynnu tuag yma.' A oes modd dadlau bod dihangfa feddyliol Syr Meurig i'r lleuad er mwyn anghofio'i helbulon ar y ddaear yn ymgorfforiad o stad feddyliol Ceiriog a'i awydd i ddianc o grafangau beirniadaeth a phwysau cymdeithas? Yn ogystal â'r awydd hwnnw i ddianc, prif amcan Syr Meurig yn ei ohebiaeth o'r lleuad, fel yr awgrymwyd eisoes, yw cynnig sylwebaeth ar gymdeithas y beirdd a barddoniaeth yn sgil y rhaniadau o fewn cymdeithas farddol ei ddydd. Yn ei ohebiaeth o'r lleuad ceir cyfres o erthyglau sy'n cynnig sylwebaeth ddychanol ar 'Oriol y Beirdd'. Darlun o feirdd a llenorion enwog Cymru gan yr arlunydd radical a dychanol Ellis Owen Ellis, a weithiai ar y pryd yn Lerpwl, oedd 'Oriol y Beirdd' (Lord 1995, t. 145). Yr hyn a geir gan Syr Meurig yw beirniadaeth ar y beirdd a gynhwyswyd yn y darlun wrth iddo yntau a Bywbothfardd edrych i lawr arno o'r lleuad. Fel y gwelwyd eisoes, nid yw Ceiriog yn un sy'n ofni ei ddychanu ei hun yn yr erthyglau hyn. Er enghraifft wrth sylwebu ar '...Eben Fardd, Emrys, Iorwerth, a ryw nobs felly' yn rhifyn 8 Hydref 1857 gyda'i dafod yn ei foch, gwelir Ceiriog drwy gymeriad Syr Meurig yn gwneud sylwadau amdano ef ei hun. Wrth i Bywbothfardd holi, 'Pwy yw nacw a'r farf ddu fawr sydd yn ymyl Derfel?' ymateba Syr Meurig fel a ganlyn:

Rhyw fod ag sydd yn galw ei hun yn Ceiriog. Mae ef wedi cael anhap o feddwl ei hun yn fardd, ac yn hyn o opiniwn, gwahaniaetha oddiwrth bawb eraill. Yr achos ei fod yn yr Oriol, yw fod yr enwog Ddoctor Jones y Bendrologist wedi cynghori iddo gael yr anrhydedd, gan y byddai siomedigaeth yn angau iddo cyn iddo farw. Efe yw standard bardd y talcen slip. Hen frel o beth yw Ceiriog druan.

Hunan-ddychan amlwg a geir yn y dyfyniad uchod, wrth i Ceiriog gynnig sylwadau bachog am ei gymeriad ei hun. Roedd y sylw ‘...byddai siomedigaeth yn angau iddo cyn iddo farw’ yn arwyddocaol iawn (ac yn broffwydol) yn achos Ceiriog, am fod cymaint o wir yn perthyn i’r dychan. Wrth edrych ar fywyd Ceiriog, mae’r elfen o osgoi siomedigaeth yn rhan amlwg o’i gyfansoddiad a hynny fel bardd ac yn ei safle fel swyddog gyda’r rheilffyrdd. Ar ddiwedd yr erthygl ceir nodyn yn dweud, ‘Pwy bynnag sydd yn Oriol y Beirdd yn dymuno i ni beidio ei weled, na sôn am dano, gall gael hynny ond anfon gair mewn pryd.’ Rhyw fath o rybudd ysgafn yw hyn er mwyn rhybuddio’r beirdd bod rhagor o dychan a gwawdio i ddod; ac yn wir, dychwelir yn yr erthygl ddilynol yn rhifyn 29 Hydref 1857 at ‘Oriol y Beirdd’ wrth i Syr Meurig a Bywbothfardd ymddiddan â’i gilydd wrth edrych ar y darlun. Cwestiyna

Bywbothfardd hawl rhai o’r beirdd i gael eu cynnwys yn yr Oriol:

Ond can wired a bod craig yn Merwyn acw, os nad oes gwir deilyngdod yn mhob bardd o’i mewn, yr hyn sydd dra amheus, os nad yw pob dyn yn garictor perffaith ynddo ei hun, ac y gŵyr Cymru am dano yn ei waith, fe fyddai yn well i Elis wneud trugaredd a’i enw da ei hun, ac achub ei genedl oddiwrth wawdiaith tragwyddol, trwy fyn’ d ar ei ben i afon Mersey, a’i Orielfawr o’i enwogion dychmygol gydag ef. Defnyddied ef y lliwiau prydfertaf yn natur ei len. Gonestrwydd fydd bywyd yr Oriol. Rhaid cael varnish teilyngdod ar y cwbl o’u mewn.

Dyma ddyfod unwaith yn rhagor at wraidd y ddadl ynghylch goruchafiaeth yr awdl dros y bryddest, a hynny wrth i Bywbothfardd awgrymu bod y beirdd caeth yn cael eu dyrchafu’n annheilwng ar sail mesur cerdd yn unig yn hytrach na’i heffaith.

Beirniedir y beirniaid llên am ddefnyddio ‘varnish teilyngdod’ yn hytrach na

beirniadu gwaith â gonestrwydd. Yn yr un modd, beirniedir beirniaid eisteddfodol am organmol y beirdd yn erthygl 19 Tachwedd 1857. Yn yr erthygl honno daw'r bardd a'r beirniad eisteddfodol enwog Eben Fardd dan sylw Syr Meurig a Bywbothfardd.

Wrth drafod safle Eben Fardd fel beirniad, dywed E. G. Millward (1968, t. 40):

Penderfynodd [...] ar ddull ystwyth o feirniadu, beirniadaeth wedi'i graddio yn ôl safon y cyfarfod, a hefyd, mor bell ag yr oedd yn bosibl, yn ôl safon y cystadleuydd unigol. Prifeirdd yr eisteddfod genedlaethol a oedd i gynhyrchu gweithiau safonol y genedl ac yn yr eisteddfod fawr y ceid y safon uchaf a llymaf. Wedyn deuai'r eisteddfod fychan a'r cyfarfod llenyddol, a'u safon dipyn is, ac yn olaf, y disgybl ysbas o gyfarfod, sef y cyfarfod addysg, 'y rhai y goddefid cryn lawer o [...] annybendod ac amherffeithrwydd', meddai Eben. Dyma safbwynt gwahanol iawn i eiddo Caledfryn, er enghraifft. Hyfforddi a meithrin y ddawn lenyddol oedd prif swydd beirniadaeth yr eisteddfod i Eben Fardd; ni ellid glynu wrth un safon absoliwt.

Gellid dadlau felly fod Eben Fardd yn feirniad teg, ar sail ei ffaith iddo ystyried amgylchiadau'r beirdd yn unigol a natur y gystadleuaeth yn hytrach na beirniadu pob bardd dan yr un chwyddwydr. Ar y llaw arall gellid ystyried hyn yn wendid hefyd, ar y sail nad oedd ganddo 'safon absoliwt' ac felly'n amrywio natur ei feirniadaeth fesul bardd. Yn ôl Eben, hyblygrwydd oedd ei angen wrth feirniadu yn hytrach na glynu'n gaeth wrth reolau. Serch hyn, wrth ymddiddan â Syr Meurig, dywed Bywbothfardd am Eben Fardd:

Canmoliaeth a broliaeth yw ei bechodau ef; nid canmol ei hun, nage ddim hollol groes i hynny; ond brolio pob peth ddaw i'w ddwylaw i feirniadu a'i holl egni, [...] am wneud i hanner myrddiwn o fiogiau diawen Cymru, gyfrif eu hunain yn feirdd "tlws a choeth", yn lle yn rhigymwyr tatws llaeth.

Gwelir felly nad pawb fu'n cymeradwyo dulliau beirniadu Eben Fardd. Er gwaethaf natur ryddfrydol Ceiriog a Creuddynfab, gwelir o'r uchod nad oedd dulliau rhyddfrydol Eben Fardd wrth feirniadu yn eu plesio.

Un agwedd ar feirniadaeth Syr Meurig yn erthyglau'r *Arweinydd* nas trafodwyd hyd yma, yw'r cyfeiriadau a geir mewn sawl erthygl at beiriannau

lleyddol a barddol. Awgrymwyd yn gynharach fod Syr Meurig wedi mynd ar ei daith i Fethesda er mwyn gwerthu Peiriannau Lleyddol (er mai celwydd oedd hyn er mwyn cyfiawnhau'r daith wrth Lady Grynswth!). Serch hyn, mae'r syniad o beiriannau lleyddol neu beiriannau barddoni er cynorthwyo'r beirdd wrth lenyddda a barddoni yn destun sy'n codi'n aml yn erthyglau Syr Meurig. Un enghraifft o hyn yw'r drafodaeth a geir yn rhifyn 4 Mawrth 1858. Yn yr erthygl honno ceir trafodaeth gan Syr Meurig ar fenter newydd ei gyfaill Bywbothfardd sef ei '...beiriant newydd, at fwrw cynganeddion'. Yn ôl Syr Meurig rhagoriaeth y peiriant yw ei allu i greu cynganeddion '...yn gyflymach nag iâr yn bwyta rhynion', fel bod modd gwerthu'r cynnyrch ymlaen i feirdd '...yn rhatach yn y diwedd na cholli amser i'w gwneud hwy, gyda y dwylaw moelion'. Gellid dadlau mai dyma brawf o allu Syr Meurig i ddychanu crefft y beirdd cynganeddol i'r eithaf a hynny drwy awgrymu bod eu cynnyrch barddol ar adegau yn debyg i'r hyn a grëir gan beiriant. Fe â ymlaen i frolio cynnyrch y peiriant ymhellach drwy barhau i ddychanu'r beirdd caeth eisteddfodol fel hyn:

Y mae ganddo [y peiriant], mi debygwn i, ddigon o linellau 'hoewlon a gwiwlon' i ddiwallu y wlad am ddeng mlynedd, wedi eu gwneud yn barod. Dywedodd [Bywbothfardd] wrthyf na fu y peiriant ddim dros awr yn gwneud y domen fawr i gyd. Y mae yma gannoedd o Englynion at agor eisteddfodau a chyfarfodydd lleyddol, yn dechreu,

'Eisteddfod hyglod yw hon'
'Eisteddfod hynod yw hon'
'Eisteddfod hynod o enwog'

Unwaith yn rhagor dyma Syr Meurig yn dychanu'r beirdd drwy awgrymu mai cynnyrch di-fflach a geir ganddynt, a hynny ar sail y ffaith bod peiriant yn gallu greu degau o linellau tebyg i'w gilydd a fyddai wrth fodd y beirdd heb i'r Cymro cyffredin amau dim am eu gwneuthuriad. Yn y bôn yr hyn a geir yn y drafodaeth uchod yw Ceiriog yn beirniadu ac yn gwawdio beirdd y canu caeth eisteddfodol am gyfansoddi

llinellau y buasai peiriant dideimlad wedi gallu eu creu ac eto'n parhau i dderbyn y clod aruchelaf am y llinellau diddychymyg hyn.

Ni ellir gwadu'r dychymyg lliwgar a'r hiwmor a geir yn ysgrifau Syr Meurig a Bywbothfardd yn *Yr Arweinydd*. Yn wir, mae'r deunydd yn parhau i daro tant doniol i'r sawl sy'n ei ddarllen heddiw. Ar yr wyneb, straeon a chofnodion ysgafn ffwrdd-â-hi yw'r hyn sydd yn yr erthyglau. Serch hynny wrth ddehongli'n ddyfnach gwelir, yn debyg i weithiau difrifol Ceiriog, bod ystyron a beirniadaeth gymhlethach yn llechu rhwng y llinellau. Yn debyg i'r math o feirniadaeth a welwyd gan Syr Meurig yn *Yr Arweinydd* gwelir fod yr un math o feirniadaeth i'w gweld gan Syr Meurig yn y papur dychanol *Y Punch Cymraeg*. O dan y pennawd 'Tlysiion Barddol' yn rhifyn 23 Ionawr 1858 gwelir Syr Meurig yn cyflwyno gwaith y bardd newydd 'Ioan Glan Glonc' i Mr Pwnch. Wrth gyflwyno'r talent barddol ifanc dywed Syr Meurig:

Mr Pwnch – Yn gwybod am eich tymheredd farddol, eich hoffter o'r prydferth, yr hardd, a'r tlws [...] gan wybod meddaf, am yr awydd sydd ynoch erioed, a chyn hynny, at bob melusion (yn y fan hon eto nid wyf am driagl, na thaffi, na chyflaith, na fferins), gan wybod, syr, eich bod yn ffond o'r danteithion blasus sydd wedi eu hulario i'n cenedl trwy haelioni ein beirdd, dyma fi yn anfon i chwi ychydig enghreifftiau o fardd ieuangc, tra adnabyddus i'r wlad tan yr enw Ioan Glan Glonc; gweithiau yr hwn, fel y gwyddoch, ydynt newydd ddyfod allan yn chwe cyfrol. Ni wna'f ond rhoi un enghraifft o bob cyfrol yn bresennol, gan y byddai mwy na hynny yn anghyfiawnder â'r cyhoeddwr anturus, heblaw yn ormod o farddoniaeth i'r wlad fedryd ddal mewn un rhifyn.

Y Gauaf
Winter 'leni is not wanted, – nid oes neb
Yn dewis snow-carped;
Os daw eira tost ei wared,
Abel a Phaul be well fed.

Yn wahanol i'r hyn a geir ar dudalennau *Yr Arweinydd* gellid dadlau bod cynnwys *Y Punch Cymraeg* yn gwthio ffiniau dychan ymhellach, a hynny drwy feirniadu cymdeithas y beirdd mewn modd amlycach na'r hyn a welwyd ynghynt. Wrth

gyflwyno gwaith y bardd ifanc Ieuan Glan Glonc i Mr Pwnc sylwer ar yr holl ganmoliaeth dros-ben-llestri a roddir i'r bardd, a hynny'n adlewyrchiad dychanol o'r math o or-ganmoliaeth roedd Syr Meurig yn ei erbyn. Yn ogystal â hyn dyma fardd ifanc, a'i waith llawn o eiriau Saesneg! Er y doniolwch, roedd yr englyn yn amlwg yn beirniadu'r ffaith bod llawer o'r beirdd caeth yn troi at eiriau amhriodol er mwyn y gynghanedd. Yn ôl arfer dros-ben-llestri Syr Meurig gwelir iddo wthio'r ffiniau trwy awgrymu bod ambell fardd wedi mynd cyn belled â throi at y Saesneg. Ceir parhad o ganmoliaeth Syr Meurig i Ieuan Glan Glonc yn erthygl 20 Chwefror 1858 wedi iddo ddyfynnu englyn arall o waith y bardd a'i olynu â'r geiriau: 'Pe gallwn i wneud rhywbeth ddeuai i fyny o fewn hanner milltir i blethwaith mor soniarus a'r uchod, mi dawn am byth a ehwyno.' Yn yr adran 'Y Bobl nad yw yn dda ganddynt Punch' yn rhifyn 6 Mawrth 1858, ymysg y rhestr hirfaith ceir: 'Y Beirdd, am fod ein beirniadaeth yn onest, a'n hegwyddor yn ymwrthod â gwag-folawd a gweniaeth llenyddol.' Dyma bwysleisio bod *Y Punch Cymraeg*, yn annhebyg i lawer o feirniaid llenyddol y dydd, yn barod i drafod gwendidau'r beirdd a'r gymdeithas farddol a'u dychanu. Gwnaeth Syr Meurig gyfraniad amlwg yn hynny o beth ar dudalennau'r *Punch* ac mewn manau eraill.

Bu cyfnod Ceiriog yn ysgrifennu dan enw Syr Meurig yn y papurau newydd dychanol yn un difyr. Ynddynt cawn olwg wahanol ar gymeriad cyhoeddus y bardd, a clywed llais y cymeriad dychanol a ddefnyddiwyd i feirniadu'r cylch barddol yr oedd Ceiriog ei hun yn gysylltiedig ag ef. Dengys y wedd hon ar fywyd Ceiriog y ddeuliaeth a'r tyndra yn ei fywyd cymdeithasol a chymhlethdod ei gymeriad deublyg. Yn ogystal â hyn dengys yr erthyglau ysgafn eu natur y rhwygiadau a oedd yn bodoli yn ei ddydd o fewn y gymdeithas farddol Gymreig. Ond nid yn y papurau newydd yn unig y ceir y fraint o flas barn Syr Meurig Grynsyth, oherwydd ceir

ysgrifau a cherddi gan y cymeriad lliwgar hwn yng nghyfrol Ceiriog, *Oriau'r Hwyr* (1860), hefyd. Yn wir, diolch i'r gyfrol ceir cadarnhad swyddogol mai Ceiriog oedd yr un y tu ôl i enw ac ysgrifau Syr Meurig. Yr hyn sy'n ddifyr am y gyfrol yw'r ffaith bod Ceiriog wedi penderfynu cynnwys gwaith ei *alter ego* ochr yn ochr â'i weithiau difrifol. Gellid dadlau bod Ceiriog wedi gwneud y dewis ymwybodol i gynnwys 'Gohebiaethau Swyddogol' Syr Meurig yn *Oriau'r Hwyr* wedi'r ymateb cadarnhaol a gafwyd i'r erthyglau a gyhoeddwyd ynghynt yn y papurau newydd. Ar y llaw arall gellid dadlau bod yno ryw symbolaeth ac arwyddocâd yn perthyn i'r penderfyniad hwn. Dichon bod Ceiriog wedi gosod gwaith Syr Meurig yn ei gyfrol er mwyn tanlinellu'r ffaith bod ei weithiau difrifol ef a gweithiau dychanol Syr Meurig yn rhedeg ochr yn ochr â'i gilydd, ac er mwyn cyfleu'r agosatrydd rhwng Ceiriog a'i *alter ego*. Dichon fod Ceiriog am atgoffa ei gynulleidfa yn is-ymwybodol mai ei farn ef sy'n rhedeg trwy eiriau Syr Meurig er gwaetha'r ffaith nad oedd am ddefnyddio ei enw'i hun er mwyn lleisio'i farn ddadleuol. Dan y teitl 'Gohebiaethau Swyddogol' ceir parhad yn *Oriau'r Hwyr* o'r un math o themâu a fu'n rhedeg drwy ei erthyglau yn y papurau newydd, a hynny'n cylchdroi o gwmpas dychanu'r gymdeithas farddol a'i natur. Yn ogystal â hyn ceir cyfraniadau pellach gan gyfaill Syr Meurig, Brychan Bywbothfardd (sef Creuddynfab), â golygydd *Oriau'r Hwyr* yn arbennig ar gyfer y gyfrol. Yn y llythyr cyntaf gan Syr Meurig yn ei ohebiaeth swyddogol dywed mai annerch y beirdd yw ei fwriad ac nid y golygydd, a cheir ganddo hanes arwerthiant deunyddiau barddol. Egyr Syr Meurig ei ohebiaeth drwy esbonio sefyllfa beirdd y canu caeth (Hughes 1860, t. 73):

Am fod yr amser drwg presenol wedi gwneud y fath ostyngiad dirfawr yn mhrisiau awdlau ac englynion cydsain-glecsain, ac oherwydd methdaliadau eisteddfodol, adolygiadau anffafriol, anghyfiawnder beirniaid, a gonestrwydd eraill, y mae un o *feirdd* enwocaf y Dywysogaeth yn cael ei orfodi gan amgylchiadau i wneud arwerthiad llwyr ar ei holl feddiannau, – ei weithfa, ei

ystorfa, a'i siop, lle mae peirianau a nwyddau o bob math perthynol i'r gelfyddyd o farddoni.

Dyma Ceiriog drwy eiriau ffraeth Syr Meurig yn awgrymu bod yr oes yn un anffafriol i feirdd y canu caeth a hynny wrth i oruchafiaeth y gynghanedd dros y mesurau rhyddion ddechrau edwino. Oherwydd hyn, awgryma Syr Meurig fod y beirdd wedi gorfod dechrau gwerthu eiddo er mwyn eu cynnal eu hunain. Fe â Syr Meurig ymlaen fel arwerthwr i restru a chrynhoi yr eiddo a oedd ar werth gan y bardd. Ymysg y pethau a restrir (Hughes 1860 tt. 73-4) ceir:

Myrddiwn a haner o linellau cynghaneddol, yn anfarwol i gyd, ac yn barod ar unrhyw foment ddifyfyr i'w dethol allan i wneud yr awdl odidocaf yn ein hiaith...

Deunaw mil o englynion ar haner eu gwneud – oll ond un yn cael eu gwarantu gan y gwerthwr i fod yn anfarwol...

Peiriant Gairwneuthurol, yn alluog i daflu allan ugain mil y munud o eiriau cyfansawdd, diledryw; er enghraifft, – awrlais (cloc), rych-gorphlu (rheifflgor)...

Peiriant Parod Breintebol, i gyfansoddi englynion difyfyr ...

Dyma glywed llais cyfarwydd Syr Meurig wrth iddo wawdio crefft, cynnwys a gwreiddioldeb cyfansoddiadau'r beirdd ceidwadol, a hynny drwy awgrymu bod modd i'r beirdd brynu a gwerthu llinellau o gynghanedd oddi wrth ei gilydd a'u cyhoeddi fel eu darnau gwreiddiol eu hunain. Gellid dadlau bod Syr Meurig drwy hysbysebu'r llinellau parod o farddoniaeth a oedd ar werth yn ceisio awgrymu nad oedd dim yn wreiddiol am waith y beirdd. Yn ogystal â gwawdio creadigrwydd y cyfansoddiadau, sylwer ar ailymddangosiad y syniad o beiriannu barddoni yng ngwaith Syr Meurig. Dyma llyn thematig yr oedd Ceiriog yn amlwg yn awyddus i ddal gafael arni o safbwynt ei feirniadaeth ddychanol. Dilynir y llythyr cyntaf yn yr ohebiaeth swyddogol gan ymatebion i'r arwerthiant ac i'r cynnyrch barddol a werthwyd, yn ogystal â straeon amrywiol yn eu cylch. Yn wir, mewn un ymateb gan Bywbothfardd

(Hughes 1860, tt. 84-5) cyhuddir Ceiriog o ladrata englyn gan un o'r peiriannau yn hytrach na chyfansoddi ei hun!

Yn ogystal â'r ohebiaeth gan Syr Meurig sydd yn y gyfrol *Oriau'r Hwyr*, ceir ynddi hefyd gasgliad o weithiau barddol gan y cymeriad hwnnw, sef dwy ar hugain o gerddi a chaneuon yn yr adran 'Caniadau Syr Meurig' ynghyd ag un gerdd gan R. J. Derfel. Ar wahân i ambell gerdd a gyhoeddwyd ym mhapur newydd *Y Gwladgarwr* megis 'Ymddyddanion y Felin' (14 Gorffennaf 1860), sy'n dwyn y teitl 'Ymgom y Felin' yn *Oriau'r Hwyr* (tt.109-11), yn y gyfrol hon y mae'r rhan fwyaf o'r cerddi a chaneuon hyn yn ymddangos am y tro cyntaf. Yr hyn sy'n taro'r darllenydd wrth bori drwy'r darnau yw eu hysgafnder a'u hiwmor, a'r elfen storiol a geir ynddynt. Beth sy'n gwahaniaethu cerddi Syr Meurig oddi wrth gerddi arferol Ceiriog felly? Un sy'n dadlau nad oes fawr o wahaniaeth rhwng cerddi Ceiriog a'r rhai dan enw Syr Meurig a ddaw o'i beiriant barddoni yw Bobi Jones (1958, t. 81). Dywed petasai dyn yn gosod un o gerddi Syr Meurig o'i beiriant barddoni yng nghanol cerddi difrifol Ceiriog na fuasai modd gwahaniaethu rhwng y ddwy. Mae modd deall sut y daeth Bobi Jones i'r casgliad hwnnw. Cymerer er enghraifft y gerdd 'Gwendolen Puw' sy'n ymddangos dan enw Syr Meurig Grynswth yn *Y Gwladgarwr* ar 9 Ebrill 1859. Yr hyn sy'n ddifyr yw bod yr un gerdd dan yr enw 'Gwendolen Pugh' yn ymddangos yn y gyfrol *Oriau'r Hwyr* flwyddyn yn ddiweddarach dan awduraeth Ceiriog ei hun (tt. 28-9). Ai camgymeriad oedd hyn o safbwynt Ceiriog, ynteu a oedd wedi penderfynu erbyn cyhoeddi *Oriau'r Hwyr* bod y gerdd yn addas i gael ei chynnwys ymysg ei gerddi doniol ef ei hun yn hytrach na dan enw Syr Meurig? Yn sicr mae'r ffin yn denau ar adegau rhwng natur ac arddull cerddi Ceiriog a Syr Meurig. Serch hyn, drwy astudio'r cerddi a'r caneuon â chrib mân gellir dod o hyd i elfennau sy'n nodweddu

cynnyrch Syr Meurig o'i gymharu â chynnyrch Ceiriog, fel y cawn weld yn y detholiad isod.

Ymhlith y cerddi a gynhwyswyd yng nghasgliad Syr Meurig ceir un o weithiau enwocaf y bardd ac un sy'n sicr ar gof a chadw'r genedl hyd heddiw – 'Bonheddwr Mawr o'r Bala' (Hughes 1860, t. 104). Dichon mai apêl oesol y gân, a'r hyn sy'n nodweddu sawl un o gerddi a chaneuon Syr Meurig, yw cryfder yr adeiladwaith storïol a geir yn y penillion yn ogystal â symllder a bywiogrwydd y dweud a'r hiwmor diniwed. Yn ogystal â hyn gwelir elfen arall sy'n nodweddiadol o ganu Syr Meurig, sef y defnydd o ebychiadau megis 'Ha, ha! &c.' yng nghytgan sawl cân o'i eiddo. Dyma i chi ychwanegu at sylmrwydd ac ysgafnder caneuon Syr Meurig. Dengys y defnydd o ebychiadau llawen megis 'Ha, ha! &c.' nad gweithiau i'w hystyried o ddifrif mohonynt ond yn hytrach i'w derbyn ar lefel diddanwch y gynulleidfa. Elfennau arall sy'n nodweddu rhai o gerddi a chaneuon Syr Meurig yw ei ddefnydd o ymadroddion plentynnaidd eu natur. Yn y gân 'Y Tren' (Hughes 1860, t. 93) ceir hanesyn syml am daith trên ar ei ffordd i Gymru. Wrth ddisgrifio taith y trên ceir y llinellau:

Hergwd a phwff,
Ac mewn hanner a chwiff,
Ysgytiad a chwff –
Piff, piff, piff-a-piff-piff,
Hwliti heltar skiltar skeltar,
A ffwrdd a ni

Gwelir o'r llinellau hyn bod Syr Meurig yn defnyddio ymadroddion sy'n apelio at y glust yn hytrach na'r synnwyr. Hynny yw, y mae'n defnyddio geiriau gwneud er mwyn cyfleu natur a symudiad y trên. Yn sicr o gymharu â'r cerddi a'r caneuon dan enw Ceiriog ei hun, mae'r naws blentynnaidd a berthyn i weithiau Syr Meurig yn bur amlwg. Nid yw'n syndod felly bod Ceiriog wedi priodoli'r cerddi hyn i Syr Meurig.

Yn ogystal â cherddi a chaneuon tro trwstan neu storiol, ceir sawl cerdd a chân sy'n cyfeirio at Syr Meurig ei hun yn y casgliad. Un enghraifft yw'r gerdd 'Can y Gynen' (Hughes 1860, tt. 96-7). Yn y gerdd hon ceir portread o natur danllyd cymeriad Syr Meurig. Yn y pennill cyntaf ceir geiriau sy'n dangos natur ddadleugar ei dymer:

Adwaenoch chwi Meurig Gryn-swth?
Adwaenoch yn enw dyn, dyn:
Mae'n fachgen dedwyddaf dan haul,
Os ceiff ef ei ffordd fach ei hun.
Os tynwch eich llaw efo'i raen,
Fel cath bydd yn canu'n ei grwth.
Ond os rhowch eich troed ar ei droed
Daw'r andros at Meurig Gryn-swth.

Gwelir yma bod Ceiriog yn cyfeirio at Syr Meurig fel cymeriad sy'n ffynnu ar gael ffordd ei hun yn hytrach na chael ei wrthwynebu. Dichon mai rhyw fath o rybudd gair-i-gall a geir i'r darlennydd, na ddylid ei ddigio. Yn yr un modd fe â Ceiriog i ddatgan yn yr ail bennill:

Mae Meurig yn debyg i gî,
Heblaw bod yn debyg i gath;
Mae'n ffyddlon wrth ochr ei ffrynd,
Ond pan welo elyn fe *frath*.

Ceir mewnwelediad difyr yn y llinellau uchod ar yr agweddau'n ymwneud â chymeriad Syr Meurig sy'n allwedd i natur y rhan helaeth o ysgrifau'r gŵr 'bonheddig' hwn. Gwelir y ffyddlondeb y sonnir amdano yn y llinellau uchod, yn ei berthynas glòs â'i gyfaill mynwesol Bywbothfardd, a'r tynnu coes ysgafn a fodolai rhwng y ddau yn yr erthyglau a'r ysgrifau. Ar y llaw arall, gwelir yn yr erthyglau feirniadaeth gras gan Syr Meurig yn erbyn ei 'elynion', sef y beirniaid a'r beirdd eisteddfodol a cheidwadol eu natur. Er bod y penillion a drafodwyd eisoes yn rhoi blas i'r darlennydd o gymeriad Syr Meurig Grynsyth, nid oes dwywaith mai'r pennill

olaf ond un yw'r un mwyaf arwyddocaol o safbwynt y ddadl am gymeriad deublyg

Ceiriog:

Mae Meurig yn debyg i *mi*,
A dyna gydmariaeth led dlôs,
Mae'n credu fod canu cyn dydd,
Yn arwydd o ffraeo cyn nôs.
Rwy'n credu'n ddiysgog fod ffrae,
Yn iechyd i galon pob un;
Ni ro'wn i'r un swllt am gael gwraig,
Os na fedrai ffraeo fel *dyn*.

Mae'r gerdd hon wedi'i chynnwys yn yr adran 'Caniadau Syr Meurig' ac felly ceir yr argraff bod y cymeriad lliwgar hwn yn canu amdano ef ei hun. Serch hyn ni ellir anwybyddu'r datganiad 'Mae Meurig yn debyg i *mi*', ac yn yr ystyr hwn wrth gwrs yw mai Ceiriog ei hun yw'r 'mi' y cyfeirir ato. Dyma Ceiriog yn ddi-flewyn-ar-dafod yn cydnabod y tebygrwydd rhyngddo ef ei hun a'i *alter ego* lliwgar. O ystyried hyn, ceir mewnwelediad ar gymeriad Ceiriog yn ogystal â Syr Meurig Grynswth yn 'Can y Gynen'. Gellid dadlau bod y gerdd yn atgoffa'r darllenydd o'r cysylltiad rhwng y ddau a'r ffaith mai geiriau Syr Meurig yw geiriau a theimladau Ceiriog mewn gwirionedd. Yn ogystal â 'Can y Gynen' ceir enghraifft arall o gân gydag Syr Meurig yn destun iddo yn *Oriau'r Hwyr*, sef 'Syr Meurig Grynthwth' sydd hefyd yn cael ei chynnwys yn yr adran 'Caniadau Syr Meurig' (Hughes 1860, tt. 106-8). Mae'r ddwy gerdd am Syr Meurig gan Syr Meurig yn mynd â'r elfen o sgitsoffrenia i lefel eithafol a'r ffin rhwng Ceiriog a Syr Meurig yn fwy amwys fyth! Cân hunan-ddychanol yw 'Syr Meurig Grynthwth' gyda sawl elfen o hiwmor yn perthyn iddi. Cân ymffrostgar ydyw, wrth i Syr Meurig ddatgan ei enwogrwydd a'i boblogrwydd cenedlaethol a rhyngwladol. Mewn sawl pennill cyflwynir materion cenedlaethol a rhyngwladol i'r gynulleidfa, wrth i Syr Meurig ddatgan y dylai arweinwyr a phenaethiaid gwladol ddod ar ei ôl er mwyn canfod ei arbenigedd:

Mae gorsedd Napoleon yn cwmpo bob dydd,
Am nad yw'r Italiaid ac Hungary'n rhydd;
Ond be wneiff Napoleon 'rol twyllo Kossuth? –
He'll send an ambassador, he will indeed truth,
To form an alliance with Monsieur Grynthwth.

Gwelir Syr Meurig yn cyfeirio at faterion rhyngwladol adnabyddus yr oes, megis y chwyldroadau am annibyniaeth a welwyd yn yr Eidal a Hwngari yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn sgil ei awydd i ansefydlogi grym Awstria a'i ddylanwad yn yr Eidal a Hwngari roedd Napoleon III o Ffrainc yn awyddus i gefnogi chwyldroadwyr megis Kossuth yn Hwngari er lles ei rym ei hun. Yr hyn a ddywed Syr Meurig yn ei ffordd ddychanol yw y dylai Napoleon III ystyried ffurfio cynghrair gydag ef er mwyn cryfhau ei awdurdod yn erbyn gwledydd megis Awstria. Yn yr un modd ceir pennill yn ymwneud â'r anghydfod rhwng Rwsia ac Ymerodraeth Otoman yn Nhwrci. Dengys y sefyllfaoedd hyn agweddau pellach ar gymeriad Syr Meurig, a hynny ar sail y ffaith ei fod yn ei ystyried ei hun yn uchel o ran ei gyfaredd a'i enwogrwydd ryngwladol. Yn ogystal â cheisio profi'i hun ar lwyfan rhyngwladol, gwelir Syr Meurig yn y gân yn ymffrostio am ei enwogrwydd cenedlaethol a dyled Cymru iddo am ei arbenigedd barddol.

I 'Steddfod Llangollen daeth beirddion y De,
A phrif-feirdd y Gogledd i gyd i'r un lle;
A fi ydoedd testun y siarad a'r son,
Gan Estyn, Carn Inqli, ac Andras o Fon;
Ac yna cynigiwyd gan Weirydd ap Rhyth,
Cefnogodd Ab Ithel, a phasiwyd yn syth
“Fod gwir ddiolchgarwch y byd a Llanrwth
Yn cael ei gyflwyno i Meurig Grynthwth.”

Yr eisteddfod y cyfeiriwyd ati yn y pennill yw Eisteddfod Fawr Llangollen 1858. Roedd yr eisteddfod dan sylw yn un arwyddocaol, a hynny oherwydd bod y datblygiadau a welwyd ynddi wedi siapio natur yr Eisteddfod Genedlaethol fodern.

Wrth drafod arwyddocâd Eisteddfod Fawr Llangollen dywed J. Iorwerth Roberts

(1959, t. 156):

I bob pwrpas dyma gychwyn yr eisteddfod fawr fodern; dyma, a defnyddio gair G. J. Williams, droi yr orsedd yn “basiantri”, fel y gwelir heddiw; dyma ddarganfod Ceiriog, bardd y rhiangerdd; dyma sicrhau Anthem Genedlaethol, creu diddordeb arbennig yn yr alaw werin, a chychwyn yr eisteddfod gorawl.

Yn ogystal â’r datblygiadau arwyddocaol a nodir uchod, elfen arall a fu’n allweddol i lwyddiant Eisteddfod Fawr Llangollen oedd effaith y rheilffyrdd. Golygai datblygiad y rheilffyrdd yng Nghymru bod beirdd y Gogledd a’r De, a Chymry benbaladr, bellach yn gallu dod ynghyd ar un safle i fwynhau arlwy yr eisteddfod. Ymdebygai Eisteddfod Llangollen 1858 yn fwy o sioe na’r hyn a welwyd o’i blaen. Roedd yr eisteddfod hon yn agos at galon Ceiriog fel yr awgrymwyd uchod oherwydd y ffaith mai yno y coronwyd ef am ei rieingerdd enwog ‘Myfanwy Fychan o Gastell Dinas Brân’. Cyfeirir yn y pennill at ddynion a oedd yn gysylltiedig â’r eisteddfod yn 1858, gan gynnwys Joseph Hughes ‘Carn Ingli’ (1803-63), John Williams ‘Ab Ithel’ (1811-62), Thomas Richard Lloyd ‘Yr Estyn’ (1820-91), Andrew Jones Brereton ‘Andras o Fôn’ (1827-1885) a Robert John Pryse ‘Gweirydd ap Rhys’ (1807- 89). Yn ei ddull ymffrosgar, dywed Syr Meurig bod y gwŷr hyn wedi cytuno’n unfrydol bod eu diolch a’u dyled yn fawr i Syr Meurig am lwyddiant Eisteddfod Fawr Llangollen.

Yn ogystal â’r cyfeiriadau dros-ben-llestri a welir yn y gerdd, ychwanegir at yr hunan-ddychan gan elfennau ieithyddol y darn. Er bod Syr Meurig yn brolio’i hun a’r bri rhyngwladol a chenedlaethol a oedd iddo, sylwer ar y ffaith bod y gân yn frith o gamsillafu, hynny yw, o ddefnyddio ‘th’ yn hytrach na ‘dd’ neu ‘s’. Er enghraifft gwelir ‘Doeth’ yn lle ‘Doedd’ a ‘dlwth’ yn cael ei sillafu yn lle ‘dlws’. Yn ogystal, ceir sawl enghraifft o eiriau Saesneg yn y penillion hyn, ac mewn sawl cerdd a gân arall o’i eiddo, a hynny gan amlaf er mwyn hwyluso’r odl. Mewn gwirionedd, nid

gwallau sillafu yw'r defnydd cyson o 'th' i ddiweddu geiriau, ond yn arwydd o ddiffyg gallu Syr Meurig i ynganu rhai geiriau. Yn wir, mae'r gallu i wneud sbort ar ben ynganu Syr Meurig yn rhan gynnil o'r doniolwch a berthyn i'r cymeriad.

Cyfyd sawl cwestiwn am benderfyniad Ceiriog i gynnwys 'Gohebiaethau Swyddogol' a 'Caniadau Syr Meurig' ochr yn ochr â'i gerddi a'i ganeuon eraill yn *Oriau'r Hwyr*. Un rheswm y gellid ei ystyried yw'r ffaith bod cynnwys ei gyfansoddiadau dan enw Syr Meurig Grynsyth gyda'i weithiau arferol yn rhoi'r cyfle i'r bardd atgoffa ei gynulleidfa am amrywiaeth ei gyfansoddiadau. Yn ogystal, gellid dadlau bod Ceiriog am atgoffa'r rhai a fu'n gyfarwydd â gohebiaethau Syr Meurig Grynsyth yn y papurau newydd mai ef ei hun a lechai y tu ôl i'r cymeriad hwnnw. Yn gysylltiedig â'r awydd i ddatgan yn agored mai ef yw Syr Meurig Grynsyth, un rheswm arall y gellid ei ystyried, yw'r ffaith bod y bardd am roi llwyfan mwy parhaol i'r gwaith yn hytrach na chadw ei weithiau mewn papurau newydd yn unig.

Syr Meurig Grynsyth v. Y beirniaid llenyddol

Gwn fod mwy nag un farn ynghylch cynhyrchion newyddiadurol Ceiriog – yn enwedig y gyfran ohonynt sydd wedi eu henwi yn ôl Meurig Grynsyth. Eu bod yn fywiog ac yn finiog, ni ddymunwn wrthddywedyd. Ond creadigaethau undydd oeddynt; ac fel y cyfryw, dylent fod wedi eu cadw o'i lyfrau. Pa fardd Seisnig a freuddwydiai am lusgo y fath dryblith i lyfrau o farddoniaeth?
(Lewis 1899, t. 28)

Dyma'r hyn sydd gan H. Elfed Lewis i'w ddweud am ysgrifau Ceiriog dan enw Syr Meurig Grynsyth. Awgrymwyd ar ddechrau'r bennod hon nad oedd hiwmor a dychan yn genres i'w hystyried o ddifrif gan feirniaid llenyddol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn wir fel yr awgrymwyd gan W. C. Elvet Thomas (1929, t. 271), mewn oes a oedd yn dueddol o ystyried hiwmor yn rhywbeth diraddiol, nid yw'n syndod nad oedd yr agweddau o ddychan yng ngwaith Ceiriog ac yn enwedig ei weithiau fel Syr

Meurig Grynswth wedi cael eu hystyried yn dderbyniol gan bawb. Gwelir uchod bod H. Elfed Lewis yn fodlon cydnabod bywiogrwydd cyfraniadau Syr Meurig, ond yn debyg i lawer o sylwebwyr ei oes nid yw'n fodlon ystyried y cyfraniadau hyn fel gweithiau i'w hystyried o ddifrif. Mae'n werth nodi bod Elfed yn cyfeirio at y gwaith fel 'creadigaethau undydd', ac yn wir dyma'r math o feirniadaeth sydd wedi atal gwaith Ceiriog dan enw Syr Meurig rhag derbyn sylw haeddiannol ar hyd y blynyddoedd. Yn wir, wrth edrych ar y gwahaniaeth hanesyddol rhwng trasiedi a chomedi ym myd y ddrama, gellid dadlau bod rhywbeth mwy arhosol mewn trasiedi yn hytrach na'r drama hynny sy'n fwy ysgafn a hwyliog eu natur. Serch hyn, nid creadigaethau undydd yw'r hyn a gafwyd gan Syr Meurig Grynswth, ond yn hytrach sylwebaeth gymdeithasol y gellid ei hastudio â pharch er mwyn deall agweddau'r gymdeithas Fictorianaid Gymreig.

Beirniad llên arall sydd wedi datgan ei anfodlonrwydd â Syr Meurig yw Bobi Jones. Gwelwyd eisoes nad yw Bobi Jones yn un o brif gefnogwyr Ceiriog, ac yn sicr gwelir hynny o safbwynt cysylltiad Ceiriog â'i *alter ego* Syr Meurig. Prif feirniadaeth Bobi Jones, yw na ellir gwahaniaethu rhwng canu difrifol Ceiriog a'i ganu dychanol (1958, t. 81). Dichon fod Bobi Jones yn llygad ei le, a hynny ar sail y ffaith bod sawl un o gerddi a chaneuon Syr Meurig yn dangos tebygrwydd i gerddi Ceiriog, ac yn cael eu priodoli weithiau i Ceiriog ei hun ac i Syr Meurig. Serch hynny, o safbwynt y drafodaeth ynglŷn â chymhlethdod meddwl Ceiriog, nid gwendid yw hyn. Dengys y ffaith bod y ffin yn denau ar adegau rhwng creadigaethau Syr Meurig a Ceiriog ei hun y ddeuoliaeth yng nghymeriad y bardd. Yn ogystal â hyn caiff y gynulleidfa ei hatgoffa o'r ffaith mai barn Ceiriog a glywir drwy Syr Meurig, boed hynny'n fwriadol ai peidio. Yn ogystal â beirniadaeth Bobi Jones ynglŷn â'r ffin anweledig rhwng gwaith difrifol a dychanol Ceiriog, trafodwyd eisoes yn y penodau blaenorol ei

feirniadaeth am ddiffyg synnwyr Ceiriog o safbwynt ei grefft. Er gwaethaf dadl Bobi Jones, gellid dadlau mai yng ngweithiau dychanol y bardd dan enw Syr Meurig y ceir yr ymwybyddiaeth amlycaf o'i grefft. Drwy ddefnyddio cymeriad Syr Meurig Grynswth galluogwyd Ceiriog i ddefnyddio dychan a hiwmor mewn modd a fyddai'n llwyddo i ddiddori a difyrru'r gynulleidfa yn ogystal â chynnig beirniadaeth gymdeithasol o dan yr wyneb. Yn wir dywed E. G. Millward, 'Mae angen bod yn weddol soffistigedig i ddeall peth o ddychan y gohebiaethau hyn' (1991, t. 45). Canmol gwaith Ceiriog fel Syr Meurig Grynswth a wna W. J. Gruffydd, a hynny ar sail y ffaith ei fod '...yn gyfraniad pwysig i'r syniadau newydd a oedd yn dechrau dyfod i brydyddiaeth ac i feirniadaeth lenyddol yng Nghymru' (1939, t. 19). Hynny yw, gwêl W. J. Gruffydd fod cyfraniadau Ceiriog dan enw Syr Meurig Grynswth a'i dechnegau dychanol yn gyfraniad pwysig i'r syniadau mwy rhyddfrydol a oedd ar droed ym myd barddoniaeth a rhyddiaith Gymraeg. Ni ellir gwadu bod Ceiriog yn fodlon mentro ac arbrofi o safbwynt ei gyfraniadau dychanol, a'i fod wedi llwyddo ynghyd â chyfranwyr eraill i symud llenyddiaeth Gymraeg yn ei blaen yn debyg i ffasiynau llenyddol rhyngwladol. Nid testun i'w hepgor o drafodaethau llenyddol yw gwaith Ceiriog fel Syr Meurig Grynswth, ond yn hytrach ddarnau o waith y dylid eu parchu a hynny am eu dawn egnïol a'u difyrrwch, yn ogystal â'r feirniadaeth gymdeithasol sydd ynddynt.

Yr Hwiangerddi

Fe ddaeth y syniad o gasglu caneuon, straeon a chwedlau gwerin yn ogystal â hwiangerdd yn rhan o symudiad rhyngwladol o ganol y ddeunawfed ganrif ymlaen. Yn ôl D. Gwenallt Jones '...yr oedd y casglu aruthrol hwn yn un o weithgareddau ac un o gyfraniadau pwysicaf y ganrif ddiwethaf. Dyma gyfraniad gwerthfawrogaf y

mudiad rhamantaidd' (1968, t. 207). Agwedd arall sy'n gysylltiedig â chymeriad Syr Meurig Grynswth sydd heb dderbyn sylw haeddiannol yw ei gyfraniad i lèn gwerin drwy ei ymgyrch i warchod yr hwiangerddi Cymraeg. Dim ond un awdur sydd wedi tynnu sylw mewn gwirionedd at gyfraniad Ceiriog o safbwynt yr hwiangerddi, sef Meredydd Evans. Yn yr erthygl 'Cefndir a Chynnwys "Hen Hwiangerddi" Ceiriog' (1981) yn y cyfnodolyn *Canu Gwerin* ceir hanes ymgyrch Ceiriog i gasglu'r hwiangerddi ynghyd, yn ogystal â thrafodaeth ar natur y gweithiau hynny. Gosodwyd y dasg o hel yr hwiangerddi ar ffurf cystadleuaeth gan Ceiriog i ddarllenwyr *Yr Arweinydd* yn 1857 (Evans 1981, t. 11):

Yn rhifyn Ionawr 29ain, 1857, yn y golofn olygyddol, ceir nodyn i'r perwyl hwn:
Ceiriog, 150 Tipping Street, Manchester, a ddymunai roi *Caniadau Caledfryn* yn wobwr am y casgliad helaethaf a gorau o Hwiangerddi (Nursery Songs) Cymreig, neu chwedlau o'r un natur. Y casgliadau i'w danfon iddo ef erbyn y cyntaf o Fawrth nesaf

Onid yw'n ddigon eironig ac yn enghraifft o'r hiwmor a berthyn i ysgrifau Syr Meurig iddo nodi mai gwobr y sawl a fyddai'n cyflwyno'r casgliad gorau o hwiangerddi yw copi o *Caniadau Caledfryn*, hynny yw y bardd a'r beirniad llenyddol roedd Ceiriog ei hun yn anghytuno ag ef a'r un a oedd yn pwysleisio gwerth y gynghanedd, y clasurol, a chreffft aruchel! Dywed Meredydd Evans ei fod yn ddfyfr nodi bod Ceiriog wedi gwneud cais ar i eraill gasglu'r hwiangerddi ynghyd '...ac awgryma hynny mai swyddogaeth cyhoeddwr a fynnai ei hawlio iddo'i hun' (1981, t. 11). Yn y cyd-destun hwn, mae Meredydd Evans yn codi'r pwynt nad yw Ceiriog yn ei ragymadrodd i 'Hen Hwiangerddi' 1870 yn talu teyrnged haeddiannol i'r rhai hynny a fu'n casglu'r hwiangerddi wedi iddynt ymateb yn frwdfrydig i gais Ceiriog yn *Yr Arweinydd*. Dywed (Evans 1981, t. 16):

Nid oes sôn o fath yn y byd am y ddwy gystadleuaeth a gynhaliwyd yn 1857 nac am gyfraniadau'r deunaw cystadleuydd a anfonodd ddefnydd iddo [...] Y dirgelwch mwyaf yw nad yw'n cyfeirio o gwbl at gasgliad buddugol O. G.

Williams [...] Nid oes gennyf unrhyw esboniad i'w gynnig dros grintachrwydd Ceiriog yn yr achos hwn; y cyfan a allaf ei wneud yw ei nodi.

Dengys yr hyn a ddywed Meredydd Evans natur hunanol Ceiriog, yn sgil awydd y bardd i wneud enw iddo'i hun ar draul eraill. Dichon fod Ceiriog wedi twyllo'r cystadleuwyr drwy ddefnyddio'i safle breintiedig fel bardd poblogaidd ei oes er mwyn ennill eu hymddiriedaeth.

Yr hyn sy'n ddifyr am gysylltiad Ceiriog â'r hwiangerddi yw'r ffaith iddo gyhoeddi'r gwaith dan enw Syr Meurig yn hytrach na'i enw ei hun. Wrth gyflwyno'r casgliad cyntaf o hwiangerddi yn rhifyn 26 Mawrth 1857 i ddarllenwyr *Yr Arweinydd* egyr Syr Meurig drwy ddweud:

Ffol, gwag, a phlentynaidd, yn ddiameu, ac fe allai *pechadurus* yn ngolwg rhai, yw y cerddi anwyl canlynol a anadlwyd ac a suwyd i'n clutsiau pan oeddym fabanod ar lin ein mamau. Ond yr ydwyf fi o'r farn mai plant mawr byddarion i felusder cerdd, a deillion i dlysni symylrwydd, yw pob un na fedr deimlo swyn yn y dosbarth hwn o hen rigymau.

Serch y pwysigrwydd o gasglu'r hen benillion annwyl ynghyd, cafwyd ymateb cymysglyd i'r her gan ddarllenwyr *Yr Arweinydd*, a hynny gan rai o'r '...plant mawr byddarion i feluster cerdd' y soniwyd amdanynt gan Syr Meurig. Dros gyfnod o sawl mis ar dudalennau'r *Arweinydd* beirniadwyd Syr Meurig yn chwyrn am ymroi i'r dasg o hel yr hen hwiangerddi. Yn rhifyn 9 Ebrill 1857 ceir erthygl gan y golygydd dan y testun 'Meurig Grynswth a'r Hwiangerddi' sy'n cynnwys ymatebion y cyhoedd a fu'n dadlau yn erbyn cynnwys y penillion plentynnaidd hyn ar dudalennau'r papur:

Y mae'n ddiau na feddyliodd Meurig wrth anfon y penillion dan sylw i'r 'Arweinydd' y buasent yn peri y tramgwydd lleiaf i neb [...] Nid felly yn hollol y troes pethau allan. Y mae amryw nad ydynt yn derbyn yr 'Arweinydd', ac amryw o'r rhai sydd yn ei dderbyn, yn bygwirth ei roddi i fyny, o herwydd y drosedd fawr o roddi yr hwiangerddi yno. Wele yn canlyn rai o'r nodiadau: —

"Y mae yr hwiangerddi, fel y gelwch y ffolineb, yn sicr o ladd eich papyr yn yr ardal hon" [...] "Yn sicr y mae yr Hwiangerddi hyn yn bechod; canys a

dyweud y goreu am danynt, y maent yn wagedd, ac y mae gwagedd yn bechod.”

Gwelir uchod yr ymateb eithafol a gafwyd gan rai o ddarllenwyr *Yr Arweinydd* yn erbyn yr hwiangerddi a hynny oherwydd diffyg swmp a sylwedd barddol y cynnyrch. Yn debyg i ymateb yr oes yn gyffredinol tuag at ysgrifau a cherddi dychan a hiwmor, gwelir yr un math o ymateb tuag at yr hwiangerddi. Wrth gwrs mae'n bosibl fod ambell un o'r ymatebion yn rhai tafod-ym-moch neu hyd yn oed yn ymatebion ffug, a hynny fel techneg bwriadol i gynhyrfu'r dyfroedd ac i gynnal diddordeb y darllenwyr o wythnos i wythnos. Er bod llên plant yn dod yn fwyfwy amlwg yn ystod y ganrif, fel y trafoda Sioned Davies yn 'O Alice i Alys: Cyfieithu Clasur i'r Gymraeg' (2012), nid oedd eto'n cael ei gyfrif yn rhywbeth i'w ystyried o ddifrif gan feirniaid a sylwebwyr llenyddol. Ceir ymateb gan y golygydd yn rhifyn 9 Ebrill 1857 i'r rhai a fu'n chwyrn yn erbyn cynnwys yr hwiangerddi, gan ddatgan bod y cerddi o hyn allan yn mynd i ymddangos o dan y teitl clir 'HWIANGERDDI' er mwyn rhybuddio'r darllenwyr o'u cynnwys:

Yr ydym yn rhoddi rhybudd gonest i chwi, dduwiolion yn neilltuol, fod y penillion sydd yn ôl yn waeth ac yn ffolach hyd yn nod na'r ffol-bethau sydd wedi ymddangos eisioes. Yn awr deallwch, os bydd i chwi ddarllen yr un gair o honynt, ac i hynny fod yn foddion i ddamnio eich eneidiau chwi, y byddwn ni yn lan oddiwrth eich gwaed [Actau 20:26]. Dyma ni yn ail rybuddio, – Gwylwch! Gwiliwch, bawb oll, rhag darllen yr hwiangerddi, ond yn unig y rhai sydd yn dymuno eu gweled.

Wrth gwrs ymysg yr ymatebion beirniadol, cafwyd ambell un ffafriol, megis yr hyn a gafwyd gan bregethwr yr efengyl yn rhifyn 16 Ebrill 1857 a fu'n canmol ymdrechion Syr Meurig: 'Diolch i Meurig Grynswth am ei gais clodfawr yn ceisio gwneud casgliad hylwyr o Hwiangerddi Cymru. Bendith llawer Mam ar ei ben.' Wrth ymateb i'r rhai a fu'n beirniadu ei ymdrechion wrth gasglu'r hwiangerddi, tystia Syr Meurig

yn rhifyn 23 Ebrill 1857 i bwysigrwydd llenyddol y rhigymau a'r caneuon syml yng nghyd-destun traddodiad gwerin Cymru:

Mae defnydd cyfrolau o hanesyddiaeth yn nhraddodiadau pob cenedl, a pha beth yw tair rhan o bedair o'r hen rigymau tan sylw heblaw traddodiadau a welwyd yn dda gan ein mamau suo i'n clustiau, pan oeddym burach oddiwrth lygredigaeth nag ydym ar ôl dysgu darllen yr 'Arweinydd' ac ysgrifennu ein culfarn am ei gynhwysiad.

Ystyriwch, gyfeillion, fod rhywrai yn y byd heblaw chwi yn gwybod beth sydd yn deilwng i'w gyhoeddi mewn papur newydd a chofiwch fod rhai o honom trwy ambell i hwiangerdd yn dychwel i'r 'hen aelwyd anwylaf,' ac yn clywed llais hwian a sian mam ag sydd yn y bedd na welwn ei chyffelyb byth. Y cysylltiadau yma sydd yn rhoi iawn am y nonsense mawr, ac am y pechod o ddifyrru plant efo cerddi plentynnaidd

Dengys y dyfyniad uchod deimladau Syr Meurig ac felly'r hyn a deimlai Ceiriog am bwysigrwydd casglu'r hen hwiangerddi. Yn sicr, mae safiad Syr Meurig dros bwysigrwydd yr hwiangerddi yn adlewyrchiad clir o ddylanwad rhamantiaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Onid yw'r ffaith bod yr hen hwiangerddi yn dychwelyd dyn at yr 'hen aelwyd anwylaf' yn brawf o hyn. Gwelir nad yw Syr Meurig yn ofni datgan ei farn yn gyhoeddus, er gwaethaf y feirniadaeth a ddaeth yn ei erbyn o achos ei gasgliad. Yn ôl Syr Meurig mae pwysigrwydd oesol i'r hwiangerddi ar draws y byd a hynny yng nghyd-destun traddodiad gwerin y gwledydd. Dyma'r math cyntaf o draddodiad gwerin mae pobl yn dod ar ei draws yn blant bychain, ac felly'n haeddu parch a chydabyddiaeth. Yn ogystal â hyn tystia Syr Meurig fod gan yr hwiangerddi bwysigrwydd emosiynol a sentimental, a hynny fel cyswllt â'r fam (yn yr achos hwn) a fu'n canu'r rhigymau a'r penillion ac yn trosglwyddo'r hen draddodiad ymlaen i'r genhedlaeth nesaf. Tystia Syr Meurig fod yr hwiangerddi, er gwaethaf eu hapêl blentynnaidd, yn draddodiad gwerin byw sy'n cael ei drosglwyddo'n organig ac yn naturiol o un genhedlaeth i'r nesaf.

Er gwaethaf y beirniadu chwyrn a ddaeth yn ei erbyn, parhau i ymwrthod a wnaeth Syr Meurig â'r math o sylwadau a welwyd gan Ioan Arfon yn rhifyn 28 Mai 1857: 'Mae yr Hwiangerddi, a dweyd y goreu am danynt, yn ffolineb digymysg [...] Dylit gofio hefyd mai plant yr oes hon fyddant rieni yr oes nesaf. Ac os rhoddir ystôr o wagedd yn meddwl y plentyn, ni fydd yno le i sylwedd pan gyrhaeddo addfedrwydd oedran.' Yn wir, cymaint oedd parch Ceiriog at yr hen hwiangerddi nes iddo gyhoeddi'r casgliad yn ei gyfrol *Oriau'r Haf* (1870). Dengys penderfyniad Ceiriog i gynnwys casgliad Syr Meurig o'r hwiangerddi yn ei gyfrol swyddogol annibyniaeth barn, ac mae'n arwydd o'i gred ym mhwysigrwydd y dasg o roi'r hen hwiangerddi mewn print, a hynny er eu diogelu. Drwy roi llwyfan swyddogol i'r hwiangerddi roedd Ceiriog yn mynnu parch i lenyddiaeth plant ac i'w bwysigrwydd yng nghydestun traddodiad gwerin a llenyddol Cymru. Ceir 104 o rigymau a phenillion wedi eu casglu ynghyd yn yr adran 'Hen Hwian-gerddi' yn *Oriau'r Haf* (1870) yn ogystal â chyflwyniad byr i'r gwaith. Dengys Ceiriog yn y cyflwyniad bwysigrwydd cadw'r hwiangerddi ar gof a chadw a hynny am eu bod yn rhan bwysig o'n plentyndod.

Yn ei gyflwyniad i'r adran 'Hen Hwian-gerddi', diolcha Ceiriog i Syr Meurig Grynsyth '...am ei gais clodfawr yn ceisio gwneud casgliad hylwyr o Hwian-gerddi Cymru' (Hughes 1870, t. 22). Cyfyd y cwestiwn pam yr oedd Ceiriog wedi gosod ei gasgliad o hwiangerddi dan enw Syr Meurig Grynsyth yn hytrach na'i enw'i hun? Dywed Saunders Lewis (1929, t. 41):

I Geiriog, fardd cyngherddau, 'melusedd sŵn' oedd hanfod barddoniaeth. A phan aeth ef i ddewis ei ffefryn ymhlith caneuon, fe aeth at y puraf ohonynt oll, y wacaf o feddylddrychau neu syniadau. Dewisodd hwiangerdd, gan ddianc yn llwyr oddi wrth hualau ei amgylchedd.

Yn ôl Saunders Lewis apêl yr hwiangerddi i Ceiriog oedd y gallu i ddianc ynddynt, a hynny oddi wrth y disgwyliadau a oedd arno fel bardd y cyngherddau. Drwy osod y

testunau plentynnaidd dan enw Syr Meurig yn hytrach na'i enw ei hun, rhoddai hyn y cyfle i Ceiriog wahaniaethu'r casgliad oddi wrth ei weithiau ffurfiol. Yn ogystal â hyn, oherwydd natur liwgar a dros-ben-llestri cynnwys yr hwiangerddi gellid dadlau bod Ceiriog wedi gwneud y dewis ymwybodol bod y mathau hyn o rigymau a phenillion yn gweddu yn well i natur a chymeriad Syr Meurig.

Mae'r awydd i ddianc yn thema sy'n rhedeg yn gyson drwy fywyd a gwaith Ceiriog fel y gwelwyd ar hyd y drafodaeth yn y traethawd hwn. Gellid ystyried bod yr awydd i ddianc yn gysur seicolegol personol iddo a hynny er mwyn anghofio pwysau ac amgylchiadau'r cyfnod. Dichon fod y syniad o anghofio helbulon oedolyn am ennyd drwy'r hwiangerddi yn apelio at Ceiriog. Drwy ddianc i fyd y plentyn gellid dadlau bod Ceiriog yn canfod cysur yn y ffaith bod y darnau di-reswm yn ei arwain yn ôl at sicrwydd ei blentyndod ei hun, yn ogystal â chynnig yr un math o gysur i'w gyd-Gymry. Yn wir yn ei gyflwyniad i'r 'Hen Hwian-gerddi' tystia Ceiriog, 'Trosglwyddent fi i'r hen amser gynt, pan oeddwn fy hunan yn rhydd oddiwrth ofalon y byd anwir hwn' (Hughes 1870, tt. 21-2). Gwnaeth Ceiriog gyfraniad pwysig i lenyddiaeth Cymru trwy ei gasgliad o hwiangerddi dan enw Syr Meurig. Oherwydd ei ddyfalbarhad yn wyneb beirniadaeth chwyrn, llwyddodd Ceiriog i sicrhau llwyfan swyddogol i lenyddiaeth plant, yn ogystal â sicrhau nad oedd y cynnyrch yn diflannu i ebargofiant.

I grynhoi

Ni ellir gwadu'r ddeuoliaeth yng nghymeriad Ceiriog wrth asesu barddoniaeth ac ysgrifau'r bardd dan enw'i *alter ego* Syr Meurig Grynswth. Drwy gymeriad Syr Meurig Grynswth gwelwyd gwedd newydd i gymeriad Ceiriog nad oedd yn ofni datgan barn a syniadau dadleuol.

Arbenigrwydd Ceiriog oedd ei allu i ysgrifennu geiriau ar gyfer yr hen geinciau Cymraeg gan fynd i ysbryd y gerddoriaeth [...] Caneuon sentimental ydynt yn ôl safonau heddiw ond yr oeddynt yn ganeuon poblogaidd yn oes Fictoria. Gellid dadlau mai gwas y gymdeithas, yn bodloni anghenion ei oes, ydoedd yn ei farddoniaeth, ond dychanu'r gymdeithas honno a wnaeth yn ei ryddiaith.

Dyma'r disgrifiad o waith Ceiriog a geir yn *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*

(Stephens 1997, t. 343). Yr hyn sy'n ddifyr am y disgrifiad yw'r ffaith bod Ceiriog yn cael ei bortreadu fel 'gwas ei gymdeithas' a hynny ar sail y ffaith ei fod, fel yr ydym wedi ei drafod eisoes, yn ymdrin â thestunau derbyniol gan y gymdeithas yn ei farddoniaeth. Ar y llaw arall fe â'r disgrifiad ymlaen i ddatgan mai '...dychanu'r gymdeithas honno a wnaeth yn ei ryddiaith'. Wrth edrych ar ysgrifau a barddoniaeth Ceiriog dan enw Syr Meurig ni ellir gwadu'r elfennau o ddychan cymdeithas (yn enwedig y Cymry dosbarth canol) a geir ynddynt, ac yn benodol y gymdeithas farddol. Dyma i chi'r cymhlethdod a'r tyndra yng ngwaith Ceiriog ar ei amlycaf, a hynny wrth iddo lwyddo i foesyngrymu i anghenion ei gymdeithas yn ei safle fel bardd poblogaidd y cyngherddau, ac yna gwawdio'r gymdeithas honno a chymdeithas y beirdd yn ei ysgrifau dychanol. Wrth drafod gwaith a chymeriad Ceiriog dywed Tony Bianchi (1988, t. 51)

He was one of the wittiest satirists of his age in Welsh, and he mocked the pretensions of the English, his fellow poets and Welsh Anglophiles in a way which, intentionally or not, tends to undermine his popular, and blander, lyrical works.

Gwelir yn yr hyn a ddywed Tony Bianchi y tyndra oedd yn bodoli yng ngwaith Ceiriog, a hynny wrth iddo ddychanu'r gynulleidfa yr oedd yn anelu ei farddoniaeth boblogaidd ati. Pam gwneud hyn felly? Er gwaethaf ei lwyddiant fel bardd poblogaidd, ymddengys fod Ceiriog oddi mewn yn rhwystredig, gan fod elfennau yn ymwneud â'r gymdeithas yr oedd yn canu ar ei chyfer yn ei gorddi. Modd o ryddhau'r rhwystredigaethau yw'r hyn a geir drwy gymeriad dychanol Syr Meurig Grynswth.

Drwy ddefnyddio dychan fel arf yn ogystal ag enw cymeriad i guddio y tu ôl iddo, llwyddodd Ceiriog i gael y gorau o'r ddau fyd – plesio'r gynulleidfa er lles ei boblogrwydd, yn ogystal â defnyddio Syr Meurig i leisio'i feirniadaeth gymdeithasol. Mewn geiriau eraill, roedd tyndra'n bodoli rhwng ffrynt allanol y bardd a'i deimladau personol. Dihangfa oedd Syr Meurig i Ceiriog yn y bôn, dihangfa i ryddhau'i densiynau mewnol a dinoethi'r gwir am y gymdeithas yr oedd yn ceisio'i phlesio. Wrth ystyried hyn oll yng nghyd-destun 'Gwell Cymro, Cymro oddi cartref?', gellid ystyried bod cyfnod Ceiriog fel Syr Meurig yn herio'r ymadrodd hwnnw. Roedd cyfraniad Ceiriog i lenyddiaeth Cymru yn ystod ei gyfnod oddi cartref yn ysgrifennu dan enw Syr Meurig yn hynod bwysig, a hynny am ei fod ef ymysg eraill wedi dod â dychan a hiwmor i sylw'r gymdeithas Gymraeg mewn oes a oedd yn gwgu ar y syniad i raddau. Yn ogystal â hyn, oni bai am ymdrechion a gwroldeb Syr Meurig Grynswth, ni fyddai'r hwiangerddi yn ddiogel ar glawr i'r genedl eu trysori. Ar y llaw arall ni ellir peidio ag ystyried bod Ceiriog wedi tramgwyddo sawl un drwy ddefnyddio cymeriad Syr Meurig i guddio y tu ôl iddo er mwyn beirniadu'r gymdeithas yr oedd ef ei hun yn byw yn ei chanol. Mae'n ddifyr bod cyfnod Ceiriog yn cyhoeddi dan enw Syr Meurig yn cyd-redeg â chyfnod y bardd yn byw ym Manceinion. Yn wir, wedi i Ceiriog ddychwelyd i Gymru yn 1865 tawelu fu hanes Syr Meurig i raddau helaeth. Gellid dadlau bod Ceiriog yn claddu Syr Meurig yn ystod y cyfnod hwn am iddo adael y gymdeithas yr oedd wedi arfer ei beirniadu a'i dychanu drwy ei *alter ego* ar ôl, yn ogystal a'r gwmnïaeth glos a'i bartneriaeth gyda Creuddynfab neu Bywbothfardd. Cilio fu hanes y ddeuoliaeth a oedd yn rhan allweddol o feddwl a bywyd Ceiriog yn ystod ei gyfnod yn byw oddi cartref yn Lloegr wedi iddo ddychwelyd i Gymru. Wrth i'r ddeuoliaeth ddiflannu yn ei fywyd

personol wedi iddo ddychwelyd i wlad ei febyd, diflannu hefyd fu hanes yr enwog Syr Meurig Grynswth.

Ar hyd y drafodaeth ar waith a chyfraniad Ceiriog rydym wedi ystyried natur ac arwyddocâd y llais a glywir – ei lais fel bardd poblogaidd a'i lais newyddiadurol. Nid oes dwywaith fod Ceiriog wedi ceisio plesio pawb ar hyd ei gyfnod yn byw oddi cartref ym Manceinion. Gwelwyd iddo ymateb i anghenion ei gymdeithas oddi cartref fel bardd poblogaidd, gan ddilyn arweiniad ei gylch agos o gyfeillion wrth wneud hynny. Yn ogystal â darparu casgliad eang o gerddi a chaneuon i'r Cymry, llwyddodd Ceiriog i ymddwyn fel llais y gymdeithas Gymraeg ym Manceinion yn ei safle fel gohebydd. Beth felly yw arwyddocad y llais a glywir yng ngohebiaeth a barddoniaeth Syr Meurig Grynswth?

Yn gyntaf oll dengys ymrithio Ceiriog fel Syr Meurig Grynswth benllanw cymhlethdodau'r bardd, a hynny ar sail y ffaith ei fod yn defnyddio llais *alter ego* i feirniadu cymdeithas. Y llais a glywir felly, yw llais sydd â rhyddid barn yn perthyn iddo o gymharu â barddoniaeth ac ysgrifau Ceiriog dan enw'i hun. Er bod Ceiriog yn dilyn esiampl ambell fardd a sylwebydd yn ei oes drwy ysgrifennu dan enw cymeriad arall, yr hyn a geir gan Syr Meurig mewn gwirionedd yw annibyniaeth barn. Dihangfa greadigol a seicolegol oedd creadigaeth Syr Meurig Grynswth i Ceiriog. Drwy ddefnyddio llais ei gymeriad swreal ac ecentrig llwyddodd Ceiriog i ddarganfod trywydd a fyddai'n fodd iddo leisio barn fwy rhyddfrydol ei natur yn hytrach na chael ei gaethiwo gan y cyfrifoldeb o blesio a gwyro at ddisgwyliadau cynulleidfa. Llais rhyddid yw llais Syr Meurig Grynswth.

Wedi darllen ac astudio'r ysgrifau a'r farddoniaeth a gafwyd dan enw Syr Meurig, a oes modd dadlau bod yno debygrwydd mwy na'r disgwyl rhwng Ceiriog a'i *alter ego*? Gwelwyd eisoes bod y ffin yn denau ar brydiau rhwng cerddi Syr Meurig a

rhai Ceiriog, ac wrth graffu mae modd gweld tebygrwydd rhwng natur a phersonoliaeth y bardd a'i *alter ego*. Dyma ychwanegu ymhellach at gymhlethdod cymeriad Ceiriog. Wrth ystyried y tebygrwydd mae'n werth ystyried y dystiolaeth a geir yn ysgrif Evan Roberts, 'Ceiriog, y Dyn fel yr oedd' (1933). Yn ôl Evan Roberts (1933, t. 69):

...ni ellir deall na barddoniaeth na dim arall a berthyn i ddyn yn iawn heb wybod rhywbeth am ei arferion beunyddiol [...] Ysgrifennodd y diweddar Mr David Jones, y Fan, Llanidloes, ei atgofion am Geiriog [yn yr 'Eurgrawn Wesleaid' pymtheg mlynedd ynghynt], ac ni welais ddim yn unman yn dangos Ceiriog bob dydd fel y gwna'r atgofion hyn.

Yr hyn a geir gan Evan Roberts yn ei ysgrif yw disgrifiad gan un a oedd yn adnabod Ceiriog yn ystod ei gyfnod wedi iddo ddychwelyd o Fanceinion i Gymru i fyw. Yn wir o ddarllen y dyfyniad a ganlyn, gellir dychmygu mai disgrifiad o Syr Meurig ei hun a geir gan David Jones yn hytrach nag o Ceiriog (Roberts 1933, t. 69):

'Yr oedd ei wisg hefyd yn dra thrwsiadus – het silc o'r defnydd gorau, frock coat a gwasgod olau, a'i gerddediad fel pe bai wedi cael triniaeth filwr [...] Rhaid imi ddweud inni fod yn hir cyn dyfod i'n deall ein gilydd' meddai Mr Jones. 'Ymddangosai i mi yn or-feistolgar ac yn gorfforiad o awdurdod. Ymsythai o'm blaen i'w lawn faint; a synnwn i ddim nad oedd tuedd ynof innau i yswatio o'i flaen yntau. Hefyd, mynnai siarad bob amser yn Saesneg.'

Dic Siôn Dafydd o ddyn sy'n dod i'r meddwl wrth ystyried agweddau Ceiriog yn y dyfyniad uchod. Yr hyn sy'n ddifyr am y disgrifiad yw'r ffaith bod Ceiriog yn taro'r darllenydd fel gŵr hunanbwysig, ac i ryw raddau yn ddigywilydd. Wrth ystyried y ffordd roedd Ceiriog yn gwisgo a'i ymddangosiad corfforol, atgoffir ni o'r disgrifiad a roddai Syr Meurig ohono'i hun ar y ffordd i Chwarel Bethesda yn rhifyn 6 Tachwedd 1856 o'r *Arweinydd*, Dengys y disgrifiad fod Ceiriog yn ei ystyried ei hun yn uwch ei statws na'r hyn ydoedd mewn gwirionedd, ac yn wir gellir datgan bod yr un peth yn wir am Syr Meurig. Roedd Syr Meurig, felly, yn fwy nag *alter ego* i Ceiriog, roedd yn rhan allweddol o gymeriad y bardd. Yr hyn a geir mewn gwirionedd yn yr ysgrifau a'r

farddoniaeth gan Syr Meurig yw estyniad o farn a theimladau Ceiriog ei hun. Dichon mai Ceiriog wedi ei osod dan chwyddwydr yw Syr Meurig Grynswth.

Casgliad

Boed ar lwyfan eisteddfodau a chyngherddau adloniadol, ar raglenni teledu, neu yng nghân mam wrth iddi suo'i phlentyn i gysgu, mae gwaith Ceiriog i'w glywed o'n cwmpas hyd heddiw. Serch hyn, a yw Cymry yn ein hoes ni yn ymwybodol o fodolaeth John Ceiriog Hughes, y gŵr y tu ôl i'r gweithiau enwog? Dyma'r hyn yr oeddwn am fynd i'r afael ag ef yn yr ymdriniaeth hon, sef cyflwyno Ceiriog o'r newydd i gynulleidfa'r unfed ganrif ar hugain, a hynny yng nghyd-destun y cymhlethdodau a berthyn i gymeriad a gwaith y bardd. Yn wir, ni ddylid derbyn Ceiriog fel bardd syml a gwladgarol y cyngherddau yn unig; mae hanes Ceiriog yn un llawer mwy lliwgar na hynny.

Un elfen allweddol ym mywyd Ceiriog yw cysylltiad y bardd â Manceinion. Wrth ystyried yr holl gerddi a chaneuon o'i waith sy'n cylchdroi o gwmpas byd natur ac amaethyddiaeth Cymry, dichon ei fod yn syndod i rai bod y gweithiau hyn wedi eu cyfansoddi yng nghanol mwg dinas ddiwydiannol yn Lloegr. Yn y ddinas hon y tyfodd Ceiriog o fod yn llanc ifanc o ddyffryn cysglyd ei fagwraeth i fod yn ddyn, a hynny yng nghanol oes llawn newidiadau cymdeithasol aruthrol. Roedd cymdeithas yn moderneiddio mewn modd ac ar gyflymder nas gwelwyd ei fath yn y gorffennol, a'r Ymerodraeth Brydeinig yn arwain y ffordd yn y datblygiadau economaidd ym myd diwydiannau trymion a thechnoleg, fel y gwelwn yn Arddangosfa Fawr 1851. Un o'r miloedd hynny a oedd wedi'i ddal gan swyn yr oes oedd Ceiriog. Yng nghanol berw Oes Victoria y daeth Ceiriog i amlygrwydd cenedlaethol fel bardd poblogaidd y Cymry, wrth iddo hawlio sylw a bri y gynulleidfa o Gymry dinesig a'r Cymry gartref fel ei gilydd gyda'i gerddi a'i ganeuon rhamantaidd a thra sentimental am wlad ei febyd. Gwelwyd ar hyd y drafodaeth fod Manceinion wedi troi Ceiriog i fod yn llawer

mwy na bardd yn unig. Er bod sylwebwyr wedi anwybyddu cyfraniad Ceiriog fel gohebydd ac fel dychanwr nodedig yn ystod ei gyfnod yn y ddinas, gwelwyd bod yr elfennau hyn yn datguddio llawer i ni am natur y gymdeithas Gymreig ym Manceinion yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Yn gysylltiedig â barddoniaeth, gohebiaeth, ac ysgrifau dychanol Syr Meurig Grynswth, gwelwyd nad cymeriad syml oedd Ceiriog. Yn wir, ni ellir derbyn bellach mai un llais rhamantaidd gwladgarol a berthyn i Ceiriog. Yn ogystal â'r llais rhamantaidd a welwyd yng ngherddi a chaneuon Ceiriog, gwelwyd bod llais cymdeithasol arall yn perthyn iddo, a hynny yn ei ohebiaeth. Llais y Cymro dinesig a glywir, a hwnnw'n llais tra gwahanol i'r persona a fu'n clodfori bywyd beunyddiol y bugail a nodweddion cefn gwlad yn y cerddi a'r caneuon. Yn wir, persona sy'n fodlon adrodd gyda chryn falchder am weithgareddau amryfal y gymdeithas Gymraeg ym Manceinion yw'r hyn a welir gan Ceiriog yn ei safle fel gohebydd. Yn ogystal â hyn, ceir llais beirniadol yn ymwthio yng nghynnwys yr erthyglau, wrth i Ceiriog leisio barn ei gylch clòs o feirdd a llenorion yn y ddinas ynglŷn â barddoniaeth, llenyddiaeth, a phynciau dadleuol megis dyfodol yr iaith Gymraeg.

Ceir pinael i'r lleisiau amrywiol a glywir yng ngweithiau Ceiriog yng nghydestun ysgrifau a barddoniaeth ei *alter ego*, Syr Meurig Grynswth. Drwy ddefnyddio persona Syr Meurig galluogwyd Ceiriog i wthio ffiniau drwy'i ddefnydd o ffraethineb a dychan soffistigedig. Yn hytrach na thraethu fel ef ei hun, defnyddiwyd Syr Meurig yn gyfrwys gan Ceiriog er mwyn mynegi beirniadaeth ffraeth ond miniog am ei gymdeithas. Drwy gymeriad Syr Meurig Grynswth pwysleisiwyd y ddeuoliaeth yng nghymeriad Ceiriog rhwng y doniol a'r difrifol. Yr hyn a geir yng nghymeriad Syr Meurig Grynswth yw llais persona sy'n meddu ar ryddid mynegiant a'r awydd i fynd

yn erbyn disgwyliadau derbyniol cymdeithas. Drwy ddefnyddio persona â llais cwbl gyferbyniol i'r hyn yr oedd y gynulleidfa wedi arfer ei glywed, dichon fod traethu drwy lais Syr Meurig yn ddihangfa ac yn chwa o awyr iach i Ceiriog.

Yr hyn sy'n ddifyr am Ceiriog yn sgil y lleisiau amrywiol a glywir yn ei waith yn ystod ei gyfnod ym Manceinion yw'r ffaith mai tasg anodd os nad amhosibl yw pennu gwir lais iddo. Yn wir, yn y cyd-destun hwn y gwelwyd y tyndra rhwng cymeriad cyhoeddus Ceiriog a'i gymeriad personol. Gwelwyd yn aml ar hyd y drafodaeth bod Ceiriog wedi cael ei arwain gan eraill o safbwynt natur ei waith – boed gan anghenion chwaeth ac arferion ei gynulleidfa, neu gan farn ei gylch agos o feirdd a llenorion ym Manceinion. Cymeriad cyhoeddus oedd Ceiriog, a sail ei lwyddiant wedi ei fesur ar ei allu i blesio eraill. Serch hyn, a oedd yr angen i blesio yn tynnu oddi ar farn a llais personol Ceiriog? Dichon fod y lleisiau amrywiol hyn yn celu ei wir deimladau a'i farn. Yn wir, ni cheir gwell modd o bwysleisio hyn, yn ogystal â phwysleisio'r gwahaniaeth rhwng cymeriad cyhoeddus a chymeriad personol Ceiriog, na thrwy ystyried y ddelwedd a gawn ohono wedi iddo ddychwelyd i Gymru. Wrth sylwebu ar gymeriad Ceiriog wedi iddo ddychwelyd i Gymru i fyw ar ôl cyfnod maith ym Manceinion dywed Hywel Teifi Edwards (1987, t. 8):

Gallai fynegi mewn Saesneg, iaith ei aelwyd ers blynyddoedd, yr hyn na chaniatâi iaith ei boblogrwydd iddo ddweud, sef ei fod yn ei olwg ei hun yn fethiant truenus: 'I have no history. Not a single event in the whole of my passage yet, and I am 52 in the service'. [...] Dyna lais gŵr a wyddai iddo fyw celwydd yn rhy hir er mwyn boddio gwlad a ofnai'r gwir.

Yn wahanol i'r llais ysgafn a welwyd mor aml yng ngweithiau cyhoeddus Ceiriog, llais cwbl gyferbyniol a glywir yma. Dyma lais gŵr canol oed wedi digalonni'n llwyr, a hynny am nad oedd yn teimlo iddo lwyddo i gyflawni dim byd nodedig yn ystod ei fywyd. Dichon felly, nad oedd Ceiriog o'r farn bod ei holl gampau llenyddol yn brawf

digonol o'i lwyddiant. Yn ôl Hywel Teifi Edwards (1987, t. 8) llais un '...a wyddai iddo fyw celwydd yn rhy hir' er mwyn plesio eraill a glywir trwy eiriau personol Ceiriog. Credaf fod modd cytuno â'r farn hon. Hynny yw, dichon fod Ceiriog wedi digalonni am iddo greu enw iddo'i hun drwy greu gweithiau i foddio chwaeth ac anghenion eraill, boed yn gynulleidfa o Gymry alltud neu'n gyfeillion agos fel Creuddynfab, yn hytrach na dilyn ei lwybr ei hun. Yn wir, onid yw'n allweddol, fel y nododd gan Hywel Teifi Edwards, mai Saesneg yw'r iaith a ddefnyddiwyd i fynegi teimladau personol y bardd? Yn wahanol i '...iaith ei boblogrwydd' sef Cymraeg, awgryma'r dyfyniad mai Saesneg oedd yr iaith a defnyddiwyd o ddydd i ddydd gan Ceiriog, ac felly yr iaith y teimlai fwyaf cyfforddus yn mynegi ei deimladau personol drwyddi. Dyma gyferbyniad llwyr i lais y Cymro Cymraeg gloyw a welwyd dro ar ôl tro yng ngweithiau cyhoeddus Ceiriog. Fe aeth bywyd personol Ceiriog ar ei lawr wedi iddo ddychwelyd i Gymru. Nid yn unig i'w awen gilio, ond ni wireddwyd ei ddymuniad i godi'i safle yn ei swydd ym myd y rheilffyrdd, ac ar ben hyn fe drodd Ceiriog at y ddiod feddwol am gysur. Cyfnod tywyll a wynebai Ceiriog wedi iddo ddychwelyd i Gymru. Yn wir, does ryfedd iddo fynegi ei siom â'i fywyd ac yntau wedi disgyn i bwll o anobaith. Yn y cyd-destun hwn gellir canfod y cymhlethdod a'r tyndra mwyaf a berthyn i gymeriad Ceiriog – er iddo hiraethu am Gymru yn ei gerddi, mae'n amlwg nad oedd y wlad honno yn ei blesio gymaint â'r ddinas oddi cartref. Wrth gwrs yr eironi mawr sy'n ychwanegu at y ddeuoliaeth yn hanes Ceiriog yw'r ffaith ei fod wedi llwyddo fel bardd poblogaidd er iddo syrthio i bwll o anobaith personol. Er iddo droi at feddwod oherwydd ei 'fethiant' honedig, roedd ei gerddi a'i ganeuon yn ennill eu plwyf a'u poblogrwydd fwyfwy ymysg y Cymry er iddo fethu a sylweddoli hyn.

Wrth edrych ar yr holl weithiau llenyddol, o'r cerddi hyd at yr ysgrifau dychanol a berthyn i Ceiriog, yn ogystal â'i ymdrech i wella'i sefyllfa a gwneud enw iddo'i hun ym myd cystadleuol y rheilffyrdd, roedd Ceiriog yn sicr yn wŷr â'i fys ym mhob potes. Yn sgil pwysau'r oes ar lwyddiant yr unigolyn, gellid dadlau bod Ceiriog wedi ceisio gwneud popeth o fewn ei allu er mwyn sicrhau'r llwyddiant bydol hwnnw. Wrth ystyried y cymeriad toredig a welwyd wedi dychwelyd i Gymru, dichon fod y pwysau am lwyddiant wedi profi'n ormod iddo. Gŵr a fethodd ddod o hyd i'w ganol llonydd oedd Ceiriog yn y bôn, ac yn sgil hynny, yn wŷr a fethodd ganfod hapusrwydd mewn byd a oedd yn newid ar garlam o'i gwmpas. Mae hanes Ceiriog yn amlygu cymhlethdod ei gyfnod, ac yn ymgorfforiad o'r pwysau a oedd yn wynebu sawl un tebyg iddo yn ystod Oes Victoria, wrth i'r unigolyn cyffredin gwestiynu ei ddyfodol a'i le yn y byd. Ni chawn byth ganfod y gwir am deimladau Ceiriog. Serch hyn, wrth edrych ar ei weithiau amryfal, yn ogystal â hanes eclecticig ei fywyd personol, cawn ddarlun mwy crwn o'r cymhlethdodau a berthyn i'r gŵr hwn. Mae un peth yn sicr, anghyfiawnder fyddai ystyried John Ceiriog Hughes yn fardd gwladgarol rhamantaidd yn unig, ac yn sicr ni ddylid gadael i'w hanes lliwgar lechu yng nghysgodion ein traddodiad barddol.

Llyfryddiaeth

Altrick, Richard. D. 1974. *Victorian People and Ideas*. London: Dent.

Yr Arweinydd [Ar-lein]. Ar gael:

<http://wales.aquabrowser.com/default.ashx?q=yr+arweinydd> (Rhaid dewis yr ail gofnod o'r rhestr er mwyn canfod y wybodath berthnasol) [Gwelwyd: 31 Gorffennaf 2014]

Best, Geoffrey. 1971. *Mid-Victorian Britain 1851-75*. London: Fontana.

Bevan, Hugh. 1948. *Gohebiaethau Syr Meurig Grynswth*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Bianchi, Tony. 1988. An Englishman and Something More: A New Look at Ceiriog. *Planet* 69, tt. 47-56.

Bowen, G. a Bowen, Z. 1991. *Hanes Gorsedd y Beirdd*. Cyhoeddiadau Barddas.

Briggs, Asa. 1990. *Victorian Cities*. Harmondsworth: Penguin Books.

Brooks, Simon. 2013. Rhagymadrodd. Yn: Lewis, Saunders. *Monica*. Llandysul: Gwasg Gomer, tt. 7-14.

Y Bywgraffiadur [Ar-lein] Ar gael: <http://wbo.llgc.org.uk/cy/c-HUGH-HUG-1805.html> [Gwelwyd: 31 Gorffennaf 2014]

Cooper, Kathryn. J. 2011. *Exodus from Cardiganshire: Rural-Urban Migration in Victorian Britain*. Cardiff: University of Wales Press.

Davies, Russell. 2005. *Hope and Heartbreak: A Social History of Wales and the Welsh, 1776-1871*. Cardiff: University of Wales Press.

Davies, Sioned. 2012. O Alice i Alys: Cyfieithu Clasur i'r Gymraeg. *Llên Cymru* 35, tt. 116-46.

Dennis, Richard. 1984. *English Industrial Cities of the Nineteenth Century*. Cambridge: Cambridge University Press.

Edwards, Huw. Meirion. 2000. The Lyric Poets. Yn: Edwards, Hywel Teifi. gol. *A Guide to Welsh literature c. 1800-1900*. Cardiff: University of Wales Press, tt. 97-125.

Edwards, Hywel Teifi. 1968. Safonau Beirniadaeth Creuddynfab. Yn: Morgan, Dyfnallt. gol. *Gwyr Llên y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg a'u Cefndir*. Landybie: Llyfrau'r Dryw, tt. 187-98.

- 1976. *Yr Eisteddfod: Cyfrol Ddathlu Wythganmlwyddiant yr Eisteddfod, 1176-1976*. Llys yr Eisteddfod Genedlaethol.
 - 1980. *Gŵyl Gwalia: Yr Eisteddfod Genedlaethol yn Oes Aur Victoria 1858/ 1868*. Llandysul: Gwasg Gomer.
 - 1987. *Llên y Llenor: Ceiriog*. Caernarfon: Gwasg Pantycelyn.
 - 1989a. Blodeugerdd y Cyfle a Gollwyd. *Barn* 312 Ionawr, tt. 38-40.
 - 1989b. R. M. Jones a'i Flodeugerdd. *Barn* 321 Hydref, tt. 9-10.
 - 1989c. *Codi'r Hen Wlad yn ei Hôl 1850-1914*. Llandysul: Gwasg Gomer.
 - 1990. R. M. Jones a'i Flodeugerdd. *Barn* 326 Mawrth, tt. 35-6.
 - 2008. Sgwrs yn y cylchgrawn electronig *Yr Utgorn* Rhagfyr
- Edwards, O. M. 1910. *Ceiriog*. Wrexham: Hughes a'i Fab.
- Evans, Meredydd. 1981. Cefndir a chynnwys "Hen Hwaiangerddi" Ceiriog. *Canu Gwerin* 4, tt.11-33. (Ailgyhoeddwyd – Ffrancon, A. a Jenkins, G. gol. 1994. *Merêd*. Llandysul: Gwasg Gomer)
- 1987. Ceiriog: Bardd y Gân. *Canu Gwerin* 10, tt. 11-25.
- Foulkes, Isaac. 1887. *John Ceiriog Hughes: ei fywyd, ei athrylith a'i waith*. Liverpool: Isaac Foulkes.
- Ffred, Alun. 1987. Trwy Ddrych...Mewn Dameg... *Y Faner* 2 Hydref, t, 7.
- George, William. 1945. *Cymru Fydd – Hanes y Mudiad Cenedlaethol Cyntaf*. Lerpwl: Gwasg y Brython.
- Gruffydd, W. J. 1939. *Ceiriog*. Llundain: Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig.
- Howell, John. M. 1894. Fel y Gwelais Ceiriog. *Cymru* 15 Mawrth, tt. 161-3.
- Houghton, Walter. E. 1957. *The Victorian Frame of Mind 1830-1870*. New Haven: Yale U.P.
- Hughes, John. Ceiriog. 1860. Oriau'r hwyr. Yn: Foulkes, Isaac. gol. 1911. *Gweithiau Ceiriog Cyfrol 1*. Wrecsam: Hughes a'i Fab.
- Hughes, John. Ceiriog. 1862. Oriau'r Bore. Yn: Foulkes, Isaac. gol. 1911. *Gweithiau Ceiriog Cyfrol 1*. Wrecsam: Hughes a'i Fab.
- Hughes, John. Ceiriog. 1863. Cant o Ganeuon. Yn: Foulkes, Isaac. gol. 1911. *Gweithiau Ceiriog Cyfrol 1*. Wrecsam: Hughes a'i Fab.

- Hughes, John. Ceiriog. 1865. Y Bardd a'r Cerddor. Yn: Foulkes, Isaac. gol. 1911. *Gweithiau Ceiriog Cyfrol 2*. Wrecsam: Hughes a'i Fab.
- Hughes, John. Ceiriog. 1868. Oriau Eraill. Yn: Foulkes, Isaac. gol. 1911. *Gweithiau Ceiriog Cyfrol 2*. Wrecsam: Hughes a'i Fab.
- Hughes, John. Ceiriog. 1870. Oriau'r Haf. Yn: Foulkes, Isaac. gol. 1911. *Gweithiau Ceiriog Cyfrol 2*. Wrecsam: Hughes a'i Fab.
- Hughes, John. Ceiriog. 1888. Yr Oriau Olaf. Yn: Foulkes, Isaac. gol. 1911. *Gweithiau Ceiriog Cyfrol 3*. Wrecsam: Hughes a'i Fab.
- Hughes, Medwin. 1987. Ceiriog a'r Traddodiad Telynegol. *Taliesin* 59, tt. 62-9.
- Hunt, Tristram. 2004. *Building Jerusalem: The Rise and Fall of the Victorian City*. London: Weidenfeld & Nicolson.
- Hunter, Jerry. 2005. *Poen y Ddynoliaeth: Golwg ar 'Yr Atgyfodiad' gan Kate Roberts*. Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch.
- Iorwerth, Dylan. 2007. *Gohebydd yng Ngheredigion yn Ystod y Flwyddyn Fawr: Hanes John Griffith (Y Gohebydd) ac Etholiad 1868*. Aberystwyth: Cymdeithas Lyfrau Ceredigion Cyf.
- James, Eleri Hedd. 2009. *Casglu Darnau'r Jig-so*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- James, E. Wyn. 2001. Golwg ar Rai o Gerddi a Baledi Cymraeg Troed-y-rhiw. Yn: Edwards, Hywel Teifi. gol. *Merthyr a Thaf*. Llandysul: Gwasg Gomer, tt. 94-129
- 2007. *Glyndŵr a Gobaith y Genedl: Agweddau ar y Portread o Owain Glyndŵr yn Llenyddiaeth y Cyfnod Modern*. Aberystwyth: Cymdeithas Lyfrau Ceredigion.
- 2012. Trains and Ballads in Nineteenth-Century Wales. Yn: McKean, Thomas. A. gol. *Songs for People on the Move*. Wissenschaftlicher Verlag Trier, tt.104-124.
- Jarvis, Branwen. 1987. Ceiriog a Chymru. *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, tt. 85-104. (Ailgyhoeddwyd – Jarvis, Branwen. 1999. *Llinynnau: Detholiad o Ysgrifau Beirniadol*. Bodedern: Gwasg Taf.)
- 1988. Adolygiadau: Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg. *Llais Llyfrau Gaeaf*, tt. 10-11.
- Jones, D. Gwenallt. 1950-1. Ceiriog. Yn: *Llên Cymru 1*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt. 2-21.
- 1945. gol. *Detholiad o Ryddiaith Gymraeg R. J. Derfel*. Y Clwb Llyfrau Cymreig.

- 1968. Ceiriog. Yn: Morgan, Dyfnallt. gol. *Gwŷr Llên y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg a'u Cefndir*. Llandybie: Llyfrau'r Dryw, tt. 199-213.
- Jones, Eirian. 2007. *B. T. Hopkins a Thraddodiad Llenyddol y Mynydd Bychan, Ceredigion*. Traethawd MPhil, Prifysgol Caerdydd.
- Jones, Gareth. Elwyn. 1994. *Modern Wales: A Concise History*. Cambridge: Cambridge University Press.
- Jones, Ieuan. Gwynedd. 1992. *Mid-Victorian Wales: The Observers and the Observed*. Cardiff: University of Wales Press.
- Jones, J. Owen. 1891. Ceiriog. *Cymru Fydd* 4(3), tt. 129-150.
- Jones, R. M. 1958. Ceiriog - Y Bardd Di-Synnwyr. *Lleufer* 14(2), tt. 81-4.
- gol. 1988. *Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*. Cyhoeddiadau Barddas.
- 1989a. Ymateb i Adolygiad. *Barn* 313 Chwefror, t. 44.
- 1989b. Barddoniaeth y 19eg Ganrif (Rhan 1). *Barn* 316 Mai, tt. 35-7.
- 1989c. Barddoniaeth y 19eg Ganrif (Rhan 2). *Barn* 317 Mehefin, tt. 33-5.
- 1989d. Barddoniaeth y 19eg Ganrif (Rhan 3). *Barn* 318/319 Gorffennaf/Awst, tt. 33-6.
- 1990. Cerddi a'r Ysbryd. *Barn* 325 Chwefror, tt. 6-9.
- Jones, W. R. 1923. *A Comparative Study of the Nature Poetry of Ieuan Glan Geirionydd, Alun, Islwyn, and Ceiriog*. Traethawd MA, Prifysgol Aberystwyth.
- Lewis, Elfed H. 1899. *Athrylith John Ceiriog Hughes*. Liverpool: Isaac Foulkes.
- Lewis, Saunders. 1929. *Ceiriog – Yr Artist yn Philistia*. Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth.
- Lord, Peter. 1995. *Words with Pictures: Welsh Images and Images of Wales in the Popular Press, 1640-1860*. Aberystwyth: Planet.
- Lodge, Sara. 2007. *Thomas Hood and Nineteenth-century Poetry: Work, Play and Politics*. Manchester: Manchester University Press
- Markovits, Stefanie. 2009. *The Crimean War in the British Imagination*. New York: Cambridge University Press.
- Millward, E. G. 1982. Gwerineiddio Llenyddiaeth Gymraeg. Yn: Gruffydd, R. Geraint. gol. *Bardos*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, tt. 95-110.

- 1968. Eben Fardd. Yn: Morgan, Dyfnallt. gol. *Gwŷr Llên y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg a'u Cefndir*. Llandybïe: Llyfrau'r Dryw, tt. 31-41.
 - 1983. *Ceinion y Gân – Detholiad o Ganeuon Poblogaidd Oes Victoria*. Llandysul: Gwasg Gomer
 - 1991. *Cenedl o Bobl Ddewrion: Agweddau ar Llenyddiaeth Oes Victoria*. Llandysul: Gwasg Gomer
 - 2000. 'Gym'rwch chi baned?' – *Traddodiad y Te Cymreig*. Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch.
 - 2003. *Cerddi Jac Glan-y-Gors*. Cyhoeddiadau Barddas.
- Morgan, Derec Llwyd. 2014. Awdl i Arwr Mwyaf Annhebygol yr Haf. *Barn 620 Medi*, t. 50.
- Morgan, Prys. 2013. Islwyn a Mynyddoedd Cymru. Yn: *Llên Cymru* 36. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tt. 42-50.
- Parry, R. Williams. 1933. Ceiriog, Bardd Heb ei Debyg. *Y Ford Gron* 3(4), tt. 93-4, 96. (Ailgyhoeddwyd – 1974. Jones, Bedwyr. gol. *Rhyddiaith R. Williams Parry*. Dinbych: Gwasg Gee)
- Parry, Thomas. 1975. Literary Movement of the Nineteenth Century. Yn: Roderick. A. J. gol. *Wales Through the Ages: Vol 2*. Llandybïe: Christopher Davies, tt. 162-7.
- 1979. *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Parry-Williams, T. H. 1972. *Detholiad o Gerddi*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Pooley. Colin, G. 1983. Welsh Migration to England in the Mid-nineteenth Century. *Journal of Historical Geography* 9(3), tt. 287-306.
- Reports*. 1848. *Reports of the Commissioners of Inquiry into the state of Education in Wales*. London: HMSO
- Roberts, Evan. 1933. Ceiriog, y Dyn fel yr Oedd. *Y Ford Gron* 3(3), t. 69.
- Roberts, J. Iorwerth. 1959. Eisteddfod Fawr Llangollen, 1858. *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych* 8, tt. 133-56.
- Rowlands, John. 1990. *Llên y Llenor: Saunders y Beirniad*. Caernarfon: Gwasg Pantycelyn.
- Stephens, Meic. gol. 1997. *Cydymaith i Llenyddiaeth Cymru*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Thomas, Arthur. 2000. *Wil Mog a Chreffft y Bardd Gwlad*. Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch.

Thomas Elvet, W. C. 1929. Ceiriog in the Light of the Twentieth Century. *Welsh Outlook* 16(9), tt. 270- 2.

Thomas, R. J. gol. 1950-67. *Geiriadur Prifysgol Cymru: Cyfrol 1*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Williams, A. H. 1973. *Cymru Oes Victoria*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Williams, David. 1950. *A History of Modern Wales*. London: John Murray.

Williams, Huw Llewelyn. 1941. *Safonau Beirniadu Barddoniaeth yng Nghymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*. Llundain: Cwmni Cymraeg Foyle, Cyf.

Williams, J. J. 1908. Awdl Ceiriog. Yn: Evans, E. Vincent. gol. *Cofnodolion a Chyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol 1908 (Llangollen)*. Llundain: Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol, tt. 31-44.

Williams, William. 1855. *Y Barddoniadur Cymmreig*. Caerfyrddin: A. Williams.

Williams, W. D. 1969. Agor Grwn. *Barn 76 Chwefror*, t. 109.

ATODIAD

Ysgrifau Ceiriog yn y papurau newydd (y cyfeirwyd atynt yn nhestun y traethawd)

Yr Arweinydd – Rhestr o ysgrifau Ceiriog dan enw Syr Meurig Grynswth

1856. 30 Hydref

1856. 6 Tachwedd

1856. 18 Rhagfyr

1857. 15 Ionawr

1857. 29 Ionawr

1857. 5 Chwefror

1857. 26 Mawrth

1857. 9 Ebrill

1857. 16 Ebrill

1857. 23 Ebrill

1857. 28 Mai

1857. 6 Awst

1857. 8 Hydref

1857. 29 Hydref

1857. 19 Tachwedd

1858. 28 Ionawr

1858. 4 Mawrth

Baner ac Amserau Cymru - Ysgrifau Ceiriog fel Gohebydd Manceinion 'Digwyddiadau yr Wythnos: Gohebydd Manchester'

1861. 6 Mawrth

1861. 20 Mawrth
1861. 26 Mehefin
1861. 24 Gorffennaf
1861. 11 Medi
1861. 25 Medi
1861. 25 Rhagfyr
1862. 5 Mawrth
1862. 25 Mehefin
1862. 24 Medi
1863. 22 Gorffennaf
1864. 9 Mawrth

Y Byd Cymreig

1864. 18 Chwefror

Y Gwladgarwr

1859. 9 Ebrill

Y Punch Cymraeg

1858. 23 Ionawr
1858. 20 Chwefror
1858. 6 Mawrth